# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 27/01/2015

Cynnwys Contents

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru)
3. Statement: Introduction of the Local Government (Wales) Bill

4. Datganiad: Gwella Argaeledd Rhandiroedd a Gerddi Cymunedol
4. Statement: Improving the Availability of Allotments and Community Gardens

5. Datganiad: Adnewyddu'r Agenda Cynhwysiant Ariannol
5. Statement: Refreshing the Financial Inclusion Agenda

6. Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Addysg Uwch (Cymru)
6. Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Higher Education (Wales) Bill

7. Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2013-14
7. Debate: The Older People's Commissioner for Wales's Annual Report 2013-14

8. Dadl: Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2014
8. Debate: The Welsh Ministers' Report on Equality 2014

9. Cyfnod Pleidleisio
9. Voting Time

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the First Minister.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma.

### Blaenoriaethau Strategol

### Strategic Priorities

13:30

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau strategol ar gyfer chwaraeon yn 2015? OAQ(4)2069(FM)*

*1. Will the First Minister outline his strategic priorities for sport in 2015? OAQ(4)2069(FM)*

13:30

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Our priorities for sport are set out in the programme for government.

Gwnaf. Nodir ein blaenoriaethau ar gyfer chwaraeon yn y rhaglen lywodraethu.

13:30 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the short answer, Minister. A recent report predicted that Cardiff could see its economy boosted by some £316 million, as a result of hosting Rugby World Cup games this autumn. Will the First Minister advise the Assembly what action he and his Government have taken, and will take, to ensure we maximise the benefits of holding the Rugby World Cup in Cardiff?

Diolch am yr ateb byr, Weinidog. Rhagwelwyd mewn adroddiad diweddar y gallai economi Caerdydd gael hwb o tua £316 miliwn o ganlyniad i gynnal gemau Cwpan Rygbi'r Byd yr hydref hwn. A wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrth y Cynulliad pa gamau mae ef a'i Lywodraeth wedi eu cymryd, ac y byddant yn eu cymryd, i sicrhau ein bod yn cael y cymaint o fanteision â phosibl o gynnal Cwpan Rygbi'r Byd yng Nghaerdydd?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

All that work is well in hand, of course. We know full well that the stadium, as it brings thousands of people into Cardiff, and the surrounding area, helps in terms of accommodation and hotels, and helps in terms of the hostelries in the area, and restaurants, of course. We are fortunate, indeed, that the Millennium Stadium is the biggest among several stadiums, of course, that add so much to the economy of Cardiff.

Mae'r holl waith hwnnw wedi hen ddechrau, wrth gwrs. Rydym ni'n gwybod yn iawn fod y stadiwm, gan ei fod yn dod â miloedd o bobl i mewn i Gaerdydd, a'r cyffiniau, yn helpu o ran llety a gwestai, ac yn helpu o ran y tafarndai yn yr ardal, a bwytai, wrth gwrs. Rydym ni'n ffodus, yn wir, mai Stadiwm y Mileniwm yw'r mwyaf ymhlith nifer o stadia, wrth gwrs, sy'n ychwanegu cymaint at economi Caerdydd.

13:31 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, our Welsh Government's sport strategy, 'Climbing Higher', goes back quite a number of years now. With recent developments such as Tanni Grey's report, and its importance for physical education in schools, and the closer links between the health agenda and the sport and physical activity agenda, I wondered now whether it's time for a new Welsh Government sport's strategy, which would closely involve all Government departments.

Brif Weinidog, mae strategaeth chwaraeon ein Llywodraeth Cymru, 'Dringo'n Uwch', yn mynd yn ôl gryn nifer o flynyddoedd bellach. Yn dilyn datblygiadau diweddar fel adroddiad Tanni Grey, a'i bwysigrwydd i addysg gorfforol mewn ysgolion, a'r cysylltiadau agosach rhwng yr agenda iechyd a'r agenda chwaraeon a gweithgarwch corfforol, roeddwn i'n meddwl tybed a yw'n bryd bellach i ni gael strategaeth chwaraeon Llywodraeth Cymru newydd, a fyddai'n cynnwys holl adrannau'r Llywodraeth yn agos.

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, 'Climbing Higher' was launched in 2005, and it set out the Government's strategic direction for sport and physical activity over a 20-year period. In 2010, the 'Creating an Active Wales' action plan introduced specific targets, which were based on the progress that had been made. What I wouldn't want to do is to duplicate what is being done at the moment. But, that said, the physical activity executive group was established in 2013, to examine new opportunities and to refresh our approach to increasing levels of physical activity in Wales. In December of last year, Cabinet agreed an action plan, drawn up by the group, and work is now under way on planning the next steps.

Wel, lansiwyd 'Dringo'n Uwch' yn 2005, ac roedd yn nodi cyfeiriad strategol y Llywodraeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol dros gyfnod o 20 mlynedd. Yn 2010, cyflwynodd cynllun gweithredu 'Creu Cymru Egnïol' dargedau penodol, a oedd yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed. Yr hyn na fyddwn i eisiau ei wneud yw ailadrodd yr hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Ond, wedi dweud hynny, sefydlwyd y grŵp gweithredol gweithgarwch corfforol yn 2013, i archwilio cyfleoedd newydd ac i adnewyddu ein dull o gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr y llynedd, cytunodd y Cabinet ar gynllun gweithredu, a luniwyd gan y grŵp, ac mae gwaith bellach ar y gweill ar gynllunio'r camau nesaf.

13:32 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you may or may not be aware that, in the Afan valley, it seems to be that the local community have been forced into a position whereby the pool will close if a social partnership is not set up by January 2016. I'm sure you would agree with me that we need a strategic outlook, in terms of where we take swimming for the future, because if pools like this are closed in deprived communities, people's health will, inevitably, deteriorate, and they will not be able to access facilities as easily as they can do at the moment. What will your Government do to support this particular partnership?

Brif Weinidog, efallai eich bod yn ymwybodol, neu efallai nad ydych, yn nyffryn Afan, ei bod yn ymddangos y gorfodwyd y gymuned leol i sefyllfa sy'n golygu y bydd y pwll nofio yn cau os na sefydlir partneriaeth gymdeithasol erbyn mis Ionawr 2016. Rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno â mi bod angen safbwynt strategol arnom, o ran pa gyfeiriad yr ydym ni'n mynd â nofio ar gyfer y dyfodol, oherwydd os bydd pyllau fel hyn yn cael eu cau mewn cymunedau difreintiedig, mae'n anochel y bydd iechyd pobl yn dirywio, ac na fyddant yn gallu cael mynediad at gyfleusterau cyn hawsed ag y maent ar hyn o bryd. Beth fydd eich Llywodraeth yn ei wneud i gefnogi'r bartneriaeth benodol hon?

13:33

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, I mean, this is a matter, ultimately, for Neath Port Talbot County Borough Council. But, where we can help social partnerships to come together to run a facility such as a swimming pool, then, of course, if such a partnership were to come forward, we would do what we can in order to help them. I'm aware of examples elsewhere in Wales where that has worked, but much of it depends, of course, on the condition of a building when it is first purchased, the amount of capital that might be needed to refurbish it, and, of course, the people coming forward to run such a partnership. But, I know this is an issue that is important in the Afan valley; I'd encourage people to examine the possibilities of forming a social partnership, and we will do what we can to help.

Wel, hynny yw, mae hwn yn fater, yn y pen draw, i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Ond, lle gallwn helpu partneriaethau cymdeithasol i ddod at ei gilydd i redeg cyfleuster fel pwll nofio, yna, wrth gwrs, pe byddai partneriaeth o'r fath yn cael ei chynnig, byddem yn gwneud yr hyn a allem i'w helpu nhw. Rwy'n ymwybodol o enghreifftiau mewn mannau eraill yng Nghymru lle mae hynny wedi gweithio, ond mae llawer ohono'n dibynnu, wrth gwrs, ar gyflwr adeilad pan fydd yn cael ei brynu yn y lle cyntaf, faint o gyfalaf y gallai fod ei angen i'w ailwampio, ac, wrth gwrs, y bobl sy'n dod ymlaen i redeg partneriaeth o'r fath. Ond, rwy'n gwybod bod hwn yn fater sy'n bwysig yng nghwm Afan; byddwn yn annog pobl i ystyried y posibiliadau o ffurfio partneriaeth gymdeithasol, a byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i helpu.

## Economi Cymru

## The Welsh Economy

13:33

**Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rhagolygon ar gyfer economi Cymru? OAQ(4)2073(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on projections for the Welsh economy? OAQ(4)2073(FM)*

13:34

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, over the short term, Welsh economic indicators generally track those of the UK quite closely. UK prospects, as we've seen today, remain highly uncertain. But, we know that our policies have a major impact over the longer term, such as Jobs Growth Wales.

Wel, yn y tymor byr, mae dangosyddion economaidd yng Nghymru yn olrhain rhai'r DU yn eithaf agos yn gyffredinol. Mae rhagolygon y DU, fel rydym ni wedi gweld heddiw, yn parhau i fod yn ansicr iawn. Ond, rydym ni'n gwybod bod ein polisïau'n cael effaith fawr dros y tymor hwy, fel Twf Swyddi Cymru.

13:34

**Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, First Minister. Do you share my beliefs that electrification of both the main line and Valleys lines presents us with a once-in-a-generation chance to invigorate the economy and increase social mobility across south Wales? And, on that basis, would you outline what work you are undertaking to capitalise on this investment, and what specific outline projects you are perhaps commissioning, to ensure we squeeze all the added value out of this investment, to provide more employment and a long-term solution to the deprivation and poverty that exists along south Wales?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. A ydych chi'n rhannu fy marn i bod trydaneiddio'r brif reilffordd a rheilffyrdd y Cymoedd yn cynnig cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ni roi hwb i'r economi a chynyddu symudedd cymdeithasol ar draws y de? Ac, ar y sail honno, a wnewch chi amlinellu pa waith yr ydych chi'n ei wneud i fanteisio ar y buddsoddiad hwn, a pha brosiectau amlinellol penodol yr ydych chi efallai'n eu comisiynu, er mwyn sicrhau ein bod yn gwasgu'r holl werth ychwanegol allan o'r buddsoddiad hwn, i ddarparu mwy o gyflogaeth ac ateb hirdymor i'r amddifadedd a'r tlodi sy'n bodoli ledled y de?

13:34

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, two points. First of all, of course, I'm glad that an agreement was reached with the UK Government, despite the fact that no support came from the party opposite, but we got there in the end. And, secondly of course, he is right to say that as far as the main line is concerned, and Valley lines in terms of electrification, they do offer the opportunity to connect communities more effectively and more quickly than before, and of course, to make sure that there is no threat to mainline services, particularly in the long term. I am very glad, of course, that the UK Government listened carefully to our arguments.

Wel, dau bwynt. Yn gyntaf oll, wrth gwrs, rwy'n falch y daethpwyd i gytundeb gyda Llywodraeth y DU, er gwaethaf y ffaith na chafwyd unrhyw gefnogaeth gan y blaid gyferbyn, ond cawsom gytundeb yn y pen draw. Ac, yn ail, wrth gwrs, mae'n iawn i ddweud o ran y brif reilffordd, a rheilffyrdd y Cymoedd o ran trydaneiddio, eu bod yn cynnig y cyfle i gysylltu cymunedau'n fwy effeithiol ac yn gyflymach nag o'r blaen, ac wrth gwrs, i wneud yn siŵr nad oes unrhyw fygythiad i wasanaethau'r brif reilffordd, yn enwedig yn yr hirdymor. Rwy'n falch iawn, wrth gwrs, bod Llywodraeth y DU wedi gwrando'n ofalus ar ein dadleuon.

13:35 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yr wythnos diwethaf yn cadarnhau beth welsom ni ym mis Rhagfyr, sef bod newid cyfeiriad wedi bod o ran y farchnad swyddi yng Nghymru. Roedd diweithdra wedi cyrraedd yr un cyfartaledd â'r Deyrnas Gyfunol yn eithaf diweddar; rŵan mae Cymru ar 7% o'i gymharu â 5.8% i'r Deyrnas Gyfunol, a 43,000 o swyddi wedi cael eu colli yng Nghymru dros 2014. A yw'r Prif Weinidog yn cymryd cyfrifoldeb am fethiannau ei Lywodraeth, o ran yr hyn rydym yn ei weld efo cyflogaeth, a beth yw'r allwedd gan y Prif Weinidog i sicrhau bod y dirywiad yma yn cael ei atal?

The Office for National Statistics figures published last week confirm what we saw in December, namely that there has been a change of direction in terms of the jobs market in Wales. Unemployment had reached the UK average quite recently; now, Wales is at 7% as compared to 5.8% for the UK, and 43,000 jobs have been lost in Wales over 2014. Does the First Minister take responsibility for the failings of his Government in terms of what we see in employment, and what can the First Minister do to reverse this decline?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, os cofiaf i, ei blaid e oedd yn gyfrifol am yr economi am bedair blynedd ac mae pethau wedi symud yn y cyfeiriad iawn ers hynny, yn enwedig gyda 'Jobs Growth Wales', ac yn enwedig gyda'r ffaith bod diweithdra wedi cwympo. Mae'n wir i ddweud, dros y flwyddyn diwethaf, bod y 'trend' wedi bod yn mynd yn y cyfeiriad iawn. Mae 'blip' wedi bod y tro hwn, ynglŷn â'r chwarter hwn, ac mae'r un peth wedi digwydd yn yr Alban hefyd. Beth rydym ni yn ei wneud, wrth gwrs, yw sicrhau bod mwy o fuddsoddiad yn dod mewn; mae Pinewood yn un enghraifft o hynny, CGI yn enghraifft arall, a'r ffaith ein bod ni yn gefnogol o brojectau fel Surf Snowdonia, sy'n hollbwysig i ddyffryn Conwy. Mae hynny'n dangos yr effaith rydym yn gallu ei gael fel Llywodraeth er mwyn sicrhau bod diweithdra yn dod lawr yn yr hirdymor.

Well, if I remember rightly, it was his party that was responsible for the economy for four years and things have moved in the right direction since then, particularly with Jobs Growth Wales and the fact that unemployment has fallen. It's true to say that, over the past year, the trend has been in the right direction. There has been a blip in the last quarter, and the same thing has happened in Scotland, too. What we are doing is ensuring that more investment is coming in; Pinewood is one example of that, CGI is another example, and the fact that we are supportive of projects such as Surf Snowdonia, which is vital for the Conwy valley. That shows the impact that we can have as a Government in order to ensure that unemployment drops in the long term.

13:36 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In July last year, when Welsh unemployment rates did fall faster than the rest of the UK, you were happy to take the credit for that. You said that

Ym mis Gorffennaf y llynedd, pan ostyngodd cyfraddau diweithdra Cymru yn gyflymach na gweddill y DU, roeddech chi'n hapus i gymryd y clod am hynny. Dywedasoch

'with youth unemployment falling faster in Wales than any other part of the UK, it is clear that JGW is having a major impact in creating opportunities'.

gan fod diweithdra ymhlith pobl ifanc yn gostwng yn gyflymach yng Nghymru nag unrhyw ran arall o'r DU, mae'n amlwg bod Twf Swyddi Cymru'n yn cael effaith fawr o ran creu cyfleoedd.

But whilst unemployment rates are still falling of course in Wales, in the rest of the UK, they are falling faster consistently over a period of time. The Organisation for Economic Co-operation and Development recommendation to make sure that youth unemployment is tackled is to invest in skills over job creation schemes. When will you start to see investment going in to those kinds of programmes instead?

Ond er bod cyfraddau diweithdra yn dal i ostwng yng Nghymru, wrth gwrs, maen nhw'n gostwng yn gyflymach yn gyson dros gyfnod o amser yng ngweddill y DU. Argymhelliad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i wneud yn siŵr y rhoddir sylw i ddiweithdra ymhlith pobl ifanc yw buddsoddi mewn sgiliau yn hytrach na chynlluniau creu swyddi. Pryd y byddwch chi'n dechrau gweld buddsoddiad yn cael ei wneud yn y mathau hynny o raglenni yn hytrach?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, what is Jobs Growth Wales other than a scheme that provides young people with skills in order to get employment? Of course, it's a scheme that was put in place partially because the Future Jobs fund was abolished by her party. We wanted to make sure that we supported young people to get skills, supported our young people to get jobs in the longer term, and to make up for the gap that was left as a result of the policies of her party, I have to say.

Wel, beth yw Twf Swyddi Cymru os nad cynllun sy'n dysgu sgiliau i bobl ifanc er mwyn cael cyflogaeth? Wrth gwrs, mae'n gynllun a sefydlwyd yn rhannol oherwydd i gronfa Swyddi'r Dyfodol gael ei dileu gan ei phlaid hi. Roeddem ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn cefnogi pobl ifanc i ddysgu sgiliau, yn cefnogi ein pobl ifanc i gael swyddi yn y tymor hwy, ac yn llenwi'r bwlch a adawyd o ganlyniad i bolisïau ei phlaid hi, mae'n rhaid i mi ddweud.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams sydd gyntaf y prynhawn yma.

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, today sees the publication of two reports highlighting the failure of the Government to deliver consistent improvements. One report from the Wales Audit Office shows how more than one in 10 patients have to wait over six months for non-emergency treatment, and the Auditor General for Wales goes on to say that the current approach to delivering services does not deliver sustainably low waiting times. Now, I'm sure you'd agree with me that patients waiting for that non-emergency treatment are fed up of waiting. When will we see policies being delivered that are going to make sure that people waiting for non-urgent treatment get the help, service and the healthcare that they need and deserve?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, cyhoeddir dau adroddiad heddiw yn tynnu sylw at fethiant y Llywodraeth i gyflawni gwelliannau cyson. Mae un adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dangos sut mae'n rhaid i fwy nag un o bob 10 o gleifion aros dros chwe mis am driniaeth nad yw'n frys, ac mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn mynd yn ei flaen i ddweud nad yw'r dull presennol o ddarparu gwasanaethau yn sicrhau amseroedd aros isel cynaliadwy. Nawr, rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno â mi bod cleifion sy'n aros am y driniaeth nad yw'n frys honno wedi cael llond bol ar aros. Pryd fyddwn ni'n gweld polisïau yn cael eu cyflwyno sy'n mynd i wneud yn siŵr bod pobl sy'n aros am driniaeth nad yw'n frys yn cael y cymorth, y gwasanaeth a'r gofal iechyd y maent eu hangen ac y maent yn ei haeddu?

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have put, of course, extra resources into the health service and are working with the health boards in order to make sure that more and more people—and most people get treatment within 10 weeks—get the treatment in the time that they would want. I must say that I do welcome the leader of the Liberal Democrat's approach in this regard, in the sense that she has put forward the idea of an all-party commission. I think that is something that has merit. Whether it can be done in the political times that we live in, with an election coming this year and next year, is difficult to assess, but I do think the time has come for an all-party commission to look at the health service and to come up with an honest appraisal of where the health service should go in the future. We're happy to play our role in that and I'm sure she is as well.

Rydym ni wedi, wrth gwrs, rhoi adnoddau ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd ac rydym ni'n gweithio gyda'r byrddau iechyd er mwyn gwneud yn siŵr bod mwy a mwy o bobl—ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael triniaeth o fewn 10 wythnos—yn cael y driniaeth yn yr amser y byddent eisiau ei weld. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n croesawu agwedd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn hyn o beth, yn yr ystyr ei bod wedi cyflwyno'r syniad o gomisiwn hollbleidiol. Credaf fod hynny'n rhywbeth sydd â rhinwedd iddo. Pa un a ellir ei wneud yn yr oes wleidyddol sydd ohoni, gydag etholiadau i'w cynnal eleni a'r flwyddyn nesaf, mae'n anodd asesu, ond rwy'n credu bod yr amser wedi dod i ni gael comisiwn hollbleidiol i edrych ar y gwasanaeth iechyd a chyflawni arfarniad gonest o gyfeiriad y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol. Rydym ni'n hapus i chwarae ein rhan yn hynny ac rwy'n siŵr ei bod hithau hefyd.

Senedd.tv Fideo Video

13:39 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, First Minister. Can I move on to the issue of education, since I've been able convince you of the merits of our arguments on health? When Estyn published their annual report last year, you told me then that what was lacking was consistency and that there was no question about that. Well, you weren't wrong, First Minister. At best, today's Estyn annual report paints a mixed bag across Wales again. Last year, standards were failing at our secondary schools. This year, Estyn points to falling standards in our primary schools. Last year, our children were struggling with literacy. This year, Estyn points to struggles with numeracy. Now, the inability of your Government to deliver real change is in danger of condemning a generation of young Welsh people to emerge into the workplace underskilled and underprepared for the needs of employers. When will the countless speeches, initiatives and programmes that you announce as a Government actually see real, consistent delivery in our education system?

Diolch yn fawr iawn, Brif Weinidog. A gaf i symud ymlaen at addysg, gan fy mod i wedi llwyddo i'ch argyhoeddi chi o rinweddau ein dadleuon o ran iechyd? Pan gyhoeddodd Estyn ei adroddiad blynyddol y llynedd, fe'm hysbyswyd gennych ar y pryd bod diffyg cysondeb ac nad oedd unrhyw amheuaeth am hynny. Wel, nid oeddech chi'n anghywir, Brif Weinidog. O'r ochr orau, mae adroddiad blynyddol Estyn heddiw yn cynnig darlun cymysg ledled Cymru unwaith eto. Y llynedd, roedd safonau'n methu yn ein hysgolion uwchradd. Eleni, mae Estyn yn tynnu sylw at safonau'n gostwng yn ein hysgolion cynradd. Y llynedd, roedd ein plant yn cael trafferth gyda llythrennedd. Eleni, mae Estyn yn tynnu sylw at drafferthion gyda rhifedd. Nawr, mae anallu eich Llywodraeth i gyflawni newid gwirioneddol mewn perygl o gondemnio cenhedlaeth o bobl ifanc yng Nghymru i gyrraedd y gweithle heb y sgiliau a heb eu paratoi ar gyfer anghenion cyflogwyr. Pryd bydd yr areithiau, y mentrau a'r rhaglenni di-ri yr ydych chi'n eu cyhoeddi fel Llywodraeth wir yn arwain at ddarpariaeth gwirioneddol a chyson yn ein system addysg?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We're seeing it. We're seeing the improvements in secondary schools; we're seeing the improvements in GCSE results, which we hope this year will be at least on a par with England after having been behind for some years; we see Schools Challenge Cymru, the money that's going into secondary schools there; and we see the pupil deprivation grant, which her party, of course, suggested. There is work still to be done in primary schools. We see that literacy has improved; we see that there's still work to do with numeracy, but things are certainly moving in the right direction. If you look at the Estyn report, it's absolutely clear to me that education is improving in Wales. There will still be some areas where there needs to be greater improvement, and that is what we will focus on.

Rydym ni yn gweld hynny. Rydym ni'n gweld y gwelliannau mewn ysgolion uwchradd; rydym ni'n gweld y gwelliannau i ganlyniadau TGAU, yr ydym yn gobeithio y byddant o leiaf yn gyfartal â Lloegr eleni, ar ôl bod ar ei hôl hi ers rhai blynyddoedd; rydym ni'n gweld Her Ysgolion Cymru, yr arian sy'n mynd i mewn i ysgolion uwchradd yn hynny o beth; ac rydym ni'n gweld y grant amddifadedd disgyblion, a awgrymwyd, wrth gwrs, gan ei phlaid hi. Mae gwaith i'w wneud mewn ysgolion cynradd o hyd. Rydym ni'n gweld bod llythrennedd wedi gwella; rydym ni'n gweld bod gwaith i'w wneud gyda rhifedd o hyd, ond mae pethau'n sicr yn symud i'r cyfeiriad cywir. Os edrychwch chi ar adroddiad Estyn, mae'n gwbl eglur i mi bod addysg yn gwella yng Nghymru. Bydd angen mwy o welliant yn dal i fod mewn rhai meysydd, a dyna beth fyddwn ni'n canolbwyntio arno.

13:40 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the number of primary schools requiring re-inspection and follow-up visits by Estyn is increasing. The one piece of really good news in Estyn's report today is that the gap between those children on free school meals and those who are not is closing, and that's happened as a result of Liberal Democrat policy. First Minister, I appreciate that things can't be changed overnight in our education system and in our health service. I understand that, but you've had 15 years as a Labour Government to change things and you personally have had five years as First Minister to see real results and change. Do you not recognise that the vast majority of Welsh people can't opt out? They can't afford private schools and they can't afford private insurance for their healthcare. When will you provide the consistently improving public services that I think the Welsh people deserve?

Brif Weinidog, mae nifer yr ysgolion cynradd sydd angen ailarolygiadau ac ymweliadau dilynol gan Estyn yn cynyddu. Yr un darn o newyddion da iawn yn adroddiad Estyn heddiw yw bod y bwlch rhwng y plant hynny sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt, yn cau, ac mae hynny wedi digwydd o ganlyniad i bolisi'r Democratiaid Rhyddfrydol. Brif Weinidog, rwy'n gwerthfawrogi na all pethau gael eu newid dros nos yn ein system addysg a'n gwasanaeth iechyd. Rwy'n deall hynny, ond rydych chi wedi cael 15 mlynedd fel Llywodraeth Lafur i newid pethau ac rydych chi'n bersonol wedi cael pum mlynedd fel Prif Weinidog i weld canlyniadau a newid gwirioneddol. Onid ydych chi'n cydnabod na all y mwyafrif llethol o bobl Cymru optio allan? Ni allant fforddio ysgolion preifat ac ni allant fforddio yswiriant preifat ar gyfer eu gofal iechyd. Pryd wnewch chi ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwella'n gyson yr wyf yn credu bod pobl Cymru yn eu haeddu?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think what our young people deserve is not seeing the level of tuition fees that her party has imposed in England. One of the major promises that her party put forward—not her personally, or the Welsh Liberal Democrats, but in the general election—was broken almost immediately. We have kept faith with Welsh youngsters. We've kept the education maintenance allowance. Her party voted to abolish it in England. We have made sure that our schools have improved. It's not right to say that, somehow, there's only one thing that's improved in Welsh education and that's as a result of a Lib Dem policy—clearly not. We see what our secondary schools are doing. We are not complacent and we know there's still work to be done in some aspects of primary school work, but the one thing we will not move away from is our commitment to increase spending on schools. We've done that year after year after year. Also, we will make sure that students who come from less well-off backgrounds are not penalised by the tuition fee hikes England has had, nor by the education maintenance allowance's abolition, which the Liberal Democrats supported there.

Rwy'n credu mai'r hyn y mae ein pobl ifanc yn haeddu yw peidio â gweld lefel y ffioedd dysgu y mae ei phlaid hi wedi eu gorfodi yn Lloegr. Torrwyd un o'r prif addewidion a wnaed gan ei phlaid—nid hi'n bersonol, na Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ond yn yr etholiad cyffredinol—bron yn syth. Rydym ni wedi cadw'n gair i bobl ifanc Cymru. Rydym ni wedi cadw'r lwfans cynhaliaeth addysg. Pleidleisiodd ei phlaid hi i'w ddiddymu yn Lloegr. Rydym ni wedi gwneud yn siŵr bod ein hysgolion wedi gwella. Nid yw'n iawn i ddweud, rywsut, mai dim ond un peth sydd wedi gwella mewn addysg yng Nghymru a bod hynny o ganlyniad i bolisi'r Democratiaid Rhyddfrydol bolisi—yn amlwg nid yw hynny'n iawn. Rydym ni'n gweld yr hyn y mae ein hysgolion uwchradd yn ei wneud. Nid ydym yn hunanfodlon ac rydym ni'n gwybod bod gwaith i'w wneud o hyd ar rai agweddau ar waith ysgolion cynradd, ond yr un peth na fyddwn yn symud oddi wrtho yw ein hymrwymiad i gynyddu gwariant ar ysgolion. Rydym ni wedi gwneud hynny flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn. Hefyd, byddwn yn sicrhau nad yw myfyrwyr sy'n dod o gefndiroedd llai llewyrchus yn cael eu cosbi gan y cynnydd i ffioedd dysgu a welwyd yn Lloegr, nac oherwydd diddymu'r lwfans cynhaliaeth addysg, a gefnogwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yno.

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, this morning, a written statement was issued by the Minister for local government ruling out the three voluntary mergers that have been put before the Welsh Government for its consideration. One of those three was a clear footprint of what Williams had identified in all its modelling of what would be a successful reorganisation of local government. Can you explain what the current thinking of the Welsh Government is about the future shape of local government here in Wales, in light of this rejection of the voluntary mergers?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog llywodraeth leol y bore yma i ddiystyru'r tri achos o uno gwirfoddol a roddwyd gerbron Llywodraeth Cymru i'w hystyried. Roedd un o'r tri achos hwnnw yn ôl troed eglur o'r hyn yr oedd Williams wedi ei nodi yn ei holl fodelu o'r hyn a fyddai'n ad-drefnu llwyddiannus o lywodraeth leol. A allwch chi esbonio beth yw syniadau Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd o ran ffurf llywodraeth leol yma yng Nghymru yn y dyfodol, yng ngoleuni'r gwrthod hwn o'r uno gwirfoddol?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Williams is still the preferred map, but not the definitive map. I will be asking the party leaders, over the course of the next few weeks, to meet with me in order that I can have a better assessment of what they think the map should look like, because no party in this Chamber has said that it wants things to stay as they are. I'd love to know where his party stands, I'd love to know where Plaid Cymru stands—they had a consultation; I don't know what happened to it—and the Liberal Democrats. Let's have discussions with an open hand to make sure that, of course, we get a map that is agreed. We have an idea of what the map should look like, what we need to do is to understand what the view of other parties is. Tell us, please, what your view is and what the map should look like. [Interruption.]

Williams yw'r map a ffefrir o hyd, ond nid y map terfynol. Byddaf yn gofyn i arweinwyr y pleidiau, yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, i gyfarfod â mi er mwyn i mi allu cael gwell asesiad o sut maen nhw'n credu y dylai'r map edrych, gan nad oes unrhyw blaid yn y Siambr hon wedi dweud ei bod eisiau i bethau aros fel ag y maent. Byddwn wrth fy modd cael gwybod ble mae ei blaid ef yn sefyll, byddwn wrth fy modd cael gwybod ble mae Plaid Cymru'n sefyll—cawsant ymgynghoriad; wn i ddim beth ddigwyddodd iddo—a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Gadewch i ni gael trafodaethau gyda llaw agored i wneud yn siŵr, wrth gwrs, ein bod ni'n cael map y cytunwyd arno. Mae gennym syniad o sut y dylai'r map edrych, yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw deall beth yw barn y pleidiau eraill. Dywedwch wrthym, os gwelwch yn dda, beth yw eich barn a sut y dylai'r map edrych. [Torri ar draws.]

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

13:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I think we clearly know what the Welsh Government's view is on local government reorganisation: it's just a big black hole. You don't have a clue where you want to go, do you? In light of this statement this morning, it is quite clear that the relationship between you and local government has broken down—that's unquestionable. What we are talking about here are people who depend on services—some of the most vulnerable people who depend on services—that local authorities deliver, and many thousands of individuals who depend on local authorities for their jobs, but all we are getting are rants in the press and speeches from the local government Minister, but with no coherent map forward over the shape of future government. So, I ask again: is it the thinking of Welsh Government that Williams is the model that you are working to, or is it the model that has been talked about by some senior Labour figures of six large local authorities?

Brif Weinidog, rwy'n meddwl ein bod yn gwybod yn iawn beth yw barn Llywodraeth Cymru ar ad-drefnu llywodraeth leol: dim ond twll du mawr yw e. Nid oes gennych chi syniad o beth yr ydych chi eisiau ei wneud, nac oes? Yng ngoleuni'r datganiad hwn y bore yma, mae'n gwbl eglur bod y berthynas rhyngoch chi a llywodraeth leol wedi chwalu—nid oes amheuaeth am hynny. Yr hyn yr ydym ni'n sôn amdano yma yw'r bobl sy'n dibynnu ar wasanaethau—rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed sy'n dibynnu ar wasanaethau—y mae awdurdodau lleol yn eu darparu, a'r miloedd lawer o unigolion sy'n dibynnu ar awdurdodau lleol am eu swyddi, ond y cwbl yr ydym ni'n ei gael yw bytheirio yn y wasg ac areithiau gan y Gweinidog llywodraeth leol, ond heb unrhyw fap cydlynol yn dangos siâp llywodraeth yn y dyfodol. Felly, gofynnaf eto: ai barn Llywodraeth Cymru yw mai Williams yw'r model yr ydych chi'n gweithio'n unol ag ef, neu'r model y soniwyd amdano gan rai uwch ffigyrau Llafur mewn chwe awdurdod lleol mawr?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Williams is the preferred option, but I look forward to meeting with the leader of the opposition to hear what his view is on the map, because I have absolutely no idea and nor do the people of Wales. I would prefer to move forward on a basis where there is a map that is agreed by more than one party. I think that is the right way to move this forward. So, let's do that. There is no point shouting about it from the Paid benches because Plaid was supposed to have a consultation on this and it got buried. I look forward to having a discussion with the party leaders to see what their position is.

Williams yw'r dewis a ffefrir, ond edrychaf ymlaen at gwrdd ag arweinydd yr wrthblaid i glywed beth yw ei farn ef ar y map, gan nad oes gen i unrhyw syniad o gwbl ac nad oes gan bobl Cymru ychwaith. Byddai'n well gen i symud ymlaen ar sail lle ceir map y cytunwyd arno gan fwy nag un blaid. Rwy'n credu mai dyna'r ffordd iawn o symud ymlaen â hyn. Felly, gadewch i ni wneud hynny. Nid oes unrhyw bwynt gweiddi am y peth o feinciau Plaid Cymru gan fod Plaid Cymru i fod i gael ymgynghoriad ar hyn a chafodd ei gladdu. Edrychaf ymlaen at gael trafodaeth gydag arweinwyr y pleidiau i weld beth yw eu safbwyntiau.

13:45 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have asked you two questions now, First Minister, to try to gain some clearer understanding. Anyone connected with local government, or anyone dependent on local government, really is going to be at a loss with your performance this afternoon and, in particular, with the actions of your local government Minister who has form on this, admittedly, in education, where he marched people up to the top of the hill and then let them run back down again. What people want is a coherent plan. You've had the time to digest Williams and you've come forward with nothing. When are you going to set a timeline on the Welsh Government proactively engaging to develop a coherent plan for local government? Our plan is quite clear: local people—. You know what it is, First Minister; I have met with you and talked to you. But what is important here is to make sure that the map of local government bears a relation to the areas it serves and ultimately is capable of delivering the services that are required. We want to see health and social care as one. We want to see greater funding going directly to education. So, therefore, are you signed up to the model of local government that would develop a truly borough-type council of local government that we used to historically have, with the major services delivered by health and social care as one and education funded directly from the Welsh Government?

Rwyf wedi gofyn dau gwestiwn i chi yn awr, Brif Weinidog, i geisio cael rhywfaint o ddealltwriaeth gliriach. Ni fydd unrhyw un sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol, nac unrhyw un sy'n dibynnu ar lywodraeth leol, yn deall eich perfformiad o gwbl y prynhawn yma ac, yn benodol, gweithredoedd eich Gweinidog llywodraeth leol sydd â hanes o hyn, rhaid cyfaddef, ym maes addysg, lle bu'n gorymdeithio pobl i ben y bryn ac yna gadael iddyn nhw redeg yn ôl i lawr eto. Yr hyn y mae pobl ei eisiau yw cynllun cydlynol. Rydych chi wedi cael amser i ystyried Williams ac nid ydych chi wedi cynnig unrhyw beth. Pryd ydych chi'n mynd i drefnu amserlen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n rhagweithiol i ddatblygu cynllun cydlynol ar gyfer llywodraeth leol? Mae ein cynllun yn gwbl eglur: pobl leol—. Rydych chi'n gwybod beth yw e, Brif Weinidog; rwyf wedi cyfarfod â chi a siarad â chi. Ond yr hyn sy'n bwysig yma yw gwneud yn siŵr bod y map o lywodraeth leol yn berthnasol i'r ardaloedd y mae'n eu gwasanaethu ac yn gallu darparu'r gwasanaethau gofynnol yn y pen draw. Rydym ni eisiau gweld iechyd a gofal cymdeithasol yn un. Rydym ni eisiau gweld mwy o arian yn mynd yn uniongyrchol i addysg. Felly, a ydych chi wedi ymrwymo i'r model llywodraeth leol a fyddai'n datblygu cyngor o fath bwrdeistref gwirioneddol o lywodraeth leol yr oedd gennym ni'n hanesyddol, gyda'r prif wasanaethau'n cael eu darparu gan iechyd a gofal cymdeithasol fel un ac addysg wedi'i ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru?

13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have to say, in the discussions that I've had with him the only thing he said to me about what he wants local government to look like is that Monmouthshire and the Vale of Glamorgan should be standalone authorities. That is all I've heard from him. Now, he invited me to express his view. That is his view. He doesn't care about anything else as long as Monmouthshire and the Vale are fine. I wonder why that is. Let's move away from this parochialism and this party political advantage that he is trying to promote. We have said that Williams is our preferred map. I would prefer to talk to opposition party leaders to come to an agreed map by the summer. If we don't get agreement, we will publish our own map by the summer. But, the invitation is there. Let's move away from the parochialism of the Tories. [Interruption.] I take no lectures from a party that—[Inaudible.]—by 12%. I take no lectures from a party that wants to cut education spending by 20%. [Inaudible.] They are very, very happy to talk about record-breaking health cuts. [Interruption.] They say they want record-breaking cuts in education, record-breaking cuts in local government, record-breaking cuts in farming spending and record-breaking cuts in job creation. When it comes to breaking records, the leader of the opposition is the Roy Castle of those benches. [Laughter.]

Mae'n rhaid i mi ddweud, yn y trafodaethau yr wyf i wedi eu cael gydag ef, yr unig beth a ddywedodd wrthyf am sut y mae eisiau i lywodraeth leol edrych yw y dylai Sir Fynwy a Bro Morgannwg fod yn awdurdodau annibynnol. Dyna'r cwbl yr wyf wedi ei glywed ganddo. Nawr, fe'm gwahoddodd i i fynegi ei farn. Dyna ei farn. Nid yw'n poeni am unrhyw beth arall cyn belled ag y bo Sir Fynwy a'r Fro'n iawn. Tybed pam mae hynny. Gadewch i ni symud oddi wrth y plwyfoldeb hwn a'r fantais bleidiol y mae'n ceisio ei hyrwyddo. Rydym ni wedi dweud mai Williams yw'r map a ffefrir gennym. Byddai'n well gennyf i siarad ag arweinwyr y gwrthbleidiau i gytuno ar fap erbyn yr haf. Os na chawn ni gytundeb, byddwn yn cyhoeddi ein map ein hunain erbyn yr haf. Ond, mae'r gwahoddiad yno. Gadewch i ni symud oddi wrth blwyfoldeb y Torïaid. [Torri ar draws.] Nid wyf yn derbyn unrhyw bregethau gan blaid sydd—[Anghlywadwy.]—o 12%. Nid wyf yn derbyn unrhyw bregethau gan blaid sydd eisiau torri gwariant ar addysg o 20%. [Anghlywadwy.] Maen nhw'n hapus iawn iawn i siarad am y toriadau iechyd mwyaf erioed. [Torri ar draws.] Maen nhw'n dweud eu bod eisiau'r toriadau mwyaf erioed ym maes addysg, y toriadau mwyaf erioed i lywodraeth leol, y toriadau mwyaf erioed i wariant ffermio a'r toriadau mwyaf erioed o ran creu swyddi. O ran y mater o dorri record, arweinydd yr wrthblaid yw Roy Castle y meinciau yna. [Chwerthin.]

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Did you all enjoy that? Good. So, no more please this afternoon.

A wnaethoch chi i gyd fwynhau hynna? Da iawn. Felly, dim mwy y prynhawn yma os gwelwch yn dda.

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:48 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. First Minister, yesterday the Environmental Audit Committee at Westminster published a significant report and they made a key recommendation. I quote:

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol yn San Steffan adroddiad pwysig ddoe a gwnaeth argymhelliad allweddol. Dyfynnaf:

'A moratorium on the extraction of unconventional gas through fracking is needed to avoid both the inconsistency with our climate change obligations and to allow the uncertainty surrounding environmental risks to be fully resolved.'

Mae angen moratoriwm ar echdynnu nwy anghonfensiynol trwy ffracio i osgoi'r anghysondeb â'n rhwymedigaethau newid yn yr hinsawdd ac i ganiatáu i'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â risgiau amgylcheddol i gael eu datrys yn llwyr.

Plaid Cymru supports a moratorium on fracking, First Minister, for the same reasons. Does the Welsh Government agree?

Mae Plaid Cymru yn cefnogi moratoriwm ar ffracio, Brif Weinidog, am yr un rhesymau. A yw Llywodraeth Cymru'n cytuno?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, you can't support a moratorium on fracking unless you agree that licences should be devolved. I take it that licences should be devolved and then we should consider an effective moratorium on fracking.

Wel, ni allwch chi gefnogi moratoriwm ar ffracio oni bai eich bod yn cytuno y dylai trwyddedau gael eu datganoli. Rwy'n cymryd y dylai trwyddedau gael eu datganoli ac yna y dylem ystyried moratoriwm effeithiol ar ffracio.

13:49 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yesterday, First Minister, your party tabled amendments to the Infrastructure Bill in Westminster that would see the devolution of licensing for onshore fracking to the Scottish Parliament. Not only did you exclude Wales from having the same powers, but your party refused to support a Plaid Cymru amendment for the devolution of these powers to Wales. Do you want these powers—the same powers of licensing for onshore fracking, First Minister?

Ddoe, Brif Weinidog, cyflwynodd eich plaid welliannau i'r Bil Seilwaith yn San Steffan a fyddai'n golygu datganoli trwyddedau ar gyfer ffracio ar y tir i Senedd yr Alban. Nid yn unig y gwnaethoch chi atal Cymru rhag cael yr un pwerau, ond gwrthododd eich plaid gefnogi gwelliant Plaid Cymru ar gyfer datganoli'r pwerau hyn i Gymru. A ydych chi eisiau'r pwerau hyn—yr un pwerau trwyddedu ar gyfer ffracio ar y tir, Brif Weinidog?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

13:49 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think many people are going to be confused and frustrated, First Minister, that you say one thing and you do another. You've suggested concern about fracking, but you haven't made any representations to the Westminster Government, have you? You say that you want us to be offered the same powers as Scotland, but you take no action in order to gain such powers. You say that you oppose Tory austerity, but you vote with them to entrench it, and you bemoan Wales's fiscal disadvantage, but refuse to take greater responsibility for it. First Minister, you offer warm words when it comes to concerns raised about fracking, but you don't want the powers to stop them, do you? Otherwise, you would have instructed your MPs to support Plaid Cymru's amendment yesterday. When Plaid Cymru says it, we mean it. When Labour says it, you say one thing and is it not the case that you actually do another?

Wel, rwy'n meddwl bod llawer o bobl yn mynd i fod yn ddryslyd a rhwystredig, Brif Weinidog, eich bod yn dweud un peth ac yn gwneud rhywbeth arall. Rydych chi wedi awgrymu pryder am ffracio, ond nid ydych chi wedi gwneud unrhyw sylwadau i Lywodraeth San Steffan, ydych chi? Rydych chi'n dweud eich bod eisiau i ni gael cynnig yr un pwerau â'r Alban, ond nid ydych chi'n cymryd unrhyw gamau i gael pwerau o'r fath. Rydych chi'n dweud eich bod yn gwrthwynebu cyni cyllidol Torïaidd, ond rydych chi'n pleidleisio gyda nhw i'w ymsefydlu, ac rydych chi'n cwyno am anfantais ariannol Cymru, ond yn gwrthod cymryd mwy o gyfrifoldeb drosto. Brif Weinidog, rydych chi'n cynnig geiriau gwresog pan ddaw i bryderon a godwyd am ffracio, ond nid ydych chi eisiau'r pwerau i'w hatal, ydych chi? Fel arall, byddech chi wedi cyfarwyddo eich ASau i gefnogi gwelliant Plaid Cymru ddoe. Pan fydd Plaid Cymru'n dweud rhywbeth, rydym ni'n ei olygu. Pan fydd Llafur yn dweud rhywbeth, rydych chi'n dweud un peth ac onid yw'n wir eich bod yn gwneud rhywbeth arall mewn gwirionedd?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I do wonder sometimes, I think—. The leader of Plaid Cymru asked me a direct question and I gave her the most direct answer imaginable, and she denies I ever gave her an answer. I mean, the reality is this: the issue of fracking is something that representations have been made on as part of the St David's Day process. We want to see it devolved to Wales. There is no question that somehow Scotland should get something and Wales should not, and it's part of the St David's Day process. You are either part of that process or you are not. The last thing we should do is move to a situation where we try to have powers given to us in an ad hoc fashion. We need Silk part 1, we need Silk part 2, we need delivery of Smith with regard to Wales and discussion about that, and then we will see progress. That is the position of Welsh Labour, and that is the position, I believe, of the people of Wales.

Rwy'n rhyfeddu weithiau, rwy'n meddwl—. Gofynnodd arweinydd Plaid Cymru gwestiwn uniongyrchol i mi a rhoddais yr ateb mwyaf uniongyrchol posibl iddi, ac mae'n gwadu fy mod i wedi rhoi ateb iddi o gwbl. Hynny yw, y gwir amdani yw hyn: mae'r mater o ffracio yn rhywbeth y gwnaed sylwadau arno yn rhan o broses Dydd Gŵyl Dewi. Rydym ni eisiau iddo gael ei ddatganoli i Gymru. Nid oes unrhyw amheuaeth y dylai'r Alban rywsut gael rhywbeth ac na ddylai Cymru, ac mae'n rhan o broses Dydd Gŵyl Dewi. Rydych chi naill ai'n rhan o'r broses honno neu nid ydych. Y peth olaf y dylem ni ei wneud yw symud i sefyllfa lle'r ydym ni'n ceisio derbyn pwerau mewn modd ad hoc. Mae angen Silk rhan 1 arnom ni, mae angen Silk rhan 2 arnom ni, mae angen cyflwyno Smith o ran Cymru a thrafodaeth am hynny, ac yna byddwn yn gweld cynnydd. Dyna safbwynt Llafur Cymru, a dyna safbwynt pobl Cymru, yn fy marn i.

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move back to questions on the paper, having finished leaders' questions. It's now question 3 and it's Elin Jones.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur nawr, gan ein bod wedi dod i ddiwedd cwestiynau'r arweinwyr. Cwestiwn 3 nawr ac Elin Jones.

### Yswiriant Llifogydd i Fusnesau

### Flooding Insurance for Businesses

13:51 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*3. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael parthed yswiriant llifogydd i fusnesau? OAQ(4)2066(FM)*

*3. What discussions has the First Minister had regarding flooding insurance for businesses? OAQ(4)2066(FM)*

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Rhywbeth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yw hwn, wrth gwrs, ond fe wnaethom ni ymateb i'r ymgynghoriad yr haf diwethaf ar weithredu siwrans o dan Flood Re. Fe ddywedom ni wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig fod yna broblemau mawr ynglŷn â'r rheoliadau a oedd ar y gweill bryd hynny, ac rydym ni'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cymryd penderfyniad i newid y rheoliadau ar ôl beth ddywedom ni fel Llywodraeth wrthyn nhw.

This is a matter for the UK Government, of course, but we did respond to the consultation last summer on the implementation of insurance under Flood Re. We told the UK Government that there were major problems in terms of the regulations in the pipeline at that point, and we welcome the fact that the UK Government has taken the decision to amend those regulations following our comments as a Government.

13:52 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Y broblem sy'n parhau, Brif Weinidog, yw bod busnesau yn cael eu heithrio o'r cytundeb yna gyda'r cwmnïau insiwrans. Mae busnesau yn fy etholaeth i sy'n methu cael insiwrans rhag llifogydd ar hyn o bryd. Mae rhai o'r busnesau yna yn rhai cymharol fawr ac yn hir sefydlog. Y peth mae hyn yn ei olygu yw nad yw busnesau'n gallu benthyg a datblygu eu busnesau oherwydd y diffyg insiwrans yma. A wnewch chi, fel Llywodraeth yn gyntaf, weithio gyda rhai o'r busnesau sy'n ffeindio'u hunain yn y sefyllfa anodd yma, ond hefyd godi'r peth unwaith eto gyda Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol bod angen iddyn nhw ddod i gytundeb gyda'r cwmnïau insiwrans ar gynllun sydd yn cynnwys busnesau hefyd, yn hytrach na dim ond tai preswyl?

The continuing problem, First Minister, is that businesses are exempted from those agreements with the insurance companies. Businesses in my constituency can't get flood insurance at the moment, and some are quite large, longstanding businesses. What it means is that they then can't borrow money or develop their businesses because of this lack of insurance. Will you, as a Government, first of all work with some of those businesses that find themselves in this invidious position, but also raise this issue once again with the United Kingdom Government and tell them that they must come to an agreement with the insurance companies on a scheme that also includes businesses, rather than just residential homes?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n ddigon hapus i ofyn i'r Gweinidog i ysgrifennu i helpu busnesau masnachol. Mae'n wir i ddweud, wrth gwrs, nad ydyn nhw'n rhan o Flood Re, ac felly os symudwn ni ymlaen yn y ffordd honno, wrth gwrs, felly fydd yna ateb i'r Aelod.

I'm more than happy to ask the Minister to write to help commercial businesses. It's true to say that they're not included in Flood Re, and so if we proceed in that way, there will be an answer available to the Member.

13:53 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, flooding insurance might well be the responsibility of the UK Government, but roads are yours. You'll be aware, no doubt, that during this winter, as in previous years, flooding has closed the A4042 at Llanellen bridge, just south of Abergavenny in my constituency. The A4042 is a key strategic route and very important to local businesses, and, indeed, regional businesses. Has any assessment been made of the impact of these ongoing closures on local business and the wider regional economy? And, what progress has been made with the implementation of the trunk road review, which I know the Minister referred to in questions I asked her last year?

Brif Weinidog, efallai'n wir mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw yswiriant llifogydd, ond chi'n sy'n gyfrifol am ffyrdd. Byddwch yn ymwybodol, mae'n siŵr, yn ystod y gaeaf hwn, fel mewn blynyddoedd blaenorol, bod llifogydd wedi cau yr A4042 ar bont Llanelen, ychydig i'r de o'r Fenni yn fy etholaeth i. Mae'r A4042 yn llwybr strategol allweddol ac yn bwysig iawn i fusnesau lleol, ac, yn wir, busnesau rhanbarthol. A oes unrhyw asesiad wedi'i wneud o effaith yr achosion parhaus hyn o gau ar fusnes lleol a'r economi ranbarthol ehangach? A, pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran rhoi'r adolygiad cefnffyrdd ar waith, y gwn y cyfeiriodd y Gweinidog ato yn y cwestiynau a ofynnais iddi y llynedd?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, we're not responsible for all roads; we're responsible for trunk roads and motorways. The issue of non-trunk roads is a matter, of course, for local authorities. I confess I don't know whether it's a trunk road. He's nodding at me, and I accept his word, of course, on that. Where there are issues that are identified, then we seek to address those issues as part of our coherent plan. He will know, of course, that the national transport plan deals with the macro issues of transport. Then, of course, it's a matter for the agencies that work on behalf of the Welsh Government to identify problems and deal with them quickly.

Yn gyntaf oll, nid ydym yn gyfrifol am yr holl ffyrdd; rydym ni'n gyfrifol am gefnffyrdd a thraffyrdd. Mae'r mater o ffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd yn fater, wrth gwrs, i awdurdodau lleol. Rwy'n cyfaddef nad wyf yn gwybod a yw'n gefnffordd. Mae'n nodio arnaf i, ac rwy'n derbyn ei air, wrth gwrs, ar hynny. Lle ceir problemau a nodwyd, yna rydym ni'n ceisio mynd i'r afael â'r materion hynny yn rhan o'n cynllun cydlynol. Bydd ef yn gwybod, wrth gwrs, bod y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol yn ymdrin â macro-faterion trafnidiaeth. Yna, wrth gwrs, mae'n fater i'r asiantaethau sy'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru i nodi problemau ac ymdrin â nhw'n gyflym.

13:54 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, residents in affected areas of Wales will welcome anything that the Welsh Government can do to improve engagement over flood insurance. But the wider problem of properties affected is surely going to be alleviated if we can get fewer properties and fewer businesses developed in flood areas. And to that end, First Minister, will you give consideration to working with your Minister for Natural Resources to actually build in a provision within the forthcoming Planning (Wales) Bill to allow statutory undertakers, the water companies—Dŵr Cymru Welsh Water and Severn Trent—to be full statutory consultees in planning applications in the future, so as to avoid a situation where we have properties, homes and businesses developed in areas of risk?

Brif Weinidog, bydd trigolion mewn ardaloedd o Gymru yr effeithiwyd arnynt yn croesawu unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i wella ymgysylltiad ynglŷn ag yswiriant rhag llifogydd. Ond does bosib na fydd y broblem ehangach o adeiladau yr effeithiwyd arnynt yn cael ei lleddfu os gallwn ni gael llai o gartrefi a llai o fusnesau yn cael eu datblygu mewn ardaloedd llifogydd. Ac i'r perwyl hwnnw, Brif Weinidog, a wnewch chi ystyried gweithio gyda'ch Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnwys darpariaeth yn y Bil Cynllunio (Cymru) newydd i ganiatáu i ymgymerwyr statudol, y cwmnïau dŵr—Dŵr Cymru Welsh Water a Severn Trent—i fod yn ymgyngoreion statudol llawn mewn ceisiadau cynllunio yn y dyfodol, er mwyn osgoi sefyllfa lle mae gennym ni adeiladau, cartrefi a busnesau yn cael eu datblygu mewn ardaloedd o risg?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it is an interesting suggestion. I mean, this shouldn't happen anyway. TAN 15 covers this. I remember introducing TAN 15 to this Chamber—maybe in the previous Chamber—but certainly before the Assembly, and at the time it was seen as extreme, because it covered, in the case of the properties of the land most at risk, one in 1,000 year flood-risk occurrences. Now, of course, we know that the pattern of climate change is such that the weather is becoming even more unpredictable. We will always look to see what can be done to strengthen any TAN, but the reality is that this should not be happening now—inappropriate development—particularly on the land that is most at risk.

Wel, mae'n awgrym diddorol. Hynny yw, ni ddylai hyn ddigwydd beth bynnag. Mae TAN 15 yn ymdrin â hyn. Rwy'n cofio cyflwyno TAN 15 i'r Siambr hon—yn y Siambr flaenorol efallai—ond gerbron y Cynulliad yn sicr, ac fe'i hystyriwyd yn eithafol ar y pryd, gan ei fod yn cynnwys, yn achos nodweddion y tir oedd mewn mwyaf o berygl, achosion o lifogydd unwaith mewn 1,000 o flynyddoedd. Nawr, wrth gwrs, rydym ni'n gwybod bod y patrwm o newid yn yr hinsawdd yn golygu bod y tywydd hyd yn oed yn fwy anodd ei ragweld. Byddwn bob amser yn edrych i weld beth y gellir ei wneud i gryfhau unrhyw TAN, ond y gwir amdani yw na ddylai hyn fod yn digwydd nawr—datblygu amhriodol—yn enwedig ar y tir sydd fwyaf mewn perygl.

## Sector Twristiaeth Cymru

## Wales's Tourism Sector

13:56 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddiad cyfalaf Llywodraeth Cymru yn sector twristiaeth Cymru? OAQ(4)2068(FM)*

*4. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's capital investment in Wales's tourism sector? OAQ(4)2068(FM)*

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We provide a range of investment in Wales's tourism, including through our tourism investment support scheme. We also delivered a £35 million capital investment programme through the environment for growth convergence programme, which has developed seven iconic centres of excellence in Wales, as well as coastal improvements along our beaches.

Gwnaf. Rydym ni'n darparu amrywiaeth o fuddsoddiadau mewn twristiaeth yng Nghymru, gan gynnwys drwy ein cynllun cymorth buddsoddi mewn twristiaeth. Darparwyd rhaglen buddsoddiad cyfalaf gwerth £35 miliwn gennym drwy'r rhaglen gydgyfeirio amgylchedd ar gyfer twf, sydd wedi datblygu saith canolfan o ragoriaeth eiconig yng Nghymru, yn ogystal â gwelliannau arfordirol ar hyd ein traethau.

13:56 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. The tourism investment support scheme has seen funding to approve projects halved since 2011-12, although some businesses are getting six-figure support. Larger grants are required to be repaid in part, so can you tell me whether repaid monies are ring-fenced for reinvestment in the scheme? If so, why have approvals halved? Or, does that money go elsewhere?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae'r cynllun cymorth buddsoddi mewn twristiaeth wedi arwain at haneru cyllid i gymeradwyo prosiectau ers 2011-12, er bod rhai busnesau yn cael cymorth chwe ffigur. Mae'n rhaid ad-dalu grantiau mwy yn rhannol, felly a allwch chi ddweud wrthyf a yw arian a ad-dalwyd wedi ei neilltuo i'w ail-fuddsoddi yn y cynllun? Os felly, pam mae cymeradwyaeth wedi haneru? Neu, a yw'r arian hwnnw'n mynd i rywle arall?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

No. We would expect the money to return to the place where it came from, namely the scheme. The intention is to make sure that we are able to help businesses, but to help more businesses through recirculating money. That's an important principle that we operate to, and there are many businesses that have benefited from the scheme and the way that it operates now.

Nac ydy. Byddem yn disgwyl i'r arian ddychwelyd i'r man o ble y daeth, sef y cynllun. Y bwriad yw gwneud yn siŵr ein bod yn gallu helpu busnesau, ond i helpu mwy o fusnesau trwy ailddosbarthu arian. Mae honno'n egwyddor bwysig yr ydym yn gweithredu'n unol â hi, ac mae llawer o fusnesau sydd wedi elwa ar y cynllun a'r ffordd y mae'n gweithredu nawr.

13:57 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A ydy'r Prif Weinidog yn cytuno y gallai codi rhes arall o beilonau trydan ar draws Ynys Môn fod yn niweidiol iawn i'r diwydiant twristiaeth? A ydy o'n cytuno y dylai asesiad manwl iawn gael ei gynnal o gost peilonau i'r economi, yn cynnwys twristiaeth, yn ogystal ag asesiad o'r effaith ar gost eiddo preifat? Er nad ydy hwn, fel rydym ni'n gwybod, yn fater datganoledig, a wnaiff y Prif Weinidog ddatgan ei gefnogaeth i'r ymgyrch aml-bleidiol yn erbyn peilonau, ac i ofyn i'r grid edrych o ddifrif ar opsiwn arall heblaw mynd â'r peilonau ar draws y tir, ac i wneud buddsoddiad iawn i sicrhau hynny?

Does the First Minister agree that erecting another line of electricity pylons across Anglesey could be very damaging to the tourism industry? Does he agree that there should be a very detailed assessment of the costs of pylons to the economy, including tourism, as well as the impact on the value of privately held property? Although this, as we know, is not a devolved issue, will the First Minister express his support for the multi-party campaign against pylons, and to ask the grid to look in earnest at alternative options, rather than taking pylons overground, and make the investment necessary to achieve that?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n credu ei bod yn bwysig dros ben i sicrhau bod unrhyw gynllun i redeg peilonau yn gynllun sy'n cael y gefnogaeth fwyaf, wrth gofio bod yn rhaid i unrhyw gynllun fod yn ymarferol. Rwy'n deall, wrth gwrs, beth yw teimladau pobl ar Ynys Môn ynglŷn â rhai o'r cynlluniau sydd wedi dod i rym lan i nawr, a byddwn i'n erfyn i'r Grid Cenedlaethol i sicrhau eu bod nhw'n cysylltu'n fanwl â phobl leol cyn symud ymlaen gydag unrhyw brosiect. Dylai hwn gael ei ddatganoli, wrth gwrs. Rwy'n siŵr byddai fe a fi ynghlwm ynglŷn â'r farn yna, ond ar hyn o bryd, wrth gwrs, mae hynny'n rhywbeth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w ganiatáu, yn anffodus.

I believe that it's extremely important to ensure that any pylon scheme is one that receives the greatest support, bearing in mind that any scheme has to be practicable. I understand the feelings of the people of Ynys Môn about some of the schemes that have been brought forward now, and of course I would expect the National Grid to consult in detail with local people before proceeding with any project. This, of course, should be devolved. I am sure he and I would be of one mind on that issue, but at present it is something for the United Kingdom Government to grant or otherwise, unfortunately.

## Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales

13:58 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn ag adroddiad blynyddol diweddaraf Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru? OAQ(4)2077(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the latest annual report of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales? OAQ(4)2077(FM)*

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn croesawu adroddiad cynhwysfawr terfynol y prif arolygydd presennol a hefyd yn diolch i Estyn am eu gwaith.

We welcome the current chief inspector's final comprehensive report and also thank Estyn for their work.

13:59 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Brif Weinidog, ac rwy'n nodi y gwaith da mae Ann Keane wedi'i wneud dros y blynyddoedd. Rwy'n sylwi yn yr adroddiad yma mae'n dweud bod hon wedi bod yn flwyddyn gymysg ar gyfer safonau mewn darparwyr addysg a hyfforddiant, a bod safonau yn y sector ysgolion cynnar wedi dirywio. Gan fod Estyn yn adolygu pob ysgol, coleg, man darparu hyfforddiant ac awdurdod addysg yng Nghymru, ac yn canfod y problemau hyn, a fyddech chi'n agor drws Llywodraeth Cymru i Estyn arolygu eich adran chithau ar addysg ac hyfforddiant, fel ein bod yn cael deall yn iawn yn lle mae'r broblem?

Thank you, First Minister, and I note the good work that Ann Keane has done over the years. I notice that, in this report, it states that this has been a mixed year in terms of standards in education providers and that standards in primary schools have declined. Now, as Estyn inspects every school and college, all training providers and all education authorities in Wales and identifies these problems, would you open the Welsh Government's doors to have an inspection of your department of education and training, so that we can understand exactly where the problem lies?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, byddai'n rhaid iddyn nhw wneud hynny a hefyd sicrhau eu bod nhw'n ei wneud e i bob awdurdod lleol hefyd yng Nghymru. Nid wyf yn credu bod hwn yn rhywbeth sy'n dod o dan rym Estyn, mae hwn yn rhywbeth, wrth gwrs, rydym yn ei wneud ac rydym yn atebol i bobl Cymru yn uniongyrchol ynglŷn â hwn. Ond mae'n siomedig i weld y peth sy'n digwydd yn yr ysgolion cynradd, ac yn galonogol i weld y peth sydd wedi digwydd yn yr ysgolion cyfun, ac, wrth gwrs, rydym yn moyn sicrhau bod yna fwy o gysondeb a sicrhau bod ysgolion cynradd yn parhau i wella yn y dyfodol. Fe fydd yna ymateb gan y Gweinidog ta beth ym mis Chwefror, felly bydd y Gweinidog yn manylu yn fwy ynglŷn ag ymateb y Llywodraeth ynglŷn â hyn.

Well, they would have to do that and also ensure that they did it to every local authority in Wales as well. I don't think that that is something that comes under the powers of Estyn, this is something, of course, that we do ourselves and we are directly accountable to the people of Wales regarding this. It is disappointing, what we see happening in the primary schools, but the picture in the secondary sector is encouraging and, of course, we want to ensure greater consistency and that primary schools continue to improve in future. The Minister will be responding on this in February in any case, and the Minister will go into greater detail on the Government's response then.

14:00 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, as the Estyn report notes, attendance rates in Welsh schools have improved significantly through concerted action by schools, local authorities and the Welsh Government. Truancy impacts on educational success, and, as Professor Ken Reid reminded us, evidence shows that absence from school is a plea for help.

Brif Weinidog, fel y mae adroddiad Estyn yn ei nodi, mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion yng Nghymru wedi gwella'n sylweddol yn sgil camau ar y cyd gan ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae triwantiaeth yn effeithio ar lwyddiant addysgol, ac, fel y cawsom ein hatgoffa gan yr Athro Ken Reid, mae tystiolaeth yn dangos bod absenoldeb o'r ysgol yn gri am help.

If we are to narrow the gap in attainment for children from disadvantaged backgrounds, does the First Minister agree that tackling absenteeism is crucial to this, and will this continue to remain a focus for his Government?

Os ydym yn mynd i leihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad i blant o gefndiroedd difreintiedig, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod mynd i'r afael ag absenoldeb yn hanfodol ar gyfer hyn, ac a fydd hyn yn parhau i fod yn bwyslais i'w Lywodraeth?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, absolutely, and the Member's quite right to point out the significant improvement that there's been in tackling absenteeism. It shows that what has been put in place is working, and, if I remember rightly, on 11 December—last month—the Minister did issue a statement clarifying school attendance regulations in Wales relating to holidays in term time and fixed-penalty notices. That's not the entire picture, of course, because I very much welcome the work that has been done by schools and local education authorities in order to ensure that attendance improves.

Bydd, yn sicr, ac mae'/r Aelod yn gwbl gywir i dynnu sylw at y gwelliant sylweddol a welwyd o ran mynd i'r afael ag absenoldeb. Mae'n dangos bod yr hyn a roddwyd ar waith yn gweithio, ac, os cofiaf yn iawn, ar 11 Rhagfyr—fis diwethaf—cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad yn egluro rheoliadau presenoldeb ysgol yng Nghymru yn ymwneud â gwyliau yn ystod y tymor a hysbysiadau cosb benodedig. Nid dyna'r darlun cyfan, wrth gwrs, gan fy mod i'n croesawu'n fawr iawn y gwaith a wnaed gan ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i sicrhau bod presenoldeb yn gwella.

14:01 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I too would like to add my thanks to Ann Keane for her sterling work as chief inspector of schools here in Wales. This is a report that is a bit of a curate's egg. I agree with Simon Thomas that our primary schools do still seem to be suffering, but another area that is highlighted is the provision in pupil referral units. We have a disastrous record in pupil referral units, as has been evinced by a number of other reports. So, First Minister, my question to you is: will you ensure that the findings on the pupil referral units are incorporated into the proposed Bill on additional learning needs, and will you commit to ensuring that that Bill comes before us all in good time for us to be able to examine it and, hopefully, pass a successful Bill into legislation before the end of the Assembly term?

Hoffwn innau hefyd ychwanegu fy niolch i Ann Keane am ei gwaith rhagorol fel prif arolygydd ysgolion yma yng Nghymru. Mae hwn yn adroddiad sydd braidd yn ddrwg ac yn dda yn gymysg. Rwy'n cytuno â Simon Thomas ei bod yn ymddangos bod ein hysgolion cynradd yn dal i ddioddef, ond maes arall y tynnir sylw ato yw'r ddarpariaeth o ran unedau cyfeirio disgyblion. Mae gennym hanes trychinebus o ran unedau cyfeirio disgyblion, fel y dangoswyd mewn nifer o adroddiadau eraill. Felly, Brif Weinidog, fy nghwestiwn i chi yw: a wnewch chi sicrhau bod y canfyddiadau ar yr unedau cyfeirio disgyblion yn cael eu cynnwys yn y Bil arfaethedig ar anghenion dysgu ychwanegol, ac a wnewch chi ymrwymo i sicrhau bod y Bil yn dod ger ein bron i gyd mewn da bryd er mwyn i ni allu ei archwilio a, gobeithio, pasio Bil llwyddiannus i ddeddfwriaeth cyn diwedd tymor y Cynulliad?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think the Member raises a fair point in terms of pupil referral units. We have seen difficulties in some LEAs with pupil referral units and those difficulties have repeated themselves, quite often. I think the first stage is for the Minister, of course, to give the formal response to the report. There'll be an opportunity, obviously, for the Member to ask the Minister about this and then, of course, the Government will suggest a way forward in terms of how to strengthen PRUs in the future.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn codi pwynt teg o ran unedau cyfeirio disgyblion. Rydym ni wedi gweld anawsterau mewn rhai AALlau gydag unedau cyfeirio disgyblion ac mae'r anawsterau hynny wedi ailadrodd eu hunain, yn aml iawn. Rwy'n meddwl mai'r cam cyntaf yw i'r Gweinidog, wrth gwrs, roi'r ymateb ffurfiol i'r adroddiad. Bydd cyfle, yn amlwg, i'r Aelod holi'r Gweinidog am hyn ac yna, wrth gwrs, bydd y Llywodraeth yn awgrymu ffordd ymlaen o ran sut i gryfhau unedau cyfeirio disgyblion yn y dyfodol.

14:03 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae'n debyg bod pob un ohonom ni'n parchu barn y prif arolygydd ac rydym yn diolch iddi am ei gwaith. Mae'n ddarlun cymysglyd o fewn yr adroddiad, ond a ydych chi'n pryderu o gwbl ynglŷn â'r datganiad gan y prif arolygydd fod yna anghydbwysedd o hyd rhwng buddsoddi mewn mecanweithiau sy'n dwyn ysgolion a darparwyr eraill i gyfrif a buddsoddi mewn strategaethau i feithrin gallu yn y gweithlu, gan gynnwys y gallu i arwain? Mae hi'n dweud bod yna anghydbwysedd yn y ffordd mae'r Llywodraeth yn ymwneud â hyn.

First Minister, I am sure that each one of us respects the view of the chief inspector and we thank her for her work. It is a very mixed picture in the report, but are you concerned about the statement by the chief inspector that there's still an imbalance between investment in mechanisms that bring other schools and other providers to account and investing in strategies to develop skills in the workforce, including leadership skills? She says that there is an imbalance in the way in which the Government deals with this.

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, fe fyddwn yn ystyried, wrth gwrs, y datganiad sydd wedi cael ei wneud gan y prif arolygydd a bydd hwn yn rhywbeth rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn delio ag ef pan fyddai ar ei draed y mis nesaf.

Well, we will consider, of course, the statement made by the chief inspector and I am sure that this is something that the Minister will deal with when he speaks next month.

## Perchentyaeth yng Nghefn Gwlad Cymru

## Home Ownership in Rural Wales

14:03 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i helpu pobl yng nghefn gwlad Cymru i brynu eu cartrefi eu hunain? OAQ(4)2076(FM)*

*6. Will the First Minister outline what support the Welsh Government is providing to help people in rural Wales own their own homes? OAQ(4)2076(FM)*

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We offer a range of support in rural areas, including, of course, the Help to Buy-Wales scheme, which has helped individuals to buy more than 2,000 properties in Wales.

Rydym ni'n cynnig amrywiaeth o gefnogaeth mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys, wrth gwrs, cynllun Cymorth i Brynu Cymru, sydd wedi helpu unigolion i brynu mwy na 2,000 o adeiladau yng Nghymru.

14:04 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, of course, your help to buy scheme, Minister, only applies to new builds and there are very few of those in rural areas. In fact, most rural areas are excluded. And by limiting the right to buy, or seeking to abolish the right to buy for people to own their own council properties, the options for, particularly, young people to get on the housing ladder in rural Wales have been severely curtailed. Given the lack of help given to people in rural areas, will you commit to look at the figures again in relation to help to buy and see whether or not you would extend the scheme to properties other than new builds?

Wel, wrth gwrs, mae eich cynllun cymorth i brynu, Weinidog, yn berthnasol i adeiladau newydd yn unig ac ychydig iawn o'r rheini sydd mewn ardaloedd gwledig. A dweud y gwir, mae'r rhan fwyaf o ardaloedd gwledig wedi eu heithrio. A thrwy gyfyngu ar yr hawl i brynu, neu geisio diddymu'r hawl i brynu i bobl fod yn berchen ar eu tai cyngor eu hunain, mae'r dewisiadau i bobl ifanc, yn arbennig, i ymuno â'r ysgol dai yng Nghymru wledig wedi cael eu cwtogi'n ddifrifol. O ystyried y diffyg cymorth a roddir i bobl mewn ardaloedd gwledig, a wnewch chi ymrwymo i edrych ar y ffigurau eto o ran cymorth i brynu a gweld a wnewch chi ymestyn y cynllun i adeiladau nad ydynt yn rhai a adeiladwyd o'r newydd?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

What young people need is the ability to access more accommodation, and rural Wales suffered more than anywhere else with right to buy. Powys lost more than half of its social housing—more than half of its social housing—under her party. We know that there has been a 40% reduction in public housing over the past 35 years. Now, of course, we are able to build more houses. What sense did it make to say, 'You have to sell houses to people'—fine, that's one suggestion—and then, 'You can't re-use the money to build public housing?' I mean, that was a deliberate attempt to reduce the amount of public housing available, and Wales, and rural Wales particularly, suffered immensely because of that policy, added to the fact, now, that we know that the UK Government, apparently, is going to come forward with a policy that will mean that social housing is sold but the money that's brought in isn't enough to replace it. That's the reality of the situation. We cannot go on seeing the leakage of public housing that is available to young people, particularly in rural areas. We must make sure that the amount of reasonably priced accommodation is where it was in the 1970s, before the party opposite brought in this policy and forbade councils to actually replace the houses that were being sold. That was the utter lunacy of it.

Yr hyn sydd ei angen ar bobl ifanc yw'r gallu i gael gafael ar fwy o lety, a dioddefodd Cymru wledig yn fwy nag unrhyw le arall oherwydd hawl i brynu. Collodd Powys fwy na hanner ei thai cymdeithasol—mwy na hanner ei thai cymdeithasol—dan ei phlaid hi. Rydym ni'n gwybod y bu gostyngiad o 40% mewn tai cyhoeddus dros y 35 mlynedd diwethaf. Nawr, wrth gwrs, rydym ni'n gallu adeiladu mwy o dai. Pa synnwyr oedd mewn dweud, 'Mae'n rhaid i chi werthu tai i bobl'—iawn, dyna un awgrym—ac yna, 'Ni chewch ail-ddefnyddio'r arian i adeiladu tai cyhoeddus?' Hynny yw, roedd honno'n ymgais fwriadol i leihau nifer y tai cyhoeddus sydd ar gael, a dioddefodd Cymru, a Chymru wledig yn arbennig, yn aruthrol oherwydd y polisi hwnnw, yn ogystal â'r ffaith, erbyn hyn, ein bod yn gwybod bod Llywodraeth y DU, mae'n debyg, yn mynd i gyflwyno polisi a fydd yn golygu bod tai cymdeithasol yn cael eu gwerthu, ond na fydd yr arian sy'n dod i mewn yn ddigon i adeiladu rhai newydd. Dyna wirionedd y sefyllfa. Ni allwn barhau i weld y gostyngiad mewn tai cyhoeddus sydd ar gael i bobl ifanc, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod y llety sydd ar gael am bris rhesymol yr un fath ag yr oedd yn y 1970au, cyn i'r blaid gyferbyn gyflwyno'r polisi hwn ac atal cynghorau rhag adeiladu tai newydd yn lle'r rhai oedd yn cael eu gwerthu. Dyna oedd ffolineb llwyr y sefyllfa.

14:06 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

What young people in rural Wales tell me is that what they expect is a secure, affordable and good-quality place to live, and low-cost home ownership is part of that mix, but so too are social housing and private renting, and I'd like to see more co-operative options available. So, First Minister, would you join me in congratulating Carmarthenshire County Council on its very bold decision to be the first council in Wales to suspend the right to buy, a policy that has, as you just said, wasted millions of pounds of public money and contributed towards homelessness and housing needs across Wales? Are you confident, First Minister, that your Government will meet its target of 10,000 affordable homes and bring back into use 5,000 empty homes during the course of this Assembly?

Yr hyn y mae pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru yn ei ddweud wrthyf yw mai'r hyn y maen nhw'n ei ddisgwyl yw lle diogel, fforddiadwy ac o ansawdd da i fyw ynddo, ac mae perchentyaeth cost isel yn rhan o'r gymysgedd honno, ond felly hefyd tai cymdeithasol a rhentu preifat, a hoffwn weld mwy o ddewisiadau cydweithredol ar gael. Felly, Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Cyngor Sir Caerfyrddin ar ei benderfyniad dewr iawn i fod y cyngor cyntaf yng Nghymru i wahardd yr hawl i brynu, polisi sydd, fel yr ydych chi newydd ddweud, wedi gwastraffu miliynau o bunnoedd o arian cyhoeddus ac wedi cyfrannu at ddigartrefedd ac anghenion tai ledled Cymru? A ydych chi'n ffyddiog, Brif Weinidog, y bydd eich Llywodraeth yn cyrraedd ei tharged o 10,000 o gartrefi fforddiadwy ac ailddechrau defnyddio 5,000 o gartrefi gwag yn ystod y Cynulliad hwn?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are. We are confident that we will reach that target. What we could not do is to, as it were, fill up the bath while not putting the plug in properly, which is what was happening, in effect. You have to look at some parts of rural Wales: some houses that were originally council houses are now second homes or they are actually in the private rented sector. So, there's a private landlord now renting those homes out instead of a council. We cannot go on with that policy now. In fact, it's a policy that has seen fewer and fewer people, anyway, buying their houses. We need to make sure we have good-quality social housing for our young people in rural Wales and in urban Wales. In order to do that, we have to make sure that the money is there to deliver on that. It will not happen if we continue with the right to buy, because houses were not replaced over 30 years, and we have seen a hammering of the social housing sector in Wales during that time, and more and more young people unable to gain accommodation, and we intend to stop that.

Ydym. Rydym ni'n ffyddiog y byddwn yn cyrraedd y targed hwnnw. Yr hyn na allem ni ei wneud, fel petai, yw llenwi'r bath heb roi'r plwg i mewn yn gywir, sef yr hyn a oedd yn digwydd, i bob pwrpas. Mae'n rhaid i chi edrych ar rai rhannau o Gymru wledig: mae rhai tai a oedd yn dai cyngor yn wreiddiol yn ail gartrefi erbyn hyn, neu yn y sector rhentu preifat. Felly, mae landlord preifat yn rhentu'r cartrefi hynny erbyn hyn, yn hytrach na chyngor. Ni allwn barhau â'r polisi hwnnw nawr. A dweud y gwir, mae'n bolisi sydd wedi golygu bod llai a llai o bobl yn prynu eu tai beth bynnag. Mae angen i ni sicrhau bod gennym dai cymdeithasol o ansawdd da ar gyfer ein pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru ac yng Nghymru drefol. Er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod yr arian ar gael i gyflawni hynny. Ni fydd yn digwydd os byddwn yn parhau â'r hawl i brynu, gan na adeiladwyd tai yn lle'r rhai a werthwyd am 30 mlynedd, ac rydym ni wedi gweld y sector tai cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei daro'n galed yn ystod y cyfnod hwnnw, a mwy a mwy o bobl ifanc yn methu â chael llety, ac rydym ni'n bwriadu rhoi terfyn ar hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Un rhwystredigaeth sy'n cael ei chodi'n gyson gyda fi o gyfeiriad awdurdodau lleol yw'r ffaith bod yr Arolygiaeth Gynllunio, yn y broses o greu cynlluniau datblygu lleol, wedi bod yn mynnu lleihau'r ganran o dai fforddiadwy sydd yn cael eu darparu o fewn y cynlluniau hynny, a hynny, wrth gwrs, yn golygu wedyn fod yna lai o opsiynau o safbwynt pobl yn dod i berchen eu tai mewn ardaloedd gwledig. A oes gennych chi gydymdeimlad â'r rhwystredigaeth yna ac, os oes, beth ŷch chi'n trio ei wneud i gywiro hynny?

One frustration raised with me regularly from the point of view of local authorities is the fact that the Planning Inspectorate, in the process of creating local development plans, has insisted on reducing the percentage of affordable homes provided within those plans, and that then means that there are fewer options in terms of people owning their own homes in rural areas. Do you have any sympathy with that frustration and, if so, what you are endeavouring to do to put that right?

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, mae yna ganllawiau, yn sicr, ynglŷn â hyn, ynglŷn â faint o dai fforddiadwy a ddylai fod mewn unrhyw ddatblygiad. Os oes unrhyw dystiolaeth bod y nifer hwnnw yn lleihau, byddai diddordeb gennym ni mewn sicrhau ein bod ni'n ystyried y dystiolaeth honno. Rydym ni wedi gweld, wrth gwrs, rai awdurdodau, fel sir Gâr, fel y dywedodd yr Aelod, sydd wedi sicrhau bod yna fwy o dai ar gael i bobl yn y dyfodol, a byddem ni'n erfyn i awdurdodau lleol a hefyd yr arolygiaeth sicrhau bod hynny'n digwydd ar draws Cymru.

Well, there are definite guidelines on this as regards how many affordable houses should be in a development. If there's any evidence that that number is reducing, then we would be interested in considering that evidence. We have, of course, seen some authorities, such as Carmarthenshire, as the Member said, which have ensured that there are more houses available for people in the future, and we would expect local authorities and also the inspectorate to ensure that that happens across Wales.

Senedd.tv Fideo Video

## Plant sy'n Hunan-niweidio

## Children who Self-harm

14:08 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

*7. Pa gyngor mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i ysgolion o ran dod o hyd i blant sy'n hunan-niweidio? OAQ(4)2062(FM)*

*7. What advice is the Welsh Government giving to schools to identify children who are self-harming? OAQ(4)2062(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, counselling services are available for all 11 to 18-year-olds and year 6 pupils who are experiencing emotional difficulties. One of the actions in the 'Talk to Me 2' action plan, which is currently, as I think the Member knows, out to consultation, is around raising awareness on suicide and self-harm amongst staff in schools.

Wel, mae gwasanaethau cwnsela ar gael i bawb rhwng 11 a 18 oed a disgyblion blwyddyn 6 sy'n dioddef anawsterau emosiynol. Mae un o'r camau yng nghynllun gweithredu 'Siarad â Fi 2', sydd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, fel y mae'r Aelod yn gwybod rwy'n credu, yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth ymhlith staff mewn ysgolion o hunanladdiad a hunan-niweidio.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

I very much welcome that Government initiative. There is a substantial amount of self-harming by young people taking place, and whilst most of it is not life-threatening, it does show that such young people are disturbed or depressed. Will the Government promote schools taking action to help children who self-harm?

Rwy'n croesawu'r fenter honno gan y Llywodraeth yn fawr iawn. Mae llawer iawn o hunan-niweidio yn digwydd ymhlith pobl ifanc, ac er nad yw'r rhan fwyaf ohono'n fygythiad i fywyd, mae'n dangos bod pobl ifanc o'r fath yn gythryblus neu'n isel. A fydd y Llywodraeth yn annog ysgolion i gymryd camau i helpu plant sy'n hunan-niweidio?

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, again, as I say, there is a consultation process that is taking place at the moment. That's due to conclude on 5 March. The document sets out the Welsh Government's proposed approach to suicide and self-harm over the next five years and it does advocate certain actions relating to young people. Of course, identifying self-harm and identifying the risk of suicide is an important part of the care that a school can offer, and so being able to offer staff the training to spot those possibilities will be an important part of combating the problem in the future.

Bydd, unwaith eto, fel y dywedais, mae proses ymgynghori'n cael ei chynnal ar hyn o bryd. Disgwylir i hynny ddod i ben ar 5 Mawrth. Mae'r ddogfen yn nodi dull arfaethedig Llywodraeth Cymru o ymdrin â hunanladdiad a hunan-niweidio yn ystod y pum mlynedd nesaf ac mae'n hyrwyddo camau gweithredu penodol yn ymwneud â phobl ifanc. Wrth gwrs, mae nodi hunan-niweidio a nodi'r risg o hunanladdiad yn rhan bwysig o'r gofal y gall ysgol ei gynnig, ac felly bydd gallu cynnig yr hyfforddiant i staff i nodi'r posibiliadau hynny yn rhan bwysig o frwydro yn erbyn y broblem yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

First Minister, when you look back in the records of Welsh Government support for children's mental health services here in Wales there's been report after report—I've gone back this morning—in 2000, 2006, 2011, and as recently now as 2015, identifying a lack of funding and sustainable funding for children's mental health services here in Wales. I appreciate there's pressure on the public purse, but are you confident that the money that the Government is making available to help with counselling and to help the support services, when it comes to young people, is sufficiently directed to put the best effect to that resource that you're making available, and are you confident that that money is enough to deal with these issues that we are faced with in children's mental health services?

Brif Weinidog, pan edrychwch chi yn ôl yn y cofnodion o gymorth Llywodraeth Cymru i wasanaethau iechyd meddwl i blant yma yng Nghymru cafwyd adroddiad ar ôl adroddiad—rwyf wedi mynd yn ôl y bore yma—yn 2000, 2006, 2011, ac mor ddiweddar â 2015 erbyn hyn, yn nodi diffyg cyllid a chyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant yma yng Nghymru. Rwy'n gwerthfawrogi bod pwysau ar y pwrs cyhoeddus, ond a ydych chi'n ffyddiog bod yr arian y mae'r Llywodraeth yn ei roi ar gael i helpu gyda chwnsela ac i helpu'r gwasanaethau cymorth, o ran pobl ifanc, yn cael ei gyfeirio'n ddigonol i roi'r effaith orau i'r adnodd hwnnw yr ydych chi'n ei roi ar gael, ac a ydych chi'n ffyddiog bod yr arian yn ddigon i ymdrin â'r materion hyn yr ydym ni'n eu hwynebu ym maes gwasanaethau iechyd meddwl i blant?

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, yes. Since September 2010, all secondary schools in Wales have offered counselling services. They were supported by a £13 million grant between 2008 and 2013 for the development of that service and, of course, legislation was introduced for last year that requires local authorities to make reasonable provision of independent counselling services to all children and young people, as well as those between the age of 11 and 18 and as well as those in year 6 of primary school. At the same time, money was transferred: £4.5 million was transferred to the revenue support grant for the continued support of this service, bearing in mind, of course—if I understand rightly—those councils can refer to child and adolescent mental health services anyway. So, it's not a question of the two services operating independently of each other. But the approach that we take is that it's best that these matters are identified early, and dealt with early by counselling, rather than being in a situation where too many are referred to CAMHS without having the opportunity of resolving their issues through the counselling service, and we believe that that's exactly what's been happening.

Wel, ydw. Ers mis Medi 2010, mae pob ysgol uwchradd yng Nghymru wedi cynnig gwasanaethau cwnsela. Cawsant eu cynorthwyo drwy grant o £13 miliwn rhwng 2008 a 2013 ar gyfer datblygu'r gwasanaeth hwnnw ac, wrth gwrs, cyflwynwyd deddfwriaeth ar gyfer y llynedd sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud darpariaeth resymol o wasanaethau cwnsela annibynnol i bob plentyn a pherson ifanc, yn ogystal â'r rhai rhwng 11 a 18 oed ac yn ogystal â'r rhai ym mlwyddyn 6 yr ysgol gynradd. Ar yr un pryd, trosglwyddwyd arian: trosglwyddwyd £4.5 miliwn i'r grant cynnal refeniw ar gyfer cymorth parhaus i'r gwasanaeth hwn, gan gofio, wrth gwrs—os wyf yn deall yn iawn—y caiff y cynghorau hynny atgyfeirio i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed beth bynnag. Felly, nid yw'n gwestiwn o'r ddau wasanaeth yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Ond yr agwedd yr ydym ni'n ei chymryd yw ei bod yn well bod y materion hyn yn cael eu nodi'n gynnar, ac yn cael eu trin yn gynnar trwy gwnsela, yn hytrach na bod mewn sefyllfa lle y mae gormod yn cael eu hatgyfeirio i CAMHS heb gael y cyfle i ddatrys eu problemau drwy'r gwasanaeth cwnsela, ac rydym ni'n credu mai dyna'n union sydd wedi bod yn digwydd.

### Addysg Cyfrwng Cymraeg

### Welsh-medium Education

14:11 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg? OAQ(4)2080(FM)*

*8. Will the First Minister provide an update on the provision of Welsh-medium education? OAQ(4)2080(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, mae cynyddu mynediad i bobl o bob oed i addysg cyfrwng Cymraeg a hefyd cefnogi'r iaith Gymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Well, increasing access for people of all ages to Welsh-medium and Welsh-language education remains a priority for Welsh Government.

14:12 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch. Wythnos nesaf, bydd agoriad swyddogol Ysgol Gymraeg Ffwrnes, a fydd yn cynnig addysg o ansawdd i 450 o blant. Mewn cyfarfod Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yng Nghaerfyrddin 10 diwrnod yn ôl, gwnaeth cynrychiolwyr o sir Gâr ddweud, oherwydd y twf mewn addysg Cymraeg yn Llanelli, eu bod yn edrych ar y posibilrwydd o gael ail ysgol gyfun Cymraeg yno. A ydych yn cytuno â mi bod hynny yn mynd i fod yn werthfawr iawn i'r iaith?

Thank you. Next week will see the official opening of Ysgol Gymraeg Ffwrnes, which will provide quality education for 450 children. At a meeting held by Cymdeithas yr Iaith Gymraeg in Carmarthen 10 days ago, representatives from Carmarthenshire said that, because of the growth in Welsh-medium education in Llanelli, they were looking at the possibility of having a second Welsh-medium secondary school there. Do you agree with me that that would be very valuable for the Welsh language?

14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n croesawu hynny, wrth gwrs. Mae'n lan i'r awdurdodau lleol sicrhau bod yna ddigon o lefydd ar gael mewn addysg Cymraeg. Wrth gwrs, mae strategaethau y mae'n rhaid iddynt eu hysgrifennu er mwyn dangos ym mha ffordd y maen nhw'n mynd i hybu'r iaith Gymraeg trwy addysg yn eu hardaloedd nhw. Ond mae'n galonogol wrth gofio'r ffaith bod Llanelli, ar un adeg, yn dref, yn enwedig—[Anhyglyw.]—oedd yn Gymraeg ei iaith. Mae'r Gymraeg wedi colli llawer o dir, yn enwedig yn y dref, ers hynny, ac mae'n galonogol i feddwl bod llawer o bobl eisiau gweld eu plant yn cael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai ohonynt, rwy'n meddwl, oedd â rhieni oedd yn siarad Cymraeg, a nhw efallai yn deall Cymraeg ac yn moyn sicrhau bod eu plant yn gallu siarad Cymraeg unwaith eto er mwyn bod y Gymraeg yn dod yn ôl mewn i'r teulu ac mae hynny'n rhywbeth, wrth gwrs, i werthfawrogi.

I welcome that, naturally. It is up to the local authority to ensure that there are sufficient spaces available in Welsh-medium education. Of course, there are strategies that they must write to demonstrate how they would promote the Welsh language through education in their areas. But it is encouraging bearing in mind that, at one time, Llanelli was a Welsh-speaking town. The Welsh language has lost a lot of ground, particularly in the town, since then, and it is encouraging to think that many people would like to see their children educated through the medium of Welsh. Some of them, I think, had Welsh-speaking parents and can perhaps understand Welsh themselves and want to ensure that their children can speak Welsh once again so that the Welsh language can be reintroduced into the family and that is something to be appreciated, of course.

14:13 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Mewn ymateb diweddar i gwestiwn ysgrifenedig, honodd y Gweinidog addysg y bydd toriadau yn y gyllideb addysg yn cael yr effaith lleiaf bosibl ar y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd bod cyllidebau eraill o fewn yr adran addysg a sgiliau yn cefnogi datblygiad y Gymraeg o fewn y system addysg. Nid oedd y cymorth hwn, a dyfynnaf, yn hawdd i feintioli, ond bod cyfanswm y gefnogaeth ariannol ar gyfer yr iaith Gymraeg mewn addysg yn arwyddocaol uwch. Nawr, sut y gallech ddweud bod cefnogaeth ariannol ar gyfer yr iaith yn arwyddocaol uwch os, yn ôl cyfaddefiad eich Llywodraeth eich hun, nid ellir ei chyfrifo?

In a recent response to a written question, the Minister for education claimed that cuts to the education budget would have as little impact as possible on the Welsh-medium education strategy because other budgets within the Education and Skills department support the development of the Welsh language within the education system. The assistance, and I quote, wasn't easy to quantify, but the total financial support for the Welsh language in education was significantly higher. Now, how can you say that financial support for the Welsh language is significantly higher if, according to your own Government's admission, it cannot be counted?

14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Mae'n rhaid i fi ddweud, pe na bai'r Aelod yn Aelod o blaid sydd am dorri'r gyllideb addysg rhwng 12% ac 20%, byddwn yn cymryd mwy o sylw, efallai, o beth sydd gyda hi i ddweud, ond rydym yn ddigon hyderus bod y strategaethau sydd yn cael eu datblygu gan awdurdodau lleol yn ddigon cryf i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hybu a bod yna ddigon o lefydd ar gael ar gyfer y rheiny sydd eisiau eu plant gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Well, I must say that, if the Member wasn't a member of the party that wants to cut the education budget between 12% and 20%, I would pay more attention, perhaps, to what she has to say, but we are quite confident that the strategies being developed by the local education authorities are strong enough to ensure that the Welsh language is promoted and that there are sufficient spaces for those who wish their children to have a Welsh-medium education.

14:14 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Er gwaethaf rhai o symudiadau mwyaf calonogol mewn llefydd megis Llanelli, mae adolygiad 'pro-tem' o'r strategaeth ar yr iaith Gymraeg yn dangos nad oes modd cyflawni'r targedau sydd yn y strategaeth gan y Llywodraeth fel mae'r twf yn digwydd ar hyn o bryd dros Gymru gyfan. Fe fydd yna adolygiad a gwerthusiad llawn yn cael ei gyhoeddi, yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, y gwanwyn yma. Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch chi'n cyhoeddi hwnnw fel Llywodraeth mor fuan ag sy'n bosib, fel ein bod ni'n gallu craffu arno. Mae'n ymddangos imi fod yna fwlch rhwng y cynlluniau a'r strategaethau Cymraeg lleol a beth yw'ch amcanion chi fel Llywodraeth genedlaethol. A ydych chi'n cytuno bod y bwlch yna yn bodoli, a pha gamau pendant sydd gyda chi mewn golwg i gau y bwlch yna?

Despite some of the more encouraging shifts in places such as Llanelli the pro-tem review of the Welsh language strategy does demonstrate that the targets included within that strategy by the Government cannot be achieved as the growth is going at present throughout the whole of Wales. There will be a full review and evaluation published, as I understand it, this spring. I very much hope that you will publish that as a Government as soon as possible, so that we can scrutinise that. It appears to me that there is a gap between the local Welsh language strategies and your objectives as a Government at a national level. Do you agree that that gap exists, and what specific steps do you have in mind to actually close that gap?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae yna wahaniaethau, wrth gwrs, rhwng yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Wrth gwrs, mae'r gweithredu ynglŷn â'r ysgolion yn digwydd drwy'r awdurdodau lleol. Serch hynny, wrth gwrs, rydym ni wedi dweud wrthynt fod yn rhaid iddyn nhw gael cynlluniau strategol er mwyn hybu addysg Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, sef 19 ohonyn nhw, nawr wedi sicrhau bod cynlluniau wedi cael eu rhoi inni fel Llywodraeth ta beth. Ond, mae'n wir i ddweud bod yr heriau'n wahanol ym mhob rhan o Gymru. Mewn rhai rhannau o Gymru, mae'r twf yn dal i fod yna; mae rhannau eraill—ac mae'n sir i yn enghraifft o hyn—lle nad yw'r twf ddim wedi bod mor fawr ag, efallai, y mae mewn sawl rhan arall o Gymru. Dyna pam, wrth gwrs, rydym ni'n moyn sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn ystyried eu rôl nhw ynglŷn â hybu'r iaith Gymraeg ac addysg Gymraeg. Dyna pam, wrth gwrs, rydym ni wedi gofyn am gynlluniau strategol: er mwyn sicrhau ein bod ni'n deall beth yw eu cynlluniau nhw, ac wedyn, wrth gwrs, inni gymryd camau fel Llywodraeth er mwyn sicrhau eu bod nhw yn symud ymlaen gyda'r cynlluniau sydd gyda ni fel Llywodraeth.

There are variations, of course, between local authorities in Wales. Of course, implementing the schools policy happens on a local authority level. However, we have said that we need the strategic plans in order to promote Welsh-medium education. The majority of the local authorities, namely 19 of them, have now ensured that their plans have been presented to us as a Government anyway. However, it's true to say that there are variations in every part of Wales. In some places, the growth still exists there; in other parts—in my own county, for example—the growth has not been as great as, perhaps, that seen in many other parts of Wales. That is why, of course, we must ensure that the local authorities consider their role in relation to the promotion of the Welsh language and Welsh-medium education. That is why, of course, we have asked for strategic plans: in order to ensure that we can understand what their plans are, and then, of course, for us as a Government to take steps to ensure that they are moving forward with the plans that we have as a Government.

14:16 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, today, the Cabinet of Powys County Council will consider a PricewaterhouseCoopers review that recommends that up to three secondary schools in Powys should close, and also that some Welsh-medium streams in English high schools should close. Are you aware of these proposals to close Welsh-medium streams, as well as three stand-alone high schools? What advice do you have for parents who are ringing my office, concerned as to where their children will go for their education in the future, and who are having to make decisions about whether to send their children to Welsh-medium units that might not exist in a few years' time?

Heddiw Brif Weinidog, bydd Cabinet Cyngor Sir Powys yn ystyried adolygiad Pricewaterhousecoopers sy'n argymell y dylai hyd at dair ysgol uwchradd ym Mhowys gau, a hefyd y dylai rhai ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion uwchradd Saesneg gau. A ydych chi'n ymwybodol o'r cynigion hyn i gau ffrydiau cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â thair ysgol uwchradd annibynnol? Pa gyngor sydd gennych chi i rieni sy'n ffonio fy swyddfa, yn pryderu ynghylch lle bydd eu plant yn mynd ar gyfer eu haddysg yn y dyfodol, ac sy'n gorfod gwneud penderfyniadau ynghylch pa un a ddylent anfon eu plant i unedau cyfrwng Cymraeg efallai na fyddant yn bodoli ymhen ychydig flynyddoedd?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, these are matters, of course, for the council to explain, not for Government. It is a matter for them to decide how they will resolve the issues that your constituents have raised.

Wel, materion i'r cyngor eu hesbonio yw'r rhain, wrth gwrs, nid y Llywodraeth. Mater iddyn nhw yw penderfynu sut y byddant yn datrys y materion y mae eich etholwyr wedi eu codi.

As the leader of the Welsh Liberal Democrats knows, there is potentially a ministerial role here, in terms of examining decisions that are taken by local education authorities, so I cannot say more on a particular case, but the issues that she raises will be for Powys County Council to answer in the first place.

Fel y mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gwybod, ceir swyddogaeth weinidogol yma o bosibl, o ran archwilio penderfyniadau a wneir gan awdurdodau addysg lleol, felly ni allaf ddweud mwy am achos penodol, ond materion i Gyngor Sir Powys eu hateb yn y lle cyntaf yw'r rhai y mae hi'n eu codi.

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:17

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement. I call on the business Minister, Jane Hutt.

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad busnes. Galwaf ar y Gweinidog busnes, Jane Hutt.

14:17 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. I have one change to announce to this week's business. As only two questions have been tabled to the Counsel General, the time made available has been reduced to 15 minutes. The remainder of Government time on Wednesday will be utilised for an urgent legislative consent motion on the Serious Crime Bill (memorandum No. 2), led by the Minister for Public Services. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Diolch, Lywydd. Mae gennyf un newid i'w gyhoeddi i fusnes yr wythnos hon. Gan mai dim ond dau gwestiwn sydd wedi'u cyflwyno i'r Cwnsler Cyffredinol, mae'r amser sydd ar gael wedi ei leihau i 15 munud. Bydd gweddill amser y Llywodraeth ddydd Mercher yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnig cydsyniad deddfwriaethol brys ar y Bil Troseddu Difrifol (memorandwm Rhif 2), dan arweiniad y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

14:18 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, could I seek two statements? I am most grateful to the business and transport Minister for sending a letter to me about road conditions around the Cowbridge bypass—in fairness to the Minister, she addresses winter preparedness—but in my address to you a fortnight ago, seeking a statement, I was focusing more on the engineering of that particular stretch of road. I think you're familiar with it, Minister, being the constituency Member for the Vale of Glamorgan. It is designed in an 's' shape, and I do question whether it is today suitable for modern traffic, which does travel at higher speeds. I would be grateful to try and understand: has the Welsh Government commissioned any surveying work on this particular road to assess the road safety measures that currently exist and whether any other measures should be introduced, given that, as I said in my earlier request, another accident had happened on that piece of road only some two days before?

Weinidog, a gaf fi ofyn am ddau ddatganiad? Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Gweinidog busnes a chludiant am anfon llythyr ataf ynghylch cyflwr y ffyrdd o gwmpas ffordd osgoi'r Bont-faen—er tegwch i'r Gweinidog, mae hi'n rhoi sylw i barodrwydd ar gyfer y gaeaf—ond yn fy anerchiad i chi bythefnos yn ôl, yn gofyn am ddatganiad, roeddwn i'n canolbwyntio mwy ar beirianneg y darn penodol hwnnw o ffordd. Rwy'n meddwl eich bod yn gyfarwydd ag ef, Weinidog, gan mai chi yw Aelod etholaeth Bro Morgannwg. Mae wedi ei gynllunio mewn siâp 's', ac rwy'n cwestiynu a yw'n addas ar gyfer traffig modern heddiw, sydd yn teithio ar gyflymder uwch. Byddwn yn ddiolchgar i geisio deall: a yw Llywodraeth Cymru wedi comisiynu unrhyw waith tirfesur ar y ffordd benodol hon i asesu'r mesurau diogelwch ar y ffyrdd sy'n bodoli ar hyn o bryd a pha un a ddylid cyflwyno unrhyw fesurau eraill, o gofio, fel y dywedais yn fy nghais cynharach, y bu damwain ar y darn hwnnw o ffordd dim ond rhyw ddau ddiwrnod yn gynharach?

I would also request a statement from the Minister in relation to the accident that happened on the M4 on the weekend, just short of Cardiff west service junction. Obviously, there's major engineering work going on at that particular junction. I have highlighted it before in this Chamber. I'm sure the end product will provide for greater safety and greater flow rates of traffic, but there is a real concern over the backlog of traffic that does happen when lanes are closed down on that particularly busy piece of road. I, like others, have grave concerns over the management issues of the traffic on that junction, and I'd be most grateful if the Minister would give consideration to bringing a statement forward as to what safety measures have been put in place to mitigate the road closures around the engineering works that are going on on that particularly busy piece of motorway/A-road intersection.

Hoffwn ofyn hefyd am ddatganiad gan y Gweinidog ar y ddamwain a ddigwyddodd ar yr M4 yn ystod y penwythnos, nid nepell o gyffordd gwasanaethau gorllewin Caerdydd. Yn amlwg, mae gwaith peirianyddol mawr yn cael ei wneud ar y gyffordd benodol honno. Rwyf wedi tynnu sylw ato yn y Siambr hon o'r blaen. Rwy'n siŵr y bydd y cynnyrch terfynol yn darparu ar gyfer mwy o ddiogelwch a chyfraddau llif traffig uwch, ond ceir pryder gwirioneddol am y dagfa draffig sy'n digwydd pan fydd lonydd yn cael eu cau ar y darn o ffordd arbennig o brysur hwnnw. Mae gen i, fel eraill, bryderon sylweddol am y problemau rheoli traffig ar y gyffordd honno, a byddwn yn ddiolchgar iawn pe byddai'r Gweinidog yn ystyried cyflwyno datganiad ar ba fesurau diogelwch a roddwyd ar waith i liniaru'r achosion o gau ffyrdd o gwmpas y gwaith peirianyddol sy'n cael ei wneud ar y darn arbennig o brysur hwnnw o groesffordd traffordd/ffordd A.

14:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Andrew R.T. Davies for those questions, and also welcome the fact that you recognise that the Minister for Economy, Science and Transport did respond to the concerns raised about, of course, that stretch of bypass in my constituency, for Cowbridge, which I am very familiar with. Of course, it does date back to a very early time in terms of highways engineering, which, of course, the Minister will be taking into account in terms of looking at the road safety issues, because road safety issues, of course, are paramount as far as those kinds of stretches are concerned, with highways of that age.

Diolchaf i Andrew R.T. Davies am y cwestiynau yna, ac rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith eich bod yn cydnabod bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ymateb i'r pryderon a godwyd ynghylch, wrth gwrs, y darn hwnnw o ffordd osgoi yn fy etholaeth i, ar gyfer y Bont-faen, yr wyf yn gyfarwydd iawn ag ef. Wrth gwrs, mae'n dyddio'n ôl i gyfnod cynnar iawn o ran peirianneg priffyrdd, y bydd y Gweinidog, wrth gwrs, yn ei gymryd i ystyriaeth o ran edrych ar y materion diogelwch ar y ffyrdd, gan fod materion diogelwch ar y ffyrdd, wrth gwrs, yn hollbwysig cyn belled ag y mae'r mathau hynny o ddarnau o ffyrdd yn y cwestiwn, gyda phriffyrdd sydd mor hen â hynny.

The second point you make is something that is, of course, very regrettable when situations occur, as they did at the weekend. Of course, it was the weekend, not during the rush hour or times when there is a real heavy load of traffic moving for work purposes. But, I know that the Minister is very aware of the road safety issues and lessons learned from the weekend.

Mae'r ail bwynt yr ydych chi'n ei wneud yn rhywbeth i'w resynu'n fawr, wrth gwrs, pan fydd sefyllfaoedd yn digwydd, fel y gwnaethant dros y penwythnos. Wrth gwrs, y penwythnos oedd hi, nid y cyfnod brig nac adeg pan fo llwyth traffig trwm iawn yn symud ar gyfer dibenion gwaith. Ond, gwn fod y Gweinidog yn ymwybodol iawn o'r materion diogelwch ar y ffyrdd a'r gwersi a ddysgwyd o'r penwythnos.

14:21 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On Thursday, Cardiff cycle city will launch its manifesto, which 700 people have fed into. It's got wide cross-party backing, lots of cycling groups are supporting it, and it calls for a united vision to make Cardiff one of the top cycling cities in the UK. Does the Minister agree that our capital city should lead the way in encouraging people to cycle, especially as we know the well-known health benefits of keeping fit? Could we have a statement about how cycling is progressing throughout Wales?

Bydd dinas feicio Caerdydd yn lansio ei maniffesto ddydd Iau, ac mae 700 o bobl wedi cyfrannu ato. Mae wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol eang, mae llawer o grwpiau beicio yn ei gefnogi, ac mae'n galw am weledigaeth unedig i wneud Caerdydd yn un o ddinasoedd beicio gorau'r DU. A yw'r Gweinidog yn cytuno y dylai ein prifddinas arwain y ffordd o ran annog pobl i feicio, yn enwedig gan ein bod yn gwybod am fanteision iechyd adnabyddus cadw'n heini? A allem ni gael datganiad ar y cynnydd y mae beicio'n ei wneud ledled Cymru?

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Cardiff North for that question and, I think, would want very much to congratulate those who have engaged in the Cardiff cycle city, which is launching its manifesto. The fact that there's been such a public engagement, as well as cross-party engagement, shows that, I think, there's every prospect for Cardiff to become the top cycling city in the UK. Also, of course, this is very much in line with our policy—Welsh Government policies—in relation to cycling, and, of course, it's all part of our cross-Government health and wellbeing policy, as well as accessibility, tourism. The enjoyment of cycling, and the ways in which our policies are taken forward very much fit with that. I'm very glad that you have drawn this to our attention today.

Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am y cwestiwn yna ac, rwy'n credu, y byddwn yn sicr eisiau llongyfarch y rhai sydd wedi cymryd rhan yn ninas feicio Caerdydd, sy'n lansio ei maniffesto. Mae'r ffaith y bu cymaint o ymgysylltiad â'r cyhoedd, yn ogystal ag ymgysylltiad ar draws y pleidiau, yn dangos, rwy'n credu, bod pob gobaith i Gaerdydd fod y ddinas feicio fwyaf blaenllaw yn y DU. Hefyd, wrth gwrs, mae hyn yn sicr yn cyd-fynd â'n polisi—polisïau Llywodraeth Cymru—o ran beicio, ac, wrth gwrs, mae'r cyfan yn rhan o'n polisi iechyd a lles ar draws y Llywodraeth, yn ogystal â hygyrchedd, twristiaeth. Mae'r mwynhad o feicio, a'r ffyrdd y mae ein polisïau'n cael eu datblygu yn sicr yn cyd-fynd â hynny. Rwy'n falch iawn eich bod wedi tynnu ein sylw at hyn heddiw.

14:22 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can we have a statement from the transport Minister on the redoubling of the line between Wrexham and Chester, please? A number of concerns: the redoubling has been cut back to around half the original extent promised, leaving around half the distance still on a single line; much of the route will still be restricted to 60 mph; and there is a substantial cost overrun, as I understand it. Anyway, all these concerns have been expressed to us by travellers, and I believe it's incumbent on the Government to make a statement on it.

A gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog trafnidiaeth ar ailddyblu'r rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer, os gwelwch yn dda? Ceir nifer o bryderon: mae'r ailddyblu wedi ei dorri yn ôl i tua hanner y maint gwreiddiol a addawyd, gan adael tua hanner y pellter ar un rheilffordd o hyd; bydd llawer o'r llwybr yn dal i fod wedi'i gyfyngu i 60 milltir yr awr, a gwariwyd yn sylweddol y tu hwnt i'r costau, yn ôl yr hyn a ddeallaf. Beth bynnag, mynegwyd yr holl bryderon hyn i ni gan deithwyr, ac rwy'n credu ei bod yn ddyletswydd ar y Llywodraeth i wneud datganiad yn ei gylch.

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly, the Minister for Economy, Science and Transport will, I'm sure, want to update in terms of this important stretch in terms of the Wrexham and Chester redoubling.

Yn sicr, bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, rwy'n siŵr, eisiau rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y darn pwysig hwn o reilffordd o ran y gwaith ailddyblu rhwng Wrecsam a Chaer.

14:23 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I would like to call on the Minister for infrastructure to make a statement on the district network operators—electricity operators. I have raised a number of times with the Minister for the environment and planning problems around the connection costs of the DNOs and the way that particularly smaller schemes are being priced out of the market in terms of connection to the grid. I know that the Minister is aware of some of the issues, and I know that, in south Wales, a small community scheme has been quoted over £5.7 million to connect to the grid, which seems to me to be a quite unbelievable price. It is an issue that is causing a great number of problems, effectively because of the monopoly position that Western Power Distribution and ScottishPower have in Wales, and I do think it's important to know what negotiations the Minister has been doing with Ofgem, and to highlight some of the problems and issues that we are facing here in Wales. I don't know whether they're unique to Wales or whether they are issues that arise across the network elsewhere, but it is something that I do think we should look at.

Weinidog, hoffwn alw ar y Gweinidog seilwaith i wneud datganiad ar weithredwyr y rhwydwaith ardal—gweithredwyr trydan. Rwyf wedi codi sawl gwaith gyda Gweinidog yr amgylchedd a chynllunio y problemau'n ymwneud â chostau cysylltu gweithredwyr y rhwydwaith ardal a'r ffordd y mae cynlluniau llai yn enwedig yn cael eu prisio allan o'r farchnad o ran y cysylltiad â'r grid. Gwn fod y Gweinidog yn ymwybodol o rai o'r materion, a gwn, yn y de, y rhoddwyd dyfynbris o fwy na £5.7 miliwn i gynllun cymunedol bach i gysylltu â'r grid, y mae'n ymddangos i mi sy'n bris cwbl anghredadwy. Mae'n fater sy'n achosi nifer fawr o broblemau, oherwydd y sefyllfa monopoli sydd gan Western Power Distribution a ScottishPower yng Nghymru i bob pwrpas, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig gwybod pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag Ofgem, ac i dynnu sylw at rai o'r problemau a'r materion yr ydym ni'n eu hwynebu yma yng Nghymru. Nid wyf yn gwybod pa un a ydynt yn unigryw i Gymru, neu a ydynt yn faterion sy'n codi ar draws y rhwydwaith mewn mannau eraill, ond mae'n rhywbeth yr wyf yn credu y dylem ni edrych arno.

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's certainly within our powers. Obviously, this is an issue where we are limited in terms of our powers to intervene, but certainly we would want to look at examples, both positive and negative, in terms of the opportunities. I think that's something that the Minister would want to report back on.

Mae'n sicr o fewn ein pwerau. Yn amlwg, mae hwn yn fater lle'r ydym ni wedi ein cyfyngu o ran ein pwerau i ymyrryd, ond yn sicr byddem yn dymuno edrych ar enghreifftiau, cadarnhaol a negyddol, o ran y cyfleoedd. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y byddai'r Gweinidog yn dymuno adrodd yn ôl arno.

14:25 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn dilyn cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar yr Alban o fewn y Deyrnas Unedig, gyda chymalau pellgyrhaeddol yn diwygio cyfansoddiad yr Alban a phwerau'r Senedd honno, a'r drafodaeth ychydig bach yn swnllyd a gawsom ni yn gynharach rhwng arweinyddion y pleidiau fan hyn, a fyddai'r Gweinidog yn ystyried trefnu dadl yn y Senedd hon er mwyn i ni fel Cynulliad gael ystyried yn llawn yr hyn sydd ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r oblygiadau ar ein cyfer ni?

Following the publication of the UK Government White Paper on Scotland within the UK, with far-reaching clauses that reform the constitution of Scotland and the powers of its Parliament, as well as the rather noisy debate that we had earlier between the party leaders in this place, would the Minister consider arranging a debate in this parliament, so that we as an Assembly can fully consider what's included in the UK Government White Paper, and its implications for us?

14:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Dafydd Elis-Thomas. Of course, we enjoy those lively debates and question times—when they're constructive, particularly, we value them. I do think it's important that we look back to the way in which we could unite across this Chamber in a debate with a motion on the future of devolution for Wales, which was accepted across this Chamber, and of course has been very influential in our negotiations and our discussions leading up to the first part of the St David's Day process. I'm sure there'll be more to report shortly, which we will want to debate.

Diolch yn fawr, Dafydd Elis-Thomas. Wrth gwrs, rydym ni'n mwynhau'r dadleuon a'r amseroedd cwestiynnau bywiog hynny—pan fyddant yn adeiladol, yn arbennig, rydym ni'n eu gwerthfawrogi. Rwyf wir yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn edrych yn ôl ar y ffordd y gallem ni uno ar draws y Siambr hon mewn dadl â chynnig ar ddyfodol datganoli ar gyfer Cymru, a dderbyniwyd ar draws y Siambr hon, ac sydd wedi bod yn ddylanwadol iawn, wrth gwrs, yn ein trafodaethau yn arwain at ran gyntaf proses Dydd Gŵyl Dewi. Rwy'n siŵr y bydd mwy i'w adrodd maes o law, y byddwn eisiau ei drafod.

14:26 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I recently tabled a question to the Minister for Natural Resources on the development of a national marine plan, which resulted in no meaningful answer. Will you, as Minister for Government business, look at an improvement in the way in which Welsh Government Ministers respond to written questions? On the specific issue of the national marine plan, will you facilitate a more substantive statement from the Minister for Natural Resources?

Weinidog, cyflwynais gwestiwn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn ddiweddar ar ddatblygu cynllun morol cenedlaethol, nad arweiniodd at unrhyw ateb ystyrlon. A wnewch chi, fel Gweinidog busnes y Llywodraeth, ystyried gwelliant i'r ffordd y mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ymateb i gwestiynau ysgrifenedig? O ran mater penodol y cynllun morol cenedlaethol, a wnewch chi hwyluso datganiad mwy sylweddol gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol?

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, of course, you have every opportunity to raise these issues in terms of the national marine policy objectives of this Welsh Government, which of course are considerable. You did get a reply from our Minister, and you will have every opportunity, I'm sure, to question him, not only in his oral questions, but also as this policy is developed and implemented. Of course, very importantly, this is an area where we are fully engaged, I would have to say, in terms of the European dimension. I would say, on the recent announcement that we got approval in principle for the Wales-Ireland collaboration, the €100 million is going to be very important in terms of marine policy, which will have a benefit for Wales and Ireland.

Wel, wrth gwrs, ceir pob cyfle i chi godi'r materion hyn o safbwynt amcanion polisi morol cenedlaethol y Llywodraeth Cymru hon, sydd wrth gwrs yn sylweddol. Fe gawsoch ateb gan ein Gweinidog, a bydd pob cyfle i chi, rwy'n siŵr, ei holi, nid yn unig yn ei gwestiynau llafar, ond hefyd wrth i'r polisi hwn gael ei ddatblygu a'i weithredu. Wrth gwrs, yn bwysig iawn, mae hwn yn faes lle'r ydym ni'n ymgysylltu'n llawn, byddai'n rhaid i mi ddweud, o ran y dimensiwn Ewropeaidd. Byddwn yn dweud, ar y cyhoeddiad diweddar ein bod wedi cael cymeradwyaeth mewn egwyddor i fenter gydweithredol Cymru-Iwerddon, bod y €100 miliwn yn mynd i fod yn bwysig iawn o ran polisi morol, a fydd o fudd i Gymru ac Iwerddon.

14:28 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. Last week, in our debate on the Enterprise and Business Committee's inquiry into tourism, I invited the Deputy Minister to commit to making a statement on the future of the tourism investment support scheme. The Deputy Minister didn't have the opportunity to deal with it in his answer, so I would like to re-issue that request now, please. Could such a report not just deal with the future of the scheme, but also report back to this Assembly in terms of the amount of money recuperated from this scheme from successful grantees, and also the measurements of success against business plans put in by various applicants during the course of the lifetime of the scheme?

Diolch, Lywydd. Yr wythnos diwethaf, yn ein dadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i dwristiaeth, gwahoddais y Dirprwy Weinidog i ymrwymo i wneud datganiad ar ddyfodol y cynllun cymorth buddsoddi mewn twristiaeth. Ni chafodd y Dirprwy Weinidog gyfle i roi sylw i'r mater yn ei ateb, felly hoffwn wneud y cais hwnnw eto nawr, os gwelwch yn dda. Oni allai adroddiad o'r fath ymdrin nid yn unig â dyfodol y cynllun ond hefyd adrodd yn ôl i'r Cynulliad hwn o ran y swm o arian a adferwyd o'r cynllun hwn gan y rhai a lwyddodd i dderbyn grant, a hefyd y mesuriadau o lwyddiant yn erbyn cynlluniau busnes a gyflwynwyd gan amryw o ymgeiswyr yn ystod oes y cynllun?

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, of course, the Deputy Minister did respond positively to that request, and he will be making a statement in due course.

Wel, wrth gwrs, ymatebodd y Dirprwy Weinidog yn gadarnhaol i'r cais hwnnw, a bydd yn gwneud datganiad maes o law.

14:29 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, today is Holocaust Memorial Day: 70 years since the liberation of Auschwitz and the close of a war that saw the genocide of 6 million European Jews. Some people, Minister, doubt that we should remember horrors like these in this way, but will you join with me in agreeing that remembrance and commemoration of days such as Holocaust Memorial Day are a vital part of making sure that these types of atrocities never happen again?

Weinidog, heddiw yw Diwrnod Cofio'r Holocost: 70 mlynedd ers rhyddhau Auschwitz a diwedd rhyfel a welodd hil-laddiad 6 miliwn o Iddewon Ewropeaidd. Mae rhai pobl, Weinidog, yn amau pa un a ddylem ni gofio erchyllterau fel y rhain yn y modd hwn, ond a wnewch chi ymuno â mi i gytuno bod cofio a choffáu diwrnodau fel Diwrnod Cofio'r Holocost yn rhan hanfodol o wneud yn siŵr nad yw'r mathau hyn o erchyllterau byth yn digwydd eto?

I wonder whether, on that basis, we could have an update from the Welsh Government on how schools are being supported in educating young people about some of the worst horrors of human history. How can they be supported to make sure that that act of remembrance isn't just important today, but continues to be important in the future, to avoid these horrors of human history happening again?

Tybed, ar y sail honno, a allem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar sut mae ysgolion yn cael eu cefnogi i addysgu pobl ifanc am rai o erchyllterau gwaethaf hanes dynol. Sut y gellir eu cefnogi i wneud yn siŵr bod y weithred o goffau nid yn unig yn bwysig heddiw, ond yn parhau i fod yn bwysig yn y dyfodol, er mwyn atal yr erchyllterau hyn o hanes dynol rhag digwydd eto?

14:30

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, I thank Nick Ramsay very much for, again, making sure that we can acknowledge in this Chamber today the importance of Holocaust Memorial Day, particularly in terms of the fact that it is 70 years. And looking at the fact that, all across Wales, I believe, not only civic services—an exhibition in my constituency, involving local schools, which is very important—there are so many ways in which Wales is rising up in support of Holocaust Memorial Day.

Wel, diolchaf yn fawr iawn i Nick Ramsay, unwaith eto, am wneud yn siŵr y gallwn gydnabod pwysigrwydd Diwrnod Cofio'r Holocost yn y Siambr hon heddiw, yn enwedig o ran y ffaith ei bod yn 70 mlynedd. Ac edrych ar y ffaith, ar draws Cymru gyfan, rwy'n credu, nid yn unig gwasanaethau dinesig—arddangosfa yn fy etholaeth i, yn cynnwys ysgolion lleol, sy'n bwysig iawn—bod cymaint o ffyrdd y mae Cymru'n codi i gefnogi Diwrnod Cofio'r Holocost.

Of course, this is something that our Minister for Education and Skills has taken a key role in, in supporting schools, and also, of course, our Minister for Communities and Tackling Poverty, who joined the First Minister, and, indeed, I think, leaders form across the Chamber, at the national service of remembrance, with the Presiding Officer, today. I shall be wearing my badge, not just today in memory, but also knowing that this is something that can ensure that we spread that message, and educate our young people—as they are willing to respond to, I was very clear, from the responses across Wales over the last few days.

Wrth gwrs, mae hyn yn rhywbeth y mae ein Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cyflawni swyddogaeth allweddol ynddo, o ran cefnogi ysgolion, a hefyd, wrth gwrs, ein Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a ymunodd â'r Prif Weinidog, ac, yn wir, rwy'n credu, arweinwyr o bob rhan o'r Siambr, yn y gwasanaeth coffa cenedlaethol, gyda'r Llywydd, heddiw. Byddaf yn gwisgo fy mathodyn, nid yn unig heddiw i goffau, ond hefyd gan wybod bod hyn yn rhywbeth a all sicrhau ein bod yn lledaenu'r neges honno, ac addysgu ein pobl ifanc—gan eu bod yn barod i ymateb iddi, roeddwn i'n eglur iawn, o'r ymatebion ar draws Cymru dros yr ychydig ddiwrnodau diwethaf.

14:31

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

14:31

# 3. Datganiad: Cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

# 3. Statement: Introduction of the Local Government (Wales) Bill

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, which is a statement by the Minister for Public Services, on the introduction of the Local Government (Wales) Bill. I call on Leighton Andrews.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, ar gyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Galwaf ar Leighton Andrews.

14:31

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Lywydd, ddoe cyflwynais Fil Llywodraeth Leol (Cymru) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â'r memorandwm esboniadol. Hwn yw'r cyntaf o ddau Fil a fydd yn gweithredu ein hagenda ar gyfer diwygio llywodraeth leol, fel y nodwyd yn y Papur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol y llynedd.

Presiding Officer, yesterday I introduced the Local Government (Wales) Bill before the National Assembly for Wales, along with the explanatory memorandum. This is the first of two Bills that will implement our agenda for the reform of local government, as set out in the White Paper on the reform of local government last year.

These proposals, and the further White Paper I'll be issuing next week, move us significantly beyond Williams. Our vision is for open and transparent councils, with elected members who represent the diverse range of people in their communities. We aim to forge a new relationship between local authorities and the communities they serve, and between the Welsh Government and local government. We intend to create a framework for local authorities that will be capable of playing a key role in shaping the future of public services in Wales. This will mean a seismic cultural shift in our local authorities.

Mae'r cynigion hyn, a'r Papur Gwyn pellach y byddaf yn ei gyhoeddi yr wythnos nesaf, yn ein symud yn sylweddol y tu hwnt i Williams. Ein gweledigaeth yw cynghorau agored a thryloyw, sydd ag aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r ystod amrywiol o bobl yn eu cymunedau. Ein nod yw meithrin perthynas newydd rhwng awdurdodau lleol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Rydym yn bwriadu creu fframwaith i awdurdodau lleol a fydd yn gallu chwarae rhan allweddol yn y broses o lunio dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hyn yn golygu newid diwylliannol aruthrol yn ein hawdurdodau lleol.

I'm not simply intending to create bigger councils going about their business in the same way as our existing authorities. We need fundamental reform that will lead to a profound change in the way councils work and deliver for their communities. Primarily, as our White Paper next week will make clear, this is about leadership. This is a once-in-a-lifetime opportunity to remodel local government in Wales, a system where councils are engaged in delivering modern, accessible, high-quality services for, and with, their communities. This Bill lays the groundwork for these reforms.

Nid dim ond creu cynghorau mwy, yn cynnal eu busnes yn yr un modd â'n hawdurdodau presennol, yw fy mwriad. Rydym angen diwygiad sylfaenol a fydd yn arwain at newid sylweddol yn y ffordd y mae cynghorau'n gweithio ac yn darparu ar gyfer eu cymunedau. Yn bennaf, fel y bydd ein Papur Gwyn yr wythnos nesaf yn egluro, mater o arweinyddiaeth yw hyn. Mae hwn yn gyfle unwaith mewn oes i ailfodelu llywodraeth leol yng Nghymru, system lle mae cynghorau'n darparu gwasanaethau modern, hygyrch, o ansawdd uchel ar gyfer, a chyda, eu cymunedau. Mae'r Bil hwn yn gosod sylfeini'r diwygiadau hyn.

The Bill, if passed, provides for certain preparatory work to enable a programme of local authority mergers. Earlier today, I issued a written statement, following my consideration of the three formal expressions of interest for voluntary merger received from local authorities. In light of that statement, I will give further consideration to the voluntary merger provisions included in the Bill during the legislative process.

Mae'r Bil, os caiff ei basio, yn darparu ar gyfer gwaith paratoadol penodol i alluogi rhaglen o uno awdurdodau lleol. Yn gynharach heddiw, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig, ar ôl imi ystyried y tri mynegiant ffurfiol o ddiddordeb mewn uno gwirfoddol a gafwyd gan awdurdodau lleol. Yng ngoleuni'r datganiad hwnnw, byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r darpariaethau uno gwirfoddol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn ystod y broses ddeddfwriaethol.

Previous experience of local government reorganisations points to the need for effective co-operation between merging authorities if the process is to be as smooth, constructive and productive as possible. The Bill places a duty on the Welsh Ministers to require merging authorities to co-operate through the establishment of transition committees. Responses to consultation on last year's White Paper supported the need for the early establishment of transition committees, to ensure certain preparatory work takes place prior to the establishment of shadow authorities. Transition committees for the new principal areas to be created by our second proposed Bill will be established as soon as practicable after that Bill is introduced into the Assembly in the autumn of 2016.

Mae profiad blaenorol o ad-drefnu llywodraeth leol yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i awdurdodau sy'n uno gydweithio'n effeithiol er mwyn i'r broses fod mor llyfn, mor adeiladol ac mor gynhyrchiol ag y bo modd. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fynnu bod awdurdodau sy'n uno yn cydweithredu drwy sefydlu pwyllgorau pontio. Roedd ymatebion i ymgynghoriad ar Bapur Gwyn y llynedd yn cefnogi'r angen i sefydlu pwyllgorau pontio'n gynnar, er mwyn sicrhau bod gwaith paratoi penodol yn digwydd cyn sefydlu awdurdodau cysgodol. Bydd pwyllgorau pontio'r prif ardaloedd newydd sydd i'w creu gan ein hail Fil arfaethedig yn cael eu sefydlu cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno i'r Cynulliad yn ystod hydref 2016.

The Bill we are concerned with today also makes provision to minimise the opportunity for negative behaviour by introducing procedures where the advice of the transition committee, or, when established, the written consent of the shadow authority, is required in respect of certain transactions above a value prescribed in the Bill—for example, entering into long-term revenue or capital contracts.

Mae'r Bil yr ydym yn sôn amdano heddiw hefyd yn darparu ar gyfer lleihau'r cyfle i ymddwyn yn negyddol drwy gyflwyno gweithdrefnau lle mae angen cyngor y pwyllgor pontio, neu, ar ôl ei sefydlu, caniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cysgodol, ar gyfer rhai trafodion penodol sy'n uwch na'r gwerth a ragnodir yn y Bil—er enghraifft, ymrwymo i gontractau refeniw neu gyfalaf hirdymor.

Existing legislation only allows the Local Democracy and Boundary Commission for Wales to conduct electoral arrangements reviews of existing principal areas. The Bill, therefore, provides for reviews to be undertaken of proposed principal areas and for recommendations to be made to the Welsh Ministers. The Welsh Ministers may make regulations implementing the recommendations with or without modification. This will enable the new authorities to be launched on the basis of new electoral arrangements proposed by the commission.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Lleol Cymru gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol dim ond yn y prif ardaloedd presennol. Mae'r Bil, felly, yn darparu ar gyfer cynnal adolygiadau o brif ardaloedd arfaethedig ac ar gyfer gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i weithredu'r argymhellion gydag addasiadau neu hebddynt. Bydd hyn yn ein galluogi i lansio'r awdurdodau newydd ar sail trefniadau etholiadol newydd a gynigir gan y comisiwn.

The Bill makes similar provision enabling the Welsh Ministers to require the independent remuneration panel for Wales to undertake its functions on councillors' pay in relation to shadow authorities and proposed new principal local authorities. The Bill also temporarily extends the remit of the panel to include a requirement for local authorities to seek the views of the panel in respect of variations to the pay of all chief officers of all principal local authorities in addition to their existing role as regards chief executives' pay. The Bill increases the maximum number of panel members from five to six, and allows for further change if required, in recognition of the anticipated increase in workload.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth debyg i alluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol bod panel taliadau annibynnol Cymru'n cyflawni ei swyddogaethau ar gyflogau cynghorwyr ar gyfer awdurdodau cysgodol a phrif awdurdodau lleol newydd arfaethedig. Mae'r Bil hefyd yn ymestyn cylch gorchwyl y panel dros dro i gynnwys gofyniad bod awdurdodau lleol yn gofyn am farn y panel am amrywiadau i gyflog pob prif swyddog o bob prif awdurdod lleol yn ogystal â'u swyddogaeth bresennol yn ymwneud â chyflog prif weithredwyr. Mae'r Bil yn cynyddu uchafswm nifer aelodau'r panel o bump i chwech, ac yn caniatáu ar gyfer newid pellach os bydd angen hynny, er mwyn cydnabod y cynnydd a ragwelir yn y llwyth gwaith.

In line with the recommendations to the expert group on diversity, the Bill amends the Local Government (Wales) Measure 2011 to enable local authorities to distribute questionnaires for the survey of candidates at local elections prior to an election. It also clarifies that an authority may arrange for the survey to be conducted by a third party. The Bill also amends the Local Democracy (Wales) Act 2013 to remove any legal uncertainty as to the Welsh Ministers' powers to implement the recommendations of electoral arrangements reviews completed by the former Local Government Boundary Commission for Wales.

Yn unol ag argymhellion i'r grŵp arbenigol ar amrywiaeth, mae'r Bil yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i alluogi awdurdodau lleol i ddosbarthu holiaduron ar gyfer yr arolwg o ymgeiswyr mewn etholiadau lleol cyn etholiad. Mae hefyd yn egluro y caiff awdurdod drefnu bod trydydd parti'n cynnal yr arolwg. Mae'r Bil hefyd yn diwygio Deddf Democratiaeth Leol (Cymru) 2013 i gael gwared ar unrhyw ansicrwydd cyfreithiol ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru i weithredu argymhellion adolygiadau o drefniadau etholiadol a gwblhawyd gan gyn Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru.

Mae'r gwaith o ddiwygio llywodraeth leol wedi dechrau. Mae'r Bil hwn yn cynnwys darpariaethau pwysig a fydd yn galluogi a chefnogi'r diwygio hwnnw. Rwy'n edrych ymlaen at sylwadau'r Aelodau.

The work of reforming local government has commenced. This Bill contains important provisions that will enable and allow this reform. I look forward to hearing Members' comments.

14:36

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

This is the first of three statements this afternoon and I have a large number of people who wish to speak on each of them. So, I remind people that this is an opportunity to ask questions of the Minister and not make long speeches.

Dyma'r cyntaf o dri datganiad y prynhawn yma ac mae gen i nifer fawr o bobl sy'n dymuno siarad am bob un ohonynt. Felly, rwyf yn atgoffa pobl mai cyfle i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog yw hwn, ac nid i wneud areithiau hir.

14:37 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Minister, today we should have actually been responding and welcoming the reform in the local government Bill, and, not before time, should I say, looking at ways to pass forward legislation that would see reform to local government in Wales. Part of that, of course, was to include the facilitating and incentivising of voluntary mergers. Now, your earlier statement today actually contradicts the Bill that you're now wishing to introduce. I have to say, as a Member from north Wales, with my own constituency of Conwy, the demoralisation that you have caused with your statement is insurmountable. Here we had expressions of interest; they came in on time and they did fit the criteria. The Chartered Institute of Public Finance and Accountancy report actually supported a lot of the expression of interest detail that you had, and you said here in this Chamber, when I questioned you about the timetable and your ability to reform local government in this way, that the expressions of interest coming through for that day were only the early stages and that the devil in the detail would come through in the established business cases at stage 2. Really, you have left local government now, particularly in north Wales, with hardworking front-line staff, senior officers, officers across the divide, and also elected members not knowing really whether you do have any idea, any vision or any strategy indeed for going forward.

Wel, Weinidog, heddiw dylem mewn gwirionedd fod wedi bod yn ymateb i'r diwygiad yn y Bil llywodraeth leol ac yn ei groesawu, ac, o'r diwedd, a gaf fi ddweud, yn edrych ar ffyrdd o basio deddfwriaeth a fyddai'n diwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Rhan o hynny, wrth gwrs, oedd cynnwys hwyluso a chymell uno gwirfoddol. Nawr, mae eich datganiad yn gynharach heddiw mewn gwirionedd yn gwrth-ddweud y Bil yr ydych yn awr yn dymuno ei gyflwyno. Mae'n rhaid imi ddweud, fel Aelod o'r gogledd, gyda fy etholaeth fy hun yng Nghonwy, bod y digalondid yr ydych wedi'i achosi â'ch datganiad yn anorchfygol. Yma cawsom ddatganiadau o ddiddordeb; cawsom hwy mewn pryd ac roeddent yn bodloni'r meini prawf. Roedd adroddiad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth mewn gwirionedd yn cefnogi llawer o'r manylion mynegiant o ddiddordeb a gawsoch, a dywedasoch yma yn y Siambr hon, pan holais chi am yr amserlen a'ch gallu i ddiwygio llywodraeth leol yn y modd hwn, mai dim ond y camau cynnar oedd y datganiadau o ddiddordeb a gafwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw ac y byddai'r manylion yn dod i'r amlwg yn yr achosion busnes sefydledig yng ngham 2. Yn wir, diolch i chi, nid yw llywodraeth leol erbyn hyn, yn enwedig yn y gogledd, gyda staff rheng-flaen sy'n gweithio'n galed, uwch swyddogion, swyddogion ar draws y rhaniad, a hefyd aelodau etholedig, yn gwybod mewn gwirionedd pa un a oes gennych unrhyw syniad, unrhyw weledigaeth neu unrhyw strategaeth yn wir ar gyfer symud ymlaen.

Minister, can you be honest—? You talk about transparency and accountability with local government, and about scrutiny. Can you be honest with the Chamber today and tell us why the Conwy and Denbighshire model in particular doesn't meet the criteria? Just tell us the truth. And also, is there not a bigger agenda here, in terms of the time when I questioned you on how many number of authorities, when the figure six was something that you said came from senior members of your own party?

Weinidog, a allwch chi fod yn onest—? Rydych yn sôn am dryloywder ac atebolrwydd gyda llywodraeth leol, ac am graffu. A allwch chi fod yn onest â'r Siambr heddiw a dweud wrthym pam nad yw model Conwy a Sir Ddinbych yn benodol yn bodloni'r meini prawf? Dywedwch y gwir wrthym. A hefyd, onid oes agenda fwy yma, o ran pryd yr holais chi am nifer yr awdurdodau, pan oedd y ffigur chwech yn rhywbeth y dywedasoch a ddaeth gan uwch aelodau eich plaid eich hun?

Minister, I've described your approach—and you are, incidentally, as I've reminded you before, Minister no. 3, since I've been shadow Minister in this Assembly term. But there just doesn't seem to be any vision or any strategy, and we want to know where you stand now. Our local authorities in Wales, not just Conwy and Denbighshire, and not the others that have come through—and I have to say, any Minister that set out with these proposals and wrote to 22 authorities—. I shared your disappointment when only 11 responded. Four local authorities didn't quite match the criteria, but Conwy and Denbighshire did. I ask you: they decided to engage with you; you practically had Conwy and Denbighshire eating out of your hands. All we were waiting for was your commitment to some financial incentive, but instead you've pulled the rug. Explain to this Chamber and explain to the people out there why you have moved the goalposts and why you have changed the criteria, because, frankly, I actually think that you really don't know what you're doing now as regards the reformation of local government.

Weinidog, rwyf wedi ei ddisgrifio eich dull—a chi, gyda llaw, fel yr wyf wedi eich atgoffa o'r blaen, yw Gweinidog rhif 3, ers imi fod yn Weinidog yr wrthblaid yn y tymor Cynulliad hwn. Ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw weledigaeth nac unrhyw strategaeth, ac rydym eisiau gwybod ble'r ydych chi'n sefyll nawr. Mae ein hawdurdodau lleol yng Nghymru, nid dim ond Conwy a Sir Ddinbych, ac nid y lleill sydd wedi dod drwodd—ac mae'n rhaid imi ddweud, unrhyw Weinidog a ddechreuodd â'r cynigion hyn ac a ysgrifennodd at 22 o awdurdodau—. Roeddwn yn rhannu eich siom pan mai dim ond 11 a ymatebodd. Roedd pedwar awdurdod lleol nad oeddent yn llwyr fodloni'r meini prawf, ond nid oedd hynny'n cynnwys Conwy a Sir Ddinbych. Gofynnaf ichi: hwy a benderfynodd ymgysylltu â chi; roedd Conwy a Sir Ddinbych yn gwneud mwy neu lai yn union yr hyn a ofynnwyd gennych. Y cyfan yr oeddem yn aros amdano oedd eich ymrwymiad i ryw gymhelliant ariannol, ond yn lle hynny, rydych wedi eu gadael ar y clwt. A wnewch chi egluro i'r Siambr hon ac egluro i'r bobl y tu allan pam yr ydych wedi symud y pyst a pham yr ydych wedi newid y meini prawf, oherwydd, a siarad yn blaen, mewn gwirionedd, nid wyf yn meddwl eich bod wir yn gwybod beth yr ydych yn ei wneud nawr o ran diwygio llywodraeth leol.

The CIPFA report, as I said, was quite strong. You're the one shifting the goalposts. [Interruption.] Come on, let's have some transparency, some accountability, and spell out to the people in Wales and to the Assembly Members here, who are charged with scrutinising—tell us what your vision is, and tell us the real reasons why you have failed, so far, in your aims to reform local government.

Roedd adroddiad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, fel y dywedais, yn eithaf cryf. Chi yw'r un sy'n symud y pyst. [Torri ar draws.] Dewch, beth am inni gael rhywfaint o dryloywder, rhywfaint o atebolrwydd, a'i gwneud yn glir i'r bobl yng Nghymru ac i Aelodau'r Cynulliad yma, sy'n gyfrifol am graffu—dywedwch wrthym beth yw eich gweledigaeth, a dywedwch wrthym y gwir resymau pam yr ydych wedi methu, hyd yn hyn, yn eich nod o ddiwygio llywodraeth leol.

14:41

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Llywydd, quite extraordinary. According to the Member for Aberconwy, I should simply have rubber-stamped any expression of interest that came before me. Well, I'm afraid I wasn't prepared to do that. I've spoken to six leaders this morning, all of whom, I think, were disappointed with the fact that we had turned down the proposals that they had put forward, but it is our job to evaluate the expressions of interest against the criteria that we set out in the prospectus for voluntary mergers, and that we have done and we have made judgments on each of the expressions of interest on their own merits. What would have been irresponsible, bluntly, would have been to put through any expression of interest in which we had no confidence and then subsequently jettisoned it at the next stage. That would have done nothing for the confidence of local government staff, local government elected members or, indeed, local people. In fact, that would have been precisely the wrong thing to do. Therefore, I am very clear that the decision today was the decision that we had to take.

Mae hyn yn anhygoel, Lywydd. Yn ôl Aelod Aberconwy, yr oll y dylwn fod wedi ei wneud oedd rhoi sêl bendith i unrhyw fynegiant o ddiddordeb a ddaeth ger fy mron. Wel, mae gen i ofn nad oeddwn i'n fodlon gwneud hynny. Rwyf wedi siarad â chwech o arweinwyr y bore yma, ac roedd pob un ohonynt, rwyf yn meddwl, yn siomedig â'r ffaith ein bod wedi gwrthod y cynigion yr oeddent wedi'u cyflwyno, ond ein gwaith ni yw gwerthuso'r datganiadau o ddiddordeb yn erbyn y meini prawf y gwnaethom eu nodi yn y prosbectws ar gyfer uno gwirfoddol, ac rydym wedi gwneud hynny ac rydym wedi gwneud dyfarniad ar bob un o'r datganiadau o ddiddordeb ar ei rinweddau ei hun. Yr hyn a fyddai wedi bod yn anghyfrifol, i fod yn blwmp ac yn blaen, fyddai cytuno ag unrhyw fynegiant o ddiddordeb nad oedd gennym unrhyw hyder ynddo ac yna cael gwared ag ef ar y cam nesaf. Ni fyddai hynny wedi gwneud dim i hyder staff llywodraeth leol, aelodau etholedig llywodraeth leol nac, yn wir, pobl leol. Dyna, mewn gwirionedd, fyddai wedi bod yn union y peth anghywir i'w wneud. Felly, rwyf yn glir iawn mai'r penderfyniad heddiw oedd y penderfyniad yr oedd yn rhaid inni ei wneud.

She asked me specifically in respect of Denbighshire and Conwy, and, as I have said to the leaders this morning, we had concerns about the robustness of their expression of interest; we did not feel that it sufficiently met the minimum requirements of the prospectus; we thought there were areas that required significant extra work; and we did not consider that the authorities, in the timescales available to them, could move sufficiently quickly to develop a comprehensive merger proposal. Further, we felt that the expression of interest submitted did not set out a clear vision for the new authority, and we were also concerned with a lack of engagement and consultation on the proposal locally. Now, it is quite open to all Members to read the expressions of interest, because they are available, as my written statement said, on the websites of the local authorities involved. I invite them to read them and to take a proper judgment against the factors set out in the prospectus for voluntary mergers.

Gofynnodd imi'n benodol am Sir Ddinbych a Chonwy, ac, fel yr wyf wedi dweud wrth yr arweinwyr y bore yma, roedd gennym bryderon ynghylch cadernid eu datganiad o ddiddordeb; nid oeddem yn teimlo ei fod yn bodloni gofynion sylfaenol y prosbectws yn ddigonol; roeddem yn meddwl bod angen llawer o waith ychwanegol mewn rhai meysydd; ac nid oeddem yn credu y gallai'r awdurdodau, yn yr amserlenni a oedd ar gael iddynt, symud yn ddigon cyflym i ddatblygu cynnig cynhwysfawr i uno. Ymhellach, nid oeddem yn teimlo bod y datganiad o ddiddordeb a gyflwynwyd yn amlinellu gweledigaeth glir ar gyfer yr awdurdod newydd, ac roeddem yn poeni hefyd am ddiffyg ymgysylltu ac ymgynghori ar y cynnig yn lleol. Nawr, mae cyfle i bob Aelod ddarllen y datganiadau o ddiddordeb, oherwydd maent ar gael, fel y dywedwyd yn fy natganiad ysgrifenedig, ar wefannau'r awdurdodau lleol dan sylw. Rwyf yn eu gwahodd i'w darllen ac i ffurfio barn briodol yn erbyn y ffactorau a nodir yn y prosbectws ar gyfer uno gwirfoddol.

14:43

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Local government has done great work. Historically, we've had Joseph Chamberlain in Birmingham; the Poplar Labour councillors; London County Council and the Inner London Education Authority developing comprehensive education; and, closer to home, the development of nursery provision by Glamorgan County Council; the redevelopment of the lower Swansea valley by Swansea council; and, of course, the provision of post-war council housing, which many—certainly on our side—had the great benefit of.

Mae llywodraeth leol wedi gwneud gwaith gwych. Yn hanesyddol, bu gennym Joseph Chamberlain yn Birmingham; cynghorwyr Llafur Poplar; Cyngor Sir Llundain ac Awdurdod Addysg Llundain Fewnol yn datblygu addysg gynhwysfawr; ac, yn nes at adref, datblygiad darpariaeth feithrin gan Gyngor Sir Morgannwg; ailddatblygu cwm Tawe isaf gan gyngor Abertawe; ac, wrth gwrs, darparu tai cyngor ar ôl y rhyfel, a fu o fudd mawr i lawer—yn sicr ar ein hochr ni.

Many services have been removed from local authorities at or around previous reorganisations—things like water. I can think of no service that has been better provided after being removed from local government control than it was when run by the councils. From my experience of the last reorganisation, it is very important to get effective co-operation between merging authorities, and as soon as possible. Also from my experience of being a member of a transition committee, they are needed as soon as the make-up of the merged authorities is agreed. It's important to get people talking about how the new authorities are going and to get them thinking forward rather than thinking backwards to the authorities they're coming from.

Mae llawer o wasanaethau wedi cael eu cymryd oddi ar awdurdodau lleol yn ystod neu o amgylch ad-drefniadau blaenorol—pethau fel dŵr. Ni allaf feddwl am unrhyw wasanaeth a ddarparwyd yn well ar ôl cael ei gymryd oddi ar reolaeth llywodraeth leol nag yr oedd pan oedd y cynghorau'n ei gynnal. O fy mhrofiad i o'r ad-drefnu diwethaf, mae'n bwysig iawn sicrhau cydweithio effeithiol rhwng awdurdodau sy'n uno, a hynny cyn gynted ag y bo modd. Hefyd o fy mhrofiad i o fod yn aelod o bwyllgor pontio, mae eu hangen cyn gynted ag y ceir cytundeb ynglŷn â chyfansoddiad yr awdurdodau unedig. Mae'n bwysig bod pobl yn siarad am sut y mae pethau'n mynd yn yr awdurdodau newydd a'u bod yn meddwl ymlaen yn hytrach nag yn meddwl yn ôl am yr awdurdodau y maent yn dod ohonynt.

I have three questions. What is the value of capital contracts that will need the written consent of the transition committee? At the last local government reorganisation, that figure was laid down so local authorities knew what did and what didn't have to be put forward. Whilst welcoming the seeking of the view of the remuneration panel in respect of all chief officers, will the Minister ask the panel to produce a salary guide based on authority size? Finally, what impact will the rejection of the voluntary mergers have on the creation of a public service staff commission, and will that body be created by the end of next month as was originally planned?

Mae gennyf dri chwestiwn. Beth yw gwerth y contractau cyfalaf y bydd angen caniatâd ysgrifenedig y pwyllgor pontio ar eu cyfer? Yn yr ad-drefnu llywodraeth leol diwethaf, cafodd y ffigur hwnnw ei bennu fel bod awdurdodau lleol yn gwybod beth oedd rhaid a beth nad oedd rhaid ei gyflwyno. Er fy mod yn croesawu ceisio barn y panel taliadau am bob prif swyddog, a fydd y Gweinidog yn gofyn i'r panel gynhyrchu canllaw cyflog yn seiliedig ar faint yr awdurdod? Yn olaf, pa effaith a gaiff gwrthod yr uno gwirfoddol ar greu comisiwn staff gwasanaethau cyhoeddus, ac a gaiff y corff hwnnw ei greu erbyn diwedd y mis nesaf fel y bwriadwyd yn wreiddiol?

14:45

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank my colleague the Member for Swansea East for his comments? He is absolutely right to draw attention to the historic role of local government in Wales and in Great Britain in general. It is very important, I think, that we recognise that. When we come to publish our White Paper next week we will have rather more to say about that.

A gaf fi ddiolch i fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, am ei sylwadau? Mae'n gwbl gywir i dynnu sylw at y rhan hanesyddol y mae llywodraeth leol wedi'i chwarae yng Nghymru ac ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol. Mae'n bwysig iawn, yn fy marn i, ein bod yn cydnabod hynny. Pan ddown i gyhoeddi ein Papur Gwyn yr wythnos nesaf, bydd gennym dipyn mwy i'w ddweud am hynny.

He asked specific questions and I will say to him that I want to discuss some of those in more detail as we take the Bill through. But in respect of transaction values, these are set out in the Bill, for example, in respect of acquisition and disposal of land to £150,000 non-capital contracts to £150,000, capital contracts to £0.5 million and awards of grants and other financial assistance at £150,000. So, those figures are there in the Bill. He is absolutely right to talk about the importance of transition committees. Again, I would welcome a further discussion with him about his previous experiences in this area where I think we can draw on those. We're giving further consideration to the question of the staff commission and the timing of that. As he will know, we have had a consultation on the staff commission, which concluded in the second week of January, and we will publish our conclusions in respect of that in due course.

Gofynnodd gwestiynau penodol ac rwyf am ddweud wrtho yr hoffwn drafod rhai o'r rheini'n fanylach wrth inni fwrw ymlaen â'r Bil. Ond o ran gwerthoedd trafodion, nodir y rhain yn y Bil, er enghraifft, ar gyfer caffael a gwaredu tir at £150,000, contractau nad ydynt yn gyfalaf at £150,000, contractau cyfalaf at £0.5 miliwn a dyfarniadau grantiau a chymorth ariannol arall at £150,000. Felly, mae'r ffigurau hynny yno yn y Bil. Mae yn llygad ei le i sôn am bwysigrwydd pwyllgorau pontio. Unwaith eto, byddwn yn croesawu trafodaeth bellach ag ef am ei brofiadau blaenorol yn y maes hwn lle'r wyf yn meddwl y gallwn elwa arnynt. Rydym yn rhoi ystyriaeth bellach i'r cwestiwn am y comisiwn staff ac amseriad hynny. Fel y bydd yn gwybod, rydym wedi cael ymgynghoriad am y comisiwn staff, a ddaeth i ben yn ystod ail wythnos mis Ionawr, a byddwn yn cyhoeddi ein casgliadau am hynny maes o law.

14:46 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rydych wedi dweud mewn ymateb i Janet Finch-Saunders na allech chi gymeradwyo'r ceisiadau hyn heb roi sylw manwl iddyn nhw. Nawr, petai'r broses yma wedi dechrau yn ystod eich cyfnod chi fel Gweinidog, fe ellid deall hynny. Ond, rydym yn mynd yn ôl gryn amser, ac fe sefydlwyd comisiwn Williams gan y Llywodraeth Lafur, gan y Prif Weinidog, yn ôl yn 2013. Fe gafwyd adroddiad, a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog, ac mewn ymateb fe ddywedodd y Prif Weinidog fod hwn yn fater o frys ac fe ddywedodd y byddai'n gallu gosod safbwynt y Blaid Lafur ger ein bron ni o fewn misoedd. Flwyddyn yn ddiweddarach, Weinidog, does gennym ddim y syniad lleiaf beth yw bwriadau'r Llywodraeth Lafur. A allwch chi esbonio wrthym ni prynhawn yma pam y sefydlwyd comisiwn Williams gan y Prif Weinidog ddwy flynedd yn ôl i edrych ar y mater yma? Pam ddywedodd y Prif Weinidog, pan dderbyniodd e gomisiwn Williams, fod yn rhaid ymateb ar frys i'r argymhellion hynny? Pam ddywedodd e y byddai mewn sefyllfa i gyflwyno safbwynt y Blaid Lafur o fewn wythnosau, o fewn misoedd, erbyn yr haf y llynedd, ac eto rydyn ni yn dal ddim yn gwybod beth yw safbwynt y Blaid Lafur?

Minister, you have said in response to Janet Finch-Saunders that you couldn't approve these proposals without giving them detailed attention. Now, if this process had begun during your tenure as Minister, we could understand that. But, we go back quite a long time, and the Williams commission was established by the Labour Government, by the First Minister, back in 2013. A report was presented to the First Minister, and in response, the First Minister said that this was a matter of urgency and he said that he would be able to give the view of the Labour Party on this within months. A year later, Minister, we don't have the slightest idea what the intentions of the Labour Government are. Can you explain to us this afternoon why the Williams commission was set up by the First Minister two years ago to look at this issue? Why did the First Minister say, when he received the Williams commission, that he had to respond with urgency to those recommendations? Why did he say that he would be in a position to present the Labour Party's views within weeks, within months, by last summer, yet we still don't know what the Labour Party's stance is on this?

Yn y datganiad y prynhawn yma, rydych yn cyfeirio at gynnig arweiniad, Weinidog. Rwy'n tybio bod eich tafod chi yn eich boch chi pan rydych yn sôn am arweiniad, oherwydd does dim arweiniad. Does neb yng Nghymru yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd bellach. Mae gennym Fil ger ein bron ar gyfer proses sydd ddim yn bodoli ar hyn o bryd, oherwydd rydych wedi troi lawr y tri chynnig ar gyfer symud tuag at gyfuno gwirfoddol. Beth ydych chi'n ei ddweud wrth awdurdodau lleol ledled Cymru? Maen nhw'n wynebu toriadau arswydus yn eu cyllid a nawr maen nhw'n wynebu cyfnod arall o ansicrwydd. Does ganddyn nhw ddim y syniad lleiaf pryd fydd yr etholiadau nesaf. Does ganddyn nhw ddim y syniad lleiaf beth fydd yn digwydd o ran eu sefyllfa nhw fel awdurdodau unigol neu fel awdurdodau a fydd wedi cyfuno. Nid ydynt yn gwybod a ydynt i fod i symud yn awr i gynnig ceisiadau gwirfoddol i wneud hynny ynteu a ydych chi'n mynd i benderfynu ar hyn. Os mai chi sy'n mynd i benderfynu, Weinidog, pam na ddowch chi gerbron y Senedd, cyflwyno eich map i ni o ran awdurdodau lleol yng Nghymru, a chyflwyno i ni sut ydych yn bwriadu darparu gwasanaethau yng Nghymru? Onid y gwir amdani, yng nghyd-destun cyfuno gwirfoddol Conwy a Dinbych, yw mai'r unig wrthwynebiad oedd gennych oedd nad ydych am weld mwy na dau awdurdod lleol yng ngogledd Cymru? Onid dyna'r gwir, Weinidog? Ac os mai dyna'r gwir, dewch ger ein bron ni a dweud hynny wrthon ni.

In the statement this afternoon, you allude to providing leadership, Minister. I assume that your tongue is firmly in your cheek when you talk about leadership, because there is no leadership. No-one in Wales knows what is going to happen now. We have a Bill before us for a process that doesn't exist at the moment, because you've turned down the three proposals for moving towards a voluntary merger. What do you say to local authorities across Wales? They face swingeing cuts in their funding and now they face another period of uncertainty. They haven't got the slightest idea when the next elections will be held. They haven't got the slightest idea what will happen to them as individual authorities or as merged authorities. They don't know whether they should move now to propose voluntary mergers or whether you are going to determine this. If it is you who will decide, Minister, why don't you come before the Senedd, present your map of local authorities in Wales to us, and tell us how you intend to deliver services in Wales? Isn't the truth of the matter, in the context of the voluntary merger of Conwy and Denbighshire, that the only objection was that you didn't want to see more than two local authorities in north Wales? Isn't that the truth, Minister? And if that is the truth, please come before us and tell us that.

14:49 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I am grateful to the Plaid Cymru local government spokesperson for his views. Let me say to him that Wiliams reported just over a year ago and, of course, only four, I think, out of the 62 recommendations of the Williams commission actually were about the merger of local government. There were many, many other recommendations that we are pursuing at the present time. In respect of our position as a Government, our position remains that we currently support option 1 of Williams; that is our preferred option, as we have said. The decision that was taken today was in respect of voluntary merger proposals submitted against our prospectus for voluntary mergers; those we have turned down on the grounds that I have set out in the written statement.

Wel, rwyf yn ddiolchgar i lefarydd llywodraeth leol Plaid Cymru am ei farn. Dewch imi ddweud wrtho bod Williams wedi adrodd ychydig dros flwyddyn yn ôl ac, wrth gwrs, dim ond pedwar, rwyf yn credu, o 62 o argymhellion comisiwn Williams oedd mewn gwirionedd yn ymwneud ag uno llywodraeth leol. Roedd llawer iawn o argymhellion eraill yr ydym yn mynd ar eu trywydd ar hyn o bryd. O ran ein safbwynt fel Llywodraeth, ein safbwynt o hyd yw ein bod ar hyn o bryd yn cefnogi opsiwn 1 Williams; dyna yw ein dewis a ffefrir, fel yr ydym wedi'i ddweud. Roedd y penderfyniad a wnaethpwyd heddiw'n ymwneud â chynigion am uno gwirfoddol a gyflwynir yn erbyn ein prosbectws ar gyfer uno gwirfoddol; rydym wedi gwrthod y rheini ar y sail yr wyf wedi'i nodi yn y datganiad ysgrifenedig.

Again, I have to say to the Plaid Cymru spokesperson: is he seriously suggesting that our only role as a Government on receipt of expressions of interest should be simply to rubber-stamp those that we have received? I'm afraid it is our job to evaluate those against the criteria that have been put forward, even if those proposals fit with Williams option 1. If the voluntary merger is to proceed on the basis of the rules set out in the voluntary merger prospectus, then we have to have confidence in it. If we do not have confidence in the proposal that has been brought forward to us, then we may have to look at other routes for implementing a future map for local government.

Eto, mae'n rhaid imi ddweud wrth lefarydd Plaid Cymru: a yw mewn difrif yn awgrymu mai ein hunig swyddogaeth fel Llywodraeth wrth dderbyn datganiadau o ddiddordeb yn syml yw rhoi sêl bendith ar y rhai yr ydym wedi eu derbyn? Mae arnaf ofn mai ein gwaith ni yw eu gwerthuso yn erbyn y meini prawf sydd wedi'u cynnig, hyd yn oed os yw'r cynigion hynny'n cyd-fynd ag opsiwn 1 Williams. Er mwyn i'r uno gwirfoddol fwrw ymlaen ar sail y rheolau a nodir yn y prosbectws uno gwirfoddol, mae'n rhaid iddo fod yn un y mae gennym hyder ynddo. Os nad ydym yn hyderus yn y cynnig sydd wedi ei gyflwyno inni, efallai y bydd yn rhaid inni edrych ar ffyrdd eraill o weithredu map ar gyfer dyfodol llywodraeth leol.

Finally, let me say to him that the First Minister today, of course, extended an invitation to the leaders of all parties in this Chamber to take part in active discussions about seeking a consensus on a future map for local government. We would, of course, be happy to engage in bilateral or multilateral discussions on those proposals.

Yn olaf, dewch imi ddweud wrtho bod y Prif Weinidog heddiw, wrth gwrs, wedi estyn gwahoddiad i arweinwyr pob plaid yn y Siambr hon i gymryd rhan mewn trafodaethau gweithredol am geisio consensws ar fap ar gyfer dyfodol llywodraeth leol. Byddem, wrth gwrs, yn hapus i gymryd rhan mewn trafodaethau dwyochrog neu amlochrog am y cynigion hynny.

14:51 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Minister for this statement? I think, Minister, that most of us here accept that you obviously have the right to turn down the voluntary merger proposals in front of you on the basis of the criteria that you've set out as part of that. I think the question that I'd like to ask is, having turned down all the voluntary merger proposals that have come in front of you, why are we now discussing a Bill to actually enable voluntary mergers to take place, because there are no voluntary mergers in front of us for this Bill to enable? It does seem to me that we are effectively wasting our time on that particular part of this Bill. I think we do need an explanation as to what processes are going to be in place in terms of future voluntary mergers. Will you be inviting more voluntary mergers to come forward, or are you actually going to be adopting another form of volunteering whereby you tell people what they're going to do, which I think is quite common in the armed forces and possibly in the Labour Party as well?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad hwn? Rwyf yn credu, Weinidog, bod y rhan fwyaf ohonom yma'n derbyn ei bod yn amlwg bod gennych hawl i wrthod y cynigion am uno gwirfoddol sydd ger eich bron ar sail y meini prawf yr ydych wedi'u nodi yn rhan o hynny. Rwyf yn meddwl mai'r cwestiwn yr hoffwn ei ofyn yw, ar ôl gwrthod yr holl gynigion uno gwirfoddol sydd wedi dod ger eich bron, pam yr ydym ni nawr yn trafod Bil i alluogi uno gwirfoddol i ddigwydd mewn gwirionedd, oherwydd nid oes dim uniad gwirfoddol ger ein bron i'r Bil hwn ei alluogi? Mae'n ymddangos i mi ein bod yn gwastraffu ein hamser i bob diben ar y rhan benodol honno o'r Bil hwn. Rwy'n credu bod arnom angen eglurhad ynghylch pa brosesau a fydd ar waith o ran uno gwirfoddol yn y dyfodol. A fyddwch chi'n gwahodd mwy o uniadau gwirfoddol, ynteu a fyddwch mewn gwirionedd yn mabwysiadu math arall o wirfoddoli, lle byddwch yn dweud wrth bobl beth maent yn mynd i'w wneud, sy'n rhywbeth yr wyf yn credu sy'n eithaf cyffredin yn y lluoedd arfog ac o bosibl yn y Blaid Lafur hefyd?

Minister, if these voluntary mergers are not robust, as you have said, how will you ensure that, when you come to put forward your proposals for compulsory merger, local councils won't then follow a robust process that you're happy with in terms of compulsory mergers? I think it's quite important that you set down some very clear challenges to local authorities in terms of these voluntary mergers, and you ask them to do certain things to satisfy you that the proposals they're bringing before you are ones that are sustainable and can be delivered. Having now rejected the three coming before you on the grounds that they haven't met those criteria, we then have to ask: what is it about the mergers, in terms of the Williams commission, which will meet those criteria? How will you enforce those criteria in terms of the compulsory mergers, given that you don't appear to have the co-operation of local councils in this agenda?

Weinidog, os nad yw'r uniadau gwirfoddol hyn yn gadarn, fel yr ydych wedi'i ddweud, sut y byddwch chi'n sicrhau, pan fyddwch yn cyflwyno eich cynigion am uno gorfodol, na fydd cynghorau lleol yna'n dilyn proses gadarn yr ydych yn hapus â hi o ran uno gorfodol? Rwy'n credu ei bod yn eithaf pwysig eich bod yn gosod rhai heriau clir iawn i awdurdodau lleol o ran yr uniadau gwirfoddol hyn, a'ch bod yn gofyn iddynt wneud rhai pethau penodol i'ch bodloni bod y cynigion y maent yn eu cyflwyno ichi'n rhai sy'n gynaliadwy ac y gellir eu cyflawni. A chithau nawr wedi gwrthod y tri a ddaeth ger eich bron ar y sail nad ydynt wedi bodloni'r meini prawf hynny, yna mae'n rhaid inni ofyn: beth am yr uniadau, o ran comisiwn Williams, a fydd yn bodloni'r meini prawf hynny? Sut y byddwch chi'n gorfodi'r meini prawf hynny o ran yr uniadau gorfodol, o gofio nad yw'n ymddangos bod gennych gydweithrediad cynghorau lleol yn yr agenda hon?

In terms of the statement, you say in the third paragraph of the statement that the proposals that you're bringing forward today and the White Paper move us significantly beyond Williams. Obviously, we haven't seen the White Paper, but what we have in front of us, as you have just said, just relates effectively to four recommendations in the Williams report. In what way are we moving beyond Williams in this agenda, given that we're not departing from the map that Williams has set out, and given that we're effectively just talking about those four recommendations and haven't changed those recommendations or moved on from those in any way?

O ran y datganiad, rydych yn dweud yn nhrydydd paragraff y datganiad bod y cynigion yr ydych yn eu cyflwyno heddiw a'r Papur Gwyn yn ein symud yn sylweddol y tu hwnt i Williams. Yn amlwg, nid ydym wedi gweld y Papur Gwyn, ond mae'r hyn sydd gennym o'n blaenau, fel yr ydych newydd ddweud, i bob diben, yn ymwneud â phedwar yn unig o argymhellion adroddiad Williams. Ym mha ffordd yr ydym yn symud y tu hwnt i Williams yn yr agenda hon, o gofio nad ydym yn gadael y map y mae Williams wedi'i amlinellu, ac o gofio, i bob diben, mai dim ond am y pedwar argymhelliad hynny yr ydym yn siarad ac nad ydym wedi newid yr argymhellion hynny, na chefnu arnynt mewn unrhyw ffordd?

You also say in your statement that this is a once-in-a-lifetime opportunity to re-model local government in Wales. This will be the third reorganisation in 40 years of local government. If we don't get this right now, we will find ourselves back here in 20 years' time doing it again. So, how are you making sure that we have sustainable models based on compatible communities when you don't have the co-operation of local government, and when the proposals that are put forward on a voluntary basis are not acceptable to you? How can we make sure that the map that you now seem determined to impose on local government is sustainable and that we will not be revisiting this in 20 years' time?

Rydych hefyd yn dweud yn eich datganiad bod hwn yn gyfle unwaith mewn oes i ailfodelu llywodraeth leol yng Nghymru. Hwn fydd y trydydd ad-drefnu mewn 40 mlynedd o lywodraeth leol. Os na chawn hyn yn iawn yn awr, byddwn yn ein canfod ein hunain yn ôl yma ymhen 20 mlynedd yn gwneud hyn eto. Felly, sut yr ydych chi'n sicrhau bod gennym fodelau cynaliadwy yn seiliedig ar gymunedau cydnaws pan nad oes gennych gydweithrediad llywodraeth leol, a phan na fydd y cynigion sy'n cael eu cyflwyno'n wirfoddol yn dderbyniol gennych? Sut y gallwn sicrhau bod y map y mae nawr yn ymddangos eich bod yn benderfynol o'i orfodi ar lywodraeth leol yn gynaliadwy ac na fyddwn yn edrych eto ar hyn ymhen 20 mlynedd?

And finally, you refer also to previous experience of local government reorganisation and point to the need for effective co-operation between merging authorities if the process is to be as smooth, constructive and productive as possible. You had the co-operation of six authorities; you said 'No thanks'. Have you got the co-operation of the remaining authorities, plus the six, in terms of what you now want to do, so that we can have that smooth, constructive and productive process?

Ac yn olaf, rydych yn cyfeirio hefyd at brofiad blaenorol o ad-drefnu llywodraeth leol ac yn pwyntio at yr angen am gydweithio effeithiol rhwng awdurdodau sy'n uno er mwyn i'r broses fod mor llyfn, adeiladol a chynhyrchiol ag y bo modd. Cawsoch gydweithrediad chwe awdurdod; dywedasoch 'Dim diolch'. A ydych wedi cael cydweithrediad yr awdurdodau eraill, yn ogystal â'r chwech, o ran yr hyn yr ydych yn awr am ei wneud, fel y gallwn gael y broses ddidrafferth, adeiladol a chynhyrchiol honno?

14:55 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Okay. I thank the Liberal Democrat spokesperson for his questions, and let me try to answer his primary point, I think, which is about the Bill in respect of the question of voluntary mergers. The Bill does contain sections in respect of voluntary mergers, and so I think it's very important to be clear about what we have done. What we have done is turn down expressions of interest submitted by six local authorities in respect of voluntary mergers, as set out in our prospectus. We were not satisfied that they satisfactorily met the terms of the prospectus or gave us the sustainable way forward that we wanted to see.

Iawn. Diolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei gwestiynau, a gadewch imi geisio ateb ei brif bwynt, rwyf yn meddwl, sy'n ymwneud â'r Bil fel y mae'n ymwneud ag uno gwirfoddol. Mae'r Bil yn cynnwys adrannau sy'n ymwneud ag uno gwirfoddol, ac felly rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn bod yn glir ynghylch yr hyn yr ydym wedi'i wneud. Yr hyn yr ydym wedi'i wneud yw gwrthod datganiadau o ddiddordeb a gyflwynwyd gan chwe awdurdod lleol o ran uno gwirfoddol, fel y nodir yn ein prosbectws. Nid oeddym yn fodlon eu bod yn bodloni telerau'r prosbectws mewn modd boddhaol nac yn rhoi inni'r ffordd gynaliadwy ymlaen yr oedd arnom eisiau ei gweld.

It is still, of course, possible, on Williams's option 1 footprint, to take forward voluntary mergers on the basis of the Bill. Those might be different criteria, of course, from those we set out originally in our voluntary merger prospectus. There is a time-lapse provision in the Bill, which is the end of November 2015, by which time any further discussion of voluntary mergers could be taken forward. Now, I am perfectly prepared for my officials to talk with local authorities around the provisions in the Bill and to see what we can do to take things forward, but we have to do this in the context of, I think, wider discussions on an overall map. As I said, our position remains that we remain in support of Williams's option 1, but the First Minister has extended an invitation to all party leaders to see if we can reach agreement on a map across Wales for local government. That invitation is open to his party, as it is to other parties.

Mae'n dal i fod yn bosibl, wrth gwrs, gan ddilyn ôl troed opsiwn 1 Williams, bwrw ymlaen ag uno gwirfoddol ar sail y Bil. Gallai'r meini prawf hynny fod yn rhai gwahanol, wrth gwrs, i'r rhai a amlinellwyd yn wreiddiol yn ein prosbectws uno gwirfoddol. Ceir darpariaeth treigl amser yn y Bil, sef diwedd mis Tachwedd 2015; erbyn hynny gellid bwrw ymlaen ag unrhyw drafodaeth bellach am uno gwirfoddol. Nawr, rwyf yn berffaith fodlon i fy swyddogion siarad ag awdurdodau lleol ynglŷn â'r darpariaethau yn y Bil a gweld beth y gallwn ei wneud i symud pethau ymlaen, ond mae'n rhaid inni wneud hyn yng nghyd-destun, rwyf yn credu, trafodaethau ehangach ar fap cyffredinol. Fel y dywedais, ein safbwynt o hyd yw ein bod yn parhau i fod o blaid opsiwn 1 Williams, ond mae'r Prif Weinidog wedi estyn gwahoddiad i arweinwyr pob plaid i weld a allwn ddod i gytundeb ar fap ar draws Cymru ar gyfer llywodraeth leol. Mae'r gwahoddiad hwnnw'n agored i'w blaid ef, ac i bleidiau eraill.

In respect of moving beyond Williams, I think it's fair to say that, you know, we have already published—. Last year, we published a White Paper, taking forward our suggestions in respect of the local government map. We took forward the voluntary merger prospectus. We also published a statement of policy in respect of the other Williams recommendations. So, I think that it's fair to say that we are moving forward and we are moving beyond Williams. The publication of our White Paper next week will complete that process, I think, of moving beyond Williams.

O ran symud y tu hwnt i Williams, rwyf yn meddwl ei bod yn deg dweud, wyddoch chi, ein bod eisoes wedi cyhoeddi —. Y llynedd, cyhoeddwyd Papur Gwyn, i fwrw ymlaen â'n hawgrymiadau o ran y map llywodraeth leol. Gwnaethom fwrw ymlaen â'r prosbectws uno gwirfoddol. Gwnaethom hefyd gyhoeddi datganiad o bolisi ynglŷn ag argymhellion eraill Williams. Felly, rwyf yn meddwl ei bod yn deg dweud ein bod yn symud ymlaen, a'n bod yn symud y tu hwnt i Williams. Bydd cyhoeddi ein Papur Gwyn yr wythnos nesaf yn cwblhau'r broses honno, yn fy marn i, o symud y tu hwnt i Williams.

I don't actually agree with him that I am anxious for us to implement a programme of local government reorganisation that requires us to return to the subject, or maybe requires our successors to return to the subject, in some 20 years' time. That is why it is more important to get things right at this stage than it is to proceed with haste.

Nid wyf mewn gwirionedd yn cytuno ag ef fy mod yn awyddus inni weithredu rhaglen o ad-drefnu llywodraeth leol sy'n mynnu ein bod yn dychwelyd at y pwnc, neu efallai'n mynnu bod ein holynwyr yn dychwelyd at y pwnc, ymhen tua 20 mlynedd. Dyna pam mae'n bwysicach gwneud pethau'n iawn yn awr na bwrw ymlaen ar frys.

14:58 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Just to follow up what Peter Black said there about a once-in-a-lifetime opportunity, I've been in principal councils, where we started with 18, then we moved to eight and then we moved to 22. That is all in my lifetime. So, I hope that this next change will last a lot longer.

Dim ond i fynd ar drywydd yr hyn a ddywedodd Peter Black yn y fan yna am gyfle unwaith mewn oes, rwyf wedi bod mewn prif gynghorau, lle gwnaethom ddechrau gyda 18, cyn symud i wyth, ac yna symud i 22. Mae hynny i gyd yn ystod fy oes i. Felly, rwyf yn gobeithio y gwnaiff y newid nesaf hwn bara llawer hirach.

Really, I think we need to look at what leadership is about and how we can provide services to members of the public. Back in 1995, the Conservative Government in London said about the unitary authorities in England that not one of them should serve less than a 300,000 population, and what did we have forced upon us in Wales? Twenty-two principal councils, with only one of them serving more than 300,000. Then we talked about mergers. I remember in 1995 trying to get voluntary mergers between Ceredigion, Pembrokeshire and Carmarthen to run the school advisory service. Pembrokeshire didn't want to know. Two councils got together. But that's voluntary mergers; they don't work. And then we talk about leadership. One of my concerns on leadership is that we have executive boards, which consist of elected members, but then we have the chief executives, and the chief executives think they're the decision makers and not the executive boards, so we need to look at that.

Yn wir, rwyf yn credu bod angen inni edrych ar beth yw ystyr arweinyddiaeth a sut y gallwn ddarparu gwasanaethau i aelodau'r cyhoedd. Yn ôl ym 1995, dywedodd y Llywodraeth Geidwadol yn Llundain am yr awdurdodau unedol yn Lloegr na ddylai dim un ohonynt wasanaethu poblogaeth lai na 300,000, a beth a orfodwyd arnom ni yng Nghymru? Dau ar hugain o brif gynghorau, a dim ond un ohonynt yn gwasanaethu mwy na 300,000. Yna, buom yn siarad am uno. Rwyf yn cofio ym 1995 ceisio sicrhau uno gwirfoddol rhwng Ceredigion, Sir Benfro a Chaerfyrddin i gynnal y gwasanaeth cynghori ysgolion. Nid oedd gan Sir Benfro unrhyw ddiddordeb. Daeth dau gyngor at ei gilydd. Ond dyna uno gwirfoddol ichi; nid yw'n gweithio. Ac yna rydym yn sôn am arweinyddiaeth. Un o fy mhryderon am arweinyddiaeth yw bod gennym fyrddau gweithredol, sy'n cynnwys aelodau etholedig, ond yna mae gennym y prif weithredwyr, ac mae'r prif weithredwyr yn credu mai hwy sy'n gwneud y penderfyniadau ac nid y byrddau gweithredol, felly mae angen inni edrych ar hynny.

My last comment and question, in a sense, is on this independent remuneration panel. Back in 1996, authorities like Carmarthenshire started with something like 15 senior officers as well as a chief executive, and, in six years, they restructured three times. What happened each time? Irrespective of the population of that authority, Mike Hedges, each time, the chief executive's salary went up. So, they didn't compare population with population, they just pushed it through. I hope that the independent remuneration panel will look at this, because the other thing that has happened in the last 10 years is that senior officers have taken early retirement and for one, in the fire service, within a week, he's back as a chief fire officer, having taken his lump sum. Now, I hope the independent remuneration panel will look at that.

Mae fy sylw olaf a'm cwestiwn, mewn ffordd, yn ymwneud â'r panel taliadau annibynnol. Yn ôl ym 1996, dechreuodd awdurdodau fel Sir Gaerfyrddin gyda rhywbeth fel 15 o uwch swyddogion yn ogystal â phrif weithredwr, ac, mewn chwe blynedd, gwnaethant ailstrwythuro dair gwaith. Beth ddigwyddodd bob tro? Heb ystyried poblogaeth yr awdurdod hwnnw, Mike Hedges, bob tro, aeth cyflog y prif weithredwr i fyny. Felly, nid oeddent yn cymharu poblogaeth â phoblogaeth, dim ond ei wthio drwodd a wnaethant. Gobeithiaf y gwnaiff y panel taliadau annibynnol edrych ar hyn, oherwydd y peth arall sydd wedi digwydd yn y 10 mlynedd diwethaf yw bod uwch swyddogion wedi ymddeol yn gynnar ac roedd un, yn y gwasanaeth tân, o fewn wythnos, yn ôl fel prif swyddog tân, ar ôl cymryd ei gyfandaliad. Nawr, rwyf yn gobeithio y gwnaiff y panel taliadau annibynnol edrych ar hynny.

My last comment is on the Porsche in Pembrokeshire. [Laughter.] But, I can tell you as well that there are Range Rovers and Jaguars, and they're on top of the salaries of chief executives. So, I hope that this independent remuneration panel will actually look at what is the total cost of these senior officers.

Mae fy sylw olaf am y Porsche yn Sir Benfro. [Chwerthin.] Ond, gallaf ddweud wrthych hefyd bod yna Range Rovers a Jaguars, ac mae'r rheini ar ben cyflogau prif weithredwyr. Felly, rwyf yn gobeithio y gwnaiff y panel taliadau annibynnol edrych mewn gwirionedd ar beth yw cyfanswm cost yr uwch swyddogion hyn.

15:01

## Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I'm grateful to my colleague, the Member for Llanelli. I hope he's not asking me to buy a used car from him. [Laughter.] There appear to be many used cars in local government at the present time, some of them rather more expensive than others.

Rwy'n ddiolchgar i fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Lanelli. Rwyf yn gobeithio nad oedd yn gofyn imi brynu car ail-law ganddo. [Chwerthin.] Mae'n ymddangos bod llawer o geir ail-law mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd, a rhai ohonynt yn dipyn drutach na'i gilydd.

Can I start with the point that he makes about the independent remuneration panel? I'm sure he would want to join me in congratulating Labour-run Cardiff Council and Labour-run Rhondda Cynon Taf council in the action that they have taken in just the last week to reduce the number of officers on senior salaries in their authorities. They are very significant moves that they have taken, and I welcome their moves to reduce the cost of management in local government. That is something that we will have more to say about when we publish our White Paper next week.

A gaf fi ddechrau gyda'r pwynt y mae'n ei wneud am y panel taliadau annibynnol? Rwy'n siŵr yr hoffai ymuno â mi i longyfarch Cyngor Caerdydd a redir gan Lafur a Chyngor Rhondda Cynon Taf a redir gan Lafur am y camau y maent wedi'u cymryd yn yr wythnos ddiwethaf yn unig i leihau nifer y swyddogion ar gyflogau uwch yn eu hawdurdodau. Mae'r rhain yn symudiadau arwyddocaol iawn, ac rwyf yn croesawu eu symudiadau i leihau cost rheoli mewn llywodraeth leol. Mae hynny'n rhywbeth y bydd gennym fwy i'w ddweud amdano pan fyddwn yn cyhoeddi ein Papur Gwyn yr wythnos nesaf.

I think my colleague the Member for Llanelli also made a further important point about who is really in charge in respect of local authorities. I think it is important that we get the balance right between chief executives and leaders of local authorities. Again, that is something that we will be commenting on next week when we publish the White Paper. I paid attention last week, in a speech, to a very interesting development in Denmark where they have published a code of governance for chief executives of local authorities, which I think we could usefully learn from.

Rwy'n credu bod fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Lanelli, hefyd wedi gwneud pwynt pwysig pellach ynghylch pwy sydd mewn gwirionedd yn gyfrifol am awdurdodau lleol. Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng prif weithredwyr ac arweinwyr awdurdodau lleol. Unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn gwneud sylwadau amdano yr wythnos nesaf pan fyddwn yn cyhoeddi'r Papur Gwyn. Rhoddais sylw yr wythnos diwethaf, mewn araith, i ddatblygiad diddorol iawn yn Nenmarc lle maent wedi cyhoeddi cod llywodraethu ar gyfer prif weithredwyr awdurdodau lleol, y credaf y byddai'n ddefnyddiol i ni ddysgu oddi wrtho.

My colleague is absolutely right, of course, to remind us that the current system of local government in Wales—the 22 local authorities that we have—was one created by the Conservative Government in the mid-1990s. I think nearly everybody in this Chamber now believes the time is right to change. Twenty-two local authorities in Wales is too many.

Mae fy nghydweithiwr yn llygad ei le, wrth gwrs, i'n hatgoffa bod y system bresennol o lywodraeth leol yng Nghymru—y 22 awdurdod lleol sydd gennym—yn un a grëwyd gan y Llywodraeth Geidwadol yng nghanol yr 1990au. Rwy'n credu bod bron pawb yn y Siambr hon yn credu erbyn hyn bod yr amser yn iawn i newid. Mae dau ar hugain o awdurdodau lleol yng Nghymru yn ormod.

15:03

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for your statement this afternoon. I've listened intently to what you've had to say. If I could just seek two points of clarification from you. You talked of devising a map for local government in Wales and then you also talked about moving beyond Williams. Obviously, in earlier questioning of the First Minister, he seemed to be pretty decisive that Williams was the template that the Government was working to in devising that map for local government in Wales. Can you confirm that that is still the case or, in your mind, do you have a different map to what Williams mapped out as to the footprint of local government here in Wales? And, are you as a Minister, now, moving away from the principles that the Williams commission set for local government reorganisation?

Weinidog, diolch am eich datganiad y prynhawn yma. Rwyf wedi gwrando'n astud ar yr hyn yr ydych wedi'i ddweud. Hoffwn ofyn am ddau bwynt o eglurhad gennych. Soniasoch am ddyfeisio map ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru ac yna soniasoch hefyd am symud y tu hwnt i Williams. Yn amlwg, pan holwyd y Prif Weinidog yn gynharach, roedd yn ymddangos ei fod yn eithaf pendant mai Williams oedd y templed yr oedd y Llywodraeth yn ei ddilyn wrth lunio'r map hwnnw ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. A allwch chi gadarnhau bod hynny'n dal i fod yn wir, ynteu, yn eich meddwl chi, a oes gennych fap gwahanol i'r un a luniodd Williams o ran ôl troed llywodraeth leol yma yng Nghymru? Ac, a ydych chi fel Gweinidog, erbyn hyn, yn symud i ffwrdd oddi wrth yr egwyddorion a bennwyd gan gomisiwn Williams ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol?

15:03

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, if I can say to the leader of the opposition, the First Minister was very clear that Williams option 1 remains our preferred option, as I have said myself and as we said in the prospectus for voluntary mergers. That is our current option. However, the First Minister also extended an invitation to him, and to the leaders of other parties in this Chamber, to engage in practical discussions around the future map of local government. If it were possible, of course, to reach a consensus with one or other parties in this Chamber—a consensus that moved away from the Williams map—then we would not necessarily stand in the way of that, and we would be prepared to have conversations around that.

Wel, os caf ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid, roedd y Prif Weinidog yn glir iawn mai opsiwn 1 Williams yw ein dewis a ffefrir o hyd, fel y dywedais fy hun ac fel y dywedasom yn y prosbectws ar gyfer uno gwirfoddol. Dyna ein dewis ar hyn o bryd. Fodd bynnag, estynnodd y Prif Weinidog hefyd wahoddiad iddo ef, ac i arweinwyr pleidiau eraill yn y Siambr hon, i gymryd rhan mewn trafodaethau ymarferol ynglŷn â map llywodraeth leol yn y dyfodol. Pe byddai'n bosibl, wrth gwrs, cyrraedd consensws gydag un blaid neu'r llall yn y Siambr hon—consensws sy'n symud i ffwrdd oddi wrth fap Williams—ni fyddem o reidrwydd yn ceisio gwrthwynebu hynny, a byddem yn fodlon i gael sgyrsiau yn ymwneud â hynny.

15:04

# 4. Datganiad: Gwella Argaeledd Rhandiroedd a Gerddi Cymunedol

# 4. Statement: Improving the Availability of Allotments and Community Gardens

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 4, which is a statement by the Minister for Natural Resources on improving the availability of allotments and community gardens. I call on the Minister, Carl Sargeant.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar argaeledd rhandiroedd a gerddi cymunedol. Galwaf ar y Gweinidog, Carl Sargeant.

15:04 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I am pleased to be able to update Members about the recent Green Paper consultation on improving the availability of allotments and community gardens.

Diolch, Lywydd. Rwyf yn falch o allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am yr ymgynghoriad Papur Gwyrdd diweddar ar wella argaeledd rhandiroedd a gerddi cymunedol.

In recent years, there has been a surge in the number of people who want to grow and eat their own produce. The benefits of cultivating allotments or taking part in growth schemes in the community include enabling people to grow fresh, sustainable produce for themselves and their families, improving physical and mental health, and better community cohesion. It provides opportunities for socialising between all ages, backgrounds and abilities, to encourage a sense of collective ownership of open space. There is also a view that locally grown food could form part of a sustainable response to the challenge of food poverty.

Yn y blynyddoedd diweddar, bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n dymuno tyfu a bwyta eu cynnyrch eu hunain. Mae manteision meithrin rhandiroedd neu gymryd rhan mewn cynlluniau tyfu yn y gymuned yn cynnwys galluogi pobl i dyfu cynnyrch ffres, cynaliadwy iddynt eu hunain a'u teuluoedd, gwella iechyd corfforol a meddyliol, a gwella cydlyniant cymunedol. Mae'n darparu cyfleoedd i gymdeithasu rhwng bob oedran, cefndir a gallu, i annog ymdeimlad o berchnogaeth ar y cyd o fannau agored. Mae rhai pobl hefyd o’r farn y gallai bwyd wedi’i dyfu’n lleol fod yn rhan o ymateb cynaliadwy i'r her o dlodi bwyd.

The Green Paper was informed by the report and recommendations of the 2010 sustainability committee inquiry into allotment provision, which recommended a review of the existing legislation to establish what is relevant and what needs to be updated. I was delighted to see the amount of interest that the consultation attracted. All respondents agreed with the overall goal of the Welsh Government to see the supply of community-grown food sites, including allotments, meeting the local needs more effectively.

Roedd y Papur Gwyrdd yn seiliedig ar adroddiad ac argymhellion ymchwiliad 2010 y pwyllgor cynaliadwyedd i ddarpariaeth rhandiroedd, a oedd yn argymell adolygiad o'r ddeddfwriaeth bresennol i sefydlu beth sy'n berthnasol a beth sydd angen ei ddiweddaru. Roeddwn wrth fy modd o weld faint o ddiddordeb a ddenodd yr ymgynghoriad. Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â nod cyffredinol Llywodraeth Cymru o weld cyflenwad safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned, gan gynnwys rhandiroedd, yn diwallu’r anghenion lleol yn fwy effeithiol.

The consultation responses revealed that there is no overwhelming consensus on the role of legislation as a mechanism for improving the provision and management of allotments and community gardens. There were also opposing views of what new legislation should look like and as a consequence of any changes, for example, some stated that the current definition of ‘allotments’ is too narrow and that a revised definition should be flexible enough to cover the wide variety of community garden activity that currently exists, and to avoid excluding new ways of providing such activities in the future, whereas others suggested there is no need to redefine community gardens as allotments, as it may discourage landowners from making land available for new sites, because of the current restrictions placed on statutory allotments to safeguard for the public interest. Because of these differing views, it is my intention to give further consideration to potential changes to the law that could best secure additional land for community projects. I will not be seeking to legislate in this Assembly term.

Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad nad oes consensws ysgubol ar swyddogaeth deddfwriaeth fel dull o wella darpariaeth rhandiroedd a gerddi cymunedol a’u rheoli. Cafwyd barn wrthwynebus hefyd am sut y dylai deddfwriaeth newydd edrych ac o ganlyniad i unrhyw newidiadau, er enghraifft, dywedodd rhai bod y diffiniad presennol o 'randiroedd' yn rhy gul ac y dylai diffiniad diwygiedig fod yn ddigon hyblyg i gynnwys yr amrywiaeth eang o weithgarwch gerddi cymunedol sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac y dylid osgoi eithrio ffyrdd newydd o ddarparu gweithgareddau o'r fath yn y dyfodol, tra bod eraill wedi awgrymu nad oes angen ailddiffinio gerddi cymunedol fel rhandiroedd, gan y gallai hynny anghymell tirfeddianwyr rhag sicrhau bod tir ar gael ar gyfer safleoedd newydd, oherwydd y cyfyngiadau presennol ar randiroedd statudol i ddiogelu budd y cyhoedd. Oherwydd y gwahanol safbwyntiau hyn, rwyf yn bwriadu rhoi ystyriaeth bellach i newidiadau posibl i'r gyfraith a fyddai’n darparu'r ffordd orau o sicrhau tir ychwanegol ar gyfer prosiectau cymunedol. Ni fyddaf yn ceisio deddfu yn ystod y tymor Cynulliad hwn.

In the meantime, however, there are actions that I intend to take that are practical and will make a real contribution to delivering the objective of increasing the availability of land and growing opportunities. Ninety-six per cent of the respondents stated that there should be a requirement for Welsh Government to provide guidance specific to Wales that is clear, consistent, robust but flexible. Guidance will help local authorities to plan positively for allotments and community gardens, recognising that there is competing pressure for land. I see the involvement of key partners such as the Federation of City Farms & Community Gardens and local authorities as crucial in delivering guidance that is clear and helpful. The guidance will need to provide the flexibility needed to respond to local conditions, while also having appropriate levels of consistency across all local authorities. It will need to cover the roles and responsibilities, how to establish new sites, the registration and management of sites, funding and support, structures and wider planning concerns, and the administration of, indeed, the waiting lists.

Yn y cyfamser, fodd bynnag, rwyf yn bwriadu cymryd rhai camau ymarferol a fydd yn gwneud cyfraniad gwirioneddol at gyflawni'r amcan o sicrhau bod mwy o dir a chyfleoedd i dyfu ar gael. Dywedodd naw deg chwech y cant o'r ymatebwyr y dylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau penodol i Gymru sy'n glir, yn gyson, yn gadarn ond yn hyblyg. Bydd canllawiau'n helpu awdurdodau lleol i gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer rhandiroedd a gerddi cymunedol, gan gydnabod bod pwysau cystadleuol am dir. Rwy'n credu bod cyfranogiad partneriaid allweddol fel y Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol ac awdurdodau lleol yn hanfodol o ran darparu canllawiau sy'n glir ac yn ddefnyddiol. Bydd angen i'r canllawiau ddarparu'r hyblygrwydd sydd ei angen i ymateb i amodau lleol yn ogystal â bod yn ddigon cyson ar draws pob awdurdod lleol. Bydd angen iddynt gynnwys y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, sut i sefydlu safleoedd newydd, cofrestru a rheoli safleoedd, cyllid a chefnogaeth, adeileddau a phryderon cynllunio ehangach, a gweinyddu, yn wir, y rhestrau aros.

The lack of suitable land continues to be a major barrier to the creation of community-based food-growing activities across Wales, with demand for land for community growing far outstripping the availability. Yet, many respondents to the consultation were able to provide examples of agreements and projects that they've developed with innovative ways for communities to find pockets of land in order to grow food. Guidance will capture good practice, so that it can inform the activities of local community groups and those of local authorities.

Mae diffyg tir addas yn parhau i fod yn rhwystr mawr i greu gweithgareddau tyfu bwyd yn y gymuned ledled Cymru; mae'r galw am dir ar gyfer tyfu cymunedol yn llawer mwy na'r hyn sydd ar gael. Eto i gyd, roedd llawer o atebwyr i'r ymgynghoriad yn gallu rhoi enghreifftiau o gytundebau a phrosiectau y maent wedi'u datblygu a oedd yn cynnwys ffyrdd arloesol i gymunedau ddod o hyd i ddarnau o dir er mwyn tyfu bwyd. Bydd canllawiau'n cynnwys arferion da, fel y gallant lywio gweithgareddau grwpiau cymunedol lleol a rhai'r awdurdodau lleol.

Another challenge identified in responses, which we've already taken steps to address through support for various community-growing projects, is the lack of knowledge of how and what to grow. There is already excellent work being done, endorsed by Welsh Government, through Tyfu Pobl and the Community Land Advisory Service. These projects are run by the Federation of City Farms & Community Gardens and funded through the rural development fund and the Big Lottery, respectively.

Her arall a nodwyd yn yr ymatebion, yr ydym eisoes wedi cymryd camau i'w hateb drwy gefnogi gwahanol brosiectau tyfu cymunedol, yw'r diffyg gwybodaeth am beth i'w dyfu a sut i'w dyfu. Mae gwaith rhagorol eisoes yn cael ei wneud, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, drwy Tyfu Pobl a'r Gwasanaeth Cynghori Tir Cymunedol. Mae'r prosiectau hyn yn cael eu cynnal gan y Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol a'u hariannu drwy'r gronfa datblygu gwledig a'r Loteri Fawr, yn ôl eu trefn.

I want to build on the expertise already out there in our communities across Wales to benefit from increased opportunity for growing communities. With this in mind, I'll look at how community growing can be further supported through the RDP and other financial initiatives. Increasing the provision of land for community-growing schemes is included the latest food action plan, 'Towards Sustainable Growth: An Action Plan for the Food and Drink Industry 2014-2020'. The community-grown food action plan is due to be reviewed and the evidence gathered during the consultation will inform the refreshed priorities and interventions.

Hoffwn adeiladu ar yr arbenigedd sydd eisoes ar gael yn ein cymunedau ledled Cymru i elwa ar fwy o gyfle i gymunedau dyfu. Gyda hyn mewn golwg, byddaf yn edrych ar sut y gallwn wneud mwy i gefnogi tyfu cymunedol drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig a mentrau ariannol eraill. Mae cynyddu'r ddarpariaeth tir ar gyfer cynlluniau tyfu cymunedol wedi'i gynnwys y cynllun gweithredu bwyd diweddaraf, 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'. Mae'n bryd i'r cynllun gweithredu bwyd a dyfir yn y gymuned gael ei adolygu a bydd y dystiolaeth a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad yn hysbysu'r blaenoriaethau a'r ymyraethau newydd.

I will also issue guidance specifically on the types of structures that can be erected, and the land management practices that can be undertaken on an allotment without the need to apply for planning permission. Setting out clear guidance will be a step in the right direction for ensuring that the work on allotments and community gardens meets local needs and better aligns with Welsh Government priorities. The summary report and Green Paper consultation responses will be published today. I look forward to hearing from Members their views this afternoon.

Byddaf hefyd yn cyhoeddi canllawiau penodol am y mathau o adeileddau y gellir eu codi, a'r arferion rheoli tir sy'n dderbyniol ar randir heb fod angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Bydd amlinellu canllawiau clir yn gam i'r cyfeiriad cywir i sicrhau bod y gwaith ar randiroedd a gerddi cymunedol yn diwallu anghenion lleol ac yn cyd-fynd yn well â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Cyhoeddir yr adroddiad cryno a'r ymatebion ymgynghori i'r Papur Gwyrdd heddiw. Edrychaf ymlaen at glywed barn yr Aelodau y prynhawn yma.

15:10

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, Minister, thank you for your statement. I believe that the consultation responses were published earlier today. I was slightly surprised that you expressed happiness with the number of responses that you had received because, although 3,250 people viewed the website, only 69 responded to the consultation. The vast majority of those were local government rather than individuals. So, given those 69 responses, I think that, in a way, given how many people actually saw the website, that's quite disappointing, that after 3,000 looks, as it were, only 69 people responded.

Wel, Weinidog, diolch am eich datganiad. Credaf fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u cyhoeddi'n gynharach heddiw. Roeddwn yn synnu braidd eich bod yn mynegi hapusrwydd â nifer yr ymatebion a gawsoch oherwydd, er bod 3,250 o bobl wedi edrych ar y wefan, dim ond 69 a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Roedd y mwyafrif helaeth o'r rheini'n llywodraethau lleol yn hytrach nag unigolion. Felly, ac ystyried y 69 o ymatebion hynny, credaf, mewn ffordd, ac ystyried faint o bobl a welodd y wefan mewn gwirionedd, fod hynny'n eithaf siomedig; ar ôl 3,000 o edrychiadau, fel petai, dim ond 69 o bobl a ymatebodd.

But, I do welcome the fact that you aren't legislating in this Assembly term because, quite rightly, in your statement you have pointed out that there has been some very good local practice that has been what I call 'bottom up', or coming from the communities themselves. I think that the risk of legislation is that it trammels things in—. It means that there is less opportunity for growth.

Ond, rwyf yn croesawu'r ffaith nad ydych yn deddfu yn y tymor Cynulliad hwn oherwydd, yn gwbl briodol, yn eich datganiad rydych wedi tynnu sylw at y ffaith bod rhai arferion lleol da iawn wedi dod 'o'r gwaelod i fyny', fel yr wyf yn ei alw, neu wedi dod o'r cymunedau eu hunain. Rwy'n credu mai risg deddfu yw ei fod yn rhwystro pethau mewn—. Mae'n golygu bod llai o gyfle ar gyfer twf.

I wonder if you're looking at the planning system to see whether or not you can promote allotments and community gardens, particularly in relation to social housing developments, to see whether or not it may be possible to incorporate those into the builds, and whether your guidance will also look at local authority housing, where it remains with the local authority, or affordable housing when that's built, to ensure that designed into the plans are community garden or allotment space. Many private developments will have gardens attached to properties if they're houses, which may well provide the opportunity to give people the choice as to whether or not they want to grow their own food.

Tybed a ydych chi'n edrych ar y system gynllunio i weld a oes modd ichi hyrwyddo rhandiroedd a gerddi cymunedol, yn enwedig o ran datblygiadau tai cymdeithasol, i weld a allai fod yn bosibl ymgorffori'r rheini i mewn i'r adeiladau, ac a fydd eich canllawiau hefyd yn edrych ar dai awdurdodau lleol, lle maent yn parhau i fod ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol, neu ar dai fforddiadwy pan gânt eu hadeiladu, er mwyn sicrhau bod gardd gymunedol neu fan rhandiroedd wedi'i gynnwys yn y cynlluniau. Bydd llawer o ddatblygiadau preifat yn cynnwys gerddi ynghlwm wrth eiddo os mai tai ydynt, ac mae'n ddigon posibl y gallai hynny fod yn gyfle i roi'r dewis i bobl a ydynt am dyfu eu bwyd eu hunain ai peidio.

You identified in your statement that a lot of people don't know how to grow their own food or how to take advantage of the fact that they can grow their own food. I know that a school in my region, Ysgol Bro Cernyw, is very good at teaching its pupils. They have a school allotment and they're really good at encouraging pupils to get outside. That encourages them not only to look at diversity, but I've seen a project in the Vale of Clwyd as well. I wonder, when you're looking at your guidance, whether you could look at the roles that schools could play in educating a younger generation, but also in involving an older generation, so that there's that crossover. Very often, there are older people in the community who have grown food from when they were much younger and who had learnt it from their grandparents. It will be an opportunity to decrease social isolation and get intergenerational knowledge exchange.

Nodwyd gennych yn eich datganiad bod llawer o bobl nad ydynt yn gwybod sut i dyfu eu bwyd eu hunain na sut i fanteisio ar y ffaith eu bod yn gallu tyfu eu bwyd eu hunain. Gwn fod ysgol yn fy rhanbarth i, Ysgol Bro Cernyw, yn dda iawn am addysgu ei disgyblion. Mae ganddynt randir yn yr ysgol ac maent yn wirioneddol dda am annog disgyblion i fynd allan. Mae hynny'n eu hannog, nid yn unig i edrych ar amrywiaeth, ond rwyf wedi gweld prosiect yn Nyffryn Clwyd hefyd. Tybed, pan fyddwch yn edrych ar eich canllawiau, a allech chi edrych ar y rhan y gallai ysgolion ei chwarae wrth addysgu cenhedlaeth iau, ond hefyd wrth gynnwys cenhedlaeth hŷn, fel ein bod yn cael y gorgyffwrdd hwnnw. Yn aml iawn, mae pobl hŷn yn y gymuned sydd wedi tyfu bwyd o pan oeddent yn llawer iau ac a oedd wedi dysgu hynny gan eu neiniau a'u teidiau. Bydd yn gyfle i leihau ynysu cymdeithasol a chyfnewid gwybodaeth rhwng y cenedlaethau.

So, in summary, Minister, if you could perhaps answer my questions on those points, I welcome the fact that there isn't going to be legislation. The final concern is that last year, for example in Wrexham, allotment fees jumped 20%. Now, price rises of that sort—a 20% price increase—can effectively price people out of the market, or out of being able to have an allotment. I wondered what response you have to that kind of jump in price increases.

Felly, i grynhoi, Weinidog, pe gallech efallai ateb fy nghwestiynau am y pwyntiau hynny, rwyf yn croesawu'r ffaith na fyddwch yn deddfu. Y pryder olaf yw bod ffioedd rhandir y llynedd, er enghraifft, yn Wrecsam, wedi codi 20%. Nawr, mae codiadau pris o'r math hwnnw—cynnydd mewn pris o 20%—yn gallu prisio pobl allan o'r farchnad, neu allan o allu cael rhandir. Roeddwn yn meddwl tybed beth yw eich ymateb i'r math hwnnw o naid o ran cynnydd mewn prisiau.

15:14

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for her question. Indeed, there are two ways of looking at the responses, where there were 3,000 hits on the website and 69 people responded. There are two ways of looking at that: people are either uninterested or happy. I'd prefer the latter one in terms of the process. The Member raises an important point about community engagement and engagement with people. I do welcome the responses of the people who took the time to engage with the Welsh Government.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Yn wir, mae dwy ffordd o edrych ar yr ymatebion, lle bu 3,000 o ymweliadau â'r wefan a 69 o bobl wedi ymateb. Mae dwy ffordd o edrych ar hynny: mae pobl naill ai'n dangos diffyg diddordeb neu'n hapus. Byddai'n well gennyf yr ail o'r rheini o ran y broses. Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig am ymgysylltu â'r gymuned ac ymgysylltu â phobl. Rwyf yn croesawu ymatebion y bobl a roddodd o'u hamser i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.

The Member raises several issues. On the one around planning, I don't see planning being as prohibitive in the process of developments such as housing estates. I visited many, when I was housing Minister, where many of the housing associations were building into their structure, or their network, a place for gardening or a community garden. That's something that I would encourage and I know that the housing Minister would also share that vision again. It not only provides a supply of fresh vegetables or fruit—flowers, indeed, too—this also is a great health activity, in mental health and physical activity, and builds community cohesion around that community. I visited a site in Ely only last week where, already, there was a refurbishment of a housing estate. The community started to come together around a particular community garden, which was very encouraging. I think that the Member is right to raise the issue. I visited a school in Ann Jones's constituency where Eco-Schools is leading the way in terms of the opportunity to show young people how they can start on the green growth agenda, which is life changing for them, but they also take this vision home too. I think that it is a great opportunity for both young and older people to work together and share their experience, particularly around this particular subject, where we see a lot of benefits. I would encourage that through the schools, but also other community groups to build on that too.

Mae'r Aelod yn codi nifer o faterion. O ran yr un sy'n ymwneud â chynllunio, nid wyf yn gweld bod cynllunio mor rhwystrol yn y broses o ddatblygiadau fel ystadau tai. Ymwelais â llawer, pan oeddwn yn Weinidog tai, lle'r oedd llawer o'r cymdeithasau tai yn cynnwys yn eu strwythur, neu yn eu rhwydwaith, lle ar gyfer garddio neu ardd gymunedol. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei annog a gwn y byddai'r Gweinidog tai hefyd yn rhannu'r weledigaeth honno eto. Nid yn unig y mae'n darparu cyflenwad o lysiau neu ffrwythau ffres—blodau, yn wir, hefyd—mae hyn hefyd yn weithgaredd gwych ar gyfer iechyd, o ran iechyd meddwl a gweithgarwch corfforol, ac mae'n adeiladu cydlyniant cymunedol o amgylch y gymuned honno. Ymwelais â safle yn Nhrelái yr wythnos diwethaf lle roedd stad o dai eisoes yn cael ei hadnewyddu. Dechreuodd y gymuned ddod at ei gilydd o amgylch gardd gymunedol benodol, a oedd yn galonogol iawn. Credaf fod yr Aelod yn iawn i godi'r mater. Ymwelais ag ysgol yn etholaeth Ann Jones lle mae Eco-Ysgolion yn arwain y ffordd o ran y cyfle i ddangos i bobl ifanc sut y gallant ddechrau ar yr agenda twf gwyrdd, sy'n newid eu bywydau, ond maent hefyd yn mynd â'r weledigaeth hon adref. Credaf ei fod yn gyfle gwych i bobl ifanc a hŷn i weithio gyda'i gilydd a rhannu eu profiad, yn enwedig o ran y pwnc penodol hwn, lle'r ydym yn gweld llawer o fuddion. Byddwn yn annog hynny drwy'r ysgolion, ond byddwn hefyd yn annog grwpiau cymunedol eraill i adeiladu ar hynny.

I am not quite sure I agree with the Member in terms of her final point around the pricing issue. I think that there is something there that is a matter for local authorities to address. But, based on the fact that we have high waiting lists, it would suggest that there is a high demand, regardless of what the price is in terms of the allotment space allocated. But I do recognise that what we have to do is ensure that the availability of allotments is proportionate to the cost of that. I would like to encourage local authorities actually to look at the Allotments Act not being—. While it is in situ, actually, there is a lot more that you can do outside the Allotments Act, and Swansea council is a great example of a council building—I think that they have got two designated allotment sites, but they have four other leisure gardening, for want of a better word, allotment sites, but not under the same legislation. I think that it is encouraging that they have seen the vision to do that, so I would welcome that. The Member is quite right in her approach. We will not be legislating in this Assembly, but it does not mean that we won't be legislating in the future, subject to the next Government.

Nid wyf yn hollol siŵr a wyf yn cytuno â'r Aelod o ran ei phwynt olaf ynglŷn â phrisio. Credaf fod rhywbeth yno sy'n fater i awdurdodau lleol ymdrin ag ef. Ond, yn seiliedig ar y ffaith bod gennym restrau aros hir, byddai hynny'n awgrymu bod y galw'n uchel, ni waeth beth yw pris y man rhandir a ddyrennir. Ond rwyf yn cydnabod y mae'n rhaid i ni ei wneud yw sicrhau bod nifer y rhandiroedd sydd ar gael yn gymesur â'u cost. Hoffwn annog awdurdodau lleol mewn gwirionedd i edrych ar y ffaith nad yw'r Ddeddf Rhandiroedd—. Tra ei bod ar waith, mewn gwirionedd, mae llawer mwy y gallwch ei wneud y tu allan i'r Ddeddf Rhandiroedd, ac mae cyngor Abertawe'n enghraifft wych o gyngor yn adeiladu—rwyf yn credu bod ganddynt ddau safle rhandiroedd dynodedig, ond mae ganddynt bedwar o safleoedd rhandir eraill ar gyfer garddio hamdden, os caf gyfeirio atynt felly, ond nid o dan yr un ddeddfwriaeth. Credaf ei bod yn galonogol eu bod wedi gweld y weledigaeth i wneud hynny, felly byddwn yn croesawu hynny. Mae'r Aelod yn llygad ei lle o ran ei hagwedd. Ni fyddwn yn deddfu yn y Cynulliad hwn, ond nid yw hynny'n golygu na fyddwn yn deddfu yn y dyfodol, yn amodol ar y Llywodraeth nesaf.

15:17 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I am absolutely delighted with your statement today, and that you're going to encourage local authorities to provide extra plots and, indeed, ensure that the land available at present is used wisely and well for allotments and for community gardens. Both of us have our constituencies in Flintshire, and you will know how demand for allotments and gardens has far outstripped the supply of land in the past. Nevertheless, certainly in my community, I have Leeswood allotments; Mostyn Hall has restored its walled kitchen garden, so that the community can grow fresh fruit and vegetables; FlintShare is a community-run cooperative based in Flintshire, in Cilcain, Northop and Hawarden, in both our constituencies; and Bagillt has recently had a grant for a community garden. All of these things, they provide—as you said already—not just fresh produce, but also other benefits: social benefits, health benefits, and so on.

Weinidog, rwyf wrth fy modd â'ch datganiad heddiw, ac o glywed y byddwch yn annog awdurdodau lleol i ddarparu lleiniau ychwanegol ac, yn wir, i sicrhau bod y tir sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth ac yn dda ar gyfer rhandiroedd ac ar gyfer gerddi cymunedol. Mae etholaethau'r ddau ohonom yn Sir y Fflint, a byddwch yn gwybod bod y galw am randiroedd a gerddi wedi bod yn llawer mwy na'r cyflenwad tir yn y gorffennol. Serch hynny, yn sicr yn fy nghymuned i, mae gennyf randiroedd Coed-llai; mae Neuadd Mostyn wedi adfer ei gardd gegin furiog, fel y gall y gymuned dyfu ffrwythau a llysiau ffres; mae FlintShare yn gydweithfa gymunedol wedi'i lleoli yn Sir y Fflint, yng Nghilcain, Llaneurgain a Phenarlâg, yn ein hetholaethau ni'n dau; ac yn ddiweddar mae Bagillt wedi cael grant ar gyfer gardd gymunedol. Mae pob un o'r pethau hyn, maent yn darparu—fel y dywedasoch eisoes—nid yn unig cynnyrch ffres, ond buddion eraill hefyd: manteision cymdeithasol, manteision iechyd, ac yn y blaen.

I'm slightly disappointed that legislation is causing difficulties and that it will not come forward until the next Assembly. However, what I am going to ask you is to ensure just a few things. Can you sow the seeds now, so that, in the next Assembly, people will already be working hard to produce legislation, and that, if it does have to be legislation, it is not too complex, so it doesn't put people off this wonderful idea? Because all of the things that I have been talking about have been partnership working and the local communities themselves working hard. Can I also ask, while we are asking local authorities to do this, that the Welsh Government itself looks at the land that it has, to see—. You know, it owns a lot of land, and we have health authorities that own land, which is perhaps too small for some things but would provide allotments and community gardens. So, can I ask that we don't just put the pressure on local government, but that the Welsh Government looks to itself to see what it can do?

Rwyf ychydig yn siomedig bod deddfu'n achosi anawsterau ac na fydd yn digwydd tan y Cynulliad nesaf. Fodd bynnag, rwyf yn mynd i ofyn ichi sicrhau ambell beth. A allwch chi hau'r hadau nawr, fel y bydd pobl, yn y Cynulliad nesaf, eisoes yn gweithio'n galed i gynhyrchu deddfwriaeth, ac, os oes rhaid cael deddfwriaeth, na fydd yn rhy gymhleth, fel nad yw'n gwneud i bobl golli diddordeb yn y syniad gwych hwn? Oherwydd mae pob un o'r pethau yr wyf wedi bod yn siarad amdanynt wedi bod yn waith partneriaeth lle mae'r cymunedau lleol eu hunain yn gweithio'n galed. A gaf fi ofyn hefyd, er ein bod yn gofyn i awdurdodau lleol wneud hyn, am i Lywodraeth Cymru ei hun edrych ar y tir sydd ganddi, i weld—. Wyddoch chi, mae'n berchen ar lawer o dir, ac mae gennym awdurdodau iechyd sy'n berchen ar dir, sydd efallai'n rhy fychan ar gyfer rhai pethau, ond a fyddai'n darparu rhandiroedd a gerddi cymunedol. Felly, a gaf fi ofyn nad ydym yn rhoi'r pwysau i gyd ar lywodraeth leol, ond bod Llywodraeth Cymru yn edrych arni ei hun i weld beth y gall ei wneud?

15:19 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for her questions, indeed. The issues around Leeswood, Cilcain and Bagillt that the Member rightly represents—. They have a fantastic opportunity there not just to grow their gardens and allotment sites, but actually they're a key part of the community and they do engage with many others who may be socially isolated other than for the allotments and community gardens that she talks of. I'm very proud that, across the whole of Wales, we have some fantastic organisations working together to the major benefit—. Much more than just an allotment, this is adding value in other areas, too. The Member is quite right to raise the issue around sweating the assets of Government and other public bodies; it is something that I will be working on with other Ministers to ensure that we can see if we can align land usage better for the use of allotments and community growing in some of the public estate broader than the local authorities.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiynau, yn wir. Mae'r materion sy'n ymwneud â Choed-llai, Cilcain a Bagillt y mae'r Aelod yn eu cynrychioli'n gywir—. Mae ganddynt gyfle gwych yno nid yn unig i dyfu eu gerddi a'u safleoedd rhandiroedd, ond maent yn rhan wirioneddol allweddol o'r gymuned ac maent yn ymgysylltu â llawer o bobl eraill a allai fod wedi'u hynysu'n gymdeithasol oni bai am y rhandiroedd a'r gerddi cymunedol y mae hi'n sôn amdanynt. Rwy'n falch iawn, ledled Cymru gyfan, bod gennym fudiadau gwych yn gweithio gyda'i gilydd at y prif fudd—. Mae hyn yn llawer mwy na dim ond rhandir; mae'n ychwanegu gwerth mewn meysydd eraill hefyd. Mae'r Aelod yn hollol iawn i godi'r mater ynghylch manteisio ar asedau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill; mae'n rhywbeth y byddaf yn gweithio arno gyda Gweinidogion eraill i sicrhau ein bod yn gallu gweld pa un a allwn ddefnyddio tir yn well at ddefnydd rhandiroedd a thyfu cymunedol yn rhywfaint o'r ystad gyhoeddus y tu hwnt i'r awdurdodau lleol.

15:20 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, thank you for the statement today. I had been doing some research requests on allotments, and I'd seen the consultation, unlike Antoinette, but I was curious as to why there had been some delay in any sort of statement. But, you know, it is better to have it than to not have it at all.

Weinidog, diolch am y datganiad heddiw. Roeddwn wedi bod yn gwneud ceisiadau ymchwil ar randiroedd, ac roeddwn wedi gweld yr ymgynghoriad, yn wahanol i Antoinette, ond roeddwn yn chwilfrydig ynghylch pam y bu rhywfaint o oedi cyn cael unrhyw fath o ddatganiad. Ond, wyddoch chi, mae'n well ei gael na pheidio â'i gael o gwbl.

You say that you will be focusing on guidance within this Assembly term. I wanted to fully understand, because I didn't from the statement, why you've gone on the side of guidance as opposed to legislation. Is it because of the timelines? Is it because of the pressure on legislation timelines that you have as a Government, or do you believe that guidance would be the most effective way forward? Do you believe, as Minister, that you will increase the availability of land for allotments by introducing greater flexibility for some land, for example, village greens and so forth? I'm particularly keen to come in on this statement today because I've had a local issue in Fairyland in Neath with regard to access to allotments, whereby the town council have retrospectively inflicted a policy of not allowing allotment holders to have more than one plot, and then, also, the allotment holders who come from outside the Neath town council area will not be allowed to have an allotment anymore. Some live 400m outside the boundary, and some live in Pontardawe where there are no allotments currently for them, and waiting lists over in Port Talbot are relatively long. And so, while they are not against the policy being put in place in 2015, they don't want it to be applied retrospectively, because the council actually, at the time when they were developing allotments, it wasn't the craze to have allotments, and they wanted them to take them on. So, now they feel that they've nurtured and grown the allotments, and it takes a lot of time—I've suddenly found out a lot about allotments that I didn't know before, like how much time it takes to nurture these plots—and what they tell me is that there are plots that are un-nurtured, but some people don't want to take them up. They go on a visit to the site, and they go, 'Oh, gosh, that's too much', or there are chickens on another part of the allotment, and they can't get the chickens off the land. All very interesting; I'm sure you will know.

Rydych yn dweud y byddwch yn canolbwyntio ar ganllawiau yn ystod y tymor Cynulliad hwn. Roeddwn eisiau deall yn llawn, oherwydd ni wnes hynny o'r datganiad, pam yr ydych wedi mynd ar ochr canllawiau yn hytrach na deddfwriaeth. Ai oherwydd y llinellau amser? Ai oherwydd y pwysau ar amserlenni ddeddfu sydd gennych fel Llywodraeth, ynteu a ydych chi'n credu mai canllawiau fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol ymlaen? A ydych chi'n credu, fel y Gweinidog, y byddwch yn cynyddu'r tir sydd ar gael ar gyfer rhandiroedd drwy gyflwyno mwy o hyblygrwydd ar gyfer rhywfaint o dir, er enghraifft, lawntiau pentref ac yn y blaen? Rwy'n arbennig o awyddus i gyfrannu at y datganiad hwn heddiw oherwydd rwyf wedi wynebu mater lleol yn Fairyland yng Nghastell-nedd ynglŷn â mynediad i randiroedd, lle mae cyngor y dref yn ôl-weithredol wedi rhoi polisi ar waith o beidio â chaniatáu dalwyr rhandiroedd i gael mwy nag un plot, ac yna, hefyd, ni fydd gan y deiliaid rhandiroedd sy'n dod o'r tu allan i ardal cyngor tref Castell-nedd hawl i gael rhandir mwyach. Mae rhai'n byw 400m dros y ffin, ac mae rhai'n byw ym Mhontardawe lle nad oes rhandiroedd ar eu cyfer ar hyn o bryd, ac mae rhestrau aros draw ym Mhort Talbot yn gymharol hir. Ac felly, er nad ydynt yn erbyn rhoi'r polisi ar waith yn 2015, nid ydynt am iddo gael ei roi ar waith yn ôl-weithredol, oherwydd roedd y cyngor mewn gwirionedd, ar yr adeg pan oeddent yn datblygu rhandiroedd, nid oedd cael rhandiroedd yn ffasiynol, ac roeddent eisiau iddynt eu cymryd. Felly, erbyn hyn maent yn teimlo eu bod wedi meithrin a thyfu'r rhandiroedd, ac mae'n cymryd llawer o amser—rwyf wedi dysgu llawer yn sydyn am randiroedd nad oeddwn yn ei wybod o'r blaen, fel faint o amser y mae'n ei gymryd i feithrin y lleiniau hyn—a'r hyn y maent yn ei ddweud wrthyf yw bod rhai lleiniau heb eu trin, ond nid yw rhai pobl yn dymuno cael y rheini. Maent yn mynd ar ymweliad â'r safle, ac maent yn dweud, 'O, diar, mae hynna'n ormod', neu mae ieir ar ran arall o'r rhandir, ac ni allant gael yr ieir oddi ar y tir. Mae hyn i gyd yn ddiddorol iawn; rwy'n siŵr y byddwch yn gwybod.

Questions: will any new guidance compel the councils to clearly define their allotment policy in perpetuity? Would new guidance provide a right of appeal? Because, of course, that's been an issue in my instance, where they can't appeal. Would councils have to clearly set out and justify any retrospective decisions? And, lastly, would councils be encouraged to work with allotment holders to ensure such sites are managed to the best of their use?

Cwestiynau: a fydd unrhyw ganllawiau newydd yn gorfodi'r cynghorau i ddiffinio eu polisi rhandiroedd yn glir am byth? A fyddai canllawiau newydd yn darparu hawl i apelio? Oherwydd, wrth gwrs, mae hynny wedi bod yn broblem yn fy enghraifft i, lle na chânt apelio. A fyddai'n rhaid i gynghorau nodi'n glir a chyfiawnhau unrhyw benderfyniadau ôl-weithredol? Ac, yn olaf, a fyddai cynghorau'n cael eu hannog i weithio gyda deiliaid rhandiroedd i sicrhau bod safleoedd o'r fath yn cael eu rheoli hyd eithaf eu defnydd?

The final point I wish to make is that there is a conflict between waiting lists and retention. Yes, there may be long waiting lists in some areas, but when somebody is actually then given a new allotment, many of them fail to retain it because they don't understand the implications of that. So, we need to have a more comprehensive list from the Government, I believe, as to what the situation is across Wales in that regard.

Y pwynt olaf yr hoffwn ei wneud yw bod gwrthdaro rhwng rhestrau aros a chadw. Oes, efallai fod rhestrau aros hir mewn rhai ardaloedd, ond pan fydd rhywun yna'n cael rhandir newydd mewn gwirionedd, mae llawer ohonynt yn methu â'i gadw gan nad ydynt yn deall goblygiadau hynny. Felly, mae arnom angen rhestr fwy cynhwysfawr gan y Llywodraeth, rwyf yn credu, ynghylch beth yw'r sefyllfa ledled Cymru yn hynny o beth.

15:23 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her questions and, indeed, her recent interest in the many questions that she's posed to me. The difference between the guidance and the legislation: I think it would be right to say, from the consultation and the work that we've done, there is some legislative tidying up that needs to be done, but I don't think it deserves a Bill on its own, and I think that's why it does have the opportunity for future legislation that could be built on to perhaps another Bill. Something that I'm thinking about there would be possibly the Commons Act 2006. There are some issues around commons and certainly allotments that could be brought together in a more comprehensive Bill.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiynau ac, yn wir, am ei diddordeb diweddar yn y cwestiynau niferus y mae wedi'u gofyn i mi. Y gwahaniaeth rhwng y canllawiau a'r ddeddfwriaeth: rwyf yn meddwl y byddai'n deg dweud, o'r ymgynghoriad a'r gwaith yr ydym wedi ei wneud, bod angen gwneud rhywfaint o dacluso deddfwriaethol, ond nid wyf yn meddwl bod hynny'n haeddu Bil ynddo'i hun, ac rwyf yn meddwl mai dyna pam mae gan hyn y cyfle i gael deddfwriaeth yn y dyfodol y gellid ei atodi at Fil arall, efallai. Rhywbeth tebyg i'r hyn yr wyf yn meddwl amdano yn y fan yna, o bosibl, yw Deddf Tiroedd Comin 2006. Mae rhai materion yn ymwneud â thiroedd comin ac yn sicr yn ymwneud â rhandiroedd y gellid eu dwyn ynghyd mewn Bil mwy cynhwysfawr.

I do believe guidance will help qualify some of the issues that the Member raises, and consistency, of course. Let us not be mistaken: allotments aren't a sleepy hollow that you just go to and have peace and quiet, because they are lively bunch—most of the allotment growers that I know and meet are very positive in their actions, and very keen to promote their particular area, and there are rules. They are generated both by the authority, and also, sometimes, by the actual allotment owners. I think what the guidance needs to do is to have a very clear understanding about what is acceptable and what is not acceptable, but understanding the flexibility in there required for local circumstances, too. I think it is only fair and appropriate that there is an appeals mechanism for people who do dispute the actions taken by an authority, and I would expect, in the guidance process, for that to be addressed by the local authority or the governing body of that particular allotment in the future.

Rwyf yn credu y bydd canllawiau'n helpu i amodi rhai o'r materion y mae'r Aelod yn eu codi, a chysondeb, wrth gwrs. Dewch inni beidio â chamgymryd: nid yw rhandiroedd yn bantiau cysglyd yr ydych yn mynd iddynt i gael llonydd a thawelwch, oherwydd maent yn griw bywiog —mae'r rhan fwyaf o'r tyfwyr rhandir yr wyf fi'n eu hadnabod ac yn cwrdd â hwy'n gadarnhaol iawn yn eu gweithredoedd, ac yn awyddus iawn i hyrwyddo eu hardal benodol, ac mae yna reolau. Cânt eu llunio gan yr awdurdod, a hefyd, weithiau, gan berchnogion y rhandiroedd eu hunain. Rwy'n credu mai'r hyn y mae angen i'r canllawiau ei wneud yw deall yn glir iawn yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol, ond deall hefyd yr hyblygrwydd yna sy'n ofynnol ar gyfer amgylchiadau lleol, hefyd. Rwy'n credu ei bod yn ddigon teg a phriodol bod mecanwaith apelio ar gael i bobl sy'n herio'r camau a gymerwyd gan awdurdod, a byddwn yn disgwyl, yn y broses ganllawiau, i hynny gael sylw gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r rhandir penodol hwnnw yn y dyfodol.

15:25 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful to the Minister for bringing forward this statement today. Just last week in this Chamber I was speaking about the importance of people across Wales, both in urban and rural Wales, knowing where their food comes from, and I think there is nothing more positive than developing a fostering and nurturing climate for people taking on local growing. I know, in the Minister's own backyard of Deeside, there's been a very strong partnership between the Clwyd Alyn Housing Association and Deeside College, a number of years ago, developing community gardens. In my own area of Talgarth, there has been a doubling in the capacity for allotments as a result of support from Powys County Council and, on a weekly basis, they supply a large volume of quality produce for the local luncheon club, which is greatly appreciated. But not far down the road, in Hay-on-Wye, there is actually currently a six to seven-year waiting list for allotments, which is roughly about the time that will have elapsed between the 2010 report and any legislation that comes forward, so, while I understand the importance of not rushing to legislation, as we know from the Prevention of Terrorism and Dangerous Dogs Acts, I think it is important that we do retain some pace in this matter, for the reasons that Bethan Jenkins outlined earlier.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am gyflwyno'r datganiad hwn heddiw. Dim ond yr wythnos diwethaf yn y Siambr hon, roeddwn yn sôn am ba mor bwysig yw hi bod pobl ledled Cymru, yng Nghymru drefol a gwledig, yn gwybod o ble mae eu bwyd yn dod, ac nid wyf yn credu bod dim byd mwy cadarnhaol na datblygu hinsawdd fagwrol a chefnogol i bobl sy'n dechrau tyfu'n lleol. Rwyf yn gwybod, yng ngardd gefn y Gweinidog ei hun ar Lannau Dyfrdwy, y bu partneriaeth gref iawn rhwng Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Choleg Glannau Dyfrdwy, nifer o flynyddoedd yn ôl, i ddatblygu gerddi cymunedol. Yn fy ardal fy hun yn Nhalgarth, mae'r lle sydd ar gael i randiroedd wedi dyblu o ganlyniad i gefnogaeth gan Gyngor Sir Powys ac, yn wythnosol, maent yn cyflenwi llawer iawn o gynnyrch o ansawdd i'r clwb cinio lleol, sy'n ei werthfawrogi'n fawr. Ond heb fod ymhell i lawr y ffordd, yn y Gelli Gandryll, mae rhestr aros o chwech neu saith mlynedd am randiroedd ar hyn o bryd, sef yn fras yr amser a fydd wedi mynd heibio rhwng adroddiad 2010 ac unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir, felly, er fy mod yn deall pwysigrwydd peidio â rhuthro i ddeddfu, fel y gwyddom o'r Deddfau Atal Terfysgaeth a Chŵn Peryglus, rwyf yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn cadw rhywfaint o frys yn y mater hwn, am y rhesymau a amlinellodd Bethan Jenkins yn gynharach.

Minister, one practice that does from time to time occur in Wales is what's known as guerrilla gardening, where people take the initiative into their own hands, and, where you've got neglected sites, sometimes there will be unauthorised cultivation. In that context, Minister, I wonder whether you would give some consideration to the introduction of a small levy on developers who have very substantial land banks of territory, which can be unsightly in communities, to create a small fund to actually introduce the possibility of supporting community gardens in a more meaningful way. In the context of the Planning (Wales) Bill that's been referred to by Antoinette Sandbach, would it not be possible to introduce a clause with regard to the need to identify land for cultivation, both at LDP level, and also in terms of place plans? I would very much value your thoughts on that suggestion.

Weinidog, un arfer sy'n digwydd o bryd i'w gilydd yng Nghymru yw'r hyn a elwir yn arddio gerila, lle mae pobl yn cymryd y cam cyntaf eu hunain, a, lle mae gennych safleoedd a esgeuluswyd, ac weithiau ceir trin tir heb awdurdod. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, tybed a fyddech yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth i gyflwyno ardoll fechan ar ddatblygwyr sydd â banciau tir sylweddol iawn o diriogaeth, a all fod yn amhrydferth mewn cymunedau, i greu cronfa fach i gyflwyno'r posibilrwydd o gefnogi gerddi cymunedol mewn ffordd fwy ystyrlon. Yng nghyd-destun y Bil Cynllunio (Cymru) y cyfeiriodd Antoinette Sandbach ato, oni fyddai'n bosibl cyflwyno cymal o ran yr angen i ganfod tir i'w drin, ar lefel y CDLl, a hefyd o ran cynlluniau lleoedd? Byddwn yn gwerthfawrogi'n fawr iawn eich barn ar yr awgrym hwnnw.

Finally, Minister, elsewhere in my region, in Llangattock, there's been a particularly strong initiative of community gardening. I believe that your predecessor, John Griffiths, may have visited the site, and I would also pay tribute to the work that he has done in the earlier stages of setting out the terms of the Green Paper and the consultation that we're discussing today.

Yn olaf, Weinidog, mewn mannau eraill yn fy rhanbarth i, yn Llangatwg, bu menter arbennig o gref o arddio cymunedol. Rwyf yn credu bod eich rhagflaenydd, John Griffiths, wedi ymweld â'r safle, a byddwn hefyd yn talu teyrnged i'r gwaith y mae wedi'i wneud yn gynharach wrth nodi telerau'r Papur Gwyrdd a'r ymgynghoriad yr ydym yn ei drafod heddiw.

15:28

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. I also pay tribute to green-fingered John Griffiths. He's also a very keen gardener and promoter of this particular issue, and I follow in his footsteps. Can I also pay tribute to the many housing associations across Wales—Clwyd Alyn, Wales and West, Coastal, just to name a few—where they are very keen to promote that community spirit and the ethos around any developments that they are now involved in? I welcome any community gardens that are built within that process.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Hoffwn innau dalu teyrnged i'r garddwr John Griffiths. Mae ef hefyd yn arddwr brwd iawn ac yn un o hyrwyddwyr y mater penodol hwn, ac rwyf yn dilyn yn ôl ei droed. A gaf fi hefyd dalu teyrnged i'r nifer o gymdeithasau tai ledled Cymru—Clwyd Alyn, Wales and West, Coastal, i enwi dim ond rhai—sy'n awyddus iawn i hyrwyddo'r ysbryd cymunedol hwnnw a'r ethos o amgylch unrhyw ddatblygiadau y maent yn awr yn cymryd rhan ynddynt? Rwyf yn croesawu unrhyw erddi cymunedol sy'n cael eu hadeiladu o fewn y broses honno.

Let me be very clear in terms of the legislation. Let us not see that the Allotment Act is prohibitive to ensuring the growth of community gardens and developments. It is a fact that the Act is there, and we have to take notice of that, but it doesn't prevent anybody using their innovation and new opportunities to develop new community gardens, as I mentioned in terms of Swansea as an example earlier on.

Gadewch imi fod yn glir iawn o ran y ddeddfwriaeth. Gadewch inni beidio â gweld bod y Ddeddf Rhandiroedd yn ein rhwystro rhag sicrhau twf gerddi a datblygiadau cymunedol. Mae'n ffaith bod y Ddeddf yno, ac mae'n rhaid inni gymryd sylw o hynny, ond nid yw'n atal neb rhag defnyddio eu harloesedd a chyfleoedd newydd i ddatblygu gerddi cymunedol newydd, fel y soniais amdano yn Abertawe fel enghraifft yn gynharach.

I think the LDP process already does consider the issues of green space and allocations, and place plans are an important element of where communities right at the heart of local activity can demonstrate the need for community opportunities.

Rwy'n meddwl bod y broses Cynllun Datblygu Lleol eisoes yn ystyried mannau gwyrdd a dyraniadau, ac mae cynlluniau lleoedd yn elfen bwysig o ble y gall cymunedau wrth galon gweithgarwch lleol ddangos bod angen cyfleoedd cymunedol.

The issue of guerrilla growing is an interesting one. I am aware of that, in the same term as 'guerrilla knitting', which is another interesting sport that goes on, I believe. I think, if it's lawful, then I wouldn't want to be the Minister who steps in the way of that. Certainly, what I would be very clear to ensure is, whatever we grow, wherever we grow, that it's lawful first of all, and, effectively, that we can build a community together, to increase the supply of this provision.

Mae mater tyfu gerila yn un diddorol. Rwyf yn ymwybodol o hynny, yn yr un term â 'gwau gerila', sef camp diddorol arall sy'n digwydd, rwyf yn credu. Nid wyf yn credu, os yw'n gyfreithlon, yr hoffwn fod y Gweinidog sy'n atal hynny. Yn sicr, yr hyn y byddwn yn glir iawn i'w sicrhau yw, beth bynnag yr ydym yn ei dyfu, ble bynnag yr ydym yn ei dyfu, ei fod yn gyfreithlon yn gyntaf oll, ac, mewn gwirionedd, y gallwn adeiladu cymuned at ei gilydd, er mwyn cynyddu'r cyflenwad o'r ddarpariaeth hon.

15:30 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I, too, welcome your excellent announcement.

Weinidog, rwyf finnau hefyd yn croesawu eich cyhoeddiad rhagorol.

I'd just like to highlight the success of the Community Foodie programme, which was funded by the rural development scheme, as part of the European programme, both to highlight the improvement in the wellbeing of people—with the anecdotal evidence about the reduction in the number of prescriptions for anti-depressants as a result of the growing schemes, which would be worthy of further academic investigation—but also, bringing back land into productive use, instead of it being used for fly-tipping, and things like that, community cohesion, which results from people working together, as well as the possibilities of growing local businesses. I know that one Community Foodie programme, in the Vale of Glamorgan, was overrun with demand for any of their produce from local restaurants and pubs, which would have taken absolutely everything that they could grow, and more. That indicates the real possibility of growing more businesses around horticulture.

Hoffwn dynnu sylw at lwyddiant y rhaglen Bwydgarwyr Cymunedol, a ariannwyd gan y cynllun datblygu gwledig, yn rhan o'r rhaglen Ewropeaidd, i dynnu sylw at y gwelliant yn lles pobl—gyda'r dystiolaeth anecdotaidd am y gostyngiad yn nifer y presgripsiynau am wrthiselyddion o ganlyniad i'r cynlluniau tyfu, a fyddai'n deilwng o ymchwiliad academaidd pellach—ond hefyd, ailddechrau defnyddio tir yn gynhyrchiol, yn hytrach na'i ddefnyddio ar gyfer tipio anghyfreithlon, a phethau o'r fath, cydlyniad cymunedol, sy'n deillio o bobl yn gweithio gyda'i gilydd, yn ogystal â'r posibiliadau o dyfu busnesau lleol. Gwn fod un rhaglen Bwydgarwyr Cymunedol, ym Mro Morgannwg, wedi wynebu gormod o alw am unrhyw gynnyrch ganddynt gan fwytai a thafarndai lleol; byddai pobl wedi cymryd popeth y gallent ei dyfu ganddynt, a mwy. Mae hynny'n dangos y posibilrwydd gwirioneddol o dyfu mwy o fusnesau o gwmpas garddwriaeth.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:31.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:31.*

**Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Now, you rightly mentioned that there are competing demands for land, and nowhere is that more true than in Cardiff. I wondered what you, Minister, could do about some landowners, who hold back from allowing community gardening projects, because they're holding back thinking they're going to be able to make bigger sums of money out of housing. For example, the flood plain between Cardiff and Newport would be an ideal area for growing more community gardening schemes, particularly to meet the increasing demand for locally produced fruit and vegetables, not least from our schools and health centres, including our local hospitals. There is the possibility that there really is going to be a crisis of supply unless we can identify more areas for locally grown food.

Nawr, dywedasoch yn gywir fod yna alw cystadleuol am dir, ac nid yw hynny'n fwy gwir yn unman nag yng Nghaerdydd. Roeddwn yn meddwl tybed beth allech chi, Weinidog, ei wneud am rai tirfeddianwyr, sy'n dal yn ôl o ganiatáu prosiectau garddio cymunedol, oherwydd eu bod yn dal yn ôl gan feddwl y gallant wneud symiau mwy o arian allan o dai. Er enghraifft, byddai'r gorlifdir rhwng Caerdydd a Chasnewydd yn faes delfrydol ar gyfer tyfu mwy o gynlluniau garddio cymunedol, yn enwedig i ateb y galw cynyddol am ffrwythau a llysiau a gynhyrchir yn lleol, yn anad dim gan ein hysgolion a'n canolfannau iechyd, gan gynnwys ein hysbytai lleol. Mae'n bosibl y byddwn yn wynebu argyfwng cyflenwad gwirioneddol os na allwn ganfod mwy o fannau i dyfu bwyd yn lleol.

15:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her contribution. She's absolutely right—the Community Foodie is a European-supported programme, and demonstrates exactly the reason why this is a good investment in terms of community change. Not only does it support the supply of food, but actually it demonstrates all the activities that the Member raises, such as the principles of sustainable development, actually—economic, social, environmental impacts. Beyond the issue around health, which the Member quite rightly raises, about the interest that young and old people gain from gardening and growing, actually there are huge benefits for health and wellbeing, too.

Diolch i'r Aelod am ei chyfraniad. Mae hi'n hollol gywir—mae'r Bwydgarwyr Cymunedol yn rhaglen a gefnogir gan Ewrop, ac mae'n dangos yn union y rheswm pam mae hwn yn fuddsoddiad da o ran newid cymunedol. Nid yn unig y mae'n cefnogi cyflenwi bwyd, ond mae wir yn dangos yr holl weithgareddau y mae'r Aelod yn sôn amdanynt, megis egwyddorion datblygu cynaliadwy, mewn gwirionedd—effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol. Y tu hwnt i'r mater yn ymwneud ag iechyd, y mae'r Aelod yn ei godi'n ddigon teg, am y diddordeb y mae pobl hen ac ifanc yn elwa arno mewn garddio a thyfu, mewn gwirionedd ceir manteision enfawr i iechyd a lles, hefyd.

This doesn't come out without its problems, though, because, as soon as you allocate land for community growth, as Bethan Jenkins raised earlier, it takes quite some time to cultivate these areas of land. Of course, I think what has to happen is, while not covered by an allotment Act, where we allocate land, maybe on a temporary basis, for the use of community growing, the community have to understand the expectation around that, too: that, in time, this may come back to local government or public service ownership. Therefore, the break in allotment use or community growing, back to public use, is sometimes fraught with tension, and we have to manage that better.

Nid yw hyn yn dod heb ei broblemau, fodd bynnag, oherwydd, cyn gynted â'ch bod yn dyrannu tir ar gyfer tyfu cymunedol, fel y nododd Bethan Jenkins yn gynharach, mae'n cymryd cryn dipyn o amser i drin y darnau hyn o dir. Wrth gwrs, rwyf yn meddwl mai'r hyn sy'n gorfod digwydd yw, tra nad oes Deddf rhandiroedd ar gyfer hyn, lle'r ydym yn dyrannu tir, efallai ar sail dros dro, i'w ddefnyddio ar gyfer tyfu cymunedol, bod yn rhaid i'r gymuned ddeall y disgwyliad ynglŷn â hynny, hefyd: y gall hwn, ymhen amser, ddod yn ôl i berchnogaeth llywodraeth leol neu wasanaeth cyhoeddus. Felly, mae'r toriad mewn defnyddio rhandiroedd neu dyfu cymunedol, yn ôl i ddefnydd y cyhoedd, weithiau'n destun tensiwn, ac mae'n rhaid inni reoli hynny'n well.

I think the planning of this is something that we can get over, but it's something that the Member is quite right to raise, and I welcome her contribution today, as always. A very useful point she raises around the European support that we gain in Wales.

Rwy'n meddwl bod cynllunio hyn yn rhywbeth y gallwn ymdopi ag ef, ond mae'n rhywbeth y mae gan yr Aelod bob hawl i'w godi, a chroesawaf ei chyfraniad heddiw, fel bob amser. Mae hi'n codi pwynt defnyddiol iawn ynglŷn â'r gefnogaeth Ewropeaidd yr ydym yn ei derbyn yng Nghymru.

15:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm in a good mood, but, if I'm going to get everyone in now, we need to speed things up.

Rwyf mewn hwyliau da, ond, os ydw i'n mynd i roi cyfle i bawb nawr, mae angen inni gyflymu pethau.

15:34

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, would you agree with me that flexibility is something that has to feature more strongly in allotments and community growing? I've seen good examples in Wales, where there are small plots available for local people—local older people—which have really helped involve those older people in their local communities much more than was previously the case, but there are too many restrictions, I believe, in terms of how communities can get involved in allotments and community growing. Would you agree with me that, where communities are showing good practice, where there's a collectivism and a community ethos to local community growing—and they hold social evenings, they have pizza ovens, they're producing honey and preserves, as well as fruit and vegetables—they're often quite frustrated that there are too many restrictions in terms of selling that produce and producing an income for their community endeavours from it? So, will you look at the law very closely and urgently, notwithstanding what you've said about legislation, to see what easing there may be of those restrictions that would allow a greater flowering of that community activity?

Weinidog, a fyddech chi'n cytuno â mi bod hyblygrwydd yn rhywbeth y mae'n rhaid ei gynnwys yn gryfach mewn rhandiroedd a thyfu cymunedol? Rwyf wedi gweld enghreifftiau da yng Nghymru, lle mae lleiniau bach ar gael i bobl leol—pobl leol hŷn—sydd wir wedi helpu i gynnwys y bobl hŷn hynny yn eu cymunedau lleol yn llawer mwy nag o'r blaen, ond mae gormod o gyfyngiadau, yn fy marn i, o ran sut y gall cymunedau gymryd rhan mewn rhandiroedd a thyfu cymunedol. A fyddech chi'n cytuno â mi, pan fo cymunedau'n dangos arfer da, pan fo cyfunoliaeth ac ethos cymunedol i dyfu cymunedol lleol—ac maent yn cynnal nosweithiau cymdeithasol, mae ganddynt ffyrnau pizza, maent yn cynhyrchu mêl a chyffeithiau, yn ogystal â ffrwythau a llysiau—yn aml maent yn eithaf rhwystredig bod gormod o gyfyngiadau o ran gwerthu'r cynnyrch hwnnw a chynhyrchu incwm ar gyfer eu hymdrechion cymunedol ohono? Felly, a wnewch chi edrych ar y gyfraith yn fanwl iawn ac ar fyrder, er gwaethaf yr hyn yr ydych wedi ei ddweud am ddeddfu, i weld sut y gellid lleddfu'r cyfyngiadau hynny i ganiatáu mwy o flodeuo o ran y gweithgarwch cymunedol hwnnw?

Finally, Minister, Incredible Edible is one example of guerrilla gardening, if you want to call it that, or community empowerment, allowing better use of land. Will you do all within your power before there are changes in the law to make sure that that sort of community activity can flourish?

Yn olaf, Weinidog, mae Incredible Edible yn un enghraifft o arddio gerila, os ydych am ei alw'n hynny, neu o rymuso cymunedau, gan ganiatáu gwell defnydd o dir. A wnewch chi wneud popeth o fewn eich gallu cyn y ceir newidiadau yn y gyfraith i sicrhau y gall y math hwnnw o weithgaredd cymunedol ffynnu?

15:36 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his very brief questions. I agree with him that flexibility is key. With city gardens, size and scale is irrelevant as long as people are active and have the opportunity to get involved, something I very much support. The Allotments Act 1922 is prohibitive for any trade or business on allotments, but let's be clear: for many, many years prior to this Act, people swapped and traded goods right across the land. I don't see there's anything wrong with that process, in swapping honey for pumpkins, or whatever you do on allotments, and long may it last, I say. The issue is to make sure that we get more supply and more people involved in this process. The Member raised a very important point right at the end there, and I will give that further consideration as we move forward.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau byr iawn. Cytunaf ag ef fod hyblygrwydd yn allweddol. Mae maint a graddfa gerddi dinas yn amherthnasol cyn belled â bod pobl yn weithgar ac yn cael cyfle i gymryd rhan, rhywbeth yr wyf yn ei gefnogi'n fawr iawn. Mae Deddf Rhandiroedd 1922 yn gwahardd unrhyw fasnach neu fusnes ar randiroedd, ond gadewch inni fod yn glir: am lawer iawn o flynyddoedd cyn y Ddeddf hon, bu pobl yn cyfnewid ac yn masnachu nwyddau ar draws y wlad. Nid wyf yn gweld dim byd o'i le ar y broses honno, o gyfnewid mêl am bwmpenni, neu beth bynnag yr ydych yn ei wneud ar randiroedd, a hir y parhaed, ddywedaf fi. Y mater yw gwneud yn siŵr ein bod yn cael mwy o gyflenwad a mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses hon. Cododd yr Aelod bwynt pwysig iawn ar y diwedd un yn y fan yna, a byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i hynny wrth inni symud ymlaen.

15:37 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I'll be succinct and I won't make silly jokes about allotments being a growth area and so on and so forth. [Laughter.] The issue has already been raised about the availability of land. In Rhondda Cynon Taff, of course, there's a 10-year wait, the problem being—and I imagine it's the same with a lot of allotments—that no-one's actually quite sure, because all the allotments tend to operate separately and everybody puts their names on every single allotment that there is. So, the actual registration and access to allotments is in really quite a state of confusion. I put a submission in myself, but that was based very much on an engagement process in RCT with allotment holders. Of course, one of the things they came up with was the idea of having some sort of consistent registration. The other thing is perhaps a role for community councils in registration where they're in a position to do so. But the main issue, I think, is the one of governance: how you actually deal with allotments; how you deal with allotments that are now no longer being properly maintained; and how you maintain the relationship between allotment holders. What's interesting about the situation in England is that they're based on a co-operative model. Maybe we should be looking at governance being based on a co-operative model within Wales.

Weinidog, byddaf yn gryno ac ni wnaf jôcs gwirion am randiroedd yn faes twf ac yn y blaen ac yn y blaen. [Chwerthin.] Mae mater argaeledd tir eisoes wedi ei godi. Yn Rhondda Cynon Taf, wrth gwrs, mae 10 mlynedd o aros, a'r broblem yw—ac rwyf yn dychmygu bod hyn yn wir am lawer o randiroedd—nad oes neb mewn gwirionedd yn siŵr, gan fod yr holl randiroedd yn tueddu i weithredu ar wahân a phawb yn rhoi eu henwau ar bob un rhandir sy'n bodoli. Felly, mae cofrestru rhandiroedd a mynediad iddynt mewn gwirionedd yn faes eithaf dryslyd. Gwnes gyflwyniad fy hun, ond roedd hwnnw'n seiliedig i raddau helaeth ar broses ymgysylltu yn Rhondda Cynon Taf â deiliaid rhandiroedd. Wrth gwrs, un o'r pethau y nodwyd ganddynt oedd y syniad o gael rhyw fath o gofrestru cyson. Y peth arall yw efallai swyddogaeth i gynghorau cymuned yn y broses gofrestru lle maent mewn sefyllfa i wneud hynny. Ond y prif fater, rwy'n credu, yw mater llywodraethu: sut ydych chi mewn gwirionedd yn ymdrin â rhandiroedd; sut ydych chi'n ymdrin â rhandiroedd nad ydynt bellach yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol; a sut ydych chi'n cynnal y berthynas rhwng deiliaid rhandiroedd. Yr hyn sy'n ddiddorol am y sefyllfa yn Lloegr yw eu bod yn seiliedig ar fodel cydweithredol. Efallai y dylem fod yn edrych ar seilio llywodraethu ar fodel cydweithredol yng Nghymru.

15:38 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his question. He's absolutely right that there are many variants of management and registration processes. The guidance, we hope, will give some clarity to authorities to start to have consistency. There are already some local town and community councils that manage allotments. Again, we can learn from the best practice and see how that is transferred. On governance, sometimes there is some self-control management on allotment sites by the committees that are set up, and they manage these sites very well, but, sometimes, they can be overzealous in their actions, and that's something that we have to make sure of—that there is consistency wherever you are. This is something I would want to see, working with the Member, in terms of RCT and other areas, to see whether we can make this better for people and communities across Wales.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae'n llygad ei le wrth ddweud y ceir llawer o amrywiadau o brosesau rheoli a chofrestru. Bydd y canllawiau, rydym yn gobeithio, yn rhoi rhywfaint o eglurder i awdurdodau ddechrau cael cysondeb. Mae rhai cynghorau tref a chymuned lleol eisoes yn rheoli rhandiroedd. Unwaith eto, gallwn ddysgu o'r arfer gorau a gweld sut y caiff hwnnw ei drosglwyddo. O ran llywodraethu, weithiau ceir rhywfaint o hunanreolaeth ar safleoedd rhandiroedd gan y pwyllgorau sy'n cael eu sefydlu, ac maent yn rheoli'r safleoedd hyn yn dda iawn, ond, weithiau, gallant weithredu mewn modd gorfrwdfrydig, ac mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid inni wneud yn siŵr ohono—y ceir cysondeb ble bynnag yr ydych. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn dymuno ei weld, gan weithio gyda'r Aelod, yn Rhondda Cynon Taf ac mewn ardaloedd eraill, i weld a allwn wneud hyn yn well i bobl a chymunedau ledled Cymru.

15:39 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do thank you, Minister, for your statement. Members may know that this year marks the centenary of the Women's Institute. That was borne out of necessity during the war here in Wales. In Anglesey, it helped revitalise rural communities and encouraged women to become more involved in food production. So, I think it's fitting that here we are, a 100 years on, still talking about allotments and community gardens, and discussing how we can best meet people's growing appetite for growing their own.

Rwyf yn ddiolchgar ichi, Weinidog, am eich datganiad. Efallai y bydd yr Aelodau'n gwybod bod eleni'n nodi canmlwyddiant Sefydliad y Merched. Deilliodd y Sefydliad o reidrwydd yn ystod y rhyfel yma yng Nghymru. Ar Ynys Môn, roedd yn helpu i adfywio cymunedau gwledig ac yn annog menywod i gymryd mwy o ran mewn cynhyrchu bwyd. Felly, rwyf yn meddwl ei bod yn briodol ein bod ni yma, 100 mlynedd yn ddiweddarach, yn dal i siarad am randiroedd a gerddi cymunedol, ac yn trafod y ffordd orau o ddiwallu awydd cynyddol pobl i dyfu eu bwyd eu hunain.

I do, however, have a question, Minister, following on from your statement. My office has been involved in a case concerning the village of Red Roses on the St Clears road. Building work for the new bypass meant a piece of land became available, which the community wanted to use to grow food for local use, fundraising and that sort of thing. I'm happy to report that the Welsh Government has now agreed to offer to sell it to the community council. I understand the original plan was to divide up the land and auction it off, which would've raised more money, no doubt, but the community would've lost out. I highlight this case, Minister, because if you look at this particular case and if you discuss it with other colleagues in the Cabinet, I think it might provide a useful case study: where land is purchased under compulsory orders for road-building projects or anything else, it could provide a rare opportunity for communities to buy up that land for use, perhaps, for allotments. Maybe I might suggest, Minister, that the Government could be proactive by actually approaching community councils or other organisations when land is purchased to ask whether they would like to organise a community bid.

Mae gennyf gwestiwn, fodd bynnag, Weinidog, yn dilyn eich datganiad. Mae fy swyddfa wedi bod yn ymwneud ag achos ynglŷn â phentref Rhos-goch ar ffordd Sanclêr. Oherwydd gwaith adeiladu'r ffordd osgoi newydd, daeth darn o dir ar gael, ac roedd y gymuned yn awyddus i'w ddefnyddio i dyfu bwyd ar gyfer defnydd lleol, i godi arian a'r math yna o beth. Rwy'n falch o adrodd bod Llywodraeth Cymru bellach wedi cytuno i gynnig ei werthu i'r cyngor cymuned. Rwyf ar ddeall mai'r cynllun gwreiddiol oedd rhannu'r tir a'i arwerthu, a fyddai wedi codi mwy o arian, yn ddiau, ond byddai'r gymuned wedi bod ar ei cholled. Rwyf yn tynnu sylw at yr achos hwn, Weinidog, oherwydd os edrychwch ar yr achos arbennig hwn, ac os trafodwch ef â chydweithwyr eraill yn y Cabinet, rwyf yn meddwl y gallai ddarparu astudiaeth achos ddefnyddiol: lle caiff tir ei brynu o dan orchmynion gorfodol ar gyfer prosiectau adeiladu ffyrdd, neu unrhyw beth arall, gallai ddarparu cyfle prin i gymunedau brynu'r tir hwnnw i'w ddefnyddio, efallai, ar gyfer rhandiroedd. Efallai y caf awgrymu, Weinidog, y gallai'r Llywodraeth fod yn rhagweithiol drwy fynd at gynghorau cymuned neu sefydliadau eraill pan gaiff tir ei brynu i ofyn a hoffent drefnu cynnig cymunedol.

15:41 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the final contribution and questions. She raises some very important issues. John Griffiths, and Alun Davies, indeed—a very big supporter of allotments—and I have all continued to push this very hard. However, the Member is right to raise the issue of the Women's Institute. We can learn a lot from what the Women's Institute have done in the past, and currently, including the women's land army. We should remember, and never forget, those issues of cultivating land for the greater good.

Diolch i'r Aelod am y cyfraniad terfynol a'r cwestiynau. Mae hi'n codi rhai materion pwysig iawn. Mae John Griffiths, ac Alun Davies, yn wir—cefnogwr mawr iawn o randiroedd—a minnau i gyd wedi parhau i wthio hyn yn galed iawn. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn iawn i sôn am Sefydliad y Merched. Gallwn ddysgu llawer o'r hyn y mae Sefydliad y Merched wedi ei wneud yn y gorffennol, a'r hyn y mae'n ei wneud ar hyn o bryd, gan gynnwys byddin dir y merched. Dylem gofio, ac ni ddylem byth anghofio, y materion hynny o feithrin tir er lles pawb.

There are some great case studies. The one the Member raises is something that I will take up with colleagues. Sandy Mewies raised earlier asset management in the public sector. We can do better, and I think this is something that, as a collective, both Government and public bodies externally, we need to think about: how we use these assets to a greater extent. I'm very grateful for the contributions on today's statement.

Ceir rhai astudiaethau achos gwych. Mae'r un y mae'r Aelod yn ei chodi'n rhywbeth y byddaf yn sôn amdani â chydweithwyr. Yn gynharach, soniodd Sandy Mewies am reoli asedau yn y sector cyhoeddus. Gallwn wneud yn well, ac rwyf yn credu bod hyn yn rhywbeth y mae angen i'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus allanol, ar y cyd, feddwl amdano: sut i ddefnyddio mwy ar yr asedau hyn. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfraniadau ar ddatganiad heddiw.

15:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:42 **Y** Senedd.tv Fideo Video

# 5. Datganiad: Adnewyddu'r Agenda Cynhwysiant Ariannol

# 5. Statement: Refreshing the Financial Inclusion Agenda

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 5 is a statement by the Minister for Communities and Tackling Poverty on refreshing the financial inclusion agenda, and I call on the Minister, Lesley Griffiths.

Datganiad yw eitem 5 gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar adnewyddu'r agenda cynhwysiant ariannol, a galwaf ar y Gweinidog, Lesley Griffiths.

15:42 Senedd.tv Fideo Video

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. It is timely to update Members on work that will be undertaken this year on the financial inclusion agenda. Our financial inclusion strategy will be refreshed in order to ensure we are continuing with appropriate measures to protect and support our most vulnerable individuals and families. Our stakeholders will be involved in this refresh, particularly members of the Welsh Government financial inclusion delivery group. As agreed, I have asked Bethan Jenkins AM to nominate a representative to be part of this work.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bryd imi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y gwaith a fydd yn cael ei wneud eleni ar yr agenda cynhwysiant ariannol. Bydd ein strategaeth cynhwysiant ariannol yn cael ei hadnewyddu er mwyn sicrhau ein bod yn parhau â mesurau priodol i amddiffyn a chefnogi ein hunigolion a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed. Bydd ein rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y gwaith adnewyddu hwn, yn enwedig aelodau o grŵp cyflenwi cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cymru. Fel y cytunwyd, rwyf wedi gofyn i Bethan Jenkins AC enwebu cynrychiolydd i fod yn rhan o'r gwaith hwn.

In July 2009, the Welsh Government published its financial inclusion strategy, 'Taking Everyone into Account'. This brought together financial inclusion activity taking place across Wales and served to raise the profile of financial exclusion and how to address it. The strategy sets out five themes for action. These were improving access to mainstream services, affordable loans and savings, and debt advice. There was also a focus on improving financial literacy and capability, and on maximising people's income.

Ym mis Gorffennaf 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth cynhwysiant ariannol, 'Mae Pawb yn Cyfrif'. Roedd hyn yn fodd o ddod â gweithgarwch cynhwysiant ariannol sy'n cael ei gynnal ledled Cymru at ei gilydd ac roedd yn fodd o godi proffil allgáu ariannol a sut i ymdrin ag ef. Mae'r strategaeth yn nodi pum thema ar gyfer gweithredu, sef gwella mynediad i wasanaethau prif ffrwd, benthyciadau fforddiadwy a chynilion, a chyngor ar ddyledion. Roedd pwyslais hefyd ar wella llythrennedd ariannol a gallu, ac ar wneud y mwyaf o incwm pobl.

The themes in the strategy are still relevant today—more so as the financial implications of welfare reform and the economic climate impact on communities across Wales. Since 2009, we've worked hard to put in place new measures to support our most vulnerable who are struggling to make ends meet. It is now important to take stock of the support we have in place, considering and refreshing our strategy, to ensure it reflects what is required in the future.

Mae themâu'r strategaeth yn dal i fod yn berthnasol heddiw—yn fwy felly wrth i oblygiadau ariannol diwygiadau lles a'r hinsawdd economaidd effeithio ar gymunedau ledled Cymru. Ers 2009, rydym yn gweithio'n galed i roi ar waith fesurau newydd i gefnogi ein pobl fwyaf agored i niwed sy'n ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Mae'n bwysig yn awr pwyso a mesur y cymorth sydd gennym ar waith, ac ystyried ac adnewyddu ein strategaeth, er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r hyn sydd ei angen yn y dyfodol.

Alongside welfare reform, the prevailing economic climate in the UK has also had a direct impact on the ability of Welsh families to manage their household incomes effectively. Debt and money advice services are essential for families who struggle to pay their bills and manage household budgets, and the demand for debt and money advice services has increased dramatically. Through the ministerial task and finish group on welfare reform, we commissioned research to better understand how the changes being imposed by Westminster are affecting people in Wales. Some of the headline findings of this research indicate the average annual loss per working-age adult in Wales is estimated to be around £500 in 2015-16 alone. Combined with the impact of other changes, losses could be even higher for some people.

Ochr yn ochr â'r diwygiadau lles, mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni yn y DU hefyd wedi cael effaith uniongyrchol ar allu teuluoedd Cymru i reoli incwm eu haelwydydd yn effeithiol. Mae gwasanaethau cynghori ar ddyledion ac arian yn hanfodol i deuluoedd sy'n cael trafferth talu eu biliau a rheoli cyllidebau eu haelwydydd, ac mae'r galw am wasanaethau cynghori ar ddyledion ac arian wedi cynyddu'n ddramatig. Drwy'r grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol ar ddiwygio lles, rydym wedi comisiynu ymchwil i ddeall yn well sut y mae'r newidiadau sy'n cael eu gorfodi gan San Steffan yn effeithio ar bobl yng Nghymru. Mae rhai o brif ganfyddiadau'r ymchwil hwn yn dangos yr amcangyfrifir y bydd oedolyn oedran gweithio yng Nghymru'n colli tua £500 y flwyddyn ar gyfartaledd yn 2015-16 yn unig. O gyfuno hynny ag effaith newidiadau eraill, gallai'r colledion fod hyd yn oed yn uwch i rai pobl.

Although the Welsh Government cannot wholly insulate the people of Wales from these external factors, we have put in place new and increased measures to help alleviate some of the impacts. Advice services are a key lever, offering a lifeline to so many of our most vulnerable people affected by welfare reform who were already struggling to make ends meet. As a Government, we are committed to supporting free and independent advice services as the need for them increases. In September, I announced a further £2 million to support front-line advice services on some of the very issues that are becoming more common as a result of welfare reform. It is important that we invest in these services because they play an important preventative role. Not only are they there to offer support to people when they run into serious difficulty, they also provide somewhere for people to turn to before their circumstances or debts spiral out of control.

Er na all Llywodraeth Cymru ynysu pobl Cymru'n llwyr rhag y ffactorau allanol hyn, rydym wedi rhoi mesurau newydd a chynyddol ar waith i helpu i leddfu rhai o'r effeithiau. Mae gwasanaethau cynghori yn ysgogiad allweddol, ac yn cynnig achubiaeth i gynifer o'n pobl fwyaf agored i niwed y mae diwygio lles yn effeithio arnynt ac a oedd eisoes yn cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd. Rydym ni yn y Llywodraeth wedi ymrwymo i gefnogi gwasanaethau cynghori annibynnol rhad ac am ddim fel y mae'r angen yn cynyddu. Ym mis Medi, cyhoeddais £2 filiwn arall i gefnogi gwasanaethau cynghori rheng flaen ar rai o'r union faterion sy'n dod yn fwyfwy cyffredin o ganlyniad i ddiwygio lles. Mae'n bwysig ein bod yn buddsoddi yn y gwasanaethau hyn oherwydd maent yn chwarae rhan ataliol bwysig. Maent yno i gynnig cymorth i bobl pan fyddant yn mynd i drafferthion difrifol, ond maent hefyd yn rhywle i bobl droi cyn i'w hamgylchiadau neu eu dyledion fynd y tu hwnt i reolaeth.

According to Welsh Government-commissioned research, the groups more likely to bear the brunt of the changes in the benefits system include people with protected characteristics. Those around the poverty line, non-working lone parents and workless couples with children are also likely to be affected. It is essential to understand what impact our support of advice services is having. Raising household income is crucial and directly supports our wider efforts to tackle poverty. We are measuring a number of things, including benefit take-up. The Better Advice, Better Lives project has helped secure more than £42 million in additional benefits since April 2012.

Yn ôl ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, mae pobl â nodweddion gwarchodedig ymhlith y grwpiau sydd fwyaf tebygol o ddioddef effaith y newidiadau i'r system fudd-daliadau. Mae hyn yn debygol o effeithio hefyd ar y rhai sy'n agos at y ffin dlodi, rhieni sengl nad ydynt yn gweithio a chyplau heb waith a chanddynt blant. Mae'n hanfodol deall pa effaith y mae ein cefnogaeth i wasanaethau cynghori'n ei chael. Mae codi incwm yr aelwyd yn hanfodol ac yn cefnogi'n uniongyrchol ein hymdrechion ehangach i fynd i'r afael â thlodi. Rydym yn mesur nifer o bethau, gan gynnwys nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau. Mae'r prosiect Cyngor Da, Bywyd Da wedi helpu i sicrhau mwy na £42 miliwn mewn budd-daliadau ychwanegol ers mis Ebrill 2012.

There is also work under way to bring about longer term improvements in advice services arising from the recommendations of our advice services review and relating to our longer term vision and strategy for advice services in Wales. We are bringing together key players and stakeholders in the form of a national advice network, chaired by David Phillips, to drive forward the planning, quality and delivery of these services. I am keen to see an advice network develop in Wales which can respond to people's individual needs in an integrated way and guide them towards longer term solutions.

Mae gwaith hefyd ar y gweill i sicrhau gwelliannau tymor hwy i wasanaethau cynghori sy'n deillio o argymhellion ein hadolygiad o wasanaethau cynghori ac yn ymwneud â'n gweledigaeth a'n strategaeth tymor hwy ar gyfer gwasanaethau cynghori yng Nghymru. Rydym yn dod â chwaraewyr allweddol a rhanddeiliaid ynghyd ar ffurf rhwydwaith cynghori cenedlaethol, o dan gadeiryddiaeth David Phillips, i fwrw ymlaen â chynllunio, ansawdd a darpariaeth y gwasanaethau hyn. Rwyf yn awyddus i weld rhwydwaith cynghori'n datblygu yng Nghymru sy'n gallu ymateb i anghenion unigol pobl mewn modd integredig a'u tywys tuag at atebion tymor hwy.

An essential theme of the strategy is accessing affordable finance. We recognise the role of credit unions in achieving this. Therefore, alongside advice services, credit unions will remain a cornerstone of the refreshed financial inclusion strategy. They are available to everyone and can offer vital support to many of those who are most in need of affordable finance. Credit unions are increasingly recognised as part of the solution for people who need to borrow smaller amounts for a short-term period or when a poor credit rating means an affordable loan from a bank or building society is not an option. It is likely that loans provided by credit unions are saving many consumers millions of pounds in interest, especially when compared to the extortionate rate of interest charged by pay-day loan companies. To underline the importance we place on credit unions, in March 2014, Welsh Government committed a further £1.9 million to continue the credit union project until March 2017. It is important we encourage and develop the link between advice providers, credit unions and other sources of support as we go forward. Stronger connections between different providers and relevant partners will enhance the experience of service users and make the sector responsive to changes in the underlying and root causes of poverty and financial exclusion.

Un o themâu hanfodol y strategaeth yw mynediad i gyllid fforddiadwy. Rydym yn cydnabod rôl undebau credyd yn hynny o beth. Felly, ochr yn ochr â'r gwasanaethau cynghori, bydd undebau credyd yn parhau i fod yn gonglfaen i'r strategaeth cynhwysiant ariannol ar ei newydd wedd. Maent ar gael i bawb ac yn gallu cynnig cymorth hollbwysig i lawer o'r rhai y mae angen cyllid fforddiadwy arnynt fwyaf. Mae undebau credyd yn cael eu cydnabod fwyfwy fel rhan o'r ateb i bobl y mae arnynt angen benthyca symiau llai am gyfnod byr neu pan fydd statws credyd gwael yn golygu nad yw benthyciad fforddiadwy gan fanc neu gymdeithas adeiladu yn opsiwn. Mae'n debyg bod benthyciadau gan undebau credyd yn arbed miliynau lawer o bunnoedd mewn llog i ddefnyddwyr, yn enwedig o gymharu â'r cyfraddau llog afresymol a godir gan gwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog. Er mwyn tanlinellu'r pwys a roddwn ar undebau credyd, ym mis Mawrth 2014 neilltuodd Llywodraeth Cymru werth £1.9 miliwn yn rhagor i barhau â phrosiect yr undebau credyd hyd at fis Mawrth 2017. Mae'n bwysig ein bod yn annog ac yn datblygu'r cyswllt rhwng y rhai sy'n darparu cyngor, undebau credyd a ffynonellau eraill o gymorth wrth inni symud ymlaen. Bydd cysylltiadau cryfach rhwng gwahanol ddarparwyr a phartneriaid perthnasol yn gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau ac yn helpu'r sector i ymateb i newidiadau i achosion gwaelodol a sylfaenol tlodi ac allgáu ariannol.

Another vital support service we have provided is the discretionary assistance fund, which was introduced in 2013 following the abolition of the Department for Work and Pensions' social fund. Welsh Government moved swiftly to introduce the replacement scheme for the discretionary assistance fund, which has ensured vital support is still available to our most vulnerable individuals. I have already agreed in principle to the extension of the contract to deliver the fund for 2015-16. Since the beginning of the fund, 44,000 of the most vulnerable people in Wales have been supported with over £12 million awarded in grants, and it has raised the maximum grant from £30 to £50.

Mae'r gronfa cymorth dewisol, a gyflwynwyd yn 2013 ar ôl diddymu cronfa gymdeithasol yr Adran Gwaith a Phensiynau yn wasanaeth cymorth hanfodol arall yr ydym wedi'i ddarparu. Symudodd Llywodraeth Cymru yn gyflym i gyflwyno'r cynllun newydd ar gyfer y gronfa cymorth dewisol, sydd wedi sicrhau bod cymorth allweddol yn dal i fod ar gael i'n hunigolion mwyaf agored i niwed. Rwyf eisoes wedi cytuno mewn egwyddor i estyn y contract i ddarparu'r gronfa ar gyfer 2015-16. Ers cychwyn y gronfa, mae 44,000 o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru wedi cael cymorth wrth i werth dros £12 miliwn o grantiau gael eu dyfarnu, ac mae wedi codi uchafswm y grant o £30 i £50.

Our efforts to tackle financial exclusion are about ensuring everyone has the opportunity to access fair financial services and products. This key principle is central to mitigating the impact of poverty and financial exclusion. It is vital we continue to prioritise the needs of the poorest and protect the most vulnerable against poverty and marginalisation. The purpose of the Welsh Government's financial inclusion strategy was to focus efforts to improve access to financial services to financially excluded people in Wales. This remains a key objective of the Welsh Government and one to which I am firmly committed.

Mae ein hymdrechion i fynd i'r afael ag allgáu ariannol yn ymwneud â sicrhau bod gwasanaethau a chynnyrch ariannol teg ar gael i bawb. Mae'r egwyddor allweddol hon yn ganolog i liniaru effaith tlodi ac allgáu ariannol. Mae'n hollbwysig parhau i roi blaenoriaeth i anghenion y tlotaf ac amddiffyn y mwyaf agored i niwed rhag tlodi a chael eu gwthio i'r cyrion. Pwrpas strategaeth cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cymru oedd canolbwyntio ymdrechion i'w gwneud yn haws i bobl sydd wedi'u heithrio'n ariannol yng Nghymru gael gafael ar wasanaethau ariannol. Mae hyn yn parhau i fod yn un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru ac yn un yr wyf wedi ymrwymo'n llwyr iddo.

15:49 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thanks for your statement. Firstly, I refer to your comments about Welsh Government support for independent debt and money advice services. What discussions have you had with the financial capability fora in north and south Wales, who clearly have a wide network of membership, regarding the provision of support in debt and financial advice for people in crisis, who might be facing court or repossession or a bailiff's visit, to ensure that the large contracts given to excellent but large charities by the Welsh Government are meeting that crisis need and not simply putting people on waiting lists?

Diolch am eich datganiad. Yn gyntaf, cyfeiriaf at eich sylwadau am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i wasanaethau cynghori annibynnol ar ddyledion ac arian. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â'r fforymau gallu ariannol yng ngogledd a de Cymru, y mae ganddynt yn amlwg rwydwaith eang o aelodau, ynghylch darparu cymorth o ran cynghori ar ddyledion a chyngor ariannol i bobl mewn argyfwng, a allai fod yn wynebu achos llys neu adfeddiannu neu ymweliad gan feili, er mwyn sicrhau bod y contractau mawr a roddir i elusennau rhagorol ond mawr gan Lywodraeth Cymru yn bodloni'r angen hwnnw mewn argyfwng ac nid dim ond yn rhoi pobl ar restrau aros?

You refer many, many times to welfare reform. This morning at the cross-party group on disability, we had a presentation by Capita, the organisation delivering the personal independence payments. I was wondering what dialogue you might have had with Capita or the Department for Work and Pensions over that. We were advised this morning that the Minister of State for Disabled People in the UK Government will be making a statement to the Work and Pensions Committee tomorrow, and that we can expect some very good news on backlog of personal independence payments assessments, but clearly we need to be putting insurance in place for the future to ensure those backlogs don't rise again. He also referred, although not delivered by them, to the work capability assessment and the fact that Atos—of course, appointed by the previous Government as the work capability assessment provider—has been replaced by Maximus, and that they will be needing to increase staffing levels and improve accessibility to the work capability assessment process. These have been two of the key contributory factors to the problems you identify, but what engagement are you having regarding the hoped-for solutions that have been put in place to address that?

Cyfeiriwch lawer, lawer gwaith at ddiwygio lles. Y bore yma yn y grŵp trawsbleidiol ar anabledd, cawsom gyflwyniad gan Capita, y sefydliad sy'n darparu'r taliadau annibyniaeth bersonol. Tybed pa ddeialog ydych chi wedi'i chael â Capita neu'r Adran Gwaith a Phensiynau am hynny? Cawsom wybod y bore yma y bydd y Gweinidog Gwladol dros Bobl Anabl yn Llywodraeth y DU yn gwneud datganiad i'r Pwyllgor Gwaith a Phensiynau yfory, ac y gallwn ddisgwyl rhywfaint o newyddion da iawn ar ôl-gronni asesiadau taliadau annibyniaeth bersonol, ond yn amlwg mae angen inni fod yn rhoi yswiriant ar waith at y dyfodol er mwyn sicrhau nad yw'r ôl-groniadau hynny yn codi eto. Cyfeiriodd hefyd, er na chaiff ei ddarparu ganddynt, at yr asesiad gallu i weithio a'r ffaith bod Atos—wrth gwrs, a benodwyd gan y Llywodraeth flaenorol i ddarparu asesiadau gallu i weithio—wedi cael ei ddisodli gan Maximus, ac y bydd angen iddynt gynyddu lefelau staffio a gwella hygyrchedd y broses asesu gallu i weithio. Mae'r rhain wedi bod yn ddau o'r ffactorau allweddol sydd wedi cyfrannu at y problemau yr ydych yn eu nodi, ond pa ymgysylltiad ydych chi'n ei gael ynghylch yr atebion y gobeithir eu cael sydd wedi eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hynny?

You refer many times, and quite rightly, to credit unions. We know that you funded the North Wales Credit Union advertising campaign and that 5,300 more people signed up because of that advertising campaign. Of course, the issue was to attract more middle and high-income members to enable funding for smaller, shorter term loans, which most credit unions simply can't do under the current scale. So, how are you ensuring that we target those higher-end investors beyond that advertising campaign where, as I say, most credit unions still aren't able to provide those smaller, shorter term loans? Also, how are you working with Community Housing Cymru Group and Moneyline Cymru who are now working in both north and south Wales to reach people who are denied finance by mainstream lenders?

Rydych yn cyfeirio sawl gwaith, ac yn gwbl briodol, at undebau credyd. Gwyddom eich bod wedi ariannu ymgyrch hysbysebu Undeb Credyd Gogledd Cymru, a bod 5,300 yn fwy o bobl wedi ymaelodi oherwydd yr ymgyrch hysbysebu honno. Wrth gwrs, y bwriad oedd denu mwy o aelodau incwm canol ac uchel er mwyn gallu ariannu benthyciadau llai, tymor byrrach, na all y rhan fwyaf o undebau credyd ei wneud o dan y raddfa bresennol. Felly, sut ydych chi'n sicrhau ein bod yn targedu'r buddsoddwyr pen uchaf hynny y tu hwnt i'r ymgyrch hysbysebu lle, fel y dywedais, y mae'r rhan fwyaf o undebau credyd yn dal i fethu â gallu darparu'r benthyciadau llai, tymor byrrach? Hefyd, sut ydych chi'n gweithio gyda Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru a Moneyline Cymru sydd bellach yn gweithio yn y gogledd a'r de i gyrraedd pobl nad ydynt yn cael cyllid gan fenthycwyr prif ffrwd?

Again, on credit unions—I've asked this many times and still not had a straight answer, even from your predecessors—how are you working with the Association of British Credit Unions Limited over the UK credit union expansion programme? I know that, last week in Westminster, the all-party parliamentary group on credit unions heard that the expansion project had delivered automated lending decision tools, speeding-up loan-making, and that over 70 credit unions were collaborating in less technical areas such as group purchasing, paying dividends for credit unions and much work behind the scenes to scope, source and refine not just the banking platform but a new way of working. I welcome the Welsh Government support of £1.9 million over a three-year period, but huge investment is going into a parallel scheme seeking to deliver sustainability to our credit unions and reach those customers in need, apparently replicating what's going on. Are they working together and, if so, how, and, if not, why not, where all the larger Welsh credit unions, I believe, are signed up to it?

Unwaith eto, o ran undebau credyd—rwyf wedi gofyn hyn sawl gwaith ac yn dal heb gael ateb plaen, hyd yn oed gan eich rhagflaenwyr—sut ydych chi'n gweithio gyda Chymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig o ran rhaglen ehangu undebau credyd y DU? Gwn fod y grŵp seneddol hollbleidiol ar undebau credyd wedi clywed yr wythnos diwethaf yn San Steffan fod y prosiect ehangu wedi darparu offer penderfyniadau benthyca awtomatig, gan gyflymu'r broses o roi benthyciadau, a bod dros 70 o undebau credyd yn cydweithio mewn meysydd llai technegol fel prynu mewn grŵp, talu difidendau i undebau credyd a llawer o waith y tu ôl i'r llenni i gwmpasu, canfod ffynonellau a mireinio nid dim ond y llwyfan bancio, ond ffordd newydd o weithio. Rwyf yn croesawu'r cymorth gan Lywodraeth Cymru o £1.9 miliwn dros gyfnod o dair blynedd, ond mae buddsoddiad enfawr yn mynd i mewn i gynllun cyfochrog sy'n ceisio sicrhau cynaliadwyedd i'n hundebau credyd a chyrraedd y cwsmeriaid hynny sydd mewn angen, gan ailadrodd mae'n debyg yr hyn sy'n digwydd. A ydynt yn gweithio gyda'i gilydd, ac os felly, sut, ac os nad ydynt, pam lai, pan fo holl undebau credyd mwy Cymru, rwyf yn credu, wedi ymrwymo iddo?

Finally, on schools, how are you, in terms of credit unions, working to develop credit unions within schools? I know that, when the Communities and Culture Committee did a report on this in the last Assembly, I visited a primary school in Mold who told us that they were developing and taking the All Flintshire Credit Union Ltd to the high school, Mold Alun School, because of the young people going up. What a wonderful model. I also visited a school in Bala using Institute of Financial Services products. Both staff and pupils told us that this was a wonderful way of enabling them to develop the financial skills they would need in later life.

Yn olaf, o ran ysgolion, sut ydych chi, o ran undebau credyd, yn gweithio i ddatblygu undebau credyd mewn ysgolion? Gwn, pan wnaeth y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant adroddiad ar hyn yn y Cynulliad diwethaf, fy mod wedi ymweld ag ysgol gynradd yn yr Wyddgrug a ddywedodd wrthym eu bod yn datblygu ac yn cymryd Undeb Credyd Sir y Fflint Gyfan Cyf i'r ysgol uwchradd, Ysgol Alun yr Wyddgrug, oherwydd y bobl ifanc a oedd yn mynd i fyny. Am fodel gwych. Bûm yn ymweld hefyd ag ysgol yn y Bala a oedd yn defnyddio cynhyrchion y Sefydliad Gwasanaethau Ariannol. Dywedodd y staff a'r disgyblion wrthym fod hyn yn ffordd wych o'u galluogi i ddatblygu'r sgiliau ariannol y byddai eu hangen arnynt yn nes ymlaen yn eu bywydau.

Finally, you referred to the discretionary assistance fund, which, of course, received UK Government funding when the social fund was split at UK level, and some of the funding came to the Welsh Government for aspects of the fund. You say that, beyond the current scheme, you've agreed in principle to the extension. Why only in principle? Is that a matter of not being clear what funding is coming from the UK Government, or is that a matter that's within your remit already? Thank you.

Yn olaf, cyfeiriasoch at y gronfa cymorth dewisol, a dderbyniodd gyllid gan Lywodraeth y DU, wrth gwrs, pan rannwyd y gronfa gymdeithasol ar lefel y DU, a daeth rhan o'r cyllid i Lywodraeth Cymru ar gyfer agweddau ar y gronfa. Rydych yn dweud, y tu hwnt i'r cynllun presennol, eich bod wedi cytuno mewn egwyddor i'r estyniad. Pam mai dim ond mewn egwyddor? A yw hynny'n fater o beidio â bod yn glir pa gyllid sy'n dod o Lywodraeth y DU, neu a yw'n fater sydd o fewn eich cylch gwaith yn barod? Diolch yn fawr.

15:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Mark Isherwood for those questions and observations. You referred many times to what discussions I've had, how I met with and whether I'm working with the Department for Work and Pensions. My officials work very closely, and I think it's good to see that they do have a very good relationship. I myself have not met with Ministers since I've been in portfolio, but my officials do work very closely. You referred to the fact that I mentioned welfare reform many times. Well, the reason I do that is because welfare reform is having a massive impact on many people in Wales, and I think it's very important that those discussions do go on between officials. We need to find out as much information as we can as early as we can regarding the welfare reform and benefit changes the UK Government is bringing in. So, I think that's very important. You referred to the work capability assessments too, and, again, officials are having discussions around that area.

Diolch i Mark Isherwood am y cwestiynau a'r sylwadau hynny. Cyfeiriasoch sawl gwaith at ba drafodaethau yr wyf wedi'u cael, pwy y cwrddais â hwy a pha un a wyf yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos iawn, a chredaf ei bod yn dda gweld bod ganddynt berthynas dda iawn. Nid wyf fi fy hun wedi cwrdd â Gweinidogion ers imi fod yn gyfrifol am y portffolio hwn, ond mae fy swyddogion yn gweithio'n agos iawn. Cyfeiriasoch at y ffaith fy mod wedi sôn am ddiwygio lles lawer gwaith. Wel, y rheswm yr wyf yn gwneud hynny yw oherwydd bod diwygio lles yn cael effaith aruthrol ar lawer o bobl yng Nghymru, a chredaf ei bod yn bwysig iawn fod y trafodaethau hynny'n mynd rhagddynt rhwng swyddogion. Mae angen inni gael cymaint o wybodaeth ag y gallwn cyn gynted ag y gallwn ynghylch diwygio lles a'r newidiadau i fudd-daliadau y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn eu cyflwyno. Felly, credaf fod hynny'n bwysig iawn. Cyfeiriasoch at yr asesiadau gallu i weithio hefyd, ac, unwaith eto, mae swyddogion yn cael trafodaethau ynghylch y maes hwnnw.

In relation to credit unions, I think you're quite right that we do need to target more higher and middle-income earners. I've met with North Wales Credit Union, and it's a discussion I've had about how what I want to do and what Welsh Government wants to do is support credit unions the very best way we can. I want them to become more sustainable. I want them to be able to be in a position to bid. I gave an example last week in my questions that the Ministry of Defence is looking to tender for payroll deductions, and most credit unions—well, I think the majority, well, every credit union in Wales, certainly, isn't able to tender because the threshold is £10 million of assets and there are no credit unions in Wales that have that level of assets. So, I want to see credit unions, while they are not even at the level of pay-day loan companies —. I want more people to be aware of credit unions, and I think that's another issue that I need to look at in relation to the campaign we've had previously to get more members—how to raise the profile of credit unions out there with the people of Wales. I think the work that we've done in relation to payroll deductions—. I know many people, and I'm sure Members are the same, have direct debits rather than payroll deduction, but I think it's really important that credit unions go into public sector workplaces to discuss this. All my ministerial colleagues, I think, are very signed up to that. I know that both the Minister for Health and Social Services and the Minister for Public Services—it's something that they raise. And, indeed, the Minister for Education and Skills I know has circulated that information to schools. You raise the issue of schools, and I'm about to visit Cadoxton Primary School in the Vale of Glamorgan, which has an excellent junior savers club, very much on the model, I think, of the ones you referred to in north Wales.

O ran undebau credyd, rydych yn llygad eich lle bod angen inni dargedu mwy o enillwyr incwm canolig ac uwch. Rwyf wedi cwrdd ag Undeb Credyd Gogledd Cymru, ac mae'n drafodaeth yr wyf wedi'i chael ynglŷn â'r ffaith mai'r hyn yr wyf am ei wneud a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru am ei wneud yw cefnogi undebau credyd yn y ffordd orau y gallwn. Rwyf am iddynt fod yn fwy cynaliadwy. Rwyf am iddynt allu bod mewn sefyllfa i wneud cais. Rhoddais enghraifft yr wythnos diwethaf yn fy nghwestiynau fod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn bwriadu tendro am ddidyniadau cyflogres, ac nid yw'r rhan fwyaf o undebau credyd—wel, rwyf yn meddwl y rhan fwyaf, wel, nid yw pob undeb credyd yng Nghymru, yn sicr, yn gallu tendro oherwydd bod y trothwy'n £10 miliwn o asedau ac nid oes gan yr un undeb credyd yng Nghymru y lefel honno o asedau. Felly, rwyf am weld undebau credyd, er nad ydynt hyd yn oed ar lefel cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog —. Rwyf am i fwy o bobl wybod am undebau credyd, a chredaf fod hynny'n fater arall y mae angen imi edrych arno mewn perthynas â'r ymgyrch yr ydym wedi'i chael o'r blaen i gael rhagor o aelodau—sut i godi proffil undebau credyd gyda phobl Cymru. Credaf fod y gwaith yr ydym wedi ei wneud mewn perthynas â didyniadau cyflogres —. Gwn fod gan lawer o bobl, ac rwyf yn siŵr bod Aelodau yr un fath, ddebydau uniongyrchol yn hytrach na didyniadau cyflogres, ond credaf ei bod yn bwysig iawn bod undebau credyd yn mynd i mewn i weithleoedd yn y sector cyhoeddus i drafod hyn. Mae pob un o'm cydweithwyr gweinidogol, rwyf yn meddwl, wedi cytuno i hynny. Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus—mae'n rhywbeth y maent yn ei godi. Ac, yn wir, gwn fod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi dosbarthu'r wybodaeth honno i ysgolion. Rydych yn codi mater ysgolion, ac rwyf ar fin ymweld ag Ysgol Gynradd Tregatwg ym Mro Morgannwg, sydd â chlwb cynilwyr iau ardderchog, wedi'i seilio i raddau helaeth ar fodel, rwyf yn credu, y rhai y cyfeiriasoch atynt yn y gogledd.

In relation to whether we are working with ABCUL in the Government, I certainly have had no discussions with them. What I want to see is a very Wales-specific model. I think our credit unions do excellent work, but what I want to do, as I've mentioned, is to support them to become more sustainable and for more people to be aware of them. In relation to the discretionary assistance fund, I have agreed in principle. Obviously, I have to look at budgets and, obviously, beyond this Government also.

Ynghylch p'un a ydym yn gweithio gydag ABCUL yn y Llywodraeth, nid wyf yn sicr wedi cael dim trafodaethau â hwy. Yr hyn yr wyf am ei weld yw model sy'n benodol iawn i Gymru. Credaf fod ein hundebau credyd yn gwneud gwaith rhagorol, ond yr hyn yr wyf am ei wneud, fel yr wyf wedi'i grybwyll, yw eu cynorthwyo i fod yn fwy cynaliadwy ac i fwy o bobl ddod i wybod amdanynt. O ran y gronfa cymorth dewisol, rwyf wedi cytuno mewn egwyddor. Wrth gwrs, mae'n rhaid imi edrych ar gyllidebau ac, wrth gwrs, y tu hwnt i'r Llywodraeth hon hefyd.

15:58

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If it looks too good to be true, it probably is. Unfortunately, some of my constituents fall for these incredible offers of £0.25 million coming from nowhere and, in one case, a gentleman replied with £20 to cover administrative costs, which then led to thousands of other offers of incredible wins and made him seriously ill. I know that Age Cymru and the Advertising Standards Authority and the Financial Services Authority are trying to deal with scams and swindles, but I wonder what can be done to really try and prevent people going through this agony. For example, what work has been done to create more no-cold-calling zones in Wales? What work has been done in the light of the fact that, very soon, people are going to be able to get early pension releases of huge lump sums, by the standards of the money they normally deal with? How can we prevent the scammers and swindlers having a field day getting hold of this money, which will obviously then disappear completely?

Os yw'n edrych yn rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg ei fod. Yn anffodus, mae rhai o'm hetholwyr yn cael eu twyllo gan y cynigion anhygoel o £0.25 miliwn yn dod o unman ac, mewn un achos, atebodd un gŵr ag £20 i dalu am gostau gweinyddol, a arweiniodd wedyn at filoedd o gynigion eraill o enillion anhygoel a gwnaeth hynny ef yn ddifrifol wael. Gwn fod Age Cymru a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu a'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn ceisio ymdrin â sgamiau a thwyll, ond tybed beth y gellir ei wneud i geisio atal pobl sy'n mynd drwy'r boen hon. Er enghraifft, pa waith sydd wedi'i wneud i greu mwy o barthau dim galw diwahoddiad yng Nghymru? Pa waith sydd wedi'i wneud yn sgil y ffaith y bydd pobl, cyn hir, yn gallu rhyddhau taliadau pensiwn yn gynnar mewn cyfandaliadau enfawr, yn ôl safonau'r arian y maent yn ymdrin ag ef fel arfer? Sut y gallwn atal y sgamwyr a'r twyllwyr rhag cael diwrnod i'r brenin yn cael gafael ar yr arian hwn, a fydd wrth gwrs wedyn yn diflannu'n gyfan gwbl?

15:59

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. Well, the work in relation to no-cold-calling zones is actually in my colleague the Minister for Public Services' portfolio, but, certainly, when I was in that portfolio, I know that the Welsh Government did a great deal of work to encourage local authorities to come forward to have no-cold-calling zones. I can't remember the figures off the top of my head, but I know we did increase the number of no-cold-calling zones right across Wales.

Diolch yn fawr. Wel, mae'r gwaith ynglŷn â pharthau dim galw diwahoddiad mewn gwirionedd yn rhan o bortffolio fy nghydweithiwr y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, ond, yn sicr, pan oeddwn i yn y portffolio hwnnw, gwn fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer iawn o waith i annog awdurdodau lleol i ddod ymlaen i gael parthau dim galw diwahoddiad. Ni allaf gofio'r ffigurau ar hyn o bryd, ond gwn ein bod wedi cynyddu nifer y parthau dim galw diwahoddiad ledled Cymru.

One of the barriers local authorities told me that they had in increasing the numbers was the paperwork that was involved; you had to go and contact a huge number of residents, also. This was something that I did take up with the relevant UK Government Minister at the time. But it is certainly heartbreaking to hear the stories that you related, and I know the Minister for Public Services wants to do all he can to prevent such scams.

Un o'r rhwystrau y soniodd awdurdodau lleol wrthyf amdanynt o ran cynyddu'r niferoedd oedd y gwaith papur a oedd yn gysylltiedig â hyn; roedd yn rhaid ichi gysylltu â nifer fawr o drigolion, hefyd. Roedd hyn yn rhywbeth a drafodais â Gweinidog perthnasol Llywodraeth y DU ar y pryd. Ond mae'n sicr yn dorcalonnus clywed y straeon a adroddwyd gennych chi, a gwn fod y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn awyddus i wneud ei orau glas i atal sgamiau o'r fath.

16:00 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for the statement today. Obviously, you've mentioned already the fact that I'll be able to put forward a representative to take part in the process and clearly, I welcome that. During the Bill process, of course, I always said that I didn't have an issue with what was contained within the strategies and the work that was being done, but I had an issue with the effectiveness of the delivery. I wonder whether the Minister now agrees that it wasn't robust enough, and that, as my research demonstrated, local authorities perhaps found it too easy to ignore this particular agenda, regardless of the fact that the strategies, ultimately, if implemented, would have gone a long way to help those people in those particular areas.

Weinidog, diolch ichi am y datganiad heddiw. Wrth gwrs, rydych eisoes wedi crybwyll y ffaith y byddaf yn gallu cynnig cynrychiolydd i gymryd rhan yn y broses ac wrth gwrs, rwyf yn croesawu hynny. Yn ystod proses y Bil, wrth gwrs, rwyf wedi dweud yn gyson nad oedd gen i ddim problem â'r hyn a oedd wedi'i gynnwys yn y strategaethau a'r gwaith a oedd yn cael ei wneud, ond roedd gennyf broblem ag effeithiolrwydd y cyflwyno. Tybed a yw'r Gweinidog yn awr yn cytuno nad oedd yn ddigon cadarn, ac, fel y mae fy ymchwil yn dangos, efallai fod awdurdodau lleol yn ei chael yn rhy hawdd anwybyddu'r agenda benodol hon, er gwaethaf y ffaith y byddai'r strategaethau, yn y pen draw, o'u rhoi ar waith, wedi gwneud llawer iawn i helpu'r bobl hynny yn yr ardaloedd penodol hynny.

I'm sure we'll get much more time to discuss the refresh of the strategy down the line, but the question I've got, initially, is: how can we make sure that it is more effectively implemented, and how can we make sure that we monitor it effectively? I don't want to re-rehearse the arguments, but the whole reason for my Bill was because we identified the fact that strategies weren't being put in place and the Government hadn't made moves before now to look at where and what was working well and where best practice could be rolled out across the Welsh local authorities.

Rwyf yn siŵr y cawn lawer mwy o amser i drafod yr adnewyddu ar y strategaeth yn ddiweddarach, ond fy nghwestiwn i, i ddechrau, yw hyn: sut y gallwn wneud yn siŵr ei bod yn cael ei gweithredu'n fwy effeithiol, a sut y gallwn sicrhau ein bod yn ei monitro'n effeithiol? Nid wyf am fynd dros y dadleuon eto, ond yr holl reswm dros fy Mil oedd oherwydd ein bod wedi nodi'r ffaith nad yw strategaethau'n cael eu rhoi ar waith ac nad oedd y Llywodraeth wedi cymryd camau cyn hyn i edrych ar ble a beth oedd yn gweithio'n dda a ble y gellid cyflwyno arfer gorau ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Some local authorities, of course, are doing great work and I believe there needs to be some kind of mechanism to share that best practice. So, how can we do that?

Mae rhai awdurdodau lleol, wrth gwrs, yn gwneud gwaith gwych a chredaf fod angen rhyw fath o fecanwaith i rannu'r arfer gorau hwnnw. Felly, sut y gallwn wneud hynny?

I'm glad to hear what you say about credit unions. Obviously, we all know here, in our respective areas, the hard work that people put into making the credit union sector work, but quite often, we see that they can't work together, because of charters and because of restrictions within their working practices. So, how can we promote better seamless networks within the credit union sector? Following on from Mark Isherwood's comment, whenever I speak to credit unions, they feel they have to be proactive in going into schools, as opposed to the other way around. So, how can we change the agenda around, so that schools also see the benefit of setting up young-saver schemes in their communities?

Rwyf yn falch o glywed yr hyn a ddywedwch am undebau credyd. Yn amlwg, rydym i gyd yn gwybod yma, yn ein priod ardaloedd, am y gwaith caled y mae pobl yn ei wneud er mwyn i sector yr undebau credyd weithio, ond yn aml iawn, rydym yn gweld na allant weithio gyda'i gilydd, oherwydd y siarteri ac oherwydd cyfyngiadau eu harferion gweithio. Felly, sut y gallwn hyrwyddo rhwydweithiau di-dor gwell yn sector yr undebau credyd? Yn dilyn ymlaen o sylwadau Mark Isherwood, pob tro y siaradaf ag undebau credyd, maent yn teimlo bod yn rhaid iddynt fod yn rhagweithiol wrth fynd i mewn i ysgolion, yn hytrach nag fel arall. Felly, sut y gallwn ni newid yr agenda, fel bod ysgolion hefyd yn gweld mantais sefydlu cynlluniau cynilwyr ifanc yn eu cymunedau?

A few things I couldn't get into the Bill, because of the legislative competence issues, were issues with regard to cold-calling zones. When I put in research requests with my team, we were finding that there wasn't clarity over competency. So, I think that this refresh needs to look into that, so that we can make the creation of cold-calling zones much more easy, and again, from Swansea council in particular, whether they could put planning powers in to curtail the proliferation of betting shops and high-interest lenders on their high streets. I think that's something that the strategy could at least look at, because, of course, you don't need to walk down a high street in our areas—well, in my area and I'm sure in your area, Minister—where you've got the BrightHouses of this world enticing people to come in knowing that they, potentially, will not be able to pay off those high interest rates. So, those are the issues that I've got today, because I'm sure we'll be talking about this much more in the future and I welcome the refresh of the strategy.

Roedd rhai pethau na allwn eu cael i mewn i'r Bil, oherwydd y materion yn ymwneud â chymhwystra deddfwriaethol, sef materion o ran parthau dim galw diwahoddiad. Pan fyddwn yn rhoi ceisiadau ymchwil i mewn gyda fy nhîm, roeddem yn gweld nad oedd eglurder o ran cymhwystra. Felly, credaf fod angen i'r adnewyddu hwn edrych ar hynny, fel y gallwn ei gwneud yn haws creu parthau dim galw diwahoddiad, ac unwaith eto, o ran cyngor Abertawe yn arbennig, p'un a allai sefydlu pwerau cynllunio i gyfyngu ar y cynnydd yn nifer y siopau betio a'r benthycwyr llog uchel ar ei strydoedd mawr. Credaf fod hynny'n rhywbeth y gallai'r strategaeth o leiaf edrych arno, oherwydd, wrth gwrs, nid oes angen ichi gerdded i lawr stryd fawr yn ein hardaloedd—wel, yn fy ardal i ac rwyf yn siŵr yn eich ardal chi, Weinidog—lle mae gennych BrightHouses y byd hwn yn denu pobl i ddod i mewn gan wybod, o bosibl, na fyddant yn gallu talu'r cyfraddau llog uchel hynny. Felly, dyma'r materion sydd gennyf heddiw, oherwydd rwyf yn siŵr y byddwn yn siarad llawer mwy am hyn yn y dyfodol, ac rwyf yn croesawu adnewyddu'r strategaeth.

16:04

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Bethan Jenkins for that contribution. I won't go over the history of your proposed Bill, et cetera, but I'm very pleased that we are able to work with you to take that forward, because, as we discussed at the time, you brought forward some very good suggestions that I think we do need to look at in great detail. I know you have been in contact with my officials regarding a meeting and putting a name forward and I'm aware of the work that you're also doing with my colleague the Minister for Education and Skills in relation to the financial education part.

Diolch i Bethan Jenkins am y cyfraniad hwnnw. Nid wyf am fynd dros hanes eich Bil arfaethedig, ac ati, ond rwyf yn falch iawn ein bod yn gallu gweithio gyda chi i fwrw ymlaen â hynny, oherwydd, fel y trafodwyd ar y pryd, cyflwynasoch rai awgrymiadau da iawn yr wyf yn credu bod angen inni edrych arnynt yn fanwl iawn. Gwn eich bod wedi bod mewn cysylltiad â'm swyddogion ynghylch cyfarfod a chynnig enw a gwn am y gwaith yr ydych hefyd yn ei wneud gyda'm cydweithiwr y Gweinidog Addysg a Sgiliau o ran yr agwedd addysg ariannol.

I think, on the point you raise about some local authorities doing really great work and how we share that best practice, well, I think that's a nut that is pretty difficult to crack in lots of areas of public services in Wales. One of the things that I'm doing—I'm going to organise another credit union conference. My predecessor had one last year, and we're going to have one this year, where we will invite, you know, credit unions, health boards, housing associations and local authorities to come to share best practice, because I think that is the only way, you know—get everybody together. That includes credit unions. As you said, some of them are in very different positions across Wales, so, you know, we're going to have a conference—get everybody together, see if we can build on the good work that was done last year—later on, probably in the early summer.

O ran yr hyn a ddywedwch am rai awdurdodau lleol sy'n gwneud gwaith gwych a sut y gallwn rannu'r arfer gorau, wel, rwyf yn credu bod honno'n gneuen sydd yn eithaf anodd ei thorri mewn llawer o feysydd yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Un o'r pethau yr wyf yn ei wneud—rwyf am drefnu cynhadledd undebau credyd arall. Cynhaliodd fy rhagflaenydd un y llynedd, ac rydym am gael un eleni, lle y byddwn yn gwahodd, wyddoch chi, undebau credyd, byrddau iechyd, cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol i ddod i rannu arfer gorau, oherwydd credaf mai dyna'r unig ffordd, wyddoch chi—cael pawb at ei gilydd. Mae hynny'n cynnwys undebau credyd. Fel y dywedasoch, mae rhai ohonynt mewn sefyllfaoedd gwahanol iawn ar draws Cymru, felly, wyddoch chi, rydym am gael cynhadledd—cael pawb at ei gilydd, gweld a oes modd inni adeiladu ar y gwaith da a wnaed y llynedd—yn nes ymlaen, yn ôl pob tebyg yn gynnar yn yr haf.

In relation to the cold-calling zones, as I said, it's an area for the Minister for Public Services. However, we do need to look at those barriers, because the main barrier that, certainly, was raised with me was this issue of the data collection, which the UK Government controls, and it is up to them. One of the barriers they did feel that we could help with was funding, and, certainly, that's what we did: we put the funding upfront. So, we removed that barrier for them. But, clearly, more needs to be done in relation to having more cold-calling zones across Wales.

O ran y parthau dim galw diwahoddiad, fel y dywedais, maes y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yw hynny. Fodd bynnag, mae angen inni edrych ar y rhwystrau hynny, oherwydd y prif rwystr, yn sicr, a godwyd gyda mi oedd y mater hwn o gasglu data, y mae Llywodraeth y DU yn ei reoli, a mater iddi hi yw hynny. Un o'r rhwystrau yr oeddent o'r farn y gallem helpu ag ef oedd cyllid, ac, yn sicr, dyna'r hyn a wnaethom: rhoddwyd yr arian ymlaen llaw. Felly, cafwyd gwared ar y rhwystr hwnnw iddynt. Ond, wrth gwrs, mae angen gwneud mwy o ran cael mwy o barthau dim galw diwahoddiad ledled Cymru.

In relation to planning, that is not something that I've discussed with the Minister for Natural Resources, but I will make sure that I have that discussion to see if there is anything that we can do around the planning issue that you raise in relation to betting shops, pay-day loan companies et cetera. I will write to the Member with further details.

O ran cynllunio, nid yw hynny'n rhywbeth yr wyf wedi'i drafod â'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, ond byddaf yn gwneud yn siŵr fy mod yn cael y drafodaeth honno i weld a oes rhywbeth y gallwn ei wneud ynghylch y mater cynllunio a godwch mewn perthynas â siopau betio, cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog ac ati. Ysgrifennaf at yr Aelod â manylion pellach.

16:06

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Minister for the statement and can I start by asking about the discretionary assistance fund? Following on from the item in the minutes for the financial inclusion advisory group in September last year, has any work being done on the demographics of those who apply for help through the discretionary assistance fund, in addition to any analysis by super-output area? With reference to the emergency assistance fund element, is there any suggestion that applications are increasing from people in work?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad ac a gaf fi ddechrau drwy ofyn am y gronfa cymorth dewisol? Yn sgil yr eitem yng nghofnodion y grŵp cynghori ar gynhwysiant ariannol ym mis Medi y llynedd, a oes unrhyw waith wedi ei wneud ar ddemograffeg y rhai sy'n gwneud cais am gymorth drwy'r gronfa cymorth dewisol, yn ogystal ag unrhyw ddadansoddiad yn ôl ardal gynnyrch ehangach? O ran elfen y gronfa cymorth brys, a oes unrhyw awgrym fod mwy o geisiadau'n dod i law gan bobl sydd mewn gwaith?

On a different subject, prisoners are one of the most vulnerable groups in this context, and while community rehabilitation companies will be responsible for financial education training and financial management advice before release and employment support afterwards, I'm anxious that best practice is reflected throughout the Welsh prison estate and, indeed, at Gloucester prison, where Welsh women prisoners are held. The minutes for the financial inclusion advisory group from September mentioned in passing the work being done by LASA Credit Union Ltd and Her Majesty's Prison Swansea over a period of years, whereby prisoners are encouraged to open credit union accounts and pay in their earnings while in prison. This gives them access to an account immediately upon release and eases the problems faced by many prisoners with financial inclusion. It also gives them an account into which benefits can be paid and priority debts disbursed, if the Department for Work and Pensions ever paid benefits on time, of course, and when they promised to do so. Will the Welsh Government put pressure on the community rehabilitation companies in Wales to work with LASA Credit Union and Her Majesty's Prison Swansea to ensure that this excellent initiative is available to soon-to-be-released prisoners throughout Wales? I'm sure, as well, Minister, you would benefit from a visit to Swansea to have a look at this excellent project for yourself.

Ar bwnc gwahanol, carcharorion yw un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn y cyd-destun hwn, ac er y bydd cwmnïau adsefydlu cymunedol yn gyfrifol am hyfforddiant addysg ariannol a chyngor ar reoli arian cyn rhyddhau a chymorth cyflogaeth wedyn, rwyf yn awyddus i sicrhau bod arfer gorau'n cael ei adlewyrchu drwy ystâd carchardai Cymru drwyddi draw ac, yn wir, yng ngharchar Caerloyw, lle mae carcharorion benywaidd o Gymru'n cael eu cadw. Roedd cofnodion cyfarfod y grŵp cynghori ar gynhwysiant ariannol ym mis Medi'n crybwyll wrth fynd heibio y gwaith sy'n cael ei wneud gan Undeb Credyd LASA Cyf a Charchar Ei Mawrhydi Abertawe dros gyfnod o flynyddoedd, lle mae carcharorion yn cael eu hannog i agor cyfrifon undebau credyd a thalu eu henillion i mewn tra byddant yn y carchar. Mae hyn yn golygu bod ganddynt gyfrif yn syth ar ôl dod allan o'r carchar ac yn lliniaru'r problemau a wynebir gan lawer o garcharorion o ran cynhwysiant ariannol. Mae hefyd yn rhoi cyfrif iddynt lle gellir talu budd-daliadau a thalu dyledion blaenoriaethol, pe byddai'r Adran Gwaith a Phensiynau yn talu budd-daliadau'n brydlon, wrth gwrs, a phan fyddent yn addo gwneud hynny. A wnaiff Llywodraeth Cymru roi pwysau ar y cwmnïau adsefydlu cymunedol yng Nghymru i weithio gydag Undeb Credyd LASA a Charchar Ei Mawrhydi Abertawe i sicrhau bod y fenter ragorol hon ar gael i garcharorion sydd ar fin cael eu rhyddhau ledled Cymru? Rwyf yn siŵr, hefyd, Weinidog, y byddai'n dda o beth ichi ymweld ag Abertawe i gael gweld y prosiect ardderchog hwn drosoch eich hun.

With regard to universal credit, it is likely that tenant arrears for the most vulnerable tenants will rise significantly once universal credit is operational in Wales, which is supposed to be in July of this year, though I'll believe that when I see it. Are local authority housing providers and social landlords putting strategies in place to deal with this, such as advice and strategic alliance with credit unions, so that the most vulnerable can have access to credit union accounts from which rent can be paid automatically?

O ran credyd cynhwysol, mae'n debygol y bydd ôl-ddyledion y tenantiaid mwyaf agored i niwed yn cynyddu'n sylweddol unwaith y bydd credyd cynhwysol yn weithredol yng Nghymru, a disgwylir i hynny ddigwydd ym mis Gorffennaf eleni, er na fyddaf yn credu hynny hyd nes imi ei weld. A yw darparwyr tai awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol yn rhoi strategaethau ar waith i ymdrin â hyn, megis cyngor a chynghreirio strategol ag undebau credyd, fel bod y rhai mwyaf agored i niwed yn gallu cael cyfrif undeb credyd a thalu'r rhent yn awtomatig o'r fan honno?

Fourthly, Minister, in relation to your reference to credit unions, you say,

Yn bedwerydd, Weinidog, o ran eich cyfeiriad at undebau credyd, rydych yn dweud,

‘Credit unions are increasingly recognised as part of the solution for people who need to borrow smaller amounts’

‘Mae undebau credyd yn cael eu cydnabod fwyfwy fel rhan o'r ateb i bobl y mae arnynt angen benthyca symiau llai’

and also

a hefyd

‘when a poor credit rating means an affordable loan from a bank or building society is not an option.’

‘pan fydd statws credyd gwael yn golygu nad yw benthyciad fforddiadwy gan fanc neu gymdeithas adeiladu yn opsiwn.’

Of course, credit unions do carry out their own credit checks and they don’t necessarily lend money to people who they don’t know and who don’t meet those criteria. I understand that the DWP credit union expansion programme, Cornerstone project, is developing a bespoke credit scoring mechanism for credit unions. Is the Welsh Government involved in that project and, if not, will you liaise with the DWP to make sure that can be rolled out across Wales? Of course, we do know that there are too many Welsh credit unions for them all to be able to reach critical mass or develop the requisite banking platform, attract tier 1 and 2 members and maintain financial inclusion services at the same time. So, what are you doing to facilitate mergers and system development to try to overcome that problem?

Wrth gwrs, mae undebau credyd yn cynnal eu harchwiliadau credyd eu hunain ac nid ydynt o reidrwydd yn benthyca arian i bobl nad ydynt yn eu hadnabod ac nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hynny. Deallaf fod rhaglen ehangu undebau credyd yr Adran Gwaith a Phensiynau, prosiect Cornerstone, yn datblygu mecanwaith sgorau credyd yn benodol ar gyfer undebau credyd. A yw Llywodraeth Cymru’n rhan o’r prosiect hwnnw ac, os nad yw, a fyddwch yn cydgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau i wneud yn siŵr y gellir ei gyflwyno ledled Cymru? Wrth gwrs, rydym yn gwybod bod gormod o undebau credyd yng Nghymru iddynt i gyd allu cyrraedd màs critigol neu ddatblygu'r llwyfan bancio angenrheidiol, denu aelodau haen 1 a 2 a chynnal gwasanaethau cynhwysiant ariannol ar yr un pryd. Felly, beth ydych chi’n ei wneud i hwyluso cynlluniau i uno a datblygu systemau i geisio goresgyn y broblem honno?

Finally, Deputy Presiding Officer, one of the major plights of the financial inclusion strategy is for closer co-operation between advice services and credit unions throughout Wales. Have you been promoting meetings between Citizens Advice and ABCUL Cymru and ACE to discuss nationwide initiatives? Thank you.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, un o brif drafferthion y strategaeth cynhwysiant ariannol hon yw cydweithredu agosach rhwng gwasanaethau cynghori ac undebau credyd ledled Cymru. A ydych wedi bod yn hyrwyddo cyfarfodydd rhwng Cyngor ar Bopeth ac ABCUL Cymru ac ACE i drafod mentrau cenedlaethol? Diolch yn fawr.

16:10

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Peter Black for his questions. In relation to the emergency assistance payments, I don’t have the data specifically if it’s people in work applying more than people out of work, but we do know that in-work poverty is increasing. So, I think that it would probably be safe to assume that the emergency assistance payments are being applied for by people who are in work. I will certainly see if I can drill down to find out if that is the case.

Diolch i Peter Black am ei gwestiynau. O ran taliadau cymorth brys, nid oes gennyf ddata penodol ynghylch a yw pobl mewn gwaith yn gwneud mwy o geisiadau na phobl sydd allan o waith, ond rydym yn gwybod bod tlodi mewn gwaith yn cynyddu. Felly, credaf ei bod yn ddiogel tybio mai pobl sydd mewn gwaith sy’n ymgeisio am y taliadau cymorth brys. Byddaf yn sicr yn gweld a allaf ymchwilio’n drylwyr i gael gwybod a yw hynny'n wir.

In relation to best practice in prisons, in a previous portfolio I visited Oakwood prison in Gloucester, and also Cardiff prison, where I saw a very similar scheme to which you referred to. There, as you say, people could pay in their earnings or benefits when they’re in prison, and that money would be there, safe for them, when they came out of prison. They would be able to access that money straight away. I would be very happy to visit Swansea, but I think that it’s certainly something that I would like to see in the four prisons in Wales.

O ran arfer gorau mewn carchardai, mewn portffolio blaenorol, bûm yn ymweld â charchar Oakwood yng Nghaerloyw, a charchar Caerdydd hefyd, lle gwelais gynllun tebyg iawn i’r un y soniasoch amdano. Yno, fel y dywedwch, gallai pobl dalu eu henillion neu fudd-daliadau i mewn tra oeddent yn y carchar, a byddai’r arian hwnnw ar gael yno, yn ddiogel ar eu cyfer, pan fyddent yn dod allan o'r carchar. Byddent yn gallu cael gafael ar yr arian hwnnw ar unwaith. Byddwn yn hapus iawn i ymweld ag Abertawe, ond credaf fod hynny’n sicr yn rhywbeth y byddwn yn hoffi ei weld yn y pedwar carchar yng Nghymru.

In relation to universal credit, you're quite right; I think it's something like 240 households that are now having universal credit in Wales. We expect that figure to go up to 0.5 million. So, I think you're right; you know, it is taking its time. But I think that it's really important that community housing associations and social landlords are getting in place their ability to help their tenants who may then be facing difficulties in paying their housing benefit, particularly. You're quite right: credit unions do carry out credit checks. I wasn't aware of Cornerstone. My officials probably are, and I will certainly ask for a briefing on that. I'm always happy to look at best practice. If it's something that we can look at, to support credit unions, I would be very happy to do that.

O ran credyd cynhwysol, rydych yn llygad eich lle; credaf fod oddeutu 240 o aelwydydd bellach yn cael credyd cynhwysol yng Nghymru. Rydym yn disgwyl i'r ffigur hwnnw godi i 0.5 miliwn. Felly, credaf eich bod yn iawn; wyddoch chi, mae'n cymryd amser. Ond credaf ei bod yn bwysig iawn fod cymdeithasau tai cymunedol a landlordiaid cymdeithasol yn sicrhau eu bod yn gallu helpu eu tenantiaid a allai wedyn fod yn wynebu anawsterau o ran talu eu budd-dal tai, yn arbennig. Rydych yn llygad eich lle: mae undebau credyd yn cynnal archwiliadau credyd. Nid oeddwn yn gwybod am Cornerstone. Mae'n debyg y bydd fy swyddogion yn gwybod amdano, a byddaf yn sicr yn gofyn am sesiwn wybodaeth ar hynny. Rwyf bob amser yn hapus i edrych ar arfer gorau. Os yw'n rhywbeth y gallwn edrych arno, i gefnogi undebau credyd, byddwn yn hapus iawn i wneud hynny.

I think that we have 21 credit unions in Wales. Not all want Welsh Government funding. We don't give funding to all of them. There's a handful that don't have Welsh Government funding, but I have certainly said that if credit unions want to merge—and there certainly are some that do want to merge—we will do all that we can to help, provide funding, if that's necessary, and expertise. But I think it is something that we can look at. Obviously, the North Wales Credit Union Ltd was a merger of several credit unions. I know that there are other discussions going on with other credit unions across Wales.

Credaf fod gennym 21 o undebau credyd yng Nghymru. Nid oes eisiau cyllid Llywodraeth Cymru ar bob un. Nid ydym yn rhoi cyllid i bob un ohonynt. Mae llond llaw nad ydynt yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru, ond rwyf yn sicr wedi dweud, os yw undebau credyd yn awyddus i uno—ac mae rhai yn sicr yn awyddus i uno—y byddwn yn gwneud ein gorau glas i helpu, i ddarparu cyllid, os oes angen gwneud hynny, ac arbenigedd. Ond credaf fod hynny'n rhywbeth y gallwn edrych arno. Wrth gwrs, crëwyd Undeb Credyd Gogledd Cymru Cyf wedi i nifer o undebau credyd uno. Gwn fod trafodaethau eraill yn mynd rhagddynt gydag undebau credyd eraill ledled Cymru.

I am very keen for advice services and credit unions to be having discussions. You'll be aware of the advice service network, which is just about to be established. We have the chair, and we're just about to establish the rest of the members. I think, again, that's something that they can take forward.

Rwyf yn awyddus iawn i weld gwasanaethau cynghori ac undebau credyd yn cael trafodaethau. Byddwch yn gwybod am rwydwaith y gwasanaethau cynghori, sydd ar fin cael ei sefydlu. Mae'r cadeirydd gennym, ac rydym ar fin sefydlu gweddill yr aelodau. Credaf, unwaith eto, fod hynny'n rhywbeth y gallant fwrw ymlaen ag ef.

16:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We're over time for this item, but I'm keen to take two more contributions. Please keep the contributions succinct. Jeff Cuthbert.

Rydym wedi mynd dros amser ar gyfer yr eitem hon, ond rwyf yn awyddus i glywed dau gyfraniad arall. Cadwch y cyfraniadau'n gryno os gwelwch yn dda. Jeff Cuthbert.

16:13

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Deputy Llywydd. Minister, we know of course that this refresh in the financial inclusion agenda is at a very difficult time. You've made the point where the UK Government's welfare reform programme would mean a loss to every adult in Wales of working age of £500 per annum, meaning to the Welsh economy as a whole over £900 million in total—clearly a blow by any standards. You've quite rightly talked about the value of independent advice services, the Better Advice, Better Lives programme producing £42 million in additional benefits for people who are entitled to them.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, gwyddom wrth gwrs fod yr adnewyddu hwn ar yr agenda cynhwysiant ariannol yn digwydd ar adeg anodd iawn. Rydych wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai rhaglen diwygio lles Llywodraeth y DU yn golygu bod pob oedolyn yng Nghymru o oedran gweithio yn colli £500 y flwyddyn, sy'n golygu dros £900 miliwn i gyd i economi Cymru yn ei chyfanrwydd—ergyd yn wir yn ôl unrhyw safonau. Rydych wedi sôn, a hynny'n briodol iawn, am werth y gwasanaethau cynghori annibynnol, y rhaglen Cyngor Da, Bywyd Da sy'n creu gwerth £42 miliwn o fuddion ychwanegol i bobl a chanddynt hawl iddynt.

I do want to focus my question on the role of credit unions, as have others. We did, as you know, launch the one-off, Wales-wide advertising campaign last year, led by the North Wales Credit Union, which produced 5,300 new members. Admittedly, some dormant accounts have also been closed, so the figures are a little bit skewed. but it did show, I would argue, despite what others have said, that that campaign was very worthwhile. Can I encourage you as well to hold another joint conference between the Welsh Government and credit unions in Wales? I'm pleased to hear that you're thinking about that. I can recall that just about every credit union in Wales attended last time. Members of both ACE and ABCUL were there. ACE and ABCUL were invited. ABCUL could not attend; they had other events to go to. But I'm sure that you'd agree with me that there's still more that we can do to encourage more people to join credit unions. So, will you would agree with me today that, when it comes to refreshing the financial inclusion agenda, we have to put credit unions centre stage, in terms of increasing membership and by ensuring that they offer a broad range of services, including payroll deductions and low-cost purchase finance, as well as putting them on a long-term sustainable and independent footing at the heart of our communities?

Rwyf am ganolbwyntio yn fy nghwestiwn ar rôl yr undebau credyd, fel y mae eraill wedi'i wneud. Fel y gwyddoch, lansiwyd yr ymgyrch hysbysebu un-tro ledled Cymru y llynedd, o dan arweiniad Undeb Credyd Gogledd Cymru, a lwyddodd i ddenu 5,300 o aelodau newydd. Rhaid cyfaddef, mae rhai cyfrifon segur hefyd wedi eu cau, felly mae'r ffigurau wedi'u gogwyddo ychydig, ond roedd yn dangos, yn fy marn i, er gwaethaf yr hyn y mae eraill wedi'i ddweud, fod yr ymgyrch yn werth chweil. A gaf fi eich annog yn ogystal i gynnal cynhadledd arall ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac undebau credyd yng Nghymru? Rwyf yn falch o glywed eich bod yn meddwl am hynny. Cofiaf fod bron pob undeb credyd yng Nghymru'n bresennol y tro diwethaf. Roedd aelodau o ACE ac ABCUL yno. Gwahoddwyd ACE ac ABCUL. Ni allai ABCUL fod yn bresennol; roedd ganddynt ddigwyddiadau eraill i fynd iddynt. Ond rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno â mi fod mwy y gallwn ei wneud o hyd i annog mwy o bobl i ymaelodi ag undebau credyd. Felly, a wnewch chi gytuno â mi heddiw fod yn rhaid inni, wrth fynd ati i adnewyddu'r agenda cynhwysiant ariannol, roi lle canolog i undebau credyd, o ran cynyddu aelodaeth a thrwy sicrhau eu bod yn cynnig ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys didyniadau cyflogres a chyllid prynu cost isel, yn ogystal â'u rhoi ar sylfaen gynaliadwy ac annibynnol hirdymor wrth galon ein cymunedau?

16:15

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, yes, for that contribution, Jeff Cuthbert. You're absolutely right. It's very clear—the financial challenges that so many people in Wales are facing due to the UK Government's welfare reform changes. I think Better Advice Better Lives is certainly, you know, an excellent initiative that has helped many people. In relation to the credit union campaign to which you refer, you're quite right that the new members did increase by 5,323 from April to September. It has been skewed because of the dormant account closures, but I do think that it does show that credit unions are very healthy. You have heard me say that I am very keen to do all I can to promote them, to support them, help them become more sustainable. I'm very happy to hold a conference. As I say, we're hoping to hold one in the early summer following the one that you arranged last year. I think it's really important, for the reasons that I said to Bethan Jenkins, to share that best practice and get everybody there. You mentioned that all of the credit unions were there. Hopefully, ABCUL will be able to come this time. It's really important to get all the public sector there, and also to encourage its workforce to have payroll deduction or direct debit, if that's the case. I'm very keen for Welsh Government officials to sign up as much as they can, and we've had credit unions coming in to have discussions with officials. So, I'm very keen to continue to promote credit unions. I want more people to be aware of credit unions. I think that they're a bit of a best-kept secret, if you like, and I don't want that to be the case. I want people to be very aware of them and the services that they offer.

Diolch ichi, ie, am y cyfraniad hwnnw, Jeff Cuthbert. Rydych yn llygad eich lle. Mae'n glir iawn—yr heriau ariannol y mae cynifer o bobl yng Nghymru'n eu hwynebu oherwydd newidiadau diwygio lles Llywodraeth y DU. Credaf fod Cyngor Da, Bywyd Da yn sicr, wyddoch chi, yn fenter ardderchog sydd wedi helpu llawer o bobl. O ran ymgyrch yr undebau credyd y cyfeiriwch ati, rydych yn llygad eich lle fod 5,323 yn rhagor o aelodau newydd wedi ymaelodi o fis Ebrill i fis Medi. Mae wedi cael ei ogwyddo oherwydd cau cyfrifon segur, ond credaf ei fod yn dangos bod undebau credyd yn iach iawn. Rydych wedi fy nghlywed yn dweud fy mod yn awyddus iawn i wneud popeth o fewn fy ngallu i'w hyrwyddo, i'w cefnogi, i'w helpu i fod yn fwy cynaliadwy. Rwyf yn hapus iawn i gynnal cynhadledd. Fel y dywedais, rydym yn gobeithio cynnal un yn gynnar yn yr haf yn dilyn yr un a drefnwyd gennych y llynedd. Credaf ei bod yn bwysig iawn, am y rhesymau a roddais i Bethan Jenkins, rhannu'r arfer gorau a sicrhau bod pawb yno. Roeddech yn sôn bod pob un o'r undebau credyd yno. Rwyf yn gobeithio y bydd ABCUL yn gallu dod y tro hwn. Mae'n bwysig iawn sicrhau bod yr holl sector cyhoeddus yno, a hefyd annog ei weithlu i drefnu didyniadau cyflogres neu ddebydau uniongyrchol, os dyna'r sefyllfa. Rwyf yn awyddus iawn i swyddogion Llywodraeth Cymru gofrestru cynifer o bobl ag y gallant, ac mae'r undebau credyd wedi bod yn dod i mewn i gael trafodaethau â swyddogion. Felly, rwyf yn awyddus iawn i barhau i hyrwyddo undebau credyd. Rwyf am i fwy o bobl fod yn ymwybodol o undebau credyd. Credaf eu bod yn dipyn o gyfrinach, os mynnwch chi, ac nid oes arnaf eisiau i hynny fod yn wir. Rwyf am i bobl fod yn ymwybodol iawn ohonynt a'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

16:17 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. I've just got two questions—legacy questions, really, from Bethan Jenkins's original Bill. The first is in connection with benchmarking and how you'll monitor the success of this refresh strategy. Do you have any plans to use the future generations Bill for that? Obviously, this sits outside legislation, so I think that we would all like to know whether the new strategy will work. The second is a question I raised about the civil society advisory services and the purpose of your £2 million investment there. I'm not quite sure that you covered Mark Isherwood's question about what is the difference between that and the money that you're giving to credit unions, in terms of the type of work you're expecting from them. But essentially, I wanted to ask you this: do you think the problem with advisory services at the moment is not that there is lack of capacity, but that it's not joined up? Presumably, that's what your national advisory service is about. I can't help noticing the new leader of that, or the new chair of that. Or, is it a question of there being insufficient capacity, in which case a networking organisation isn't what you need, but actually more people on the front line in civil society? Thank you.

Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad. Dau gwestiwn sydd gennyf—cwestiynau a etifeddwyd, mewn gwirionedd, o Fil gwreiddiol Bethan Jenkins. Mae'r cyntaf ynglŷn â meincnodi a sut y byddwch yn monitro llwyddiant y strategaeth adnewyddu hon. A oes gennych gynlluniau i ddefnyddio Bil cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer hynny? Wrth gwrs, mae hyn y tu allan i ddeddfwriaeth, felly credaf y byddem i gyd yn hoffi gwybod a fydd y strategaeth newydd yn gweithio. Mae'r ail yn gwestiwn a godais am wasanaethau cynghori cymdeithas sifil a phwrpas eich buddsoddiad o £2 filiwn yno. Nid wyf yn hollol siŵr a ymdriniasoch â chwestiwn Mark Isherwood ynghylch beth yw'r gwahaniaeth rhwng hynny a'r arian yr ydych yn ei roi i'r undebau credyd, o ran y math o waith yr ydych yn disgwyl ganddynt. Ond yn y bôn, roeddwn am ofyn hyn ichi: a ydych yn meddwl mai'r broblem o ran gwasanaethau cynghori ar hyn o bryd yw nid bod diffyg capasiti, ond nad ydynt yn gydgysylltiedig? Yn ôl pob tebyg, dyna yw hanfod eich gwasanaeth cynghori cenedlaethol. Ni allaf beidio â sylwi ar arweinydd newydd hyn, neu gadeirydd newydd y llall. Neu, ai'r broblem yw nad oes digon o gapasiti, ac os felly nad sefydliad rhwydweithio sydd ei angen arnoch, ond mwy o bobl ar y rheng flaen yn y gymdeithas sifil? Diolch yn fawr.

16:18 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. You will be aware of my answers to Bethan Jenkins around the Bill. Certainly, the inclusion of financial inclusion in the wellbeing plan is being outlined in the wellbeing of future generations Bill. So, that's something that Carl Sargeant is taking forward.

Diolch yn fawr. Byddwch yn gwybod am fy atebion i Bethan Jenkins ynghylch y Bil. Yn sicr, mae cynnwys cynhwysiant ariannol yn y cynllun lles yn cael ei amlinellu ym Mil lles cenedlaethau'r dyfodol. Felly, mae hynny'n rhywbeth y mae Carl Sargeant yn bwrw ymlaen ag ef.

In relation to the advice services, I don't think that it's a lack of capacity. I think that we have the services there. I think they're not as joined up as, perhaps, I would want, and that's certainly one of the jobs that the network will look at. I think, also, there's more demand, at a time when we've got lowering budgets; I think there is a higher demand for the services, so it's very important that those services are there. I don't want to see a postcode lottery. I think that's another issue. We need to map out what's there; you know, where they're being set up, as I don't want duplication. I've told the chair that that's another thing that needs to be looked at. We don't want duplication.

O ran y gwasanaethau cynghori, nid wyf yn credu mai diffyg capasiti sydd yma. Credaf fod gennym y gwasanaethau. Nid wyf yn credu eu bod mor gydgysylltiedig ag, efallai, y byddwn am iddynt fod, a dyna'n sicr un o'r pethau y bydd y rhwydwaith yn edrych arnynt. Credaf, hefyd, fod mwy o alw, ar adeg pan fo gennym gyllidebau sy'n crebachu; credaf fod galw uwch am y gwasanaethau, felly mae'n bwysig iawn fod y gwasanaethau hynny yno. Nid wyf am weld loteri cod post. Credaf fod hwnnw'n fater arall. Mae angen inni fapio beth sydd yno; wyddoch chi, ble y maent yn cael eu sefydlu, oherwydd nid wyf am weld dyblygu. Rwyf wedi dweud wrth y cadeirydd fod hynny'n beth arall y mae angen ei ystyried. Nid ydym am weld dyblygu.

I also think that, whilst we need specialist services in some areas, we also need general services. I think it's really important that we don't have too-specific, too-specialised services for people who just want general advice. I think it's about striking the balance right. We're in the process of setting up the network. Certainly, I will want them to evaluate the advice services that we have across Wales as one of their jobs.

Credaf hefyd, er bod angen gwasanaethau arbenigol mewn rhai ardaloedd, fod angen gwasanaethau cyffredinol hefyd. Credaf ei bod yn bwysig iawn nad oes gennym wasanaethau sy'n rhy benodol, yn rhy arbenigol i bobl y mae eisiau cyngor cyffredinol arnynt. Credaf fod hyn yn fater o sicrhau'r cydbwysedd cywir. Rydym wrthi'n sefydlu'r rhwydwaith. Yn sicr, byddaf am iddo werthuso'r gwasanaethau cynghori sydd gennym ar draws Cymru fel un o'i orchwylion.

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch ichi, Weinidog.

16:19 **Y** Senedd.tv [Fideo] [Video]

## 6. Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Addysg Uwch (Cymru)

## 6. Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Higher Education (Wales) Bill

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Item six is the Stage 4 Standing Order 26.47 motion to approve the Higher Education (Wales) Bill. I call on the Minister for Education and Skills to move the motion—Huw Lewis.

Eitem chwech yw'r cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo Bil Addysg Uwch (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynnig y cynnig—Huw Lewis.

Cynnig NDM5677 Huw Lewis

Motion NDM5677 Huw Lewis

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Addysg Uwch (Cymru).

Approves the Higher Education (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:19 Senedd.tv [Fideo] [Video]

### Huw Lewis [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the motion. I would like to thank Members for contributing to the scrutiny of the Higher Education (Wales) Bill. Proportionate regulation is essential to maintaining the reputation of the Welsh higher education sector and to ensuring that students', taxpayers' and the Government's interests are protected. I am therefore pleased that this Bill will set out the regulatory functions of the Higher Education Funding Council for Wales and will make provision for a new higher education regulatory system for Wales.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf y cynnig. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am gyfrannu at graffu ar Fil Addysg Uwch (Cymru). Mae rheoleiddio cymesur yn hanfodol er mwyn cynnal enw da'r sector addysg uwch yng Nghymru a sicrhau bod myfyrwyr, trethdalwyr a buddiannau'r Llywodraeth yn cael eu diogelu. Felly, rwyf yn falch y bydd y Bil hwn yn nodi swyddogaethau rheoleiddio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac y bydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer system newydd i reoleiddio addysg uwch yng Nghymru.

Since introducing the Bill on 19 May 2014, there has been much constructive debate in committee and in this Chamber. I'm grateful to Ann Jones and the members of the Children, Young People and Education Committee, and to David Melding and members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, for their thorough scrutiny and reports of their findings. I would also like to thank stakeholders, who have engaged with the committees' scrutiny of the Bill. This Government takes the scrutiny process very seriously, and I thank the committees for their constructive engagement and ideas for improving the Bill. We have amended the Bill where we believe it is right and proper to do so.

Ers cyflwyno'r Bil ar 19 Mai 2014, bu llawer o drafod adeiladol yn y pwyllgorau ac yn y Siambr hon. Rwyf yn ddiolchgar i Ann Jones ac aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac i David Melding ac aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu gwaith craffu trylwyr a'u hadroddiadau ar eu canfyddiadau. Hoffwn hefyd ddiolch i randdeiliaid, sydd wedi ymgysylltu â gwaith craffu'r pwyllgorau ar y Bil. Mae'r Llywodraeth hon yn cymryd y broses graffu o ddifrif iawn, ac rwyf am ddiolch i'r pwyllgorau am eu hymgysylltu adeiladol a'u syniadau ar gyfer gwella'r Bil. Rydym wedi newid y Bil lle y credwn ei bod yn iawn ac yn briodol gwneud hynny.

The higher education sector has undergone a period of significant change. We introduced changes to funding, tuition fee and student finance arrangements from September 2012, which have put the sector in a much stronger financial position. This legislation marks the culmination of the changes by making provision for a new regulatory system appropriate to the revised funding environment. There are now three cohorts of students studying at Welsh institutions who may be charged tuition fees at a higher level than those permitted under the previous regime. The shift in funding away from HEFCW's institutional grants to income derived from student tuition fees means that the current legislation relating to higher education funding and regulation is no longer fit for purpose. As a consequence of this Bill, the regulation of higher education in Wales will no longer rely on HEFCW's terms and conditions of funding. This Bill provides for regulatory system applicable to all institutions in Wales that have a fee and access plan in force, as approved by HEFCW. The Bill will ensure robust and proportionate regulation of institutions in Wales whose courses are supported by Welsh Government, Welsh Government-backed higher education grants and loans.

Mae'r sector addysg uwch wedi mynd trwy gyfnod o newid sylweddol. Cyflwynwyd newidiadau i gyllid, ffioedd dysgu a threfniadau cyllid myfyrwyr o fis Medi 2012, sydd wedi rhoi'r sector mewn sefyllfa ariannol gryfach o lawer. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn benllanw ar y newidiadau oherwydd mae'n darparu ar gyfer system reoleiddio newydd sy'n briodol i'r amgylchedd ariannu ar ei newydd wedd. Erbyn hyn mae tair carfan o fyfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau yng Nghymru y gellid codi ffioedd dysgu arnynt ar lefel uwch na'r rhai a ganiateid o dan y drefn flaenorol. Mae'r newid o ariannu drwy grantiau sefydliadol CCAUC i incwm sy'n deillio o ffioedd dysgu'r myfyrwyr yn golygu nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag ariannu addysg uwch a rheoleiddio yn addas at y diben. O ganlyniad i'r Bil hwn, ni fydd rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru yn dibynnu mwyach ar delerau ac amodau ariannu CCAUC. Mae'r Bil hwn yn darparu ar gyfer system reoleiddio a fydd yn berthnasol i bob sefydliad yng Nghymru sydd â chynllun ffioedd a mynediad mewn grym, fel y'i cymeradwywyd gan CCAUC. Bydd y Bil yn sicrhau rheoleiddio cadarn a chymesur ar sefydliadau yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael cymorth gan Lywodraeth Cymru, grantiau addysg uwch a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a benthyciadau.

The Bill will safeguard the contribution made to the public good arising from the Welsh Government's significant financial subsidy of higher education. The Bill will maintain a strong focus on fair access to higher education and preserve and protect the institutional autonomy and academic freedom of our universities. I am confident that we have a bill that will ensure that the regulation of higher education in Wales is fit for purpose in the context of the funding arrangements in place since 2012-13. I believe that the new regulatory system will benefit students, the Welsh higher education sector and Welsh society as a whole. I therefore ask Members to support this Bill.

Bydd y Bil yn diogelu'r cyfraniad a wneir i les y cyhoedd sy'n deillio o gymhorthdal ariannol sylweddol Llywodraeth Cymru i addysg uwch. Bydd y Bil yn dal i roi pwyslais cryf ar fynediad teg i addysg uwch ac yn cadw ac yn diogelu annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academaidd ein prifysgolion. Rwyf yn hyderus bod gennym fil a fydd yn sicrhau bod rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru'n addas at y diben yng nghyd-destun y trefniadau ariannu sydd ar waith ers 2012-13. Credaf y bydd y system reoleiddio newydd o fudd i fyfyrwyr, sector addysg uwch Cymru a chymdeithas Cymru yn ei chyfanrwydd. Felly, gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r Bil hwn.

16:23

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I just thank the Minister for the respect that he showed the Assembly in the progress of this Bill? Not only did he accept a number of opposition amendments as they were drafted at committee stage, but he also took on board some of the arguments supporting amendments that didn't pass, in order to bring them forward in a slightly different format that pleased him a bit better. I hope that that approach has been noted by other Ministers as well, not least this Minister's approach to secondary legislation and some of the changes that were made in respect of that. With the Assembly in balance, of course, it certainly helps the Minister to work with other parties, but I think the passage of this Bill has demonstrated the value of the Assembly itself, representing the people of Wales and scrutinising the work of Government. This Bill is better because of the Assembly.

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am y parch a ddangosodd i'r Cynulliad wrth i'r Bil hwn fynd rhagddo? Derbyniodd nifer o welliannau'r gwrthbleidiau wrth iddynt gael eu drafftio yn ystod cyfnod y pwyllgorau, ond derbyniodd hefyd rai o'r dadleuon i gefnogi gwelliannau na chawsant eu derbyn, er mwyn eu cyflwyno ar ffurf ychydig yn wahanol a oedd yn ei blesio ychydig yn fwy. Gobeithiaf fod Gweinidogion eraill wedi nodi hynny, yn enwedig dull y Gweinidog hwn o ran is-ddeddfwriaeth a rhai o'r newidiadau a wnaed mewn perthynas â hynny. Gyda chydbwysedd y pleidiau yn y Cynulliad, wrth gwrs, mae'n sicr yn helpu'r Gweinidog i weithio gyda phleidiau eraill, ond credaf fod hynt y Bil hwn wedi dangos gwerth y Cynulliad, o ran cynrychioli pobl Cymru a chraffu ar waith y Llywodraeth. Mae'r Bil hwn yn well oherwydd y Cynulliad hwn.

Wrth gwrs, aeth nifer sylweddol o welliannau'r gwrthbleidiau i bleidlais fwrw yng Nghyfnod 3—felly roedd un bleidlais rhwng Bil gwell a Bil gwell fyth. Oherwydd bod y pleidleisiau hynny mor agos, rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn effro i'r pryderon a fynegwyd yn y trafodaethau ar y gwelliannau hynny. Efallai y caf fi ddewis un, Ddirprwy Lywydd. Mae gwahaniaeth rhwng bod yn rhaid i CCAUC ystyried rhyddid academaidd sefydliadau a sicrhau bod rhyddid academaidd yn cael ei ddiogelu, neu o leiaf nad yw'n cael ei gyfyngu, ym mhob sefyllfa, efallai, ar wahân i amgylchiadau eithafol. Rwyf yn dal i fod yn argyhoeddedig fod y prawf rhesymoldeb arferol yn cwmpasu'r hyn yr oedd ei angen, ac rwyf yn gobeithio, felly, y bydd dehongliad yr adran berthnasol yn y Bil yn y dyfodol yn rhoi ystyriaeth i'r pryderon a fynegwyd yn y ddadl yr wythnos diwethaf.

There were still, of course, a considerable number of opposition amendments that went to a casting vote at Stage 3—so it was one vote between a better Bill and an even better Bill. Because of the closeness of those votes, I hope that the Minister will be alive to the concerns that were expressed in the debates on those amendments. Perhaps I can just pick one, Dirprwy Lywydd. There is a difference between HEFCW having to take into account academic freedom of institutions and ensuring that academic freedom is protected, or at least not limited, in all, perhaps, but extreme circumstances. I'm still not convinced that the usual reasonableness test quite covers what was needed, and I hope therefore that the future interpretation of that relevant section in the Bill will accommodate the worries articulated in last week's debate.

16:24

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Fe fydd Plaid Cymru'n cefnogi'r Bil sy'n mynd drwodd ac a fydd, gobeithio, yn cael ei droi yn Ddeddf, felly. Rwy'n rhannu llawer o sylwadau Suzy Davies. Rwy'n meddwl bod y Bil wedi ei wella'n sylweddol yn y pwyllgor, ac rwy'n meddwl bod y gwaith craffu wedi talu ar ei ganfed yng nghyd-destun y Bil yma.

Plaid Cymru will support the passage of this Bill and, hopefully, it will become an Act. I share many of the comments made by Suzy Davies. I think that the Bill has been significantly improved at committee stage, and I think that the scrutiny work has really paid off in the context of this Bill.

Mae Plaid Cymru yn dal o'r farn, a dweud y gwir, nad oedd rhaid cael Bil ar yr adeg hon ac y byddai modd i drin y sector addysg uwch yng Nghymru fel partneriaid aeddfed a chael cytundeb gyda nhw a fyddai wedi ein symud ni i sefyllfa lle y byddwn ni eto yn deddfu, mae'n siŵr gen i, yn dilyn adroddiad Diamond a chanlyniad yr adroddiad hwnnw. Wedi dweud hynny, rwy'n derbyn yr egwyddor fod gan y Llywodraeth ddiddordeb mewn unrhyw arian cyhoeddus, a rheoli defnydd yr arian cyhoeddus hwnnw. Am hynny, gan nad yw'r Bil yn niweidiol i'r sector, yn fy marn i, fe fyddwn ni'n caniatáu i'r Bil fynd yn ei flaen.

Plaid Cymru remains of the opinion that, in fact, a Bill was not necessary at this point and that the HE sector in Wales could have been treated as mature partners and that it would be possible to reach agreement with them that would have moved us to a position where we would, I'm sure, have legislated following the publication of the Diamond review and the outcome of that. Having said that, I accept the principle that the Government should have an interest in any public expenditure, and should manage that expenditure, and, as such, as the Bill is not damaging to the sector, in my view, we will allow its passage.

Er nad yw'r Bil, fel y dywedais i, yn niweidiol, mae yna yn dal i fod dau neu dri mater sydd heb eu datrys gan y Bil—fe wnewn ni ei ddweud e fel yna. Efallai nad yw'r Bil yn gallu llwyr ateb y problemau hyn. Mae un ohonyn nhw newydd gael ei gyfeirio ato gan Suzy Davies, sef, yr angen i sefydlu annibyniaeth ac ymreolaeth tu fewn i'r sector. Mae hynny'n bwysig gan fod y sector yn cyfrannu siwd gymaint i fywyd diwylliannol a bywyd economaidd Cymru. Rydym ni newydd weld, wrth gwrs, y sector yn gwella ar ei berfformiad tu fewn i'r asesiad ymchwil Prydain Fawr, ac mae hwnna'n rhywbeth sy'n dangos gwerth sector annibynnol yn gweithio tu fewn i ymchwil i gyfrannu'n llawn at fywyd cyhoeddus.

Although the Bill, as I said, is not damaging in any way, there are still two or three issues that remain unresolved by the Bill—let's put it that way. Perhaps the Bill can't actually provide full resolution to these problems. One of them is an issue that Suzy Davies has just referred to, namely the need to establish the independence and autonomy of the sector. That is important because the sector does contribute so much to the cultural and economic life of Wales. We have just seen, of course, the sector improving its performance within the research assessment across Great Britain, and that demonstrates the value of an independent sector working in research and contributing fully to public life.

Yr ail fater, efallai, yw'r ffaith nad yw sicrhau neu ddiogelu ansawdd yn llwyr wedi'i ateb yn y Bil yma. I raddau, mae hynny tu fas i ddwylo'r Gweinidog ar hyn o bryd gan fod adolygiad a phroses newydd ar waith, parthed yr asiantaeth diogelu ansawdd—y 'Quality Assurance Agency'—sydd yn gweithio dros Gymru, Lloegr a'r Alban hefyd. Mae'n siŵr gennyf y byddwn ni'n dod yn ôl at y materion hyn, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn manteisio ar unrhyw gyfle a fydd ganddo fe i wneud datganiad i'r Cynulliad neu ddiweddaru'r Cynulliad ynglŷn â'r datblygiad yna, achos mae sicrhau'r ansawdd ar y cyd, gyda phartneriaid y tu hwnt i Gymru a thu fewn i'r Deyrnas Gyfunol, yn bwysig, yn fy marn i.

The second issue, perhaps, is the fact safeguarding quality is not fully addressed in this Bill. To a certain extent, that is not within the Minister's hands at the moment because there is a new review and a new process in terms of the Quality Assurance Agency that works across Wales, England, and Scotland as well. I am sure that we will return to these issues, and I very much hope that the Minister will take advantage of any opportunity that he has to make statements to the Assembly, or to update the Assembly, on these developments, because securing or assuring quality with partners outwith Wales, within the UK, is very important, in my view.

Rwy'n edrych ymlaen nawr at weld y cod cyllidol, ariannol, yn dod gerbron y Cynulliad. Dyna un o'r consesiynau a roddwyd gan y Llywodraeth. Byddwn ni wedyn yn siŵr o weithio gyda'r sector i wneud yn siŵr bod y cod yn un sy'n rhesymol ac yn ymarferol ar gyfer y sector. Rydym ni'n edrych ymlaen hefyd at sicrhau bod y cynlluniau ffïoedd a mynediad yn awr yn gweithio i gau'r bwlch ar gyfer disgyblion sydd yn dod o gefndiroedd mwy difreintiedig, iddynt fynd i brifysgol, ac i sicrhau bod addysg o'r safon uchaf posibl ar gael tu fewn i'n prifysgolion ni.

I now look forward to seeing the financial code coming before this Assembly. This is one of the concessions given by Government. We, then, I am sure, would work with the sector to ensure that the sector finds the code to be reasonable and practical. We also look forward to seeing the fee and access plans working to close the gap for pupils from more disadvantaged backgrounds to go to universities, and to ensure that the highest quality education is available within our universities.

Mae'n nodweddiadol ein bod ni'n pasio Deddf yn y maes yma. Mae'n nodweddiadol hefyd bod lot o waith diwygio o hyd o dan adolygiad Diamond, ac o dan yr adolygiad ar ffïoedd dysgu a ddaw, efallai, mwy o Loegr nag o Gymru. Felly, rydym ni yn cymeradwyo'r Bil yn y cyd-destun hwnnw.

It is significant that we are passing an Act in this area. It is also significant that there remains a fair deal of changes to be made under Diamond, and under the review of tuition fees that will come, perhaps, more from England than from Wales. So, we commend the Bill in that context.

16:28

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf am ail-ddweud y pethau mae Suzy Davies a Simon Thomas wedi cyfeirio atyn nhw eisoes. Rwy'n meddwl ein bod ni yn cydnabod y gwaith y mae'r pwyllgor wedi ei wneud, a'r ffaith bod y Gweinidog wedi gwrando ar lawer iawn o'r dadleuon o fewn y pwyllgor. Ond, er hynny, mae yna yn dal i fod pryderon ynglŷn ag annibyniaeth. Rwy'n meddwl mai dyna'r egwyddor lle mae yna bryderon o fewn y sector, a hefyd ymysg y gwrthbleidiau. Er, i fod yn deg, rwy'n meddwl bod rhai o'r materion a gyfeiriwyd atyn nhw gan y Gweinidog yn ystod y pwyllgor, a hefyd yn ystod y drafodaeth yma ar lawr y Senedd, hwyrach yn rhoi tipyn bach mwy o eglurdeb o ran meddylfryd y Gweinidog yn hynny o beth.

I don't want to repeat what Suzy Davies and Simon Thomas have already referred to. I think that we do acknowledge the work that the committee has done, and the fact that the Minister has listened to a great deal of the debates and arguments within the committee. But, even so, there remain concerns about independence. I think that that is the principle around which there are concerns within the sector and among the opposition parties. However, to be fair, I think that some of the matters referred to by the Minister during the committee, and also during this debate in the Senedd, have perhaps given greater clarity in terms of the thinking of the Minister in that regard.

Ond, rwy'n cytuno efo Simon Thomas hefyd; mae yna newid wedi bod yn ystod yr holl drafod yma. Mi roedd y sefyllfa rhwng Cymru a Lloegr yn wahanol iawn pan gyflwynwyd y Bil o ran ansawdd, ac rwy'n gobeithio, hwyrach, y bydd y Gweinidog yn achub ar y cyfle i gadw golwg ar sut mae pethau'n datblygu yn Lloegr, a hwyrach i roi mesurau dros dro mewn lle os oes angen, os ydym ni'n anfodlon efo'r ffordd y mae'r materion ansawdd yma yn mynd ymlaen. Ond, rwy'n credu bod yna wella wedi bod ar y Bil er, fel y mae Suzy Davies eisoes wedi ei ddweud, fod yna wahaniaeth barn rhwng y gwrthbleidiau a'r Llywodraeth, ac mi roedd y Llywodraeth yn dibynnu ar bleidlais y Cadeirydd ar y pryd. Ond rydym ni'n barod i'w gefnogi, a jest yn gofyn i'r Gweinidog i gadarnhau ei fod yn awyddus iawn i gydweithio â rhanddeiliaid. Rwy'n meddwl bod y cydweithio wedi gwella yn ystod llwybr y Bil. Roedd cryn feirniadaeth yn y lle cyntaf ynglŷn â faint o drafod oedd wedi bod rhwng y Llywodraeth a rhanddeiliaid yn y lle cyntaf, ond rwy'n teimlo bod y sefyllfa wedi gwella ac yn barod i ganmol y Gweinidog am hynny.

Also, I do agree with Simon Thomas; there has been a change during all of these discussions. The situation between Wales and England was very different when the Bill was introduced, in terms of quality, and I'm hoping that the Minister will, perhaps, take this opportunity to keep a close eye on how matters in England develop, and perhaps to put interim measures in place if they are needed, if we are not content with the way that quality assurance matters are proceeding. But, I do think that there has been improvement in the Bill even though, as Suzy Davies has said, there was a difference of opinion between the opposition parties and the Government, and the Government was dependent on the Chair's vote at the time. But we are willing to support this, and just ask the Minister to confirm that he is eager to co-operate with stakeholders. I think that the collaboration has improved as the Bill has gone through. There was criticism in the first instance about how much discussion there had been between the Government and stakeholders in the first instance, but I do feel that the situation has improved and I am willing to praise the Minister for that.

16:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

16:30 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I do welcome the general support for the principles of this Bill, and I would like again to thank Members for contributing to the scrutiny of it. In many ways, I feel it has been my honest experience that, in terms of the long haul towards legislation—it is quite a long drawn-out process, as we all know—that we have seen through the development of this Bill, I think, the Assembly at its best in terms of that working, particularly at the committee stage, of which so few people are aware, really, in terms of the quality of scrutiny that can be delivered, for the benefit of all of us.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i egwyddorion y Bil hwn, a hoffwn unwaith eto ddiolch i'r Aelodau am gyfrannu at graffu arno. Mewn sawl ffordd, teimlaf mai fy mhrofiad gonest i, o ran y daith hir tuag at ddeddfwriaeth—mae'n broses eithaf hirfaith, fel yr ydym i gyd yn gwybod—yr ydym wedi'i gweld drwy ddatblygiad y Bil hwn, rwyf yn meddwl, yw bod y Cynulliad wedi bod ar ei orau o ran y gwaith hwnnw, yn enwedig yn ystod cyfnod y pwyllgorau, y mae cyn lleied o bobl yn ymwybodol ohono, mewn gwirionedd, o ran ansawdd y craffu y gellir ei ddarparu, er budd pob un ohonom.

I take on board the points that colleagues have made around higher education being a fast-developing landscape and, of course, we will need to keep our eye on things as they develop and change, and that may well be rapid, but I believe the Bill is necessary because the changes introduced by it will ensure that students, taxpayers and Welsh society continue to receive assurance about the quality of Welsh higher education, that equality of opportunity in connection with access to HE in Wales continues to be prioritised, and that fee limits continue to be enforced and that HEFCW can continue to provide assurance about the financial management of institutions: in short, that the reputation of Welsh higher education should be seen as absolutely bullet proof, no matter what developments come our way. Thank you.

Rwyf yn derbyn y pwyntiau y mae cydweithwyr wedi'u gwneud bod addysg uwch yn dirwedd sy'n datblygu'n gyflym ac, wrth gwrs, bydd angen inni gadw llygad ar bethau wrth iddynt ddatblygu a newid, a gallai hynny'n wir fod yn gyflym, ond credaf fod y Bil yn angenrheidiol oherwydd bydd y newidiadau y mae'n eu cyflwyno'n sicrhau bod myfyrwyr, trethdalwyr a chymdeithas Cymru yn parhau i gael sicrwydd am ansawdd addysg uwch yng Nghymru, bod cyfle cyfartal o ran mynediad i addysg uwch yng Nghymru yn dal i gael ei flaenoriaethu, a bod terfynau ffioedd yn dal i gael eu gorfodi ac y gall CCAUC barhau i roi sicrwydd ynghylch rheolaeth ariannol y sefydliadau: yn y bôn, y dylai enw da addysg uwch yng Nghymru gael ei weld yn rhywbeth cwbl ddiogel, waeth pa ddatblygiadau a ddaw. Diolch yn fawr.

16:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 16:32.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 16:32.*

## 7. Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2013-14

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Paul Davies.*

## 7. Debate: The Older People's Commissioner for Wales's Annual Report 2013-14

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Paul Davies.*

16:32 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eitem 7: adroddiad blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2013-14. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud y cynnig—Mark Drakeford.

Item 7: the annual report of the Commissioner for Older People in Wales 2013-14. I call on the Minister for Health and Social Services to propose the motion—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5672 Jane Hutt

Motion NDM5672 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly of Wales:

Yn nodi adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2013/14, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Ionawr 2015.

Notes the annual report of the Commissioner for Older People for 2013/14, which was laid in Table Office on 6 January 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:32

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd dros dro. Hoffwn ddechrau drwy groesawu'n ffurfiol y trydydd adroddiad blynyddol gan y comisiynydd pobl hŷn presennol, Sarah Rochira, a diolch iddi hi a staff y comisiwn am y gwaith pwysig y maen nhw wedi ei gyflawni.

Thank you very much, acting Deputy Presiding Officer. I would like to start by formally welcoming this third annual report from the current commissioner for older people, Sarah Rochira, and to thank her and the commission staff for the significant work that they have undertaken.

Mae'r gwaith o ymwneud yn uniongyrchol ag anghenion pobl hŷn yn digwydd yn eang o fewn ac ar draws y Llywodraeth. Drwy fforwm partneriaeth cenedlaethol Cymru, fforwm cynghori'r Gweinidog ar heneiddio, a'r berthynas sydd gennym â rhwydweithiau pobl hŷn ar lefel cenedlaethol a lleol, ein nod ar y cyd yw sicrhau bod lleisiau cyfunol pobl hŷn yn cael eu hategu yn ein penderfyniadau.

Within and across Government the work to engage directly with the needs of older people is extensive. Through the national partnership forum for Wales, the ministerial advisory forum on ageing, and the relationship that we have with networks of older people at national and local level, our shared aim is to ensure that the collective voices of older people in our decision making are amplified.

Rydym yn sylweddoli, oherwydd y ddealltwriaeth gryfach o lawer sydd gennym yn yr unfed ganrif ar hugain, bod y canlyniadau pob amser yn well pan ydym yn mynnu mai partneriaeth gyfartal yw'r berthynas rhwng y gwasanaethau a'r bobl sy'n eu defnyddio. Mae pobl hŷn hefyd yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain. Mae defnyddio eu profiadau nhw i lunio gwasanaethau cyhoeddus y dyfodol yn golygu bod angen gwrando'n ofalus ar bobl a gwneud yn siŵr bod rhan ganddynt yn y gwaith o gyd-gynhyrchu gwasanaethau. Mae hon yn uchelgais rydym yn ei rhannu â'r comisiynydd mewn ffordd sy'n cael ei hadlewyrchu'n gliriach yn yr adroddiad sy'n cael ei drafod y prynhawn yma.

We realise that, because of our much stronger understanding in the twenty-first century, the outcomes are always better when we insist that the relationship between services and the people who use them is one of equal partnership. Older people are also experts in their own lives. Using this experience to shape public services for the future involves listening carefully to people and ensuring that they are actively involved in co-producing services. This is an ambition we share with the commissioner in a way that is clearly reflected in the report we are debating this afternoon.

Nawr, er ein bod yn rhannu uchelgeisiau, mae'r rhannau sydd gennym i'w chwarae yn wahanol, ac mae hynny'n gwbl briodol. Mae swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn un annibynnol, y tu allan i'r Llywodraeth, ac mae ganddi awdurdod statudol ei hun. Mae'r comisiynydd yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw i raddau helaeth drwy gyhoeddi ei hadroddiad blynyddol a'r farn sydd ynddo.

Now, while our ambitions may be shared, the parts we play are, quite properly, distinct. The Commissioner for Older People in Wales is an independent office, outside Government, and she has statutory authority of her own. The commissioner discharges that responsibility, in significant part, through publication of her annual report and the view it contains.

Dirprwy Lywydd dros dro, I turn briefly to the proposed amendments to the motion to say that the Government will support them all. There has been an increase in the commissioner's casework in relation to health care. It is actually less than the increase in casework across three of the key themes identified in her report: housing, finance and community. But, as we have said so many times in this Chamber, we want a culture in our public services where, in Keith Evans's words, we regard a willingness to raise concerns as a gift that we can put to work in the business of improvement.

Ddirprwy Lywydd dros dro, trof yn fyr at y gwelliannau arfaethedig i'r cynnig a dweud y bydd y Llywodraeth yn cefnogi pob un ohonynt. Bu cynnydd yng ngwaith achos y comisiynydd mewn perthynas â gofal iechyd. Mewn gwirionedd, mae'n llai na'r cynnydd mewn gwaith achos ar draws tair o'r themâu allweddol a nodwyd yn ei hadroddiad: tai, cyllid a chymuned. Ond, fel yr ydym wedi dweud lawer gwaith yn y Siambr hon, rydym am gael diwylliant yn ein gwasanaethau cyhoeddus lle, yng ngeiriau Keith Evans, yr ydym yn ystyried parodrwydd i godi pryderon fel anrheg y gallwn ei rhoi ar waith er mwyn gwella.

The Government will accept the second amendment, although it provides only a partial account of what the commissioner actually says. She does regret that three local authorities were in breach of their statutory timescales for delivering disabled facilities grants. But she also welcomes the fact that the number of non-compliant local authorities has fallen from seven to three and that the average delivery times had, as she says in her report, ‘dropped substantially’, from an average of 325 days in 2011-12 to 271 days in 2012-13. The latest information I have suggests that further progress has been made beyond the timescale of the report. All local authorities are achieving statutory timescales today and average delivery times have reduced further to 236 days, a 27% drop in a two-year period.

Bydd y Llywodraeth yn derbyn yr ail welliant, er nad yw ond yn rhoi cyfrif rhannol o'r hyn y mae'r comisiynydd yn ei ddweud mewn gwirionedd. Mae hi’n gresynu bod tri awdurdod lleol yn torri eu hamserlenni statudol ar gyfer darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl. Ond mae hefyd yn croesawu'r ffaith bod nifer yr awdurdodau lleol nad ydynt yn cydymffurfio wedi gostwng o saith i dri a bod yr amseroedd darparu ar gyfartaledd, fel y mae'n dweud yn ei hadroddiad, wedi gostwng yn sylweddol, o gyfartaledd o 325 o ddyddiau yn 2011-12 i 271 o ddyddiau yn 2012-13. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yn awgrymu bod cynnydd pellach wedi ei wneud y tu hwnt i amserlen yr adroddiad. Mae pob awdurdod lleol yn cadw at amserlenni statudol heddiw ac mae amseroedd darparu ar gyfartaledd wedi gostwng ymhellach i 236 o ddyddiau, 27% o ostyngiad mewn cyfnod o ddwy flynedd.

The third and final amendment is strongly supported by the Government, which has supported the development of a rights-based approach to ageing and older people ever since the development of the first strategy for older people in2003. The declaration of rights for older people in Wales was launched by Gwenda Thomas in July 2014 and has been supported by all Welsh Ministers. The commissioner’s work in this area is very much to be welcomed.

Mae’r Llywodraeth yn cefnogi’n gryf y trydydd gwelliant a'r olaf, a hithau wedi cefnogi datblygiad ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau tuag at heneiddio a phobl hŷn byth ers datblygu'r strategaeth gyntaf ar gyfer pobl hŷn yn 2003. Lansiwyd y datganiad o hawliau pobl hŷn yng Nghymru gan Gwenda Thomas ym mis Gorffennaf 2014, ac mae holl Weinidogion Cymru wedi ei gefnogi. Mae gwaith y comisiynydd yn y maes hwn i'w groesawu’n fawr iawn.

Now, Dirprwy Lywydd dros dro, I understand that there will be a temptation this afternoon to focus on work that the commissioner has carried out since her third report was completed. In opening, however, I do want to do justice to the actual subject of this debate and the important agenda that the 2013-14 report sets out. In doing so, it is important to remember that, in April 2013, the commissioner published her five-year framework for action. The report we are discussing this afternoon is what Sarah Rochira describes as a statement of impact and reach, setting out all the steps taken in the year 2013-14 to take forward the first year of her five-year programme. A significant section of the report sets out the commissioner’s work during the passage of the Social Services and Well-being (Wales) Bill, in which she powerfully and influentially pursued the interests of older people within that people’s Act.

Yn awr, Ddirprwy Lywydd dros dro, deallaf y bydd temtasiwn y prynhawn yma i ganolbwyntio ar waith y mae'r comisiynydd wedi’i wneud ers cwblhau ei thrydydd adroddiad. I ddechrau, fodd bynnag, rwyf am wneud cyfiawnder â phwnc gwirioneddol y ddadl hon a'r agenda bwysig y mae adroddiad 2013-14 yn ei gosod. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig cofio bod y comisiynydd wedi cyhoeddi ym mis Ebrill 2013 ei fframwaith pum mlynedd ar gyfer gweithredu. Yr adroddiad yr ydym yn ei drafod y prynhawn yma yw'r hyn y mae Sarah Rochira’n ei ddisgrifio fel datganiad o effaith a chyrhaeddiad, sy’n nodi'r holl gamau a gymerwyd yn y flwyddyn 2013-14 i fwrw ymlaen â blwyddyn gyntaf ei rhaglen bum mlynedd. Mae rhan sylweddol o'r adroddiad yn nodi gwaith y comisiynydd yn ystod hynt Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), lle’r aeth ati’n rymus ac yn ddylanwadol i fynd ar drywydd buddiannau pobl hŷn o fewn y Ddeddf honno.

The commissioner’s remit, of course, and her report, extend far beyond both health and social care to include the important role played by wider services and facilities, such as libraries and community centres, and, indeed, the risk to them during a period of austerity. The report spends a significant amount of time dealing with the issue of toilets for use by the public. As Members here will know, the Government has been persuaded by the passionate campaign led by the commissioner, the Welsh Senate of Older People, and the ministerial advisory group on ageing, amongst others, calling for the fact that public toilets are crucial for older people to maintain healthy, active lives and participate in their community. This, of course, will be reflected in our forthcoming public health Bill, and it’s a good example of the impact achieved by the work set out in the report.

Mae cylch gwaith y comisiynydd, wrth gwrs, a’i hadroddiad, yn estyn ymhell y tu hwnt i iechyd a gofal cymdeithasol ac yn cynnwys swyddogaeth bwysig gwasanaethau a chyfleusterau ehangach, megis llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol, ac, yn wir, y risg iddynt yn ystod cyfnod o gyni. Mae'r adroddiad yn treulio cryn dipyn o amser yn ymdrin â thoiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd. Fel y bydd yr Aelodau yma’n gwybod, mae'r Llywodraeth wedi cael ei darbwyllo gan yr ymgyrch angerddol dan arweiniad y comisiynydd, y Senedd Pobl Hŷn, a grŵp cynghori'r Gweinidog ar heneiddio, ymysg eraill, yn tynnu sylw at y ffaith bod toiledau cyhoeddus yn hanfodol i bobl hŷn er mwyn byw bywydau iach, egnïol a chymryd rhan yn eu cymunedau. Bydd hyn, wrth gwrs, yn cael ei adlewyrchu yn ein Bil iechyd cyhoeddus sydd ar ddod, ac mae'n enghraifft dda o effaith a gyflawnwyd gan y gwaith a nodir yn yr adroddiad.

The commissioner has also used her statutory powers in the period covered by the report to fulfil her commitment to ensure that all older people in Wales are sufficiently safeguarded and protected. As proposals for service reconfiguration by health boards have developed, the commissioner has also issued formal guidance, using her statutory powers, setting out her expectation of how older people should be engaged in this process and how their interests should be protected.

Mae'r comisiynydd hefyd wedi defnyddio ei phwerau statudol yn y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymdrin ag ef i gyflawni ei hymrwymiad i sicrhau bod pob person hŷn yng Nghymru'n cael ei ddiogelu a'i warchod yn ddigonol. Wrth i gynigion ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau gan fyrddau iechyd ddatblygu, mae'r comisiynydd hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ffurfiol, gan ddefnyddio ei phwerau statudol, yn nodi ei disgwyliadau o ran sut y dylai pobl hŷn gael eu cynnwys yn y broses hon a sut y dylai eu buddiannau gael eu diogelu.

Finally, Members will be aware that the commissioner provided an update in her 2013-14 report on her then proceeding review on the quality of life in residential care for older people in Wales. The results of that review have now been published, but are beyond the time covered in the document we are debating today. I will set out the Government's report to the review early next month, and look forward to informing Members of it further at that time.

Yn olaf, bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y comisiynydd wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn adroddiad 2013-14 ar ei hadolygiad a oedd yn mynd rhagddo bryd hynny ar ansawdd bywyd mewn gofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru. Mae canlyniadau'r adolygiad hwnnw bellach wedi eu cyhoeddi, ond maent y tu hwnt i'r cyfnod y mae'r ddogfen yr ydym yn ei thrafod heddiw'n ymdrin ag ef. Byddaf yn nodi adroddiad y Llywodraeth i'r adolygiad ddechrau'r mis nesaf, ac edrychaf ymlaen at roi rhagor o wybodaeth i'r Aelodau amdano bryd hynny.

Dirprwy Lywydd dros dro, as well as providing a comprehensive account of all the activities provided with a priority by the commissioner during 2013-14, her third annual report also sets out her priorities for the year ahead. She makes it clear that she will continue to turn her attention to combating ageism, negative stereotyping and discrimination, which, sadly, older people still face in some aspects of their lives. She will continue to pursue her commitment to make clear and strengthen the rights of older people, and set out how these rights can be used to challenge and shape public service delivery.

Ddirprwy Lywydd dros dro, yn ogystal â darparu cyfrif cynhwysfawr o'r holl weithgareddau a ddarparwyd â blaenoriaeth gan y comisiynydd yn ystod 2013-14, mae ei thrydydd adroddiad blynyddol hefyd yn nodi ei blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'n ei gwneud yn glir y bydd yn parhau i droi ei sylw at fynd i'r afael â rhagfarn ar sail oedran, ystrydebu negyddol a gwahaniaethu, y mae pobl hŷn, yn anffodus, yn dal i'w hwynebu mewn rhai agweddau ar eu bywydau. Bydd yn parhau i fwrw ymlaen â'i hymrwymiad i egluro a chryfhau hawliau pobl hŷn, ac yn nodi sut y gellir defnyddio'r hawliau hyn i herio a llywio darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

This will include a new focus on access by older people to the criminal and restorative justice system to make sure that their rights are enshrined and protected in those areas too. The commissioner has already indicated her intention to undertake two formal reviews, in the year following the year covered by this report, into the support available to carers and people living with dementia. Both of those are topics that are debated regularly on the floor of this Assembly and are important to Members here, and I look forward to receiving these reports and to the recommendations included in them.

Bydd hyn yn cynnwys pwyslais newydd ar fynediad pobl hŷn i'r system cyfiawnder troseddol ac adferol er mwyn gwneud yn siŵr bod eu hawliau'n cael eu hymgorffori a'u diogelu yn y meysydd hynny hefyd. Mae'r comisiynydd eisoes wedi nodi ei bwriad i gynnal dau adolygiad ffurfiol, yn y flwyddyn yn dilyn y flwyddyn y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â hi, o'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr a phobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r ddau bwnc hynny'n rhai sy'n cael eu trafod yn rheolaidd ar lawr y Cynulliad hwn ac maent yn bwysig i'r Aelodau yma, ac edrychaf ymlaen at dderbyn yr adroddiadau hyn ac at yr argymhellion a fydd ynddynt.

Dirprwy Lywydd dros dro, this is just a snapshot of some of the areas the commissioner has focused on within her 2013-14 annual report in order to promote the needs and the voice of older people in Wales. The Welsh Government values both the understanding and the insight that the commissioner offers in her role as a champion for older people in Wales. I commend the report to the Assembly. I look forward to hearing the contributions of other Members as we seek together to maximise the contribution to the welfare and the wellbeing of older people in Wales.

Ddirprwy Lywydd dros dro, cipolwg yn unig yw hyn ar rai o'r meysydd y mae'r comisiynydd wedi canolbwyntio arnynt yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2013-14, er mwyn hyrwyddo anghenion a llais pobl hŷn yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi'r ddealltwriaeth a'r ddirnadaeth y mae'r comisiynydd yn eu cynnig yn ei rôl fel hyrwyddwr i bobl hŷn yng Nghymru. Cymeradwyaf yr adroddiad i'r Cynulliad. Edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau'r Aelodau eraill wrth inni fynd ati gyda'n gilydd i hybu i'r eithaf y cyfraniad i les a llesiant pobl hŷn yng Nghymru.

16:42 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I have selected the three amendments to the motion. I call on Darren Millar to move amendments 1, 2 and 3 tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi'r cynnydd yng nghyfran gwaith achos y Comisiynydd Pobl Hŷn sy'n ymwneud â gofal iechyd.*

*Notes the increase in the proportion of the Older People's Commissioner's casework relating to health care.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith bod yr Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad yn nodi bod tri awdurdod lleol yn methu â chyrraedd eu hamserlenni statudol ar gyfer darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl.*

*Regrets that the Impact and Reach Report notes that three local authorities are breaching their statutory time scales for delivering disabled facilities grants.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn mewn perthynas â datblygu'r Datganiad Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru.*

*Welcomes the work of the Older People's Commissioner in developing the Declaration of the Rights of Older People in Wales.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 2 a 3.*

*Amendments 1, 2 and 3 moved.*

16:42

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Chair, and thank you, Minister, for opening this debate and bringing this report to the National Assembly. I'd like to put on record my thanks to the commissioner and her team for the hard work that they do in being a voice and champion for older people across Wales. I saw at first hand the commissioner at work in my own constituency just last week, undertaking a bus surgery along the north Wales coast. Of course, it is very clear that she takes her work in terms of engaging with older people very, very seriously and ensures that she gets into every single part of Wales in order to represent their views. I want to put on record my thanks to her for the energy and the commitment that she clearly demonstrates each and every day.

Diolch, Gadeirydd, a diolch i chi, Weinidog, am agor y ddadl hon a dod â'r adroddiad hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol. Hoffwn gofnodi fy niolch i'r comisiynydd a'i thîm am y gwaith caled y maent yn ei wneud i fod yn llais ac yn hyrwyddwr i bobl hŷn ledled Cymru. Gwelais drosof fy hun y comisiynydd wrth ei gwaith yn fy etholaeth i yr wythnos diwethaf, yn cynnal cymhorthfa bws ar hyd arfordir gogledd Cymru. Wrth gwrs, mae'n amlwg iawn ei bod yn cymryd ei gwaith o ran ymgysylltu â phobl hŷn o ddifrif iawn, iawn ac yn sicrhau ei bod yn mynd i bob rhan o Gymru er mwyn cynrychioli eu barn. Rwyf am gofnodi fy niolch iddi am yr egni a'r ymrwymiad y mae'n eu dangos yn glir bob dydd.

Also, in my capacity as Chair of the Public Accounts Committee, we've been very grateful to have received evidence from the commissioner to the committee in respect of her use of resources in recent financial years. It is quite clear to the committee—we'll be reporting on this in the near future, but it was clear—that there's been a particular focus on driving efficiency through the commissioner's office to ensure good value for money for taxpayers. I want to put on note, you know, the fact that we've seen greater delivery of work, if you like, for fewer resources from the commissioner in the past 12 months, and that's certainly something that I very much welcome. She's also given support, of course, to the committee in its work looking at governance arrangements within the Welsh NHS, something that I know the Minister will also be very, very interested in.

Hefyd, yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, rydym wedi bod yn ddiolchgar iawn o dderbyn tystiolaeth gan y comisiynydd i'r pwyllgor ynghylch ei defnydd o adnoddau yn y blynyddoedd ariannol diwethaf. Mae'n eithaf amlwg i'r pwyllgor—byddwn yn adrodd ar hyn yn y dyfodol agos, ond yr oedd yn amlwg—y bu pwyslais penodol ar sbarduno effeithlonrwydd drwy swyddfa'r comisiynydd i sicrhau gwerth da am arian i drethdalwyr. Rwyf am gofnodi, wyddoch chi, y ffaith ein bod wedi gweld mwy o gyflawni gwaith, os mynnwch, â llai o adnoddau gan y comisiynydd yn y 12 mis diwethaf, ac mae hynny'n sicr yn rhywbeth yr wyf yn ei groesawu'n fawr. Mae hefyd wedi cynorthwyo'r pwyllgor, wrth gwrs, wrth iddo edrych ar drefniadau llywodraethu o fewn y GIG yng Nghymru, sy'n rhywbeth y gwn y bydd gan y Gweinidog hefyd ddiddordeb mawr iawn ynddo.

I do move the amendments on the order paper today in the name of Paul Davies. I think that there are three aspects of the commissioner's report that it is important that we draw some attention to. The first of our amendments notes the increase in the proportion of the older people's commissioner's casework relating to the NHS. And we know from debates which we've had on a regular basis in this Chamber that the current 'Putting Things Right' process in the Welsh NHS isn't necessarily working in the way that we all, on a cross-party basis, would have hoped it was going to be able to work. The commissioner, of course, doesn't intervene in every single case that comes across her path, but she does get involved in casework when it has wider implications for older people in Wales. I think it is something of a concern that there has been an increase in the proportion of the commissioner's work—some 40% increase—in the report for 2013 when compared to the previous year. I think that that is perhaps an indication of some of the challenges that our national health service is facing at the moment, with a rise in demand and of course with the pressures that demographic change and financial constraints bring to the service. We know that the Keith Evans review has taken place and that a piece of work was undertaken by the Health and Social Care Committee of the Assembly as well, and we look forward to hearing more about how the Welsh Government intends to tackle the problems that are inherent within the current complaints system in the NHS as we go forward.

Rwyf yn cynnig y gwelliannau ar y papur trefn heddiw yn enw Paul Davies. Credaf fod tair agwedd ar adroddiad y comisiynydd y mae'n bwysig ein bod yn tynnu rhywfaint o sylw atynt. Mae'r cyntaf o'n gwelliannau'n nodi'r cynnydd yng nghyfran gwaith achos y comisiynydd pobl hŷn sy'n ymwneud â'r GIG. A gwyddom o ddadleuon yr ydym wedi'u cael yn rheolaidd yn y Siambr hon nad yw'r broses bresennol 'Gweithio i Wella' yn y GIG yng Nghymru o angenrheidrwydd yn gweithio yn y ffordd y byddem i gyd, yn drawsbleidiol, yn gobeithio y byddai'n gallu gweithio. Nid yw'r comisiynydd, wrth gwrs, yn ymyrryd ym mhob un achos sy'n dod i'w sylw, ond mae yn cymryd rhan mewn gwaith achos pan fydd iddo oblygiadau ehangach i bobl hŷn yng Nghymru. Credaf ei bod yn destun pryder fod cynnydd wedi bod yng nghyfran gwaith y comisiynydd—cynnydd o ryw 40%—yn yr adroddiad ar gyfer 2013 o gymharu â'r flwyddyn cyn hynny. Credaf fod hynny efallai yn arwydd o rai o'r heriau y mae ein gwasanaeth iechyd gwladol yn eu hwynebu ar hyn o bryd, gyda chynnydd yn y galw ac wrth gwrs gyda'r pwysau ar y gwasanaeth oherwydd newid demograffig a chyfyngiadau ariannol. Gwyddom fod adolygiad Keith Evans wedi digwydd a bod Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad hefyd wedi gwneud darn o waith, ac edrychwn ymlaen at glywed mwy am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mynd i'r afael â'r problemau sy'n rhan annatod o system gwynion bresennol y GIG wrth inni symud ymlaen.

The second of our amendments deals with the regret that the impact and reach report did, at the time that it was published, given that it is a snapshot, note that three local authorities were breaching their statutory timescales. I'm pleased to acknowledge that there has been progress in respect of disabled facilities grants and, of course, a piece of work has just been completed in respect of these, which the Welsh Government commissioned from Shelter. But, there's no doubt in my mind that there's still further progress that can be made in this respect. We're spending £35 million a year on disabled facilities grants at the moment, and, even though there has been progress, I still do feel that 236 days on average to wait for your disabled facilities grant in Wales is unacceptable, and we need to make sure that those are much more timely interventions, particularly if we're going to, again, relieve some pressures on other public services, particularly the national health service.

Mae ein hail welliant yn gresynu bod yr adroddiad effaith a chyrhaeddiad, ar adeg ei gyhoeddi, o ystyried mai ciplun ydyw, yn nodi bod tri awdurdod lleol wedi methu â chyrraedd eu hamserlenni statudol. Rwyf yn falch o gydnabod y bu cynnydd o ran grantiau cyfleusterau i'r anabl ac, wrth gwrs, mae darn o waith newydd ei gwblhau mewn perthynas â'r rhain, y comisiynodd Llywodraeth Cymru gan Shelter. Ond rwyf yn gwbl sicr fod cynnydd pellach y gellir ei wneud o hyd yn hyn o beth. Rydym yn gwario £35 miliwn y flwyddyn ar grantiau cyfleusterau i'r anabl ar hyn o bryd, ac er bod cynnydd wedi'i wneud, rwyf yn dal i deimlo bod aros 236 o ddyddiau ar gyfartaledd am eich grant cyfleusterau i'r anabl yng Nghymru yn annerbyniol, ac mae angen inni wneud yn siŵr bod y rheini'n ymyriadau mwy amserol o lawer, yn enwedig os ydym, unwaith eto, am leddfu rhywfaint ar y pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill, yn enwedig y gwasanaeth iechyd gwladol.

Our third amendment welcomes the work of the older people's commissioner in developing the declaration of the rights of older people in Wales, and I know that this is something that the Welsh Government encouraged, and the previous Deputy Minister for Social Services was a great advocate of older people's rights. I want to commend the Welsh Government for their work in encouraging the commissioner to develop this theme further. Unfortunately, the commissioner does highlight the fact that older people are still experiencing discrimination in access to some public services across Wales, and I very much hope that, in developing those rights for older people in Wales, there will be mechanisms in the future that can be developed also to hold public services and Ministers, the Welsh Government et cetera to account for ensuring that those rights are actually delivered in a practical sense through our public services and through the commitments on a cross-party basis that have been made. So, I'm very pleased to see the report before us—

Mae ein trydydd gwelliant yn croesawu gwaith y comisiynydd pobl hŷn o ran datblygu'r datganiad o hawliau pobl hŷn yng Nghymru, a gwn fod hyn yn rhywbeth y bu Llywodraeth Cymru'n ei annog, ac roedd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol yn eiriolwr gwych dros hawliau pobl hŷn. Rwyf am ganmol Llywodraeth Cymru am ei gwaith i annog y comisiynydd i ddatblygu'r thema hon ymhellach. Yn anffodus, mae'r comisiynydd yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl hŷn yn dal i brofi gwahaniaethu o ran cael gafael ar rai gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, ac rwyf yn mawr obeithio, wrth ddatblygu'r hawliau hynny ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, y bydd mecanweithiau yn y dyfodol y gellir eu datblygu hefyd i ddwyn gwasanaethau cyhoeddus a Gweinidogion, Llywodraeth Cymru ac ati i gyfrif o ran sicrhau bod yr hawliau hynny'n cael eu sicrhau mewn modd ymarferol drwy ein gwasanaethau cyhoeddus a thrwy ymrwymiadau trawsbleidiol a wnaed. Felly, rwyf yn falch iawn o weld yr adroddiad ger ein bron—

16:48

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr iawn. Mae'ch amser chi ar ben. Alun Davies.

Thank you very much. Time's up, I'm afraid. Alun Davies.

16:48

## Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, acting Deputy Presiding Officer. Like others, I would like to add my thanks to the commissioner for her work and, as I think Darren was saying, the way in which she pursues her agenda. The Minister in his introduction outlined many of the priorities that the commissioner has followed over the last period and also how that work has directly contributed to decisions taken by Ministers. I very much welcome that. I welcome the approach. The independence of action, the independence of thought and the independence of decision are absolutely essential to the role of a commissioner, but also the listening from Government is essential to the commissioner actually delivering on their findings. I think that Mark, in his introduction, has outlined a very compelling case for the way in which this works in practice, and I think many of us across the Chamber will be grateful to him and his predecessors for that.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd dros dro. Fel eraill, hoffwn ychwanegu fy niolch i'r comisiynydd am ei gwaith ac, fel yr wyf yn meddwl yr oedd Darren yn dweud, y ffordd y mae hi'n dilyn ei hagenda. Amlinellodd y Gweinidog yn ei gyflwyniad lawer o'r blaenoriaethau y mae'r comisiynydd wedi'u dilyn dros y cyfnod diwethaf a hefyd sut y mae'r gwaith hwnnw wedi cyfrannu'n uniongyrchol at benderfyniadau a wneir gan Weinidogion. Croesawaf hynny yn fawr iawn. Rwy'n croesawu'r dull gweithredu hwnnw'n fawr iawn. Mae annibyniaeth gweithredu, annibyniaeth meddwl ac annibyniaeth penderfyniadau'n gwbl hanfodol i rôl comisiynydd, ond mae hefyd yn hanfodol i'r Llywodraeth wrando ar y comisiynydd er mwyn cyflawni mewn gwirionedd ar ei chanfyddiadau. Credaf fod Mark, yn ei gyflwyniad, wedi amlinellu achos cryf iawn ar gyfer y ffordd y mae hyn yn gweithio'n ymarferol, ac rwy'n credu y bydd llawer ohonom ar bob ochr i'r Siambr yn ddiolchgar iddo ef a'i ragflaenwyr am hynny.

I'm also very pleased about the way in which the commissioner carries out her work, not only fulfilling a review of the dignified care review—which I thought was absolutely essential, not only to investigate these matters but then to review the Government response to them; an essential role—but also to approach her work rooted in a strong belief in human rights and a strong rights-based approach, influencing legislation, policy and decisions where necessary, from NHS reconfiguration through to other aspects of legislation and the decisions taken, both by Governments here and elsewhere, in the provision of community services and services such as transport and the rest of it. An absolutely essential approach.

Rwyf hefyd yn falch iawn ynghylch y ffordd y mae'r comisiynydd yn cyflawni ei gwaith, nid yn unig yn cynnal adolygiad o'r adolygiad gofal gydag urddas—oedd yn gwbl hanfodol, yn fy marn i, nid yn unig i ymchwilio i'r materion hyn ond yna i adolygu ymateb y Llywodraeth iddynt; rôl hanfodol—ond hefyd yn mynd o gwmpas ei gwaith ar sail cred gref mewn hawliau dynol ac agwedd sydd wedi'i seilio'n gadarn ar hawliau, gan ddylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisïau a phenderfyniadau lle bo angen, o ad-drefnu'r GIG hyd at agweddau eraill ar ddeddfwriaeth a'r penderfyniadau a wnaed, gan Lywodraethau yma ac mewn mannau eraill, ynglŷn â darparu gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau fel trafnidiaeth ac ati. Agwedd gwbl hanfodol.

What I would like to focus on for a moment or so is the report that she issued late last year, 'A Place to Call Home?'. Many of us in this Chamber will be familiar with reading a number of different reports from different sources over the years, but I have to say, this was a report that stopped me in my tracks; this was a report that stayed on my desk, that I not only read once, but read again and again. I thought its contents were absolutely shocking. Many of us will recognise some of what is said in this report, but I don't think any of us have—and certainly I haven't—read a report where these things are laid out so clearly and so starkly and in such a compelling way: 'a lack of social stimulation' and a withdrawal of older people, leading to

Yr hyn yr hoffwn ganolbwyntio arno am funud neu ddwy yw'r adroddiad a gyhoeddwyd ganddi ddiwedd y llynedd, 'Lle i'w Alw'n Gartref?'. Bydd llawer ohonom yn y Siambr hon yn gyfarwydd â darllen nifer o adroddiadau gwahanol o wahanol ffynonellau dros y blynyddoedd, ond rhaid imi ddweud, roedd hwn yn adroddiad a wnaeth i mi stopio yn fy unfan; roedd hwn yn adroddiad a arhosodd ar fy nesg, ac fe wnes ei ddarllen dro ar ôl tro. Roeddwn i'n meddwl bod ei gynnwys yn gwbl syfrdanol. Bydd llawer ohonom yn adnabod rhywfaint o'r hyn a ddywedir yn yr adroddiad hwn, ond nid wyf yn credu bod neb ohonom—ac yn sicr nid wyf i—wedi darllen adroddiad lle mae'r pethau hyn wedi cael eu gosod mor glir ac mor blaen ac mewn ffordd mor gymhellol: 'prinder ysgogiad cymdeithasol' a phobl hŷn yn neilltuo'u hunain, gan

'an impact on health and wellbeing'.

'effeithio'n arwyddocaol ar eu hiechyd a lles'.

'Residents often do not have choice and control over the activities…and are not supported to do the things that they want to do'.

'Yn aml nid yw preswylwyr yn cael dewis na rheoli'r gweithgareddau ... ac nid ydynt yn cael cefnogaeth i wneud y pethau maent eisiau eu gwneud'.

'Only a small number of care homes enable residents to participate in meaningful occupation'.

'Dim ond nifer fechan o gartrefi gofal sy'n galluogi preswylwyr i gyfrannu at waith ystyrlon'.

This term, 'meaningful occupation' is defined as 'making tea…gardening…keeping pets', or even 'taking part in religious services'. I find that an extraordinary statement in the twenty-first century.

Mae'r term hwn, 'gwaith ystyrlon' yn cael ei ddiffinio fel 'gwneud te ... garddio ... cadw anifeiliaid anwes', neu hyd yn oed 'cymryd rhan mewn gwasanaethau crefyddol'. Rwy'n ystyried hynny'n ddatganiad anhygoel yn yr unfed ganrif ar hugain.

The approach

Yn aml

'to personal care is often task-based and not delivered in a person-centred way'.

'mae'r dull o ymdrin â gofal personol yn seiliedig ar dasg, yn hytrach na'i fod yn cael ei gyflwyno drwy ganolbwyntio ar yr unigolyn'.

People, too often,

Mae pobl, yn rhy aml,

'quickly become institutionalised. Their personal identity and individuality rapidly diminishes'.

'yn cael eu sefydliadu yn gyflym. Mae eu hunaniaeth a'u hunigoliaeth yn gwanio'n gyflym'.

The most basic care needs are not properly recognised, including dietary needs. An astonishing report from a commissioner on the delivery of care in Wales today. She does say that staff, all too often, are very kind and work hard, but too often, care homes are critically understaffed and staff try hard to deliver care in a pressurised environment with limited resources and support.

Nid yw'r anghenion gofal mwyaf sylfaenol yn cael eu cydnabod yn briodol, gan gynnwys anghenion deietegol. Adroddiad rhyfeddol gan gomisiynydd ar y ffordd y caiff gofal ei gyflwyno yng Nghymru heddiw. Mae hi yn dweud bod staff, yn aml, yn garedig iawn ac yn gweithio'n galed, ond bod cartrefi gofal, yn rhy aml, yn ddifrifol brin o staff a bod staff yn gweithio'n galed i ddarparu gofal dan bwysau gydag adnoddau a chefnogaeth gyfyngedig.

That really worries me deeply, and I hope and I know that it'll worry people across the whole of this Chamber and also in Government. She goes on to say that there's been a

Mae hynny'n wir yn fy mhoeni'n ddwfn, ac rwyf yn gobeithio ac yn gwybod y bydd yn poeni pobl ar bob ochr o'r Siambr hon a hefyd yn y Llywodraeth. Mae hi'n mynd ymlaen i ddweud y bu

'statutory focus…on contractual frameworks…rather than the quality of life'.

'ffocws statudol ... ar fframweithiau contractau ... yn hytrach na ... ansawdd bywyd'.

There's a 'tick box compliance' that means that national minimum standards are insufficient to meet the needs of vulnerable older people. The care market is 'volatile and fragile'. This refers to not individual difficulties in individual homes, but a systemic failure: a market that is unable to meet the needs of today, let alone the needs of tomorrow.

Ceir 'cydymffurfiaeth ticio bocsys' sy'n golygu nad yw safonau gofynnol cenedlaethol yn ddigonol i ddiwallu anghenion pobl hŷn sy'n agored i niwed. Mae'r farchnad gofal yn 'gyfnewidiol a bregus'. Mae hyn yn cyfeirio at fethiant systemig yn hytrach nag anawsterau unigol mewn cartrefi unigol: marchnad nad yw'n gallu diwallu anghenion heddiw, heb sôn am anghenion yfory.

The commissioner herself foresees that actions both must come from the care home sector itself, but also identifies the need for strong leadership from Government. I know that the Minister is committed to delivering this leadership, but I would say this to him in closing. I hope that we will be able to respond to this report not simply in terms of regulation and improving the nature of regulation. I hope that we will respond to the commissioner and this report in a more fundamental way: intervening in this market, doing what only Government can do to guarantee the needs and the life requirements of people living in the care home sector in Wales. I look forward to the Government's response.

Mae'r comisiynydd ei hun yn rhagweld bod yn rhaid i'r sector cartrefi gofal ei hun weithredu, ond hefyd yn nodi'r angen am arweiniad cryf gan y Llywodraeth. Gwn fod y Gweinidog yn ymrwymo i ddarparu'r arweiniad hwn, ond byddwn yn dweud hyn wrtho wrth gloi. Rwy'n gobeithio nad yn nhermau rheoleiddio a gwella natur rheoleiddio yn unig y byddwn yn ymateb i'r adroddiad hwn. Rwy'n gobeithio y byddwn yn ymateb i'r comisiynydd a'r adroddiad hwn mewn modd mwy sylfaenol: ymyrryd yn y farchnad hon, gwneud yr hyn na all ond Llywodraeth ei wneud i warantu anghenion a gofynion bywyd y bobl sy'n byw yn y sector cartrefi gofal yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at ymateb y Llywodraeth.

16:53 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I welcome the report—excuse the voice again—from the older people's commissioner. It clearly shows the commissioner's energetic commitment to improving the quality of life of older people, too many of whom are the victims of neglect, discrimination and even abuse.

Wel, rwy'n croesawu'r adroddiad—esgusodwch y llais eto—gan y comisiynydd pobl hŷn. Mae'n dangos yn glir ymrwymiad egnïol y comisiynydd i wella ansawdd bywyd pobl hŷn, y mae llawer gormod ohonynt yn dioddef o esgeulustod, gwahaniaethu a hyd yn oed gamdriniaeth.

Whilst we are all too aware of the shortcomings of care in some hospitals and care homes, what comes out of the report is the emphasis that older people place on retaining and improving community facilities, such as transport, public toilets and libraries. When we discuss equality issues and we refer to the equality impact assessment that the Welsh Government and all public bodies need to consider across all policy areas, what we haven't got—and what we need, perhaps, to insist on—is an older person's impact assessment. For example, when local authorities are drawing up plans to reduce spending and cut back or even withdraw certain services, they need to spell out what impact these decisions are likely to have on the lives of older people.

Er ein bod yn ymwybodol iawn o ddiffygion gofal mewn rhai ysbytai a chartrefi gofal, yr hyn sy'n amlwg yn yr adroddiad yw'r pwyslais y mae pobl hŷn yn ei roi ar gadw a gwella cyfleusterau cymunedol, megis trafnidiaeth, toiledau cyhoeddus a llyfrgelloedd. Pan fyddwn yn trafod materion cydraddoldeb ac yn cyfeirio at yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb y mae angen i Lywodraeth Cymru a phob corff cyhoeddus ei ystyried ar draws pob maes polisi, yr hyn nad oes gennym—a'r hyn y mae angen inni, efallai, ei fynnu—yw asesiad o'r effaith ar bobl hŷn. Er enghraifft, pan fydd awdurdodau lleol yn llunio cynlluniau i leihau gwariant a chwtogi neu hyd yn oed gael gwared ar rai gwasanaethau, mae angen iddynt egluro'n fanwl pa effaith y bydd y penderfyniadau hyn yn debygol o'i chael ar fywydau pobl hŷn.

For instance, there is research that shows 17% of older people in Wales have been hit by a reduction in public transport services, and especially in rural areas. This inevitably leads to the social isolation of many older people. The research also showed that 18,000 over-75s in Wales feel trapped in their own home through lack of public transport. We've recently had statistics on which local authorities in Wales have made the most and least reductions in public transport services, and it's up to the Welsh Government, working with the older people's commissioner, to put pressure on some local authorities to think how cutting services will impact, and has already impacted, on older people's quality of life.

Er enghraifft, ceir gwaith ymchwil sy'n dangos bod gostyngiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, ac yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, wedi effeithio ar 17% o bobl hŷn yng Nghymru. Mae hyn yn anochel yn arwain at ynysu llawer o bobl hŷn yn gymdeithasol. Dangosodd yr ymchwil fod 18,000 o bobl dros 75 oed yng Nghymru yn teimlo eu bod yn gaeth yn eu cartrefi eu hunain oherwydd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus. Yn ddiweddar, rydym wedi cael ystadegau ar ba awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi gwneud y gostyngiadau mwyaf a'r lleiaf mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, ac mae'n fater i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'r comisiynydd pobl hŷn, roi pwysau ar rai awdurdodau lleol i feddwl sut y bydd torri gwasanaethau'n cael effaith, ac eisoes wedi effeithio, ar ansawdd bywyd pobl hŷn.

We do support the three amendments tabled by Paul Davies. One of the potential positives that should follow a reduction in the number of local authorities in Wales is to develop much greater consistency across the public sector in how it responds not only to the health and social care needs of older people, but how it actively responds to their needs to be and to feel a valued part of their community. Older people need independent advocacy to champion their cause. The new social services Bill gives them just that, and the response to the care home review needs to be extremely robust. Warm words are not enough. They need to be backed up by the political will to make the change. Diolch yn fawr.

Rydym yn cefnogi'r tri gwelliant a gyflwynwyd gan Paul Davies. Un o'r pethau cadarnhaol posibl a ddylai ddilyn gostyngiad yn nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru yw datblygu llawer mwy o gysondeb ar draws y sector cyhoeddus yn y ffordd y mae'n ymateb i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl hŷn, ond hefyd sut y mae'n mynd ati i ymateb i'w hanghenion i fod ac i deimlo'n rhan werthfawr o'u cymuned. Mae angen eiriolaeth annibynnol ar bobl hŷn i hyrwyddo eu hachos. Mae'r Bil gwasanaethau cymdeithasol newydd yn rhoi'r union beth hwnnw iddynt, ac mae angen i'r ymateb i'r adolygiad o gartrefi gofal fod yn hynod gadarn. Nid yw geiriau melys yn ddigon. Mae angen iddynt gael eu cefnogi gan yr ewyllys gwleidyddol i wneud y newid. Diolch yn fawr.

16:56 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf hefyd yn croesawu'r adroddiad yma, er rwyf am wneud pwynt i'r Gweinidog: mi gafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ar 4 Mehefin y llynedd. Rwy'n derbyn yr hyn rydych chi wedi'i ddweud heddiw, bod rhai o'r materion sydd wedi cael eu cyfeirio atyn nhw yn yr adroddiad yn sôn am y flwyddyn 2012-13. Y broblem, wrth gwrs, ydy, os ydym ni'n edrych ar faterion hanesyddol, mae'n anodd iawn inni fod yn hollol sicr ynglŷn â'r sefyllfa, er, pan oeddwn i'n edrych ar y sefyllfa, rydych chi'n hollol gywir i ddweud, erbyn mis Ionawr 2015, mi oedd pob un o'r cynghorau, rwy'n meddwl, yn delio â'r 'adaptations' yma yn y ffordd briodol. Er hynny, rydych chi'n dweud ein bod ni i lawr rŵan i 236 o ddyddiau i gyngor ddelio ag anhawster o fewn tŷ. Wrth gwrs, i'r person hŷn sydd yn dioddef yn y cyfamser a, hwyrach, yn dioddef o ran ansawdd eu bywyd, nid yw'r ffaith ein bod ni'n gwella'r sefyllfa ddim yn llawer o help. Felly, a gaf i ofyn ichi ystyried a ydy'n bosibl—? Mae gan Lywodraeth Cymru brotocol efo'r comisiynydd plant sydd yn dweud yn union pryd mae'r comisiynydd plant yn cyhoeddi ei adroddiad. Mae hefyd yn dweud erbyn pryd y bydd y Gweinidog yn ymateb i'r adroddiad yna, ac mae'r drafodaeth sydd gennym ni yn llawer iawn mwy amserol o achos hynny.

I also welcome this report, although I do wish to make a point to the Minister: the report was published on 4 June last year. Now, I accept what you've said today, that some of the issues referred to in the report relate to the year 2012-13. The problem, of course, is that, if we look at historical issues, then it is very difficult for us to have complete assurance about the actual situation, although, when I looked at it, you're quite right to say that, by January 2015, each and every one of the councils were dealing with these adaptations in the appropriate manner. However, you state that we are now down to 236 days for a council to deal with difficulties within a home. Of course, for the older individual who is suffering in the meantime and whose quality of life is compromised, the fact that we are improving the situation is not of great assistance. Therefore, may I ask you to consider whether it would be possible—? The Welsh Government has a protocol with the children's commissioner, which states exactly when the children's commissioner should publish its report. It also states by when the Minister is to respond to that report, and the debate that we then have is far more timely as a result.

Rwyf i hefyd yn ddiolchgar i Sarah Rochira ei bod hi'n barod iawn i ddod i'n hetholaethau ni a'n rhanbarthau ni i weld yn union y sefyllfa y mae rhai o'r bobl hŷn yma yn eu hwynebu. Mae'n rhaid imi ddweud mi oedd hi efo fi yn ardal y Rhos wythnos i ddydd Gwener. Nid yw rhai o'r problemau mae pobl hŷn yn eu dioddef achos y farchnad; maen nhw'n dioddef o achos rhai o'r ffyrdd y mae pobl sy'n ymwneud â'r gyfundrefn yn edrych ar bobl hŷn. Mi oedd o'n siom enfawr imi o ran y ffordd yr oedd cyngor Wrecsam wedi delio â thynnu rhai o'u gwasanaethau cymdeithasol yn ôl mewn adeilad arbennig, Plas yn Rhos, lle, i ryw raddau, roedden nhw yn gwneud yr hyn yr oedd Alun Davies yn cyfeirio ato fo: 'tick-box exercise'. Roedden nhw'n dweud eu bod nhw wedi gwneud hyn a'r llall, ond pan oeddech chi'n eu herio nhw a gofyn a ydyn nhw wedi gwneud rhywbeth yn ôl y drefn briodol, roedden nhw wedi ysgrifennu at Aelodau Cynulliad lleol yn dweud eu bod nhw wedi cynnal asesiad llawn o bob un o'r trigolion yn y cynllun, ac eto, pan ofynnwyd am dystiolaeth, dim ond tri o'r trigolion, allan o'r 18, oedd wedi cael asesiad llawn. Maen nhw hefyd wedi dweud eu bod nhw wedi creu sefyllfa lle mae yna 'advocacy support' ac, eto, os ydych chi'n gofyn i'r trigolion yn y cynllun, nid ydyn nhw wedi gweld y bobl sydd yn cael eu cyflogi gan y cyngor sir. Felly, mae'n hawdd iawn inni ddweud bod prosesau a phethau felly yn cael eu dilyn, ond, hyd yn oed y tu mewn i lywodraeth leol, maen nhw yn anwybyddu rhai o'r prosesau hynny.

I'm also grateful to Sarah Rochira that she is more than willing to come to our constituencies and regions to see the exact situations that some of our older people are facing. I have to say that she was with me in the Rhos area a week on Friday. Some of the difficulties experienced by older people aren't a result of the market; they are suffering because of the ways in which people who are involved in the system actually view older people. It was a huge disappointment to me in terms of the way that Wrexham Council had dealt with the withdrawal of some of their social services in a particular building, Plas yn Rhos, where, to a certain extent, they're doing what Alun Davies referred to: it was a tick-box exercise. They were saying that they had done this and that, but when you actually challenged them and asked them whether they had followed the appropriate guidelines, they had written to local Assembly Members stating that they had carried out a full assessment of all of the residents involved in that scheme, and yet, when evidence was requested, only three of the 18 residents had been given that full assessment. They've also said that they have ensured that advocacy support is available, but, again, if you ask the residents involved the plan, they haven't seen those people who are employed by the county council. Therefore, it's very easy for us to say that processes and such measures are in place, but, even within local government, they are ignoring some of those very processes.

Y cwbl y mae'r bobl hŷn yma ei eisiau ydy hunan-barch: eu bod nhw'n cael eu parchu gan system lle maen nhw'n teimlo, i ryw raddau, eu bod nhw'n cael eu diystyru a'u bod nhw'n fwy o broblem na'r peth sy'n dioddef. Rwy'n meddwl bod yn rhaid inni ymfalchïo yn y ffaith fod gennym ni gomisiynydd sy'n barod i fynd allan ar lawr gwlad a gwrando ar y bobl yma i weld beth yn union yw'r sefyllfa, yn hytrach na derbyn llythyrau oddi wrth gynghorau a hyd yn oed oddi wrth Lywodraeth Cymru. Felly, rwy'n meddwl bod yr adroddiad yma yn un cryf. Rwy'n meddwl bod yna broblem ynglŷn â'r oedi sydd wedi cymryd lle ers cyhoeddi'r adroddiad a'r ffaith ein bod ni'n cael ei drafod yma heddiw. Rwy'n gobeithio'n fawr iawn y bydd y Gweinidog mewn sefyllfa—nid heddiw, ond yn y pen draw—i ddweud, hwyrach, y bydd trafodaeth fwy amserol yn y dyfodol.

All that these old people want is self-respect: that they are respected by a system where they feel, to some extent, that they are being neglected or ignored and that they are simply a problem to that system. I think that I should take pride in the fact that we have a commissioner who is willing to get out on the ground to listen to these people to see exactly what the situation is, rather than simply receiving correspondence from councils, and even from the Welsh Government. Therefore, I think that this report is robust. I think that there is a problem in terms of the delay between the publication of the report and the debate that we're having here today. I very much hope that the Minister will be in a position—not today, perhaps, but ultimately—to tell us that there will be a more timely debate in the future.

17:00

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r ddadl.

I call on the Minister for Health and Social Services to reply to the debate.

17:01

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd dros dro, a diolch yn fawr, wrth gwrs, i bob Aelod sydd wedi cyfrannu at y ddadl.

Thank you very much, acting Deputy Presiding Officer, and thank you to every Member that has contributed to this debate.

There has been a theme in many of the contributions that we've heard this afternoon, which are pictures that Assembly Members have of the older persons' commissioner in Wales at work in their own constituencies. If there was an emblematic picture, it was the one that Darren Millar started with. I can see, in my mind, Sarah Rochira, on that bus providing advice and moving across north Wales, because one of the real strengths of the current incumbent of the role is the astonishing availability that she provides to older people in Wales. She really is out there all the time, in all sorts of groups and settings, in all parts of Wales, making sure that she hears directly from older people about the things that matter to them and the way in which public services make a difference in their lives. That sense of energy and commitment has been powerful in this debate, and I know that it's very well recognised here. I look forward to the PAC report looking at effective use of resources in the commissioner's office. That will be very interesting. I agree with the point that Darren and others have made about the need for further progress in relation to disabled facilities—

Bu thema mewn llawer o'r cyfraniadau yr ydym wedi eu clywed brynhawn heddiw, sef y darluniau sydd gan Aelodau'r Cynulliad o'r comisiynydd pobl hŷn yng Nghymru wrth ei gwaith yn eu hetholaethau eu hunain. Os bu darlun cynrychiadol, yr un y dechreuodd Darren Millar gydag ef oedd hwnnw. Gallaf weld Sarah Rochira, yn fy meddwl, ar y bws yn rhoi cyngor ac yn symud ar draws gogledd Cymru, oherwydd mai un o gryfderau gwirioneddol deiliad presennol y swydd yw'r ffaith ei bod ar gael i raddau rhyfeddol i bobl hŷn yng Nghymru. Mae hi wir allan yno drwy'r amser, mewn pob math o grwpiau a lleoliadau, ym mhob rhan o Gymru, gan wneud yn siŵr ei bod hi'n clywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn am y pethau sy'n bwysig iddynt a'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud gwahaniaeth yn eu bywydau. Mae'r ymdeimlad hwnnw o egni ac ymrwymiad wedi bod yn bwerus yn y ddadl hon, a gwn ei fod yn cael ei gydnabod yn dda iawn yma. Edrychaf ymlaen at yr adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn edrych ar y defnydd effeithiol o adnoddau yn swyddfa'r comisiynydd. Bydd hynny'n ddiddorol iawn. Cytunaf â'r pwynt y mae Darren ac eraill wedi'i wneud am yr angen am symud ymlaen ymhellach mewn cysylltiad â chyfleusterau i'r anabl—

*Darren Millar a gododd—*

*Darren Millar rose—*

17:02

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a ydych chi'n derbyn—?

Minister, are you taking—?

17:02

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs.

Of course.

17:02

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you just take a brief intervention?

A wnewch chi gymryd ymyriad byr?

17:02

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

17:02

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Minister, for taking the intervention. One of the other things that we looked at as well, of course, was the appointments process for the older people's commissioner versus the other appointments processes. Obviously, there is a disparity in terms of the two-times-appointment-and-you're-out sort of thing. Will you commit to more consistency in the appointments process, as a Welsh Government? Whether you're able to do that now, or consideration, it would be very helpful.

Diolch yn fawr iawn, Weinidog, am gymryd yr ymyriad. Un o'r pethau eraill inni edrych arnynt yn ogystal, wrth gwrs, oedd y broses o benodi'r comisiynydd pobl hŷn o'i chymharu â'r prosesau penodi eraill. Yn amlwg, mae gwahaniaeth o ran penodi ddwywaith ac rydych chi allan math o beth. A wnewch chi ymrwymo i fwy o gysondeb yn y broses benodi, fel Llywodraeth Cymru? P'un a ydych yn gallu gwneud hynny nawr, neu roi ystyriaeth i hynny, byddai'n ddefnyddiol iawn.

17:02

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I certainly think that it's an important point to consider. During the lifetime of the Assembly, the number of commissioners that have been appointed to assist the Assembly itself and citizens of Wales has grown. It's an important piece of work to look at how consistency in the way that we approach these things might be taken forward. I wanted to point, for a moment, to the work of the ICF—the intermediate care fund—which has provided an additional boost to the way in which physical repairs in people's homes play such an important part in keeping people independent.

Rwy'n sicr yn credu ei fod yn bwynt pwysig i'w ystyried. Yn ystod oes y Cynulliad, mae nifer y comisiynwyr sydd wedi cael eu penodi i gynorthwyo'r Cynulliad ei hun a dinasyddion Cymru wedi cynyddu. Mae'n ddarn pwysig o waith i ystyried sut y gellid datblygu cysondeb yn y ffordd yr ydym yn mynd o gwmpas y pethau hyn. Roeddwn i eisiau tynnu sylw, am eiliad, at waith yr ICF—y gronfa gofal canolraddol—sydd wedi rhoi hwb ychwanegol i'r ffordd y mae gwaith atgyweirio ffisegol yng nghartrefi pobl yn chwarae rhan mor bwysig wrth gadw pobl yn annibynnol.

Alun Davies, I thought, pointed to a very important point in the way that commissioners discharge their duties. Their independence is absolutely crucial, but a commissioner wants to be influential as well. They cannot be so independent of the places where decisions are made that their voice makes no difference in the way that those decisions are carried out. The commissioner, in her report, demonstrates her understanding of that tension and her wish to go on being an independent voice for older people in Wales but also making sure that the things that she has to say make a difference when decisions are made. I will return of course to 'A Place to Call Home?' when I publish the Welsh Government's response to it. The regulation and inspection Bill will be an important part in that, not simply in relation to the detail of regulation but in the way that it sets out to be more influential in the operation of the residential care market.

Tynnodd Alun Davies, yn fy marn i, sylw at bwynt pwysig iawn yn y ffordd y mae comisiynwyr yn cyflawni eu dyletswyddau. Mae eu hannibyniaeth yn gwbl hanfodol, ond mae comisiynydd am fod yn ddylanwadol hefyd. Ni allant fod mor annibynnol ar y mannau lle caiff penderfyniadau eu gwneud fel nad yw eu llais yn gwneud unrhyw wahaniaeth yn y ffordd y mae'r penderfyniadau hynny'n cael eu rhoi ar waith. Mae'r comisiynydd, yn ei hadroddiad, yn dangos ei bod yn deall y tensiwn hwnnw ac yn dangos ei dymuniad i barhau i fod yn llais annibynnol i bobl hŷn yng Nghymru, ond gan wneud yn siŵr hefyd bod y pethau sydd ganddi i'w dweud yn gwneud gwahaniaeth pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud. Byddaf yn dychwelyd, wrth gwrs, at 'Lle i'w Alw'n Gartref?' pan fyddaf yn cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru iddo. Bydd y Bil rheoleiddio ac arolygu yn rhan bwysig yn hynny o beth, o ran manylion rheoleiddio ond hefyd yn y ffordd y mae'n mynd ati i fod yn fwy dylanwadol yng ngweithrediad y farchnad gofal preswyl.

Lindsay Whittle referred to the way in which the commissioner sees her role as being influential across the range of public services. You might think that health and social care will be her major preoccupation, and of course she has important things to say in those fields, but her work goes far wider than that.

Cyfeiriodd Lindsay Whittle at y ffordd y mae'r comisiynydd yn ystyried bod ei swyddogaeth yn ddylanwadol ar draws yr ystod o wasanaethau cyhoeddus. Efallai y byddech yn meddwl mai iechyd a gofal cymdeithasol fydd ei phrif bwyslais, ac wrth gwrs mae ganddi bethau pwysig i'w dweud yn y meysydd hynny, ond mae ei gwaith yn llawer ehangach na hynny.

Finally, I acknowledge the point that Aled Roberts made, of course, about the length of time that has elapsed since the report was published. The normal way of doing things here has been to bring the report to the floor of the Assembly in the autumn term, much closer to the time when it was published. It is simply pressure of business that has forced it into the post-Christmas period here, and I am very willing to look at whether there are lessons to be learned from the way that the children's commissioner's reports are navigated here. But Aled, I thought, made a more widely important point, which is that, in bringing about the changes we want to see in services for older people, it is much more than technicalities. It is the culture, the way of thinking, the attitude of mind. The commissioner, I think, is very powerful in what she says about the way we bring about those changes, not just in the way that public servants produce their services, but across the whole way that we as a society think of people at this point in their lives.

Yn olaf, rwy'n cydnabod y pwynt a wnaeth Aled Roberts, wrth gwrs, am faint o amser sydd wedi mynd heibio ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Y ffordd arferol o wneud pethau yma fu dod â'r adroddiad gerbron y Cynulliad yn nhymor yr hydref, yn llawer nes at yr adeg pan gafodd ei gyhoeddi. Pwysau busnes, yn syml, sydd wedi ei wthio i'r cyfnod ar ôl y Nadolig, ac rwy'n barod iawn i ystyried a oes gwersi i'w dysgu o'r ffordd y mae adroddiadau'r comisiynydd plant yn cael eu llywio yma. Ond gwnaeth Aled, rwy'n meddwl, bwynt sy'n bwysig yn fwy cyffredinol, sef bod y newidiadau yr ydym am eu gweld mewn gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, yn ymwneud â llawer mwy na manylion technegol. Mae'n ymwneud â'r diwylliant, y ffordd o feddwl, yr agwedd. Mae'r comisiynydd, rwy'n meddwl, yn bwerus iawn o ran yr hyn y mae'n ei ddweud am y ffordd yr ydym yn cyflawni'r newidiadau hynny, nid dim ond yn y ffordd y mae gweision cyhoeddus yn cynhyrchu eu gwasanaethau, ond y ffordd yr ydym ni fel cymdeithas, yn gyffredinol, yn gweld pobl ar yr adeg hon yn eu bywydau.

So, let me close, Dirprwy Lywydd dros dro, by reiterating my thanks to the older persons' commissioner for Wales and her team for the real contribution that they make and the untiring commitment that they bring to championing the interests of all older people in Wales, and to provide an ongoing commitment on behalf of the Welsh Government to our determination to go on working with her on that agenda. Diolch yn fawr.

Felly, gadewch i mi gloi, Ddirprwy Lywydd dros dro, drwy ailadrodd fy niolch i gomisiynydd pobl hŷn Cymru a'i thîm am y cyfraniad gwirioneddol y maent yn ei wneud ac am eu hymrwymiad diflino i hyrwyddo buddiannau holl bobl hŷn Cymru, ac i ddarparu ymrwymiad parhaus ar ran Llywodraeth Cymru i'n penderfyniad i barhau i weithio gyda hi ar yr agenda honno. Diolch yn fawr.

17:06

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Felly, mae gwelliant 1 wedi'i gytuno yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:06

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn, felly, yw y dylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw wrthwynebiad? Felly, mae gwelliant 2 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question, therefore, is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? Amendment 2 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:07

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw wrthwynebiad? Felly, mae gwelliant 3 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? Amendment 3 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Cynnig NDM5672 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5672 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly of Wales:

1. Yn nodi adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2013/14, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Ionawr 2015.

1. Notes the annual report of the Commissioner for Older People for 2013/14, which was laid in Table Office on 6 January 2015.

2. Yn nodi'r cynnydd yng nghyfran gwaith achos y Comisiynydd Pobl Hŷn sy'n ymwneud â gofal iechyd.

2. Notes the increase in the proportion of the Older People's Commissioner's casework relating to health care.

3. Yn gresynu at y ffaith bod yr Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad yn nodi bod tri awdurdod lleol yn methu â chyrraedd eu hamserlenni statudol ar gyfer darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl.

3. Regrets that the Impact and Reach Report notes that three local authorities are breaching their statutory time scales for delivering disabled facilities grants.

4. Yn croesawu gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn mewn perthynas â datblygu'r Datganiad Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru.

4. Welcomes the work of the Older People's Commissioner in developing the Declaration of the Rights of Older People in Wales.

17:07

### Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn, felly, yw y dylid derbyn y cynnig wedi'i ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Felly, mae'r cynnig wedi'i ddiwygio wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question, therefore, is that the motion as amended be agreed to. Does any Member object? Therefore, the motion as amended is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd cynnig NDM5672 fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion NDM5672 as amended agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 17:08.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 17:08.*

## 8. Dadl: Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2014

## 8. Debate: The Welsh Ministers' Report on Equality 2014

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, gwelliannau 2, 3, 4, 5 a 6 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 7 ac 8 yn enw Elin Jones.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, amendments 2, 3, 4, 5 and 6 in the name of Paul Davies, and amendments 7 and 8 in the name of Elin Jones.*

17:08

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 8, which is a debate on the Welsh Ministers' report on equality. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Symudwn yn awr at eitem 8, sef dadl ar adroddiad Gweinidogion Cymru ar gydraddoldeb. Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5674 Jane Hutt

Motion NDM5674 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly of Wales:

Yn nodi Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2014.

Notes the Welsh Ministers' Report on Equality 2014.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:08 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am pleased to present the Welsh Ministers' report on equality 2014 today. The Equality Act 2010 created the public sector equality duty and gave Welsh Ministers to impose specific equality duties on devolved Welsh public bodies. These duties have provided a further basis for taking equality forward in Wales. This is the first report on the equality duty under this system. It illustrates some of the progress made and identifies a number of areas where Welsh Ministers can build on this by co-ordinating and driving further improvement across the public sector.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad Gweinidogion Cymru ar gydraddoldeb 2014 heddiw. Creodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus a rhoddodd y pŵer i Weinidogion Cymru osod dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau hyn wedi darparu sail bellach ar gyfer symud cydraddoldeb yn ei flaen yng Nghymru. Dyma'r adroddiad cyntaf ar y ddyletswydd gydraddoldeb o dan y system hon. Mae'n dangos rhywfaint o'r hyn a gyflawnwyd ac yn nodi nifer o feysydd lle y gall Gweinidogion Cymru ddatblygu hyn drwy gydlynu a hybu gwelliant pellach ar draws y sector cyhoeddus.

Welsh Government engaged with devolved public sector bodies and third sector organisations to get an overall picture. This engagement was further supported by the Equality and Human Rights Commission's monitoring and research work. The Welsh Government has a very positive relationship with the commission, underpinned by the concordat signed in March last year. The EHRC commissioned NatCen to undertake an independent review of the equality duty in Wales, which has greatly assisted us in compiling this report. I am pleased to report on the considerable progress that has already been achieved across the Welsh public sector since the introduction of the specific duties almost four years ago. This demonstrates the commitment that the Welsh public sector has given to embedding the duties and ensuring that the work is taken forward, with a vision of inclusion and equality.

Ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â chyrff datganoledig yn y sector cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector i gael darlun cyffredinol. Cafodd yr ymgysylltu hwn ei gefnogi ymhellach gan waith monitro ac ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas gadarnhaol iawn gyda'r comisiwn, ar sail y concordat a lofnodwyd ym mis Mawrth y llynedd. Comisiynwyd NatCen gan y Comisiwn i gynnal adolygiad annibynnol o'r ddyletswydd gydraddoldeb yng Nghymru, ac mae hwnnw wedi bod o gymorth mawr wrth inni lunio'r adroddiad hwn. Mae'n bleser gennyf roi gwybod am y camau sylweddol sydd eisoes wedi eu cyflawni ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru ers cyflwyno'r dyletswyddau penodol bron i bedair blynedd yn ôl. Mae hyn yn dangos ymrwymiad y sector cyhoeddus yng Nghymru i ymwreiddio'r dyletswyddau a sicrhau bod y gwaith yn cael ei ddatblygu, gyda gweledigaeth o gynhwysiant a chydraddoldeb.

Since the introduction of the equality duties, increased engagement has been a key feature not only across Welsh Government but also the devolved public sector. Examples include establishing a national social services citizen panel for Wales to secure a voice for people who need care and support, and for carers themselves; actively involving and engaging disabled people and their representative organisations across Wales in the process of developing our framework for action on independent living; empowering young Gypsies and Travellers to participate and engage in activities that affect their future, notably through the UK's first national Gypsy and Traveller youth forum. There has also been significant work to embed effective equality impact assessments across public sector organisations. Public sector bodies reported EIAs have helped to increase the profile of equality in service planning as well as making a difference to service delivery. Within Welsh Government, the use of EIAs is central to assessing the impact of our decisions and policies on the people of Wales, which is further demonstrated by our commitment to assess the impact of the budget on protected groups. Within my own portfolio, concerted action has been taken to improve diversity in decision making through the Sports Wales case study, seminars with chairs of public sector boards, and developing an action plan and steering group to take this work further forward.

Ers cyflwyno'r dyletswyddau cydraddoldeb, mae mwy o ymgysylltu wedi bod yn nodwedd allweddol ar draws Llywodraeth Cymru, ond hefyd ar draws y sector cyhoeddus datganoledig. Mae enghreifftiau'n cynnwys sefydlu panel dinasyddion cenedlaethol i Gymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, i sicrhau llais i bobl sydd ag angen gofal a chymorth, ac ar gyfer gofalwyr eu hunain; mynd ati'n weithredol i ymwneud ac ymgysylltu â phobl anabl a'u sefydliadau cynrychiadol ledled Cymru yn y broses o ddatblygu ein fframwaith ar gyfer gweithredu ar fyw'n annibynnol; grymuso Sipsiwn a Theithwyr ifanc i gyfranogi a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n effeithio ar eu dyfodol, yn enwedig drwy fforwm ieuenctid cenedlaethol cyntaf y DU ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Gwnaed gwaith sylweddol hefyd i ymwreiddio asesiadau effeithiol o'r effaith ar gydraddoldeb ar draws sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Dywedodd cyrff yn y sector cyhoeddus fod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi helpu i gynyddu proffil cydraddoldeb wrth gynllunio gwasanaethau, yn ogystal â gwneud gwahaniaeth i'r modd y cyflwynir gwasanaethau. O fewn Llywodraeth Cymru, mae'r defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ganolog i asesu effaith ein penderfyniadau a'n polisïau ar bobl Cymru, a dangosir hyn ymhellach gan ein hymrwymiad i asesu effaith y gyllideb ar grwpiau gwarchodedig. O fewn fy mhortffolio hun, mae camau pendant wedi cael eu cymryd i wella amrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau drwy astudiaeth achos Chwaraeon Cymru, seminarau gyda chadeiryddion byrddau yn y sector cyhoeddus, a datblygu cynllun gweithredu a grŵp llywio i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach.

Similarly, our commitment to tackling hate crime has driven forward progress not only in Welsh Government, but also across local authorities and other public bodies. I launched 'Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action' last year to tackle hostility and prejudice based on race, religion, disability, sexual orientation, gender identity and age. The framework has been cited as a major driver of work to tackle hate crime across local authorities. The public sector equality duty is an important tool for public authorities. It ensures public bodies consider equality for all individuals in their day-to-day work.

Yn yr un modd, mae ein hymrwymiad i fynd i'r afael â throseddau casineb wedi sbarduno datblygiad yn Llywodraeth Cymru, ond hefyd ar draws awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Lansiais 'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' y llynedd i fynd i'r afael â gelyniaeth a rhagfarn ar sail hil, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd ac oedran. Nodwyd bod y fframwaith yn sbardun pwysig i waith i fynd i'r afael â throseddau casineb ar draws awdurdodau lleol. Mae dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus yn arf pwysig ar gyfer awdurdodau cyhoeddus. Mae'n sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried cydraddoldeb i bob unigolyn yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

The Welsh-specific equality duties include a duty to address identified gender pay differences. The duty has provided the impetus for the public sector to consider the underlying causes of gender pay gaps. To achieve significant and sustained progress on equal pay, these barriers need to be tackled. The Welsh Government, with the European social fund, is therefore supporting the Women Adding Value to the Economy project. This aims to understand the ways in which gender pay inequalities are consistently reproduced through occupational segregation in employment, self-employment and pay systems. This is just one example of identifying an area where, working together, we can make a marked improvement through the public sector equality duty.

Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru yn cynnwys dyletswydd i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn cyflog a nodwyd rhwng y rhywiau. Mae'r ddyletswydd wedi darparu'r ysgogiad i'r sector cyhoeddus ystyried achosion sylfaenol o fylchau mewn cyflog rhwng y rhywiau. Er mwyn symud ymlaen yn sylweddol a pharhaus ar gyflog cyfartal, mae angen mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn. Mae Llywodraeth Cymru, gyda chronfa gymdeithasol Ewrop, felly yn cefnogi'r prosiect Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi. Nod hwn yw deall y ffyrdd y mae anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei atgynhyrchu'n gyson trwy wahanu galwedigaethol mewn cyflogaeth, hunangyflogaeth a systemau tâl. Dyma un enghraifft yn unig o nodi maes lle y gallwn, drwy weithio gyda'n gilydd, wneud gwelliant amlwg drwy ddyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus.

This report has identified what we are doing well and where we can improve. As the report states, it is still early days, and we are aware there is more to be achieved. Over the next four years, we will be working with the public sector and the EHRC to build on the progress to date and to take the report's recommendations forward. I am particularly grateful for the capacity-building work undertaken by the EHRC in Wales and for their monitoring and research into the public sector equality duty and Welsh-specific duties, which have been valuable sources of evidence for this report. The evidence clearly demonstrates the duty is a catalyst for change, which supports public authorities' work and helps to improve outcomes. This report shows clearly where we are now. It highlights just some of the work we're doing to ensure equality for people across Wales. It also provides an insight into where we are moving in the future, ensuring our distinct Welsh approach to equality will continue. This is about fairness to individuals and groups. It is also about building the most effective public services for everyone in Wales.

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi'r hyn yr ydym yn ei wneud yn dda a lle y gallwn wella. Fel y dywed yr adroddiad, mae'n dal yn ddyddiau cynnar, ac rydym yn ymwybodol bod mwy i'w gyflawni. Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma ac i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad. Rwy'n arbennig o ddiolchgar am y gwaith meithrin gallu a wnaed gan y Comisiwn yng Nghymru ac am ei waith monitro ac ymchwil i ddyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus a dyletswyddau sy'n benodol i Gymru. Mae wedi bod yn ffynhonnell tystiolaeth werthfawr ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod y ddyletswydd yn gatalydd ar gyfer newid, yn cefnogi gwaith awdurdodau cyhoeddus ac yn helpu i wella canlyniadau. Mae'r adroddiad hwn yn dangos yn glir ble'r ydym ni nawr. Mae'n tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith yr ydym yn ei wneud i sicrhau cydraddoldeb i bobl ledled Cymru. Mae hefyd yn rhoi cipolwg ar y cyfeiriad yr ydym yn symud iddo yn y dyfodol, gan sicrhau y bydd ein dull Cymreig unigryw o ran cydraddoldeb yn parhau. Mae hyn yn ymwneud â thegwch i unigolion a grwpiau. Mae hefyd yn ymwneud â datblygu'r gwasanaethau cyhoeddus mwyaf effeithiol i bawb yng Nghymru.

I very much look forward to the debate and to Assembly Members' contributions. Welsh Government will be supporting all the amendments. I would just like to mention amendment 7. We are, of course, committed to ensuring public services are provided in both official languages. Regulations for the first set of Welsh language standards will be voted upon here in March. This reflects the separate policy and legislative processes in place for Welsh language rights. That provision marks the particular importance this Welsh Government and the Assembly give to the future of the Welsh language. This amendment is therefore irrelevant to today's business and, I think, a bit of a mischievous attempt by Plaid Cymru to mislead the public regarding our clear commitments to the language. Nevertheless, we cannot allow there to be any confusion regarding our commitment, and we are therefore content to support the amendment. I look forward to the debate.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y ddadl ac at gyfraniadau Aelodau'r Cynulliad. Bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r holl welliannau. Hoffwn sôn am welliant 7. Rydym, wrth gwrs, wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yn y ddwy iaith swyddogol. Byddwn yn pleidleisio yma ar y rheoliadau ar gyfer y gyfres gyntaf o safonau iaith Gymraeg ym mis Mawrth. Mae hyn yn adlewyrchu'r polisi a'r prosesau deddfwriaethol ar wahân sydd ar waith ar gyfer hawliau'r iaith Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth honno'n dangos bod dyfodol yr iaith Gymraeg yn arbennig o bwysig i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad. Mae'r gwelliant hwn felly'n amherthnasol i fusnes heddiw ac yn ymdrech ychydig yn ddireidus, rwy'n meddwl, gan Blaid Cymru i gamarwain y cyhoedd ynghylch ein hymrwymiadau clir i'r iaith. Serch hynny, ni allwn ganiatáu unrhyw ddryswch ynghylch ein hymrwymiad, ac felly rydym yn fodlon cefnogi'r gwelliant. Edrychaf ymlaen at y ddadl.

17:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the eight amendments to the motion. I call on Peter Black to move amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol yr wyth gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 1 and renumber accordingly:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried materion trawsryweddol ehangach o fewn dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.*

*Calls on the Welsh Government to consider wider transgender issues within the public sector equality duty.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

17:15

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move amendment 1 in Aled Roberts's name, and can I welcome this report, which sets out quite a good record, I think, in terms of how the Welsh Government has changed processes and minds in terms of how Government, local government and other public sector bodies approach equality and ensure that their actions take account of a whole range of different needs in terms of this duty?

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. A gaf i gynnig gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, ac a gaf i groesawu'r adroddiad hwn, sy'n nodi record eithaf da, rwy'n meddwl, o ran sut mae Llywodraeth Cymru wedi newid prosesau a meddyliau o ran sut mae Llywodraeth, llywodraeth leol a chyrff sector cyhoeddus eraill yn ymdrin â chydraddoldeb a sicrhau bod eu gweithredoedd yn ystyried ystod eang o anghenion gwahanol o ran y ddyletswydd hon?

I think, though, in terms of actually producing an equal society, it is effectively about the economy. Of course, it was a Liberal, William Beveridge, who wrote the groundbreaking 1942 'Report on Social Insurance and Allied Services', when he called for ways to fight the five giant evils of want, disease, ignorance, squalor and unemployment. I think all that is relevant today, and certainly relevant in relation to this duty. In Government, the Liberal Democrats have introduced the pupil premium and promoted the pupil deprivation grant here, we've introduced a lower income tax threshold and we've tackled unscrupulous money lenders by capping the interest rates charged.

Rwy'n meddwl, fodd bynnag, bod cynhyrchu cymdeithas gyfartal mewn gwirionedd, yn ymwneud i bob pwrpas â'r economi. Wrth gwrs, Rhyddfrydwr, William Beveridge, a ysgrifennodd y Report on Social Insurance and Allied Services' arloesol ym 1942, pan alwodd am ffyrdd o frwydro yn erbyn y pum drwg enfawr sef tlodi, afiechyd, anwybodaeth, aflendid a diweithdra. Rwy'n credu bod hynny i gyd yn berthnasol heddiw, ac yn sicr yn berthnasol mewn cysylltiad â'r ddyletswydd hon. Yn y Llywodraeth, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyflwyno'r premiwm disgyblion a hyrwyddo'r grant amddifadedd disgyblion yma. Rydym wedi cyflwyno trothwy treth incwm is ac wedi mynd i'r afael â benthycwyr arian diegwyddor trwy gapio'r cyfraddau llog a godir.

Those are some of the contributions my party has made towards that, but certainly there are other things that need to be done. This is by no means a fight that is over, because we are facing a situation where one in five Welsh households are below the poverty line and, among children, the figure is an appalling one in three. Wales has the lowest education attainment levels in the UK, which has a particularly negative impact on deprived communities, and childhood obesity, smoking rates and youth alcohol consumption rates are worse in Wales than in England. All these are factors that have to be tackled if we're to deliver on this commitment properly and start to produce results.

Dyna rai o'r cyfraniadau y mae fy mhlaid wedi'u gwneud tuag at hynny, ond yn sicr mae pethau eraill y mae angen eu gwneud. Nid yw hon yn frwydr sydd ar ben o bell ffordd, oherwydd ein bod yn wynebu sefyllfa lle mae un o bob pump o aelwydydd yng Nghymru dan y trothwy tlodi ac, ymhlith plant, mae'r ffigur yn un o bob tri sy'n ffigur erchyll. Mae gan Gymru y lefelau cyrhaeddiad addysgol isaf yn y DU, sy'n cael effaith arbennig o negyddol ar gymunedau difreintiedig, ac mae cyfraddau gordewdra ymysg plant, ysmygu a defnydd o alcohol gan ieuenctid yn waeth yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae'r rhain i gyd yn ffactorau y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw os ydym i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn iawn a dechrau sicrhau canlyniadau.

So, I think that what we have in this report is a start towards that. It's telling public sector bodies what they need to do in terms of their own processes to start bending their policies and their actions towards producing a more equal society.

Felly, rwy'n meddwl mai'r hyn sydd gennym yn yr adroddiad hwn yw cam cyntaf tuag at hynny. Mae'n dweud wrth gyrff sector cyhoeddus beth sydd angen iddynt ei wneud o ran eu prosesau eu hunain i ddechrau plygu eu polisïau a'u gweithredoedd tuag at gynhyrchu cymdeithas fwy cyfartal.

We need to have excellence in public services. We need to make sure that people are empowered to lead the life they want to lead, and we need to ensure there is no room for complacency in the battle to ensure that we have equality for all.

Mae angen inni gael rhagoriaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen inni wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu grymuso i fyw'r bywyd y maent am ei fyw, ac mae angen inni sicrhau nad oes lle i fod yn hunanfodlon yn y frwydr i sicrhau bod gennym gydraddoldeb i bawb.

So, in terms of the specific actions that I believe the Government should be looking at in terms of equality, obviously there is a large number of different programmes that Welsh Government is running at the moment in terms of deprived communities. We have Communities First, of course, we have Flying Start, and we have the foundation phase and a number of other things. My concern is that we're not properly monitoring how those resources are being used, and the outcomes that are coming from them. I think we do need to look at how we rationalise the organisations and the funding pots, and make sure that we're getting not just value for money, but we're actually getting the outcomes that we want from those particular resources. So, I think that that is something that I would hope that Welsh Government can take forward in coming years in terms of promoting this duty.

Felly, o ran y camau penodol y credaf y dylai'r Llywodraeth fod yn eu hystyried o ran cydraddoldeb, yn amlwg mae Llywodraeth Cymru'n cynnal nifer fawr o wahanol raglenni ar hyn o bryd o ran cymunedau difreintiedig. Dyna ichi Cymunedau yn Gyntaf, wrth gwrs, mae gennym Dechrau'n Deg, ac mae gennym y cyfnod sylfaen a nifer o bethau eraill. Fy mhryder i yw nad ydym yn monitro'n iawn sut y mae'r adnoddau hynny'n cael eu defnyddio, a'r canlyniadau sy'n deillio ohonynt. Rwy'n meddwl bod angen inni ystyried sut i resymoli sefydliadau a chyllid, a gwneud yn siŵr ein bod yn cael gwerth am arian, ond ein bod hefyd yn cael y canlyniadau yr ydym yn dymuno'u gweld gan yr adnoddau penodol hynny. Felly, rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth y byddwn yn gobeithio y gall Llywodraeth Cymru ei ddatblygu yn y blynyddoedd i ddod o ran hyrwyddo'r ddyletswydd hon.

In terms of education, providing access to Flying Start initiatives to all children across Wales on the basis of need rather than geographical entitlement I think is an aspiration. It's obviously very expensive, but, certainly, I think we do need to look at the boundaries for Flying Start areas, making sure they're more flexible and making sure that youngsters are able to take advantage of that where they need to have it. Of course, we do need to look at entitlement, and how that entitlement is taken up, particularly in terms of free school meals, but also in terms of young people, particularly, able to take up the benefits and facilities available to them so that they can fulfil their own potential.

O ran addysg, rwy'n meddwl ei bod yn ddyhead i sicrhau bod mentrau Dechrau'n Deg ar gael i bob plentyn ar draws Cymru ar sail angen yn hytrach na hawl daearyddol. Mae'n amlwg yn ddrud iawn, ond, yn sicr, rwy'n meddwl bod angen inni edrych ar y ffiniau ar gyfer ardaloedd Dechrau'n Deg, gan wneud yn siŵr eu bod yn fwy hyblyg a gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gallu manteisio ar y fenter lle y mae arnynt ei hangen. Wrth gwrs, mae angen inni ystyried hawl, a sut y manteisir ar yr hawl, yn enwedig o ran prydau ysgol am ddim, ond hefyd o ran galluogi pobl ifanc, yn enwedig, i fanteisio ar y buddion a'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt fel y gallant wireddu eu potensial.

In terms of health, there are obviously huge challenges in terms of health inequalities. I have already mentioned the issues about obesity and alcohol, smoking et cetera, which need to be dealt with as part of that. But also, of course, mental health is a challenge for us as well, particularly among young people. I think we had a question earlier on today about self-harm amongst young people, and how that was one particular issue. I think we do need to focus our resources on trying to tackle those particular issues to try to drive out those causes of inequality and poverty, particularly in terms of health.

O ran iechyd, mae heriau enfawr yn bodoli'n amlwg o ran anghydraddoldebau iechyd. Rwyf eisoes wedi sôn am y problemau ynghylch gordewdra ac alcohol, ysmygu ac ati, y mae angen ymdrin â nhw fel rhan o hynny. Ond hefyd, wrth gwrs, mae iechyd meddwl yn her inni yn ogystal, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Rwy'n credu inni gael cwestiwn yn gynharach heddiw am hunan-niweidio ymysg pobl ifanc, a sut bod honno'n un broblem benodol. Rwy'n meddwl bod angen inni ganolbwyntio ein hadnoddau ar geisio mynd i'r afael â'r materion penodol hynny i geisio cael gwared ar yr achosion hynny o anghydraddoldeb a thlodi, yn enwedig o ran iechyd.

Of course, in housing we have huge issues in terms of housing, both in terms of the standards in the private rented sector, which I think need to be raised—I think we had a missed opportunity in terms of the Housing (Wales) Act 2014 in terms of that—and making sure that we have suitable childcare and transport in place so that people are able to take up employment opportunities.

Wrth gwrs, mae gennym broblemau enfawr o ran tai, a hynny o ran y safonau yn y sector rhentu preifat, y mae angen eu codi rwy'n credu—rwy'n meddwl inni golli cyfle gyda Deddf Tai (Cymru) 2014 o ran hynny—a gwneud yn siŵr bod gennym ofal plant a thrafnidiaeth addas ar waith fel bod pobl yn gallu manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth.

Deputy Presiding Officer, we are going to support all the amendments that have been tabled to this motion, and particularly in terms our own amendment in terms of transgender issues, which harks back to the debate that we staged some time ago. I do think that this is a start, but there is a lot more to be done. Thank you.

Ddirprwy Lywydd, rydym yn mynd i gefnogi'r holl welliannau sydd wedi'u cyflwyno i'r cynnig hwn, ac yn enwedig ein gwelliant ein hunain o ran materion trawsryweddol, sy'n mynd yn ôl at y ddadl y gwnaethom ei chyflwyno beth amser yn ôl. Rwyf yn meddwl bod hwn yn fan cychwyn, ond mae llawer mwy i'w wneud. Diolch yn fawr.

17:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Mohammad Asghar to move amendments 2, 3, 4, 5 and 6 tabled in the name of Paul Davies.

Rwy'n galw ar Mohammad Asghar i gynnig gwelliannau 2, 3, 4, 5 a 6 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau pellach i fynd i'r afael â bwlio homoffobig mewn ysgolion.*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Add as new point at end motion:*

*Calls on the Welsh Government to introduce further measures to tackle homophobic bullying in schools.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn cydnabod yr angen am weithio mewn partneriaeth yn well er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd yn y tensiynau rhwng cymunedau a gwella cydlyniant yn dilyn yr ymosodiadau brawychwyr ym Mharis.*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Add as new point at end motion:*

*Recognises the need for better partnership working to address the rise in tension between communities and improve cohesion following the terrorist attacks in Paris.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn croesawu ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd 2014 yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ei lefel isaf erioed, ond yn cydnabod bod angen gwneud mwy.*

*Amendment 4—Paul Davies*

*Add as new point at end motion:*

*Welcomes figures published by the Office for National Statistics in November 2014 showing that the gender pay gap is at its lowest ever level, but acknowledges that there is more to do.*

*Gwelliant 5—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Amendment 5—Paul Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth cynhwysfawr yn rhwydd.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that victims of hate crime have access to comprehensive and easily accessible support services.*

*Gwelliant 6—Paul Davies*

*Amendment 6—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cynyddu'r amrywiaeth o gyrff yng Nghymru sy'n gwneud penderfyniadau.*

*Regrets that little progress has been made in increasing the diversity of decision-making bodies in Wales.*

*Cynigiwyd gwelliannau 2, 3, 4, 5 a 6.*

*Amendments 2, 3, 4, 5 and 6 moved.*

17:20

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I am very grateful to the Minister for agreeing to all of the amendments tabled in the name of Paul Davies.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am gytuno i bob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

On behalf of the Welsh Conservatives, I welcome this report, which is the first on equality in devolved Welsh public authorities by a Minister to this Assembly. This report makes it clear that, although progress has been made since the introduction of the public sector equality duty in 2011, there remains much to do to tackle discrimination and to provide equal opportunities in Wales.

Ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, rwy'n croesawu'r adroddiad hwn, sef y cyntaf ar gydraddoldeb mewn awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru gan un o Weinidogion y Cynulliad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn ei gwneud yn glir bod llawer ar ôl i'w wneud i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac i ddarparu cyfle cyfartal yng Nghymru, er bod llawer wedi'i gyflawni ers cyflwyno dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus yn 2011.

This debate takes place on Holocaust Memorial Day. Seventy years on from the liberation of Auschwitz, it is as important as ever that we remember the Holocaust of world war two. There have been many others as well, all of which must be remembered so that these acts do not ever happen again on this globe. This debate also takes place at a time of increased tension and suspicion between communities, following the terror attacks in Paris. We in Wales have seen the effect of radicalisation of some sections of society in our own communities. Islam is a peaceful religion, Minister, which inspires countless acts of generosity every day in this country. There is a danger that this current climate will set back the Welsh Government's declared aim of creating a fair Society, free from discrimination, harassment and victimisation.

Mae'r ddadl hon yn digwydd ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost. Saith deg mlynedd ar ôl rhyddhau Auschwitz, mae hi mor bwysig ag erioed ein bod yn cofio'r Holocost o'r ail ryfel byd. Bu llawer o rai eraill hefyd, ac mae'n rhaid eu cofio bob un fel na fydd y gweithredoedd hyn byth yn digwydd eto ar y ddaear hon. Mae'r ddadl hon hefyd yn digwydd ar adeg pan fo tensiwn a drwgdybiaeth rhwng cymunedau'n cynyddu, yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol ym Mharis. Rydym ni yng Nghymru wedi gweld effaith radicaleiddio ar rai rhannau o'r gymdeithas yn ein cymunedau ein hunain. Mae Islam yn grefydd heddychlon, Weinidog, sy'n ysbrydoli gweithredoedd di-rif o haelioni bob dydd yn y wlad hon. Mae perygl y bydd yr hinsawdd bresennol yn llesteirio'r amcan y mae Llywodraeth Cymru wedi'i datgan, sef creu cymdeithas deg, yn rhydd rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.

Better engagement with these communities is vital if we are to root out extremism. Better collaboration by public bodies working in partnership with third sector organisations and communities is essential if negative attitudes are to be reduced. I call on the Minister to redouble her efforts and to improve engagement with our minority communities to root out extremism and promote a peaceful and tolerant society, which is in everybody's interests.

Mae'n hanfodol ein bod yn ymgysylltu'n well â'r cymunedau hyn os ydym am gael gwared ar eithafiaeth. Mae'n hanfodol bod cyrff cyhoeddus, sefydliadau trydydd sector a chymunedau yn cydweithredu'n well os ydym am leihau agweddau negyddol. Galwaf ar y Gweinidog i ddyblu ei hymdrechion ac i ymgysylltu'n well â'n cymunedau lleiafrifol er mwyn cael gwared ar eithafiaeth a hyrwyddo cymdeithas heddychlon a goddefgar, sydd er lles pawb.

Closely linked with increased tension and suspicion is the potential for increased incidence of hate crimes. I note that the report states that 19 local authorities in Wales have set hate crime objectives. All authorities are working on tackling this issue, and this progress is welcome, but more needs to be done. A recent survey revealed that 56% of victims did not report hate crime because they either regarded the incident as too trivial or they did not believe that the police could do anything about it. Victims of hate crime must be encouraged to report incidents. They must be kept informed of progress in investigating these crimes and provided with the emotional and practical support they require and deserve.

Mae cyswllt agos rhwng tensiwn a drwgdybiaeth cynyddol, a'r potensial ar gyfer cynnydd mewn achosion o droseddau casineb. Nodaf fod yr adroddiad yn datgan bod 19 o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi pennu amcanion ym maes troseddau casineb. Mae pob awdurdod yn gweithio ar fynd i'r afael â'r mater hwn, ac mae croeso i'r datblygiad hwn, ond mae mwy i'w wneud. Dangosodd arolwg diweddar na wnaeth 56% o bobl roi gwybod i'r heddlu am droseddau casineb oherwydd eu bod naill ai'n ystyried y digwyddiad yn rhy ddibwys neu nad oeddent yn credu y gallai'r heddlu wneud dim am y peth. Mae'n rhaid annog pobl sy'n dioddef troseddau casineb gael i roi gwybod am ddigwyddiadau. Rhaid iddynt gael gwybod am hynt yr ymchwiliadau i'r troseddau a rhaid darparu'r cymorth emosiynol ac ymarferol sydd ei angen arnynt ac y maent yn ei haeddu.

Sadly, our schools are not immune from incidences of harassment and bullying. Stonewall Cymru has revealed that 87% of secondary school teachers say that homophobic bullying happens in their school. Some 85% of school staff have not received specific training on how to tackle homophobic bullying, Minister. Estyn has made 11 recommendations for schools and local authorities on how to tackle bullying of school pupils with protected characteristics. I call on the Minister to monitor closely the implementation of these recommendations and to report back on their effectiveness in due course.

Yn anffodus, nid yw ein hysgolion yn ddiogel rhag achosion o aflonyddu a bwlio. Mae Stonewall Cymru wedi datgelu bod 87% o athrawon ysgol uwchradd yn dweud bod bwlio homoffobaidd yn digwydd yn eu hysgol. Mae rhyw 85% o staff ysgolion heb dderbyn hyfforddiant penodol ar sut i fynd i'r afael â bwlio homoffobig, Weinidog. Mae Estyn wedi gwneud 11 o argymhellion i ysgolion ac awdurdodau lleol ar sut i fynd i'r afael â bwlio yn erbyn disgyblion ysgol sydd â nodweddion gwarchodedig. Galwaf ar y Gweinidog i fonitro'n ofalus i ba raddau y caiff yr argymhellion hyn eu gweithredu a chyflwyno adroddiad ar eu heffeithiolrwydd yn y man.

I welcome the increased focus Wales-specific equality duties have encouraged on the gender pay gap. In November last year, figures produced by the Office for National Statistics showed that the gender pay gap was at its lowest ever. Tackling the gender pay gap is essential for attracting, recruiting and retaining talented women and ensuring equal opportunities in the workplace. These figures are a sign of progress towards equal pay, but there is still more to do. We need to look at ways of improving pay transparency. Full use must be made of equal pay audits as a means of breaking down the barriers of achieving the goal of equal pay. Little progress has been made in getting more women and representatives of our ethnic minority communities into positions of power and decision making. I look forward to the Minister reporting back to this Assembly on how the 24 recommendations made by the expert group on diversity in local government have reversed this situation. Public bodies must be made more representative of the communities they serve.

Rwy'n croesawu'r ffocws cynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau y mae dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru wedi'u hannog. Ym mis Tachwedd y llynedd, roedd ffigurau a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ei isaf erioed. Mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau er mwyn denu, recriwtio a chadw menywod dawnus a sicrhau cyfle cyfartal yn y gweithle. Mae'r ffigurau hyn yn arwydd bod pethau'n symud i gyfeiriad cyflog cyfartal, ond mae mwy i'w wneud. Mae angen inni edrych ar ffyrdd o wneud cyflogau'n fwy tryloyw. Rhaid gwneud defnydd llawn o archwiliadau cyflog cyfartal fel ffordd o gael gwared ar y ffactorau sy'n ein rhwystro rhag cyrraedd y nod o gyflog cyfartal. Ychydig sydd wedi'i gyflawni o ran cael mwy o fenywod a chynrychiolwyr ein cymunedau lleiafrifoedd ethnig i swyddi lle mae ganddynt rym a lle maent yn gwneud penderfyniadau. Edrychaf ymlaen at glywed y Gweinidog yn rhoi adroddiad i'r Cynulliad hwn ar sut mae'r 24 o argymhellion a wnaed gan y grŵp arbenigol ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol wedi gwrth-droi'r sefyllfa hon. Rhaid i gyrff cyhoeddus fod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

In conclusion, Deputy Presiding Officer, I welcome this report and the progress made to achieve a more equal society in Wales. Thank you.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, rwy'n croesawu'r adroddiad hwn a'r hyn a gyflawnwyd i sicrhau cymdeithas fwy cyfartal yng Nghymru. Diolch yn fawr.

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Lindsay Whittle to move amendments 7 and 8 tabled in the name of Elin Jones.

Rwy'n galw ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliannau 7 ac 8 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 7—Elin Jones*

*Amendment 7—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu bod rhaid i amcanion cydraddoldeb hefyd gadarnhau'r hawl i gael gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng ieithoedd swyddogol Cymru.*

*Believes that equality objectives must also confirm the right to receive public services in the official languages of Wales.*

*Gwelliant 8—Elin Jones*

*Amendment 8—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu na ellir sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru oni bai bod cyfoeth wedi'i rannu'n deg ledled y DU.*

*Believes that equality cannot be achieved in Wales unless wealth is re-balanced across the UK.*

*Cynigiwyd gwelliannau 7 ac 8.*

*Amendments 7 and 8 moved.*

17:25

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move amendments 7 and 8 in the name of Elin Jones. I can assure the Minister that amendment 7 we just think is simply self-explanatory; I assure you, Minister, I wasn't being mischievous and I'm pleased you've accepted the amendment. I can, of course be mischievous whenever you wish. [Laughter.]

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliannau 7 ac 8 yn enw Elin Jones. Gallaf sicrhau'r Gweinidog ein bod yn meddwl bod gwelliant 7 yn syml, yn hunanesboniadol; rwy'n eich sicrhau, Weinidog, nad bod yn ddireidus oeddwn i ac rwy'n falch eich bod wedi derbyn y gwelliant. Gallaf, wrth gwrs fod yn ddireidus pryd bynnag y byddwch yn dymuno. [Chwerthin.]

This is a key report, which gives us a good deal of information about the various initiatives being taken by the public sector across Wales. And I find it, I must say, a little bit bland, really. By that, I would have welcomed some specific examples or brief case studies of real progress in implementing the PSED. Apart from one example—I'll come back to that—there is hardly any acknowledgement of existing weaknesses and differences across the public sector.

Mae hwn yn adroddiad allweddol, sy'n rhoi cryn dipyn o wybodaeth am y gwahanol fentrau sydd ar y gweill gan y sector cyhoeddus ledled Cymru. Ac mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn ei weld braidd yn ddi-awch, mewn gwirionedd. Hynny yw, byddwn wedi croesawu rhai enghreifftiau penodol neu astudiaethau achos byr o'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd o ran rhoi dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus ar waith. Ar wahân i un enghraifft—fe ddof yn ôl at hynny—prin bod unrhyw gydnabyddiaeth o'r gwendidau a'r gwahaniaethau presennol ar draws y sector cyhoeddus.

Ultimately, we cannot seriously begin to tackle the issue of equality until we face up to the fact that the United Kingdom is one of the most unequal, lopsided states in the developed world. Exacerbating that fact further are policies such as devastating welfare cuts, housing policy and business and higher income tax policies, designed to help the south-east at the expense of everywhere else. And I urge people to support our amendment, at least, to recognise that wealth rebalancing is an urgent need.

Yn y pen draw, ni allwn ddechrau mynd i'r afael o ddifrif â chydraddoldeb nes inni wynebu'r ffaith bod y Deyrnas Unedig yn un o'r gwladwriaethau mwyaf anghyfartal, anwastad yn y byd datblygedig. Mae polisïau megis toriadau dinistriol i'r gyfundrefn les, polisi tai a busnes a pholisïau treth incwm uwch, a gynlluniwyd i helpu de-ddwyrain Lloegr ar draul pob man arall, yn gwaethygu'r ffaith honno ymhellach. Ac rwy'n annog pobl i gefnogi ein gwelliant, o leiaf, i gydnabod bod angen ailgydbwyso cyfoeth ar frys.

The one weakness identified in the report—but it is referred to in amendment 4—is the continued gender pay gap between male and female employees. This must be addressed by local government and by the Welsh Government, because we still don't have in place enough affordable childcare facilities for women who want to work. And as a result, many of them will have to work part-time and then it's a vicious circle, because the relatively low pay for part-time work is not enough to pay for childcare. So, what are we going to do about this?

Yr un gwendid a nodwyd yn yr adroddiad—ond cyfeirir ato yng ngwelliant 4—yw'r bwlch cyflog parhaus rhwng dynion a menywod. Rhaid i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hwn, gan nad oes gennym ddigon o gyfleusterau gofal plant fforddiadwy o hyd i fenywod sydd eisiau gweithio. Ac o ganlyniad, bydd llawer ohonynt yn gorfod gweithio'n rhan-amser ac yna mae'n gylch dieflig, gan nad yw'r cyflog cymharol isel ar gyfer gwaith rhan-amser yn ddigon i dalu am ofal plant. Felly, beth ydym yn mynd i'w wneud am hyn?

I support all the tabled amendments, but it is important to point out that there's a lack of information in the report about what efforts the public sector is making to attract disabled people to gain employment. A year ago, the Welsh Government's annual report on equality merely made a statement on work in progress on this issue. And we know that just over 23% of the working age population in Wales are disabled, yet there are four times more non-disabled people in employment, and to make matters worse, disabled people who are employed are lower paid than non-disabled.

Rwy'n cefnogi pob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd, ond mae'n bwysig nodi bod prinder gwybodaeth yn yr adroddiad am ba ymdrechion y mae'r sector cyhoeddus yn eu gwneud i ddenu pobl anabl i gael gwaith. Flwyddyn yn ôl, ni wnaeth adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb ond gwneud datganiad ynglŷn â gwaith a oedd ar y gweill. A gwyddom fod ychydig dros 23% o'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru yn anabl, ac eto mae pedair gwaith yn fwy o bobl nad ydynt yn anabl mewn cyflogaeth, ac i wneud pethau'n waeth, mae pobl anabl a gyflogir yn cael eu llai o dâl na phobl nad ydynt yn anabl.

In order to monitor how the public sector equality duty is operating within the public sector, I would like to see a member of staff in each local authority designated as the equalities manager. In this way, the Welsh Government and the Equality and Human Rights Commission would have a much clearer line on communication in order to check on progress and identify where improvements need to be made.

Er mwyn monitro sut y mae dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus yn gweithredu o fewn y sector cyhoeddus, hoffwn weld aelod o staff ym mhob awdurdod lleol yn cael ei ddynodi'n rheolwr cydraddoldeb. Fel hyn, byddai gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol lwybr cyfathrebu llawer cliriach er mwyn gweld beth sydd wedi'i gyflawni a nodi lle mae angen gwneud gwelliannau.

One further point, which is being actively pursued by the Equality and Human Rights Commission in Wales, is the importance of sharing good practice across the public sector. And I've been made aware that, indeed, in north Wales, a number of public authorities meet in order to set shared equality objectives and to ensure partnership working. That should be the situation throughout the whole of Wales, and one that the Welsh Government needs to insist on.

Un pwynt arall, y mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru'n mynd ar ei ôl yn weithredol, yw pwysigrwydd rhannu arfer da ar draws y sector cyhoeddus. Ac rwyf wedi cael gwybod bod nifer o awdurdodau cyhoeddus yng ngogledd Cymru, yn wir, yn cyfarfod er mwyn pennu amcanion cydraddoldeb ar y cyd ac i sicrhau eu bod yn gweithio mewn partneriaeth. Dyna ddylai'r sefyllfa fod ledled Cymru, ac mae angen i Lywodraeth Cymru fynnu bod hynny'n digwydd.

Finally, Dirprwy Lywydd, we need to sort out exactly what powers have been or haven't been devolved to the Welsh Government in relation to the public sector equality duty, and to make sure that, in future, we in Wales will not be subject to any change that might be made by the UK Government, for example, deciding maybe to scrap this duty on the public sector. And I fully support everything else. Diolch yn fawr.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, mae angen inni gael trefn ar ba bwerau'n union sydd wedi cael neu sydd heb gael eu datganoli i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus, a gwneud yn siŵr, yn y dyfodol, na fyddwn ni yng Nghymru yn ddarostyngedig i unrhyw newid a allai gael ei wneud gan Lywodraeth y DU, er enghraifft, penderfynu dileu'r ddyletswydd hon ar y sector cyhoeddus efallai. Ac rwy'n llwyr gefnogi popeth arall. Diolch yn fawr.

17:29 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's thanks to the fact that there has been a Labour Government in Westminster and also thanks to the fact that we've been governed by a Labour Government in Wales that there has been a welcome cultural shift in many parts of our society. Over the last 10 or 12 years, we have become more aware of equality issues, and this report that I'm glad to support today is not about raising awareness—it's about how we put our principles into practice.

Diolch rwy'n meddwl i'r ffaith y bu Llywodraeth Lafur yn San Steffan a diolch hefyd i'r ffaith ein bod wedi cael ein llywodraethu gan Lywodraeth Lafur yng Nghymru y bu newid diwylliannol i'w groesawu mewn sawl rhan o'n cymdeithas. Dros y 10 neu 12 mlynedd diwethaf, rydym wedi dod yn fwy ymwybodol o faterion cydraddoldeb, ac nid ymwneud â chodi ymwybyddiaeth y mae'r adroddiad hwn yr wyf yn falch i'w gefnogi heddiw—mae'n ymwneud â sut rydym yn rhoi ein hegwyddorion ar waith.

Take a look at the amendments that have been proposed by the Liberal Democrats, the Conservatives and Plaid Cymru. None of them attacks the principles that underpin the public sector equality duty. Instead, they all propose additional steps that could be taken to extend the range of equality guidelines and legislation. That is a cultural shift, and it is one that is to be welcomed. Policies and principles are, however, all very well, but putting them into practice is what is all-important.

Cymerwch olwg ar y gwelliannau a gynigiwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru. Nid oedd yr un ohonynt yn ymosod ar yr egwyddorion sy'n sail i ddyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus. Yn lle hynny, maent i gyd yn cynnig camau ychwanegol y gellid eu cymryd i ymestyn yr ystod o ganllawiau cydraddoldeb a deddfwriaeth. Mae hwnnw'n newid diwylliannol, ac mae'n un sydd i'w groesawu. Mae polisïau ac egwyddorion, fodd bynnag, yn iawn, ond yr hyn sy'n hollbwysig yw eu rhoi ar waith.

Most of us will be familiar with the situation when we ask for, let's say, an anti-bullying policy of a particular organisation and the appropriate official will lift down a glossy, well-polished folder that will contain the policy, but if we ask on what occasion that policy has been referred to, we shall all too often be told that the policy has not been referred to, because such a problem doesn't exist within that organisation. I feel, therefore, that it is essential to ensure robust whistleblowing policies are in place and used within local government. Rightly, therefore, instead of dwelling on the rights and wrongs of the principles involved, what is considered in this report are the actions that need to be taken, or what normal people speaking normal English would describe as 'what now needs to be done'.

Bydd y rhan fwyaf ohonom yn gyfarwydd â'r sefyllfa pan fyddwn yn gofyn am bolisi gwrth-fwlio sefydliad penodol, gadewch inni ddweud, a bydd y swyddog priodol yn codi ffolder sgleiniog, lân sy'n cynnwys y polisi, ond os byddwn yn gofyn ar ba achlysur y cyfeiriwyd at y polisi hwnnw, rydym ni yn rhy aml yn cael gwybod na chyfeiriwyd at y polisi, am nad yw problem o'r fath yn bodoli o fewn y sefydliad hwnnw. Rwy'n teimlo, felly, ei bod yn hanfodol sicrhau bod polisïau chwythu'r chwiban cadarn ar waith ac yn cael eu defnyddio o fewn llywodraeth leol. Yn gywir ddigon, felly, yn hytrach na phendroni dros elfennau da a drwg yr egwyddorion dan sylw, yr hyn a ystyrir yn yr adroddiad hwn yw'r camau y mae angen eu cymryd, neu beth y byddai pobl gyffredin sy'n siarad Cymraeg cyffredin yn ei ddisgrifio fel 'beth sydd angen ei wneud nawr' .

I had intended at this point to concentrate on the practical steps outlined in the report to promote the equalities agenda. However, there are so many that it would take all the time available for this debate. But I'm certain that all Members have taken the time to read the recommendations contained within this report. So, let me, however, take one example that highlights many of the issues we face.

Roeddwn wedi bwriadu canolbwyntio ar y pwynt hwn ar y camau ymarferol a amlinellir yn yr adroddiad i hyrwyddo'r agenda gydraddoldeb. Fodd bynnag, mae cymaint ohonynt fel y byddai'n cymryd yr holl amser sydd ar gael ar gyfer y ddadl hon. Ond rwy'n sicr bod pob Aelod wedi cymryd yr amser i ddarllen yr argymhellion yn yr adroddiad hwn. Felly, gadewch i mi gymryd un enghraifft sy'n amlygu llawer o'r problemau yr ydym yn eu hwynebu.

The Welsh Government recently announced that it will step in to support more than 1,600 severely disabled people in Wales who currently rely on the independent living fund, or the ILF, for their care needs when the Tory-led UK Government closes it next year. The ILF does make direct cash payments to disabled people who have significant care needs. It helps to meet the cost of the care and support they need or to employ their own personal assistant. The Tory-led Government will close that fund on 30 June 2015—an announcement that has caused anxiety among those who receive support from it. As of July last year, there were 1,686 ILF recipients in Wales who receive, on average, £335 a week to meet their needs. So, the Welsh Labour Government is now consulting on a range of options to provide the ILF support after June. These range from passing responsibility and funding to local authorities to establishing a Welsh fund similar to the current independent living fund. Helping disabled people into work is a key priority of the Welsh Government, and it was mentioned by a previous speaker as being very important.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd yn camu i mewn i gefnogi mwy na 1,600 o bobl ag anabledd difrifol yng Nghymru sy'n dibynnu ar hyn o bryd ar y gronfa byw'n annibynnol ar gyfer eu hanghenion gofal pan fydd Llywodraeth y DU dan arweiniad y Torïaid yn ei chau'r flwyddyn nesaf. Mae'r gronfa'n gwneud taliadau arian parod yn uniongyrchol i bobl anabl sydd ag anghenion gofal sylweddol. Mae'n helpu i dalu cost y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, neu i gyflogi eu cynorthwywr personol eu hunain. Bydd y Llywodraeth dan arweiniad y Torïaid yn cau'r gronfa ar 30 Mehefin, 2015—cyhoeddiad sydd wedi achosi pryder ymhlith y rhai sy'n derbyn cymorth ganddi. Ym mis Gorffennaf y llynedd, roedd 1,686 o bobl yn derbyn arian trwy'r gronfa byw'n annibynnol yng Nghymru ac maent yn derbyn £335 yr wythnos, ar gyfartaledd, i ddiwallu eu hanghenion. Felly, mae Llywodraeth Lafur Cymru nawr yn ymgynghori ar ystod o opsiynau i ddarparu cymorth y gronfa ar ôl mis Mehefin. Mae'r rhain yn amrywio o basio cyfrifoldeb a chyllid i awdurdodau lleol i sefydlu cronfa Gymreig debyg i'r gronfa byw'n annibynnol bresennol. Mae helpu pobl anabl i mewn i waith yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, ac fe soniodd siaradwr blaenorol ei fod yn bwysig iawn.

What I've indicated is not only what the Labour Welsh Government supports, but the obstacles that are put in our way. Sadly, all too often, people become aware of the support they have received only when that support is taken away. In her song 'Big Yellow Taxi', Joni Mitchell sang,

Rwyf wedi'i nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru Lafur yn ei gefnogi, ond hefyd y rhwystrau sy'n cael eu rhoi yn ein ffordd. Yn anffodus, yn rhy aml, mae pobl yn dod yn ymwybodol o'r cymorth y maent wedi'i dderbyn dim ond ar ôl i'r gefnogaeth honno gael ei chymryd oddi arnynt. Yn ei chân 'Big Yellow Tacsi', canodd Joni Mitchell,

'you don't know what you've got till it's gone'.

'dydych chi ddim yn gwybod beth sydd gennych nes ei fod wedi mynd.

That is what many people in Wales and the rest of the UK have recently, to their distress, discovered.

Dyna beth mae llawer o bobl yng Nghymru a gweddill y DU yn ddiweddar, er gofid iddynt, wedi'i ddarganfod.

17:33 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, in answer to Joyce Watson's point, the fund is being devolved to Wales in order to allow the Welsh Government to continue it in whichever form it deems appropriate. I'm glad to see this debate coming up after the debate about a more equal gender balance on boards for companies, and I want to concentrate on our amendment 6, which expresses regret that little progress has been made in increasing the diversity of decision-making bodies in Wales, and I'm going to centre my contribution on that.

Wel, mewn ateb i bwynt Joyce Watson, mae'r gronfa'n cael ei datganoli i Gymru er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru ei pharhau ym mha bynnag ffurf y mae'n ei hystyried yn briodol. Rwy'n falch o weld y ddadl hon yn codi ar ôl y ddadl am gydbwysedd mwy cyfartal rhwng y rhywiau ar fyrddau cwmnïau, ac rwyf am ganolbwyntio ar ein gwelliant 6, sy'n mynegi siom mai ychydig iawn sydd wedi'i gyflawni o ran cynyddu amrywiaeth cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru, ac rwy'n mynd i ganolbwyntio fy nghyfraniad ar hynny.

The 'Who Runs Wales?' report in 2014 demonstrated that, instead of making progress in recent years on diversity amongst decision makers, things have indeed slipped back in some regard. We've seen that not only in the make-up of the number of women in the Assembly, but in that only two political parties in Wales have female MPs, and I regret to say that the Conservatives have not had a female MP in Wales.

Roedd yr adroddiad 'Pwy sy'n Rhedeg Cymru?' yn 2014 yn dangos bod pethau mewn gwirionedd wedi llithro'n ôl mewn rhai agweddau yn y blynyddoedd diwethaf, yn hytrach na symud ymlaen, o ran amrywiaeth ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Rydym wedi gweld hynny yng nghyfran y menywod yn y Cynulliad, ond hefyd yn yr ystyr mai dim ond dwy blaid wleidyddol yng Nghymru sydd â menywod yn ASau iddynt, ac mae'n ddrwg gennyf ddweud nad yw'r Ceidwadwyr wedi cael yr un fenyw yn AS yng Nghymru.

17:34 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yet.

Eto.

17:34 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yet. You're quite right: yet. Women make up only 27% of councillors in Wales, and the percentage of Welsh council leaders who are women has dropped from 14% to 19%. In Conway in north Wales, there was an example of a cabinet where not a single woman member was appointed until there was quite an outcry. Within business, only 2% of the top 100 companies operating in Wales have women in charge of them. Considering that women make up 50% of the population, these figures do not make pleasant reading.

Eto. Rydych chi'n hollol iawn: eto. Dim ond 27% o gynghorwyr yng Nghymru sy'n fenywod, ac mae'r ganran o arweinwyr cynghorau yng Nghymru sy'n fenywod wedi gostwng o 14% i 19%. Yng Nghonwy yng ngogledd Cymru, cafwyd enghraifft o gabinet lle nad oedd yr un fenyw wedi'i phenodi nes bod eithaf protest. Ym myd busnes, dim ond 2% o'r 100 prif gwmni sy'n gweithredu yng Nghymru sydd yng ngofal menywod. O ystyried bod merched yn 50% o'r boblogaeth, nid yw'r ffigurau hyn yn ddymunol i'w darllen.

Ann Beynon, commissioner for Wales at the Equality and Human Rights Commission, said the 'Who Runs Wales?' report,

Dywedodd Ann Beynon, Comisiynydd Cymru ar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, fod yr adroddiad 'Pwy sy'n Rhedeg Cymru?',

'paints a stark picture of Wales. One that shows women are largely missing from the decision-making tables across most areas of our daily life...When we look back over a decade of gathering these statistics, our findings show that in several sectors there are fewer women at the top than in 2004.'

'yn peintio darlun go ddu o Gymru. Un sy'n dangos bod menywod i raddau helaeth yn brin ar fyrddau penderfynyddion ar draws y rhan fwyaf o feysydd ein bywyd bob dydd... Wrth edrych yn ôl dros ddegawd o gasglu'r ystadegau hyn, dengys ein canfyddiadau fod llai o fenywod ar y brig mewn nifer o sectorau nag oedd yn 2004.'

This represents a lost decade in attempts to get women into more senior positions in Wales.

Dyma ddegawd coll mewn ymdrechion i gael menywod i swyddi uwch yng Nghymru.

Minister, I do welcome the report, but I question the lack of data that there are in it. I know the report identifies, in itself—. I don't know whether you want to finish your talk with the whip, or whether you'd like to actually listen to what I'm saying. The report itself identifies the problem in collecting data, and yet it has no data in it. Why didn't you name and shame the organisations that couldn't provide that diversity and equality data to you? There is very little statistical information in the report and it's very difficult for us, Minister, to be able to judge your progress in achieving the stated aims without having those data available to us.

Weinidog, rwy'n croesawu'r adroddiad, ond rwy'n cwestiynu'r prinder data ynddo. Rwy'n gwybod bod yr adroddiad yn nodi, ynddo'i hun—. Wn i ddim a ydych am orffen eich sgwrs gyda'r chwip, neu a hoffech wrando ar yr hyn rwy'n ei ddweud. Mae'r adroddiad ei hun yn nodi'r broblem ynglŷn â chasglu data, ac eto nid oes unrhyw ddata ynddo. Pam na wnaethoch chi enwi a chywilyddio'r sefydliadau nad oeddent yn gallu darparu'r data hynny ichi am amrywiaeth a chydraddoldeb? Ychydig iawn o wybodaeth ystadegol sydd yn yr adroddiad ac mae'n anodd iawn i ni, Weinidog, allu barnu i ba raddau rydych chi wedi cyflawni'r amcanion a nodwyd heb i'r data hynny fod ar gael inni.

If I consider Natural Resources Wales, which was a recent body that was set up in 2012, only 30% of the board appointed were women, with 70% being appointed as men. This goes directly against your stated aim of 40:40 by 2020. It's questionable why, if you look at Hybu Cig Cymru, they have just one board member who is a woman, rather than Sport Wales—. I'm very glad that Sport Wales has been highlighted as a success story, but I think that you should be looking at the other organisations that have been less successful in implementing these equality criteria, and ask yourself why and what the barriers are.

O ystyried Cyfoeth Naturiol Cymru, sef corff diweddar a sefydlwyd yn 2012, dim ond 30% o'r bwrdd a benodwyd oedd yn fenywod, gyda 70% o'r rhai a benodwyd yn ddynion. Mae hyn yn mynd yn uniongyrchol groes i'r nod yr ydych wedi'i ddatgan, sef 40:40 erbyn 2020. Mae'n amheus pam, os edrychwch ar Hybu Cig Cymru, dim ond un aelod o'u bwrdd nhw sy'n fenyw, yn hytrach na Chwaraeon Cymru—.Rwy'n falch iawn bod Chwaraeon Cymru wedi cael ei amlygu fel enghraifft lwyddiannus, ond rwy'n meddwl y dylech fod yn edrych ar y sefydliadau eraill sydd wedi bod yn llai llwyddiannus wrth weithredu'r meini prawf cydraddoldeb hyn, a gofyn i chi'ch hun pam a beth yw'r rhwystrau.

I'm grateful to Lindsay Whittle who mentioned childcare as a barrier. This is something that I have banged on about rather a lot recently and I'm going to carry on mentioning it. The childcare trust did an inquiry into childcare in Wales, and if you don't have access to affordable childcare as a woman—affordable, accessible and good-quality childcare—you cannot go out to work, particularly not in full-time jobs. It showed that, in Wales, no local authorities have enough childcare for older children, for families in rural areas and for disabled children. The childcare shortages in Wales are more severe than those in England and Scotland. Holiday childcare is more expensive in Wales than in the rest of Britain, and this is despite our lower average pay, which is, again, highlighted in the report. That report highlights that there is very little childcare in the public sector. So, maybe that is an area where these equality duties are failing, and it needs to be looked at in the light of the law—the 2006 law—that requires you, the Government, to ensure that local councils have adequate childcare. So, that's an area, Minister, that I very much hope that you will act on in time for the next report.

Rwy'n ddiolchgar i Lindsay Whittle a soniodd am ofal plant fel rhwystr. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf wedi bod yn sôn amdano dro ar ôl tro yn ddiweddar ac rwy'n mynd i barhau i sôn amdano. Cynhaliodd yr ymddiriedolaeth gofal plant ymchwiliad i ofal plant yng Nghymru, ac os nad oes gofal plant fforddiadwy ar gael ichi fel menyw— gofal plant fforddiadwy, hygyrch ac o ansawdd da—nid ydych yn gallu mynd allan i weithio, ac yn enwedig nid mewn swyddi amser llawn. Roedd yn dangos nad oes gan yr un awdurdod lleol yng Nghymru ddigon o ofal plant ar gyfer plant hŷn, ar gyfer teuluoedd mewn ardaloedd gwledig ac ar gyfer plant anabl. Mae'r prinder gofal plant yng Nghymru'n fwy difrifol nag yn Lloegr a'r Alban. Mae gofal plant yn ystod y gwyliau'n ddrutach yng Nghymru nag yng ngweddill Prydain, ac mae hyn er gwaethaf ein cyflog is ar gyfartaledd, rhywbeth arall a amlygwyd yn yr adroddiad. Mae'r adroddiad hwnnw'n amlygu mai ychydig iawn o ofal plant sydd yn y sector cyhoeddus. Felly, efallai bod hwnnw'n faes lle mae'r dyletswyddau cydraddoldeb hyn yn methu, ac mae angen edrych arno yng ngoleuni'r gyfraith—deddf 2006—sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi, y Llywodraeth, sicrhau bod gan gynghorau lleol ofal plant digonol. Felly, mae hwnnw'n faes, Weinidog, yr wyf yn gobeithio'n fawr y byddwch yn gweithredu arno mewn pryd ar gyfer yr adroddiad nesaf.

17:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I now call on the Minister to reply to the debate.

Diolch yn fawr. Galwaf yn awr ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:39 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I’ve listened with interest to Members’ contributions on the first Welsh Ministers’ report on equality. I think, as Joyce Watson said, the amendments that were put down by opposition parties do highlight how far we have come since the introduction of the Equality Act 2010. I met with the EHRC yesterday, with Kate Bennett, the national director of Wales, who is in the gallery, and Ann Beynon, the commissioner. I do pay tribute to the work they undertake here in Wales.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wedi gwrando â diddordeb ar gyfraniadau Aelodau ar adroddiad cyntaf Gweinidogion Cymru ar gydraddoldeb. Rwy’n meddwl, fel y dywedodd Joyce Watson, bod y gwelliannau a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau’n tynnu sylw at ba mor bell yr ydym wedi dod ers cyflwyno Deddf Cydraddoldeb 2010. Cefais gyfarfod gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ddoe, gyda Kate Bennett, cyfarwyddwr cenedlaethol Cymru, sydd yn yr oriel, ac Ann Beynon, y comisiynydd. Rwyf yn talu teyrnged i'r gwaith y maent yn ei wneud yma yng Nghymru.

Just turning to Members’ contributions, Peter Black started off by giving us a history lesson from 1942, talking about the five giant evils and, as you say, you could apply them, unfortunately, to 2015. Peter referred to cross-Government initiatives that are being taken in relation to equality, and I know there’s a great deal of work being undertaken in our schools by the Minister for Education and Skills in relation to tackling homophobic bullying. Health inequalities you raised and, again, the Minister for Health and Social Services, if you think about the pilot schemes for the inverse care law—. There are a great deal of initiatives, right across Government, being undertaken.

Gan droi at gyfraniadau’r Aelodau, dechreuodd Peter Black drwy roi gwers hanes inni o 1942, yn siarad am y pum drwg enfawr ac, fel y dywedwch, gallech ddweud, yn anffodus, eu bod yn berthnasol i 2015. Cyfeiriodd Peter at fentrau sydd ar waith ar draws y Llywodraeth mewn cysylltiad â chydraddoldeb, ac rwy’n gwybod bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau’n gwneud llawer iawn o waith yn ein hysgolion ym maes mynd i'r afael â bwlio homoffobig. Fe wnaethoch sôn am anghydraddoldebau iechyd ac, unwaith eto, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, os ydych yn meddwl am y cynlluniau peilot ar gyfer y ddeddf gofal wrthgyfartal—. Mae llawer iawn o fentrau ar waith, ar draws y Llywodraeth.

Within my own portfolio, Peter Black referred to the number of children living in poverty in Wales. I’ve said before it’s neither inevitable nor, certainly, acceptable that this is the case, and we do have several programmes. Again, Peter referred to Communities First, Families First and Flying Start, and it is really important that we do monitor these programmes and we evaluate—. Just this morning, I did a visit to the lower Cynon cluster in my colleague Christine Chapman’s constituency. We discussed there with the workers, out there on the ground, how difficult it is to evaluate. But when you hear the stories of the people they are helping into work, for instance, you realise that, you know, these programmes are making a huge difference to people’s lives. I have committed to publishing the data around Communities First next month, and I will be doing that towards the end of the month.

O fewn fy mhortffolio fy hun, cyfeiriodd Peter Black at nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Rwyf wedi dweud o'r blaen nad yw sefyllfa o’r fath yn anochel nac, yn sicr, yn dderbyniol, ac mae gennym nifer o raglenni. Unwaith eto, cyfeiriodd Peter at Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, ac mae'n bwysig iawn ein bod yn monitro’r rhaglenni hyn a’n bod yn gwerthuso—. Fore heddiw, ymwelais â chlwstwr Cynon isaf yn etholaeth fy nghydweithiwr Christine Chapman. Buom yn trafod yno gyda'r gweithwyr, allan yno ar lawr gwlad, pa mor anodd yw gwerthuso. Ond pan fyddwch yn clywed straeon y bobl y maent yn eu helpu i gael gwaith, er enghraifft, byddwch yn sylweddoli, chi’n gwybod, bod y rhaglenni hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pobl. Rwyf wedi ymrwymo i gyhoeddi’r data ynghylch Cymunedau yn Gyntaf fis nesaf, a byddaf yn gwneud hynny tua diwedd y mis.

Mohammad Asghar referred to the heightened tension that, unfortunately, we’re living in at the present time and, certainly, you were absolutely right to mention that today is Holocaust Memorial Day, and I was very pleased to be at the service this morning with the First Minister and other Assembly Member colleagues. The words that we all said together as a congregation really made us think about what we each can do towards making Wales a much more equal country. I think the engagement we had during Hate Crime Awareness Week in October—. It’s really important that that work continues and, certainly, talking to people from a variety of backgrounds this morning, I do think that is being recognised.

Cyfeiriodd Mohammad Asghar at y tensiwn cynyddol yr ydym, yn anffodus, yn byw ynddo ar hyn o bryd ac, yn sicr, roeddech yn llygad eich lle i sôn mai heddiw yw Diwrnod Cofio'r Holocost, ac roeddwn yn falch iawn o fod yn y gwasanaeth fore heddiw gyda Phrif Weinidog Cymru ac Aelodau eraill o’r Cynulliad. Roedd y geiriau y gwnaethom i gyd eu hadrodd gyda’n gilydd fel cynulleidfa wir yn gwneud inni feddwl am yr hyn y gallwn ni ei wneud er mwyn gwneud Cymru’n wlad lawer mwy cyfartal. Rwy'n meddwl bod yr ymgysylltiad a gawsom yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ym mis Hydref—. Mae'n bwysig iawn bod y gwaith hwnnw’n parhau ac, yn sicr, o siarad â phobl o amrywiaeth o gefndiroedd fore heddiw, rwy’n meddwl bod hynny’n cael ei gydnabod.

Mohammad Asghar also spoke about the lack of diversity in our public sector bodies, and I do think we have made progress in relation to getting more women on boards, et cetera, but you're quite right, we haven't made the progress that we would want to in relation to ethnic minorities, and that's certainly an area of work where I think we need to make progress.

Siaradodd Mohammad Asghar hefyd am y diffyg amrywiaeth yn ein cyrff sector cyhoeddus, ac rwy'n credu ein bod wedi symud ymlaen o ran cael mwy o fenywod ar fyrddau, ac ati, ond rydych yn hollol iawn, nid ydym wedi symud ymlaen cymaint ag y byddem yn ei ddymuno mewn cysylltiad â lleiafrifoedd ethnig, ac mae hynny'n sicr yn faes gwaith lle rwy'n credu bod angen inni ddatblygu.

I very much welcome Lindsay Whittle's support, and he, like Antoinette Sandbach, talked about childcare, and you're absolutely right, it is an area—. I think, even in the four months I've been in this portfolio, childcare is really going up the political agenda, and I'm working closely with the Minister for Finance and Government Business to see what work we can do with European funding to see what childcare we can provide on top of what we are already providing.

Rwy'n croesawu cefnogaeth Lindsay Whittle yn fawr iawn, ac roedd ef, fel Antoinette Sandbach, yn siarad am ofal plant, ac rydych yn hollol gywir, mae'n faes—. Rwy'n credu bod gofal plant wir wedi esgyn i fyny'r agenda wleidyddol, hyd yn oed yn y pedwar mis rwyf i wedi bod yn y portffolio hwn, ac rwy'n gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i weld pa waith y gallwn ei wneud gyda chyllid Ewropeaidd i weld pa ofal plant y gallwn ei ddarparu ar ben yr hyn yr ydym eisoes yn ei ddarparu.

Again, after my meeting yesterday with the EHRC, we spoke about the powers that are devolved to Wales in relation to equality duties, and I think it's very much recognised that we are ahead of the game on this issue. That's where I want us to stay.

Unwaith eto, ar ôl fy nghyfarfod ddoe gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, buom yn siarad am y pwerau sydd wedi'u datganoli i Gymru ym maes dyletswyddau cydraddoldeb, ac rwy'n meddwl ei fod yn cael ei gydnabod yn eang ein bod ar flaen y gad ar y mater hwn. Dyna lle'r wyf am inni aros.

Joyce Watson talked about what needs to be done now and talked about the recommendations within the report. I thought the point you raised about the ILF was very pertinent. Antoinette Sandbach, I was listening to you trying to put up a defence in relation to the ILF. Yes, it's been devolved from the UK Government, and the funding for the current level is there, but there's no money for administration and no guarantee that money will last for more than nine months, so I don't think it's something that you should welcome with open arms. It's actually 50:50 by 2020. I don't think we need to look to the Welsh Conservatives for help. As you say yourself, you don't have one female Welsh MP, and I do hope that—you know, at least they can look to the Assembly group, you do have three female Assembly Members, and that is progress, but not at the way that we have done in the Labour Party.

Siaradodd Joyce Watson am yr hyn y mae angen ei wneud yn awr a siaradodd am yr argymhellion yn yr adroddiad. Roeddwn i'n meddwl bod y pwynt a godwyd gennych am y Gronfa Byw'n Annibynnol yn berthnasol iawn. Antoinette Sandbach, roeddwn yn gwrando arnoch yn ceisio amddiffyn y sefyllfa o safbwynt y Gronfa Byw'n Annibynnol. Ydy, mae wedi cael ei datganoli gan Lywodraeth y DU, ac mae'r cyllid yno ar gyfer y lefel bresennol, ond nid oes arian i'w gweinyddu a dim sicrwydd y bydd arian yn parhau am fwy na naw mis, felly nid wyf yn credu ei fod yn rhywbeth y dylech ei groesawu â breichiau agored. Mae'n 50:50 erbyn 2020 mewn gwirionedd. Nid wyf yn credu bod angen inni edrych i gyfeiriad y Ceidwadwyr Cymreig am gymorth. Fel y dywedwch eich hun, nid oes gennych chi un fenyw yn AS yng Nghymru, ac rwy'n gobeithio— chi'n gwybod, o leiaf gallant edrych ar grŵp y Cynulliad, mae gennych chi dair menyw yn Aelodau o'r Cynulliad, ac mae hynny'n gam ymlaen, ond nid i'r graddau rydym wedi symud ymlaen yn y Blaid Lafur.

We will continue to build on the progress already made across the public sector and identified in the report, and we will keep the momentum going, ensuring our work towards the achievement of the public sector equality duty is effective. I very much look forward to working with my ministerial colleagues and the public and third sectors to make equality and inclusion in Wales a reality. I very much welcome the support from all parts of the Assembly for that work today. Thank you.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes ar draws y sector cyhoeddus a'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad, a byddwn yn cadw'r momentwm, gan sicrhau bod ein gwaith tuag at gyflawni dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus yn effeithiol. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda'r Gweinidogion eraill, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i wneud cydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru yn realiti. Rwy'n croesawu'n fawr y gefnogaeth gan bob rhan o'r Cynulliad i'r gwaith hwnnw heddiw. Diolch yn fawr.

17:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I should point out to the Chamber: there are four distinguished female members of the Conservative group. I'm sure the Minister wanted me to point that out.

Dylwn nodi i'r Siambr: mae pedwar aelod nodedig o'r grŵp Ceidwadol sy'n fenywod. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog eisiau imi dynnu sylw at hynny.

17:44

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Antoinette, Suzy, Janet and Angela, I do apologise.

Antoinette, Suzy, Janet ac Angela, rwy'n ymddiheuro.

17:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 1 felly yn cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? Amendment 2 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbynnir gwelliant 2.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? Amendment 3 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbynnir gwelliant 2.

*Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? Amendment 4 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbynnir gwelliant 4.

*Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 5. Does any Member object? Amendment 5 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbynnir gwelliant 5.

*Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 5 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 6. Does any Member object? Amendment 6 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbynnir gwelliant 6.

*Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 6 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 7. Does any Member object? Amendment 7 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbynnir gwelliant 7.

*Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Amendment 7 agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 8. Does any Member object? [Objection.]

Y cynnig yw derbyn gwelliant 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.]

I defer the votes on the rest of the debate to voting time, which now follows. I thought that we were on a home run there, but we—.

Gohiriaf y pleidleisiau ar weddill y ddadl tan y cyfnod pleidleisio, sy'n dilyn yn awr. Roeddwn i'n meddwl ein bod yn mynd yn dda, ond rydym—

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleiso.*

*Voting deferred until voting time.*

17:45

# 9. Cyfnod Pleidleisio

# 9. Voting Time

Y Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before I proceed to take the remaining votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will vote, then, on amendment 8. I call for a vote on amendment 8, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38. There voted against 13. Therefore, amendment 8 is agreed.

Cyn imi fynd ymlaen i gymryd y pleidleisiau sy'n weddill, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes, felly byddwn yn pleidleisio ar welliant 8. Galwaf am bleidlais ar welliant 8, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid. Pleidleisiodd 13 yn erbyn. Felly, derbynnir gwelliant 8.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 38, Yn erbyn 13, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 38, Against 13, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnig NDM5674

Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5674

17:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio.

Cynnig NDM5674 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5674 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly of Wales:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried materion trawsryweddol ehangach o fewn dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

1. Calls on the Welsh Government to consider wider transgender issues within the public sector equality duty.

2. Yn nodi Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2014.

2. Notes the Welsh Ministers' Report on Equality 2014.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau pellach i fynd i'r afael â bwlio homoffobig mewn ysgolion.

3. Calls on the Welsh Government to introduce further measures to tackle homophobic bullying in schools.

4. Yn cydnabod yr angen am weithio mewn partneriaeth yn well er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd yn y tensiynau rhwng cymunedau a gwella cydlyniant yn dilyn yr ymosodiadau brawychwyr ym Mharis.

4. Recognises the need for better partnership working to address the rise in tension between communities and improve cohesion following the terrorist attacks in Paris.

5. Yn croesawu ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd 2014 yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ei lefel isaf erioed, ond yn cydnabod bod angen gwneud mwy.

5. Welcomes figures published by the Office for National Statistics in November 2014 showing that the gender pay gap is at its lowest ever level, but acknowledges that there is more to do.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth cynhwysfawr yn rhwydd.

6. Calls on the Welsh Government to ensure that victims of hate crime have access to comprehensive and easily accessible support services.

7. Yn gresynu mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cynyddu'r amrywiaeth o gyrff yng Nghymru sy'n gwneud penderfyniadau.

7. Regrets that little progress has been made in increasing the diversity of decision-making bodies in Wales.

8. Yn credu bod rhaid i amcanion cydraddoldeb hefyd gadarnhau'r hawl i gael gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng ieithoedd swyddogol Cymru.

8. Believes that equality objectives must also confirm the right to receive public services in the official languages of Wales.

9. Yn credu na ellir sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru oni bai bod cyfoeth wedi'i rannu'n deg ledled y DU.

9. Believes that equality cannot be achieved in Wales unless wealth is re-balanced across the UK.

17:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 37. There voted against 13. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 37 o blaid. Pleidleisiodd 13 yn erbyn. Felly, derbynnir y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd cynnig NDM5674 fel y'i diwygiwyd: O blaid 37, Yn erbyn 13, Ymatal 0.*

*Motion NDM5674 as amended agreed: For 37, Against 13, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5674 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5674 as amended

17:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:46.*

*The meeting ended at 17:46.*